# Defnyddio cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol

## Adroddiad Terfynol i Lywodraeth Cymru



LE Wales

Rhagfyr 2020

## Am LE Wales

Mae LE Wales yn ymgynghoriaeth sy'n darparu cyngor ar yr economi a pholisi i gleientiaid sydd â'u lleoliad yng Nghymru ac mae'n un o enwau masnachol London Economics Limited.

London Economics yw un o'r prif ymgyngoriaethau yn Ewrop sy'n arbenigo mewn polisi ac economeg. Mae ein hymgynghorwyr yn cynnig amrywiaeth gynhwysfawr o sgiliau ar gyfer pob agwedd ar ddadansoddi economaidd ac ariannol a datblygu polisi.

**Prif Swyddfa:** Somerset House, New Wing, Strand, Llundain, WC2R 1LA, Y Deyrnas Unedig.

| | |
|---|---|
| gwefan: www.le-wales.co.uk | e-bost: info@le-wales.co.uk |
| ffôn: +44 (0)2920 660 250 | ffacs: +44 (0)2920 660 251 |


## Diolchiadau

Hoffem ddiolch i'r rhanddeiliaid a drafododd yr opsiynau polisi â ni; ac i Gofal Cymdeithasol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a gwahanol awdurdodau lleol yng Nghymru, am ein helpu drwy ddarparu data hanfodol ar gyfer ein dadansoddiad. Roedd yr ymchwil wedi elwa'n fawr hefyd o arweiniad ac arbenigedd staff y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio a'r Bwrdd Rhaglen yn Llywodraeth Cymru. Mae LE Wales yn parhau'n gyfrifol am gynnwys yr adroddiad hwn.

## Awduron

Shaan Devnani
Wesley Jessie
Siôn Jones
Rohit Ladher
Wouter Landzaat
Pietro Patrignani

Clawr blaen: Llun gan Sabine van Erp o Pixabay

Rhif ISBN: 978-1-80195-022-0

# Tabl Cynnwys

Tudalen


Geirfa a diffiniadau iii

Crynodeb Gweithredol vi

Cyflwyniad vi

Opsiynau ar gyfer taliadau defnyddwyr vii

Opsiynau ar gyfer y gweithlu ix

Trosolwg xiv

1 Cyflwyniad 1

1.1 Cyd-destun polisi 1

1.2 Prif nodau'r ymchwil hon 1

1.3 Dulliau 2

1.4 Goblygiadau COVID-19 2

1.5 Cyfyngiadau eraill 5

2 Effaith opsiynau ar gyfer taliadau defnyddwyr 7

2.1 Cyd-destun 7

2.2 Crynodeb o'r opsiynau polisi a aseswyd 7

2.3 Trosolwg ar y dull modelu 8

2.4 Amcanestyniadau llinell sylfaen 10

2.5 Opsiwn 1: Gofal personol wedi'i ariannu'n llawn 20

2.6 Opsiwn 2: Gofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn 34

2.7 Opsiwn 3: Cyfraniad wythnosol penodedig at gostau gofal preswyl unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain 38

2.8 Crynodeb o'r effeithiau 42

2.9 Rhagor o wybodaeth am yr effaith ddosbarthiadol ar dderbynwyr gofal 44

3 Effaith opsiynau polisi ar gyfer y gweithlu 50

3.1 Dull modelu, prif fewnbynnau, a rhagdybiaethau 50

3.2 Crynodeb o'r opsiynau polisi a aseswyd 73

3.3 Barn rhanddeiliaid am yr opsiynau ar gyfer y gweithlu 74

3.4 Opsiwn 4a: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at lefel y cyflog byw gwirioneddol 75

3.5 Opsiwn 4b: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG 81

3.6 Opsiwn 4c: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Awdurdodau Lleol 87

3.7 Opsiwn 4d: Cynyddu cyflogaeth gweithwyr gofal i gwrdd â chyfraddau tâl a thelerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG 92

# Tabl Cynnwys

Tudalen


3.8 Rhyngweithio â’r system dreth a budd-daliadau 99

3.9 Crynodeb o’r effeithiau 102

Mynegai Tablau, Ffigurau a Blychau 106

ATODIADAU 110

Atodiad 1 Diffiniad dros dro o ‘ofal personol’ 111

Atodiad 2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid 113

A2.1 Y broses ymgysylltu 113

A2.2. Opsiynau ar gyfer y gweithlu o’u cymharu ag opsiynau ar gyfer taliadau defnyddwyr 113

A2.3 Recriwtio 113

A2.4 Cadw Staff 116

A2.5 Ansawdd gofal a lles 118

Atodiad 3 Diffiniadau a rhagdybiaethau ar gyfer opsiynau 1 120

Atodiad 4 Ffigurau costau blynyddol 126

A4.1 Opsiynau polisi taliadau defnyddwyr – cost flynyddol (gwariant net ychwanegol) 126

A4.2 Effaith opsiynau polisi’r gweithlu – Niferoedd y gweithlu a ffigurau cost blynyddol 127

Atodiad 5 Dau arolwg o awdurdodau lleol Cymru 132

A5.1 Ffurflen Arolwg Awdurdodau Lleol – ffioedd a thaliadau 133

A5.2 Crynodeb o’r Arolwg Awdurdodau Lleol – taliadau defnyddwyr a nodweddion defnyddwyr 137

A5.3 Ffurflen Arolwg Awdurdodau Lleol – Gweithlu 140

A5.4 Crynodeb o’r Arolwg Awdurdodau Lleol – gweithlu 143

Atodiad 6 Crynodeb o’r dystiolaeth am elastigedd y cyflenwad llafur 147

Atodiad 7 Mewnbynnau ar gyfer y dadansoddiad o’r rhyngweithio rhwng treth a budd-daliadau 157

# Geirfa a diffiniadau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Arolygiaeth Gofal Cymru |
| **Asesiad ariannol** | Ar gyfer y rheini sydd â phecyn gofal a chymorth a gytunwyd, y broses sy'n pennu'r taliadau wythnosol ar sail y gost am ddarparu'r gwasanaeth ac ar sail eu hincwm ac asedau. |
| **Asesiad o anghenion** | Proses a gyflawnir i asesu a oes ar oedolyn angen pecyn gofal a chymorth a drefnir gan yr awdurdod lleol. |
| **CAGR** | Cyfradd twf cyfansawdd flynyddol |
| **Cleientiaid Awdurdodau Lleol** | Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth a gaiff eu darparu neu eu trefnu gan yr awdurdod lleol. |
| **Gofal anffurfiol** | Gofal a ddarperir gan aelodau o'r teulu neu ffrindiau (nid gan weithiwr gofal proffesiynol). |
| **Gofal cartref** | Gwasanaethau ymarferol sy'n helpu'r person i fyw mor annibynnol â phosibl a/neu barhau i fyw yn ei gartref. Defnyddir y diffiniad hwn yn y datganiadau data 'Oedolion sy'n derbyn gofal a chymorth' a lenwir gan awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru am weithgareddau gwasanaethau cymdeithasol oedolion. Drwy'r adroddiad hwn, defnyddiwn y term gwasanaethau 'gofal yn y cartref' wrth gyfeirio at wariant neu at ddarparu gwasanaethau yn y cartref, a'r term 'gofal cartref' wrth drafod opsiynau ar gyfer y gweithlu. |
| **Gofal Iechyd Parhaus y GIG** | Gofal nyrsio a gaiff ei ariannu a'i drefnu gan y GIG a'i ddarparu gartref neu mewn lleoliadau preswyl. |
| **Gofal preswyl** | Lleoliadau yng nghartrefi preswyl awdurdodau lleol neu mewn cartrefi gofal annibynnol sy'n darparu llety ynghyd â gofal personol. |
| **Gofal preswyl gyda nyrsio** | Lleoliadau mewn sefydliadau sy'n darparu llety ynghyd â gofal personol a nyrsio. |
| **Gofal yn y cartref** | Gwasanaethau gofal wedi'u darparu yng nghartref y cleient, yn cynnwys gofal personol a gwasanaethau eraill. Defnyddir y diffiniad hwn yn y Ffurflenni Alldro Refeniw a lenwir gan awdurdodau lleol Cymru i Lywodraeth Cymru, sy'n darparu datganiadau o ddata am wariant ac incwm gwasanaethau cymdeithasol (RO3). |
| **Gwariant cyfredol net** | Y swm sy'n deillio o Wariant Gros *llai* Cyfanswm incwm *llai* Grantiau Llywodraeth Penodol ac Arbennig |
| **Gwariant gros** | Cyfanswm y gwariant a ysgwyddwyd gan yr awdurdod lleol am y gwasanaethau gofal cymdeithasol perthnasol mewn blwyddyn ariannol |

| | |
|---|---|
| **Gwasanaethau gofal dibreswyl eraill** | Yr holl wasanaethau gofal dibreswyl eraill, yn cynnwys gofal dydd, cyfarpar ac addasiadau, llety â chymorth etc. Er bod rhai o'r gwasanaethau hyn yn gallu cynnwys elfen o ofal personol hefyd, dim ond gwasanaethau gofal personol a ddarperir gartref neu mewn lleoliadau gofal preswyl sydd wedi'u hystyried wrth asesu'r effaith o ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn. |
| **Gwasanaethau gofal nad ydynt yn bersonol** | Y diffiniad o'r rhain i ddibenion y dadansoddiad hwn yw gwasanaethau gofal eraill a ddarperir gartref neu mewn lleoliadau preswyl, yn cynnwys golchi dillad, siopa, help i wneud gwaith tŷ etc. |
| **Gwasanaethau gofal personol** | Gwasanaethau gofal ar gyfer hylendid personol, problemau symudedd, cymorth ar adeg prydau bwyd, meddyginiaeth a lles cyffredinol. Mae diffiniad dros dro o wasanaethau gofal personol at ddibenion y dadansoddiad hwn yn unig wedi'i ddarparu yn Annex 1. Hefyd, i ddibenion modelu yn unig, ystyriwyd gwasanaethau gofal personol a ddarperir yng nghartref y cleient neu mewn lleoliadau preswyl wrth asesu'r effaith o ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn. |
| **Gweithlu** | Cyfrif pennau'r gweithwyr am dâl mewn gwasanaethau gofal cartref a gofal preswyl (yn cynnwys nyrsio) yng Nghymru. Mae ein dadansoddiad o'r opsiynau polisi ar gyfer y gweithlu wedi'i seilio ar bedair rôl swydd: rheolwyr, dirprwy reolwyr, uwch-weithwyr gofal, a gweithwyr gofal, fel y maent wedi'u diffinio mewn data a gafwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru. |
| **Gwerth presennol net (GPN)** | Gwerthoedd cyson wedi'u disgowntio yn ôl cyfradd ddisgownt o 3.5% |
| **Incwm o werthu, ffioedd a thaliadau** | Incwm oddi wrth gleientiaid mewn perthynas â ffioedd a thaliadau a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ariannol |
| **Prisiau cyson** | Gwerthoedd enwol wedi'u haddasu yn ôl chwyddiant ar sail CPI gwirioneddol neu ddisgwyliedig |
| **Prisiau enwol** | Gwerthoedd wedi'u mynegi yn nhermau arian parod ym mhrisiau pob blwyddyn a heb eu haddasu yn ôl chwyddiant |
| **Taliadau uniongyrchol** | Taliadau ariannol y mae awdurdodau lleol yn eu rhoi'n uniongyrchol i oedolion ar gyfer prynu gwasanaethau cymdeithasol. |
| **Terfyn cyfalaf mewn gofal preswyl** | Y trothwy asedau sy'n penderfynu a fydd angen i breswylwyr cartrefi gofal dalu'n llawn am gostau llety a gofal neu a ydynt yn gymwys i gael cymorth gan yr awdurdod lleol. Y terfyn cyfalaf presennol yw £50,000 (o Ebrill 2020) |
| **Uchafswm tâl wythnosol mewn gofal dibreswyl** | Y swm mwyaf y gellir ei godi ar oedolion sy'n derbyn gofal am wasanaethau gofal dibreswyl a gafwyd (heblaw'r rheini y codir tâl amdanynt ar gyfradd safonol), beth bynnag yw'r gost am eu darparu a'r amgylchiadau ariannol. Y swm presennol yw £100 yr wythnos (o Ebrill 2020) |

| | |
|---|---|
| **Unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain** | Oedolion sy'n talu holl gostau eu gofal (gartref neu mewn lleoliadau preswyl). |

# Crynodeb Gweithredol

## Cyflwyniad

Sefydlwyd Grŵp Rhyngweinidogol (GRh) Llywodraeth Cymru ar Dalu am Ofal Cymdeithasol yn 2018 i ystyried sut bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r cynnydd yn yr angen – a'r gost – am ofal cymdeithasol. Wrth i Lywodraeth Cymru gael pwerau newydd i godi trethi yng Nghymru, mae'r grŵp wedi bod yn ymchwilio i'r dichonoldeb o gyflwyno ardoll neu ddewis arall posibl, er mwyn codi cyllid ychwanegol yn y tymor canolig a hir i helpu i gwrdd â'r galw cynyddol.

Yn ogystal â chanfod sut y gellid codi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol, mae'r GRh yn edrych ar beth y gellid gwario unrhyw gyllid ychwanegol a godwyd fel hyn. Yn yr opsiynau ar gyfer gwario cyllid ychwanegol, ystyrir neilltuo cyllid ychwanegol i ddelio â materion penodol ym maes gofal cymdeithasol i ffurfio 'adduned' i'r cyhoedd sy'n cyfrannu iddo. Nod yr ymchwil hon yw darparu tystiolaeth ac ymchwil i gyfrannu at yr ystyriaeth gan Weinidogion i'r adduned honno ar ofal cymdeithasol.

Datblygwyd nifer o opsiynau polisi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio cyllid ychwanegol y gellid ei godi drwy ardoll neu ddewis arall posibl a gwnaeth gontract ag LE Wales i asesu'r effeithiau dichonol o rai o'r opsiynau hyn. Mae'r opsiynau a gynigiwyd i'w hasesu gan LE Wales yn cynnwys tri opsiwn ar gyfer gwrthbwyso'r taliadau am wasanaethau gofal preswyl a dibreswyl i oedolion a gaiff eu talu gan y rheini sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol (yr 'opsiynau ar gyfer taliadau defnyddwyr') a phedwar opsiwn sy'n ymwneud â buddsoddi yn y gweithlu gofal cymdeithasol oedolion yng Nghymru (yr 'opsiynau ar gyfer y gweithlu').

Yn yr ymchwil a gyflawnwyd gan LE Wales i asesu effeithiau posibl yr opsiynau polisi, modelwyd yr effeithiau posibl yn y dyfodol hyd at 2035. Mae'n anorfod bod cryn ansicrwydd ynghylch effeithiau dros gyfnod mor hir. Byddai ansicrwydd yn codi hyd yn oed os oeddem yn llwyr ddeall yr hyn a ddigwyddodd yn y gorffennol a'r hyn sy'n digwydd nawr. Fodd bynnag, oherwydd natur gyfyngedig y data sydd ar gael nid oes gennym ddarlun llawn o'r ddarpariaeth bresennol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â data am dâl gweithwyr gofal yn y sector annibynnol; am nodweddion pobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal (a'r taliadau cysylltiedig); ac am y rheini a allai ofyn am asesiad o anghenion gofal a dod yn gymwys i dderbyn gofal wedi'i ariannu gan y cyhoedd os oedd elfennau o'r ddarpariaeth gofal i gael eu cynnig yn ddi-dâl (unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain ar hyn o bryd a'r rheini sy'n cael gofal anffurfiol). Yn ein dadansoddiad, rydym yn rhoi prawf ar sensitifrwydd ein canlyniadau i rai rhagdybiaethau allweddol, ond mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch effeithiau.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi ychwanegu at yr ansicrwydd hwn.

Casglwyd bron y cyfan o'r data a chyflawnwyd y rhan fwyaf o'r modelu ac ymchwilio a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn cyn y cyfnod clo cyntaf yn sgil y pandemig COVID-19 ar ganol Mawrth 2020. Yn dilyn seibiant rhwng Ebrill ac Awst, cwblhawyd yr adroddiad hwn yn ystod

hydref 2020, pan gafwyd cynnydd yn ddiweddar yn nifer yr achosion yn y boblogaeth gyffredinol.

Oherwydd yr ansicrwydd mawr ar hyn o bryd ynghylch yr effeithiau tymor hwy, ynghyd â'r diffyg data presennol, nid ydym wedi gwneud addasiadau penodol i'n hamcanestyniadau i adlewyrchu'r byd wedi COVID-19. Mae ein hamcanestyniadau o effeithiau'r opsiynau polisi a ddewiswyd wedi'u dangos ar ffurf amrediadau ac, wrth ddehongli'r amrediadau hynny yn sgil y pandemig COVID-19, ein cyngor yw y dylid eu hystyried yng nghyd-destun yr ansicrwydd am effeithiau posibl y pandemig, yn cynnwys yr effeithiau ar y gallu i recriwtio a chadw staff, ar y galw am wasanaethau gofal ac ar les derbynwyr gofal. Mae rhagor o fanylion am yr effeithiau posibl hyn ym mhennod y Cyflwyniad yn yr adroddiad hwn.

## Opsiynau ar gyfer taliadau defnyddwyr

Aseswyd effeithiau tri opsiwn ar gyfer taliadau defnyddwyr:

- **Opsiwn 1: Gofal personol wedi'i ariannu'n llawn**. Ni fyddai costau'n daladwy am wasanaethau gofal personol gan y rheini sy'n derbyn gofal preswyl na'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau gofal dibreswyl yn eu cartref.
- **Opsiwn 2: Gofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn**. Ni fyddai taliadau'n cael eu codi ar ddefnyddwyr am wasanaethau gofal dibreswyl, yn cynnwys gofal personol a gofal nad yw'n bersonol. Ni fyddai newid yn y trefniadau codi tâl ar gyfer gofal preswyl.
- **Opsiwn 3: Cyfraniad wythnosol penodedig at gostau gofal preswyl unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain**. Gwneir cyfraniad wythnosol penodedig o tua £100 i £150 at ffioedd gofal preswyl cyffredinol y rheini sy'n talu am eu gofal preswyl eu hunain, beth bynnag yw maint eu pecyn gofal. Nid yw'n gyfraniad at unrhyw agwedd benodol ar becyn gofal ac nid yw'n rhyngweithio â'r system taliadau. Ni fyddai newid yn y trefniadau codi tâl ar gyfer gofal dibreswyl.

Dangosir costau'r opsiynau hyn yn 0 isod. Er mwyn cymharu'n uniongyrchol rhwng y gwahanol opsiynau, rydym yn dangos amcangyfrif o gost pob opsiwn yn 2021 a'r costau Gwerth Presennol Net ar gyfer y cyfnod 2021-2035[1]. Mae costau'r holl opsiynau wedi'u dadgyfuno yn ôl band oedran ac mae costau Opsiwn 1 wedi'u dadgyfuno hefyd rhwng gofal dibreswyl (Opsiwn 1a) a gofal preswyl (Opsiwn 1b).

Gwerth Presennol Net (GPN) cyfunedig Opsiwn 1 yn y cyfnod 2021-2035 yw tua £2,690 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'uchel' a thua £1,860 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'isel'. Ar gyfer Opsiwn 2, y GPN cyfunedig yw tua £2,940 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'uchel' a £2,280 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'isel'. Yn olaf, ar gyfer Opsiwn 3 mae'r GPN rhwng tua £690 miliwn ('uchel') a £450 miliwn ('isel').

[1] Er na fydd yn ymarferol gweithredu unrhyw opsiwn o 2021, i ddibenion modelu'n unig rydym wedi cymryd 2021 yn flwyddyn weithredu gyntaf ar gyfer pob opsiwn polisi.

### Tabl 1  Crynodeb o gostau'r opsiynau (£ miliwn)

| Opsiynau: | 1a | | 1b | | 1 | | 2 | | 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Uchel | Isel | Uchel | Isel | Uchel | Isel | Uchel | Isel | Uchel | Isel |
| **18-64** | | | | | | | | | | |
| Cost yn 2021 | 42 | 24 | 0.4 | 0.3 | 43 | 24 | 99 | 63 | 0.3 | 0.2 |
| GPN 2021-2035 | 530 | 299 | 4.9 | 4.0 | 535 | 303 | 1248 | 789 | 3.4 | 2.2 |
| **65+** | | | | | | | | | | |
| Cost yn 2021 | 84 | 52 | 65 | 55 | 149 | 107 | 119 | 105 | 47 | 31 |
| GPN 2021-2035 | 1,192 | 741 | 966 | 812 | 2,159 | 1,553 | 1,694 | 1,490 | 688 | 453 |
| **Cyfan-swm** | | | | | | | | | | |
| Cost yn 2021 | 126 | 76 | 66 | 55 | 192 | 131 | 218 | 167 | 47 | 31 |
| GPN 2021-2035 | 1,722 | 1,040 | 971 | 816 | 2,693 | 1,856 | 2,942 | 2,280 | 691 | 455 |

Sylwer: Prisiau cyson 2020 (£ miliwn). Cyfrifwyd y GPN dros y cyfnod 2021-2035 ar sail cyfradd ddisgownt o 3.5%;

Opsiwn 1a: darparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn gartref (gofal dibreswyl). Ar gyfer cleientiaid presennol yr awdurdodau lleol, mae'r amcangyfrif cost 'uchel' yn rhagdybio na fydd 80% o gyfanswm y taliadau gan gleientiaid (am wasanaethau gofal yn y cartref, yn cynnwys taliadau uniongyrchol) yn cael ei gasglu wedyn, ac mae'r amcangyfrif cost 'isel' wedi'i wneud drwy ddefnyddio model seiliedig ar gelloedd (lle cymerir bod 80% o'r gwasanaethau gofal yn y cartref, yn cynnwys taliadau uniongyrchol, yn gydran gofal personol). Mae'r amcangyfrif cost 'uchel' hefyd yn rhagdybio newid o 70% o wasanaethau gofal a brynir yn breifat at ddarpariaeth gyhoeddus a newid o 10% o ofal anffurfiol at ddarpariaeth gyhoeddus. Mae'r amcangyfrif cost 'isel' hefyd yn rhagdybio newid o 50% o wasanaethau gofal a brynir yn breifat at ddarpariaeth gyhoeddus a newid o 5% o ofal anffurfiol at ddarpariaeth gyhoeddus;

Opsiwn 1b: darparu gofal personol a ariennir mewn cartrefi gofal preswyl (cyfraniad wythnosol penodedig o £210 ('uchel') neu £177 ('isel'));

Cyfanswm Opsiwn 1: Cyfuniad o opsiynau 1a ac 1b;

Opsiwn 2: darparu gwasanaethau gofal dibreswyl wedi'u hariannu'n llawn. Ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref (yn cynnwys taliadau uniongyrchol) rydym wedi defnyddio'r rhagdybiaethau a fabwysiadwyd yn Opsiwn 1a ar gyfer yr amcangyfrif cost 'uchel'. Ar gyfer yr holl wasanaethau gofal dibreswyl 'eraill', mae'r amcangyfrif cost 'isel' yn rhagdybio na fydd newid o ofal preifat neu anffurfiol i ddarpariaeth gyhoeddus, ac mae'r amcangyfrif cost 'uchel' yn rhagdybio y bydd 50% o'r cynnydd cyfrannol a welir mewn gofal personol o ganlyniad i ddarparu gofal preifat neu anffurfiol yn cael ei weld hefyd mewn gwasanaethau gofal dibreswyl 'eraill';

Opsiwn 3: darparu cyfraniad wythnosol penodedig i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn cartrefi gofal preswyl (£150 ('uchel') neu £100 ('isel').

**Ffynhonnell: cyfrifiadau LE Wales**

Roedd rhanddeiliaid yn cydnabod y buddion ariannol i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u teuluoedd sydd yn yr opsiynau hyn ar gyfer taliadau defnyddwyr ond roeddent wedi mynegi pryderon am yr effeithiau posibl ar y galw o ganlyniad i ariannu gofal personol yn llawn; ac am y posibilrwydd y byddai ariannu gofal dibreswyl yn llawn yn effeithio ar benderfyniadau ynghylch a fydd pobl yn derbyn gwasanaethau gofal preswyl neu ddibreswyl.

## Opsiynau ar gyfer y gweithlu

Mae tri chanlyniad allweddol wedi'u modelu er mwyn ystyried effaith yr opsiynau ar gyfer y gweithlu: nifer y gweithwyr, y costau cysylltiedig ac ansawdd y gofal. Er mwyn trafod y canlyniadau hyn, defnyddiwyd dau fodel gwahanol:

1) Model y gweithlu: Mae cynnydd o ran tâl a/neu amodau yn gysylltiedig â chynnydd o ran recriwtio/cadw staff a hefyd â chynnydd mewn costau. Hynny yw, mae'r model hwn yn rhagdybio bod perthynas gadarnhaol rhwng nifer y gweithwyr a chostau'r gweithlu.
2) Model ansawdd y gofal: Rhagdybir y bydd cynnydd o ran tâl a/neu amodau yn arwain at wella ansawdd y gofal. Hynny yw, ar sail y dystiolaeth gyfyngedig iawn sydd ar gael, byddai cynnydd yn y cyflog yr awr i weithwyr gofal yn lleihau cyfran y sefydliadau y mae angen eu gwella.

Mae'r ddau fodel yn ymwneud yn gyfan gwbl â gofal preswyl a gofal cartref oedolion. Mae'r opsiynau ar gyfer y gweithlu yn ystyried newidiadau mewn cyflogau sylfaenol yn ogystal â gwelliannau mewn telerau ac amodau. Yn yr achos hwn, mae'r elfen olaf yn cael ei mewnbynnu i'r model ar ffurf cynnydd yn yr argostau ar ben cyflogau.


Yn fwy penodol, aseswyd yr effeithiau o bedwar opsiwn ar gyfer y gweithlu:

- **Opsiwn 4a: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at lefel y cyflog byw gwirioneddol**. Mae'r opsiwn hwn yn golygu cynyddu cyflogau at lefel y cyflog byw gwirioneddol ar y lleiaf. Nid oes newid mewn telerau ac amodau eraill. Felly byddai cynnydd yn nhâl gweithwyr gofal yn y band tâl isaf yn y sector annibynnol.
- **Opsiwn 4b: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG**. Mae'r opsiwn hwn yn golygu cynyddu cyflogau at lefel cyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG ar gyfer graddau staff cyfatebol. Nid oes newid mewn telerau ac amodau eraill.
- **Opsiwn 4c: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Awdurdodau Lleol**. Mae'r opsiwn hwn yn golygu cynyddu cyflogau at lefel cyfraddau tâl awdurdodau lleol ar gyfer graddau staff cyfatebol. Nid oes newid mewn telerau ac amodau eraill. O dan yr opsiwn hwn, ni fydd newid yn nhâl gweithwyr gofal a gyflogir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol.
- **Opsiwn 4d: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal i gwrdd â chyfraddau tâl a thelerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG**. Mae'r opsiwn hwn yn golygu cynyddu cyflogau at lefel cyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG ar gyfer graddau staff cyfatebol. Cymerir hefyd y bydd telerau ac amodau eraill yn newid fel eu bod yn cyfateb i delerau Agenda ar gyfer Newid y GIG. Yn yr achos hwn, ystyrir dau is-opsiwn

ar gyfer newid telerau ac amodau: (i) Cynnydd mewn argostau o bum pwynt canran ar gyfer rolau rheolwyr a 10 pwynt canran ar gyfer gweithwyr gofal; a (ii) Cynnydd mewn argostau o 2.5 pwynt canran ar gyfer yr holl rolau sydd wedi'u modelu.

Mae'r ffigur isod yn dangos crynodeb o'r effeithiau o bob un o'r opsiynau ar gyfer y gweithlu, ar sail yr amcangyfrifon canolig. Mae hefyd yn dangos y cyfansymiau ar gyfer y senario llinell sylfaen a ddefnyddir i asesu'r effaith gymharol o bob opsiwn.

**Ffigur 1 Crynodeb o effeithiau'r opsiynau ar gyfer y gweithlu**




Sylwer: **Opsiwn 4a** = Cyflog byw gwirioneddol; **Opsiwn 4b** = Tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG; **Opsiwn 4c** = Tâl awdurdodau lleol; **Opsiwn 4d (prif senario)** = Tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG (cynnydd mewn argostau rhwng 5 a 10 pwynt canran); **Opsiwn 4d (senario arall)** = Tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG (cynnydd mewn argostau o 2.5 pwynt canran).

Nifer y gweithlu yn 2021 (y man cychwyn ar gyfer y modelu) yw 44,875. Nid yw'r model ansawdd gofal yn cymryd allbynnau o fodel y gweithlu yn fewnbynnau. Rydym yn cymryd bod cynnydd yng nghyflogau gweithwyr gofal yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gofal, ar sail ein dadansoddiad ein hunain o NMDS-SC, ond nid ydym yn modelu unrhyw sianeli trosglwyddo rhwng y ddau fodel (am nad ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth o'r ffordd y dylai'r sianel hon weithio).*Ar hyn o bryd, nid yw AGC yn rhoi sgôr i sefydliadau fel hyn, ond rydym wedi defnyddio data o Loegr i ragdybio y byddai angen gwella'r un ganran o sefydliadau yng Nghymru.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Mae'r crynodeb yn dangos bod cysylltiad rhwng ymyriadau cryfach (e.e. cynnydd mwy mewn cyflogau) ac effeithiau mwy a chostau uwch. Gall ymyriadau gynyddu nifer y gweithlu gymaint â 7.3% o'i gymharu â'r senario llinell sylfaen ond gallant gynyddu costau hefyd o fwy na 25%.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau'r modelu yn awgrymu mai'r ffordd fwyaf costeffeithiol i gynyddu'r gweithlu yw gwella telerau ac amodau ynghyd â chynyddu cyflogau. Gwelir hyn orau drwy gymharu effeithiau Opsiwn 4b ac Opsiwn 4d. Mae'r ddau opsiwn hyn yn rhoi'r un cynnydd mewn cyflogau i weithwyr ond gwahanol delerau ac amodau. Mae'r telerau ac amodau gwell yn Opsiwn 4d yn arwain at gynnydd o 309% yn y gweithlu ychwanegol yn y prif senario.[2] Ar yr un pryd, mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwelliant mewn telerau ac amodau yn cynyddu 177%.[3] Mae'r cynnydd yn nifer y gweithlu yn fwy na'r cynnydd mewn costau ar gyfartaledd.

Gall gwelliannau mewn telerau ac amodau fod yn fwy costeffeithiol am fod gweithwyr yn gallu bod yn fwy tueddol i ymateb i newidiadau mewn amodau gwaith na newidiadau mewn cyflogau. Mae'r syniad hwn yn gyson â barn rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer yr ymchwil hon a dynnodd sylw at bwysigrwydd telerau ac amodau – roedd nifer yn teimlo nad oedd cynnydd mewn tâl yn ddigon ar ei ben ei hun.

Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch nifer o fewnbynnau a rhagdybiaethau yn y modelu, cynhyrchwyd tri amcangyfrif ar gyfer pob opsiwn polisi: gelwir y rhain yn amcangyfrifon isel, canolig, ac uchel. Mae gwerth presennol net (GPN) y gost ychwanegol (ym mhrisiau 2020) ym mhob opsiwn wedi'i ddangos yn y tabl isod.

[2] Y newid yng nghanran y gweithwyr ychwanegol yn Opsiwn 4d o'i gymharu ag Opsiwn 4b: ((50,478 – 47,422) – (48,170 – 47,422))/(48,170 – 47,422).

[3] Y newid yng nghanran y costau GPN ychwanegol yn Opsiwn 4d o'i gymharu ag Opsiwn 4b: ((16.0 – 13.5) – (14.4 – 13.5))/(14.4 – 13.5).

**Tabl 2 Costau'r llinell sylfaen a chostau ychwanegol yr opsiynau polisi, GPN 2021-2035 (£ miliwn ym mhrisiau 2020)**

| Opsiwn | Amcangyfrifon isel | Amcangyfrifon canolig | Amcangyfrifon uchel |
|---|---|---|---|
| Llinell sylfaen | | 13,534 | |
| Opsiwn 4a: cyflog byw gwirioneddol | 263 | 325 | 387 |
| Opsiwn 4b: tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG | 759 | 898 | 1,040 |
| Opsiwn 4c: tâl awdurdodau lleol | 2,865 | 3,656 | 4,532 |
| Opsiwn 4d (prif senario): tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG* | 2,328 | 2,485 | 2,646 |
| Opsiwn 4d (senario arall): tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG** | 1,162 | 1,306 | 1,453 |

Sylwer: Cynhyrchwyd y gwahanol amcangyfrifon drwy amrywio'r amcangyfrif o elastigedd y cyflenwad llafur. Mae llenyddiaeth ar y berthynas rhwng cyflogau a'r cyflenwad llafur yn dangos bod perthynas gadarnhaol, ond bach, rhwng cyflogau a nifer y gweithwyr mewn swydd benodol. Mae'r dull modelu yn mesur y cynnydd canrannol yn nifer y gweithwyr sy'n gysylltiedig â chynnydd o un y cant mewn cyflog. Er enghraifft, os yw elastigedd y cyflenwad llafur yn 0.5, am gynnydd o 1% yn y cyflog, ceir cynnydd o 0.5% yn nifer y gweithwyr. Rhoddir tri amcangyfrif ar sail y dystiolaeth sydd ar gael: isel = 0.06, canolig = 0.37 ac uchel = 0.68. *Yn seiliedig ar gynnydd mewn argostau rhwng 5 a 10 pwynt canran. ** Yn seiliedig ar gynnydd mewn argostau o 2.5 pwynt canran.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Am bob opsiwn ar gyfer y gweithlu, rydym hefyd yn dangos yn yr adroddiad beth yw'r goblygiadau yn yr opsiwn o ran y gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol (h.y. cyfrif pennau'r derbynwyr gofal am bob gweithiwr gofal uniongyrchol – mae nifer y gweithwyr gofal hefyd yn cael ei fesur drwy gyfrif pennau ac mae'n cynnwys uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal yn unig). Mae'r cymariaethau hyn â'r llinell sylfaen yn dangos cynnydd rhagamcanol yn nifer y derbynwyr gofal am bob gweithiwr gofal uniongyrchol o 1.25 yn 2021 i ychydig llai nag 1.6 erbyn 2035. Mae pob un o'r opsiynau ar gyfer y gweithlu yn gwella ar hyn, er bod pob un ohonynt yn golygu cynnydd yn nifer y derbynwyr gofal am bob gweithiwr gofal ychwanegol erbyn 2035. Opsiwn 4c (tâl awdurdodau lleol) yw'r opsiwn sy'n perfformio orau ar y mesur hwn, gan ei fod yn arwain at ostyngiad yn y gymhareb dros y chwe blynedd cyntaf ac wedyn cynnydd i 1.48 erbyn 2035. Mae hyn yn awgrymu, os oedd Llywodraeth Cymru am gynnal y gymhareb bresennol rhwng derbynwyr gofal a gweithwyr gofal uniongyrchol hyd at 2035, y byddai angen cymryd mesurau ychwanegol ar ben yr opsiynau polisi sydd wedi'u modelu.

## Trosolwg

Mae ein dadansoddiad yn dangos y gost ddichonol a'r effeithiau eraill o bob un o'r opsiynau polisi drwy eu cymharu â senario llinell sylfaen. Mae cryn ansicrwydd ynghylch meintiau'r effeithiau hyn. Mae'r ansicrwydd hwn yn fwy oherwydd effeithiau posibl y pandemig COVID-19.

Roedd y rhanddeiliaid[4] y buom yn siarad â nhw yn gytûn at ei gilydd mai'r brif her i ofal cymdeithasol yng Nghymru (yn union cyn y pandemig COVID-19) yw'r argyfwng o ran recriwtio a chadw gweithwyr gofal, yn enwedig mewn gofal cartref. Mae darparwyr ledled Cymru yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff addas ar y cyfraddau tâl presennol. Mae'r sector gofal yn colli staff drwy'r amser i sectorau eraill, fel y sector manwerthu, sy'n cynnig gwell tâl ac amodau. O ganlyniad i hyn, roedd gwella tâl ac amodau gweithwyr gofal yn cael ei weld yn hollbwysig i gynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru. Os na wneir hynny, mae'n bosibl na fydd modd cwrdd â'r galw am becynnau gofal.

Roedd rhanddeiliaid hefyd yn nodi pa mor bwysig oedd telerau ac amodau cyflogaeth heblaw tâl, ac roedd rhai wedi awgrymu na fyddai cynnydd mewn tâl yn ddigon ar ei ben ei hun i ddelio â'r problemau. Bydd gwella tâl ac amodau'r gweithlu gofal yn dod â buddion hefyd i weithwyr gofal a'u teuluoedd ac awgrymwyd hefyd y byddai hyn yn cryfhau economi sylfaenol Cymru.

[4] Roedd ein hymgyngoriadau â rhanddeiliaid wedi cynnwys nifer cymharol fach o randdeiliaid, y rhan fwyaf ohonynt yn cynrychioli cyflogwyr gweithwyr gofal cymdeithasol a chyrff sy'n rheoleiddio'r sector hwn. Felly nid yw safbwyntiau gweithwyr gofal, derbynwyr gofal neu ofalwyr anffurfiol wedi'u casglu'n uniongyrchol yn ein gwaith.

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyd-destun polisi

Sefydlwyd Grŵp Rhyngweinidogol (GRh) Llywodraeth Cymru ar Dalu am Ofal Cymdeithasol yn 2018 i ystyried sut bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r cynnydd yn yr angen – a'r gost – am ofal cymdeithasol. Wrth i Lywodraeth Cymru gael pwerau newydd i godi trethi yng Nghymru, mae'r grŵp wedi bod yn ymchwilio i'r opsiwn o gyflwyno ardoll neu ddewis arall posibl, er mwyn helpu i godi cyllid ychwanegol i gwrdd â'r galw cynyddol.

Yn ogystal â chanfod sut y gellid codi cyllid ychwanegol ar gyfer gofal cymdeithasol, mae'r GRh yn edrych ar beth y gellid gwario unrhyw gyllid ychwanegol a godwyd fel hyn. Yn yr opsiynau ar gyfer gwario cyllid ychwanegol, ystyrir neilltuo cyllid ychwanegol i ddelio â materion penodol ym maes gofal cymdeithasol i ffurfio 'adduned' i'r cyhoedd sy'n cyfrannu iddo.

Cafwyd datganiad llafar gan Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i roi diweddariad ar waith y GRh ar Dalu am Ofal Cymdeithasol ar 4 Chwefror 2020.[5]

## 1.2 Prif nodau'r ymchwil hon

Nod yr ymchwil hon yw darparu tystiolaeth ac ymchwil i gyfrannu at ystyriaeth gan Weinidogion i adduned gofal cymdeithasol.

Datblygwyd nifer o opsiynau polisi gan Lywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio cyllid ychwanegol a godwyd drwy dreth ddichonol a gwnaeth gontract ag LE Wales i asesu'r effeithiau posibl o rai o'r opsiynau hyn.

Mae'r opsiynau a gynigiwyd i'w hasesu gan LE Wales yn cynnwys tri opsiwn ar gyfer gwrthbwyso'r taliadau am wasanaethau gofal cymdeithasol preswyl a dibreswyl i oedolion a gaiff eu talu gan y rheini sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, a phedwar opsiwn sy'n ymwneud â buddsoddi yn y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Ar gyfer y tri opsiwn sy'n ymwneud â gwrthbwyso taliadau gan ddefnyddwyr am wasanaethau gofal cymdeithasol, rydym wedi asesu'r costau dichonol drwy wariant cyhoeddus a'r effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaethau (h.y. y gostyngiad yn y taliadau y maent yn eu gwneud). Yn achos yr opsiynau ar gyfer y gweithlu, rydym wedi asesu'r costau gwariant cyhoeddus a'r effeithiau posibl ar y gallu i recriwtio a chadw staff y gweithlu a'r canlyniadau posibl o ran ansawdd gofal.

[5] Mae'r datganiad hwn ar gael yma: https://llyw.cymru/datganiad-llafar-y-wybodaeth-ddiweddaraf-am-waith-y-grwp-rhyng-weinidogol-ar-dalu-am-ofal.

Rydym wedi asesu'r effeithiau o ran ansawdd i'r graddau sy'n bosibl ac wedi ychwanegu disgrifiad ansoddol o effeithiau dichonol eraill at yr asesiad hwnnw.

Ar gyfer yr holl opsiynau, rydym wedi asesu'r effeithiau dros y cyfnod rhwng 2021 a 2035.

## 1.3 Dulliau

Er mwyn modelu ac asesu effeithiau'r opsiynau polisi, mae LE Wales wedi:

- casglu a choladu data o nifer o wahanol ffynonellau, yn cynnwys data a gafwyd yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol yng Nghymru;
- adolygu ymchwil berthnasol sydd ar gael;
- siarad â nifer cyfyngedig o randdeiliaid.

Defnyddiwyd un model i asesu'r opsiynau ar gyfer taliadau defnyddwyr a model ar wahân i asesu'r opsiynau ar gyfer y gweithlu. Mae model y taliadau defnyddwyr wedi'i seilio ar Fodel Ariannu Gofal Cymdeithasol LE Wales sydd wedi'i ddefnyddio o'r blaen mewn gwaith modelu i Lywodraeth Cymru. Mae model y gweithlu yn fodel newydd a ddatblygwyd i ddibenion yr ymchwil hon ond mae'n defnyddio dull tebyg i'r un a fabwysiadwyd mewn gwaith blaenorol gan London Economics i fodelu'r gweithlu yn y sector gofal iechyd yn Lloegr[6].

Mae rhagor o fanylion yng ngweddill yr adroddiad hwn am y dulliau a ddefnyddiwyd.

## 1.4 Goblygiadau COVID-19

Casglwyd bron y cyfan o'r data a chyflawnwyd y rhan fwyaf o'r modelu ac ymchwilio a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn cyn y cyfnod clo cyntaf yn sgil y pandemig COVID-19 ar ganol Mawrth 2020. Yn dilyn seibiant rhwng Ebrill ac Awst, cwblhawyd yr adroddiad hwn yn ystod hydref 2020, pan gafwyd cynnydd yn ddiweddar yn nifer yr achosion yn y boblogaeth gyffredinol.

Cafwyd amcangyfrif mewn gwaith ymchwil diweddar fod 1,074 o farwolaethau 'ychwanegol' yn ystod ton gyntaf y pandemig COVID-19 (rhwng yr wythnos yn gorffen ar 13 Mawrth 2020 a'r wythnos yn gorffen ar 26 Mehefin 2020) mewn cartrefi gofal yng Nghymru – o'r rhain, roedd 680 yn gysylltiedig â COVID-19.[7] Mae nifer y marwolaethau ychwanegol

---

[6] Wrth asesu'r canlyniadau a chymharu'r canfyddiadau â dadansoddiadau blaenorol yn y sector iechyd, dylid nodi nad oes gwybodaeth sydd gystal ac mor gynhwysfawr am niferoedd a thâl y gweithlu yng Nghymru o'i chymharu â honno ar gyfer y sector iechyd (yn enwedig ar gyfer y sector annibynnol).

[7] Ceir dadansoddiad o farwolaethau ychwanegol mewn cartrefi gofal yng Nghymru yn Jones S a Patrignani, P (2020) 'Long term care and the COVID-19 crisis in Wales' sydd ar gael yn https://ltccovid.org/wp-content/uploads/2020/06/COVID-19-LTC-situation-in-Wales.pdf. Mae cymhariaeth o ddata ar draws gwledydd y DU ar COVID-19 a chartrefi gofal dros y

yn cyfateb i tua 6% o nifer y gwelyau sydd ar gael mewn cartrefi gofal oedolion yng Nghymru. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys marwolaethau preswylwyr cartrefi gofal a ddigwyddodd y tu allan i gartref gofal (e.e. mewn ysbyty) ac nid ydynt yn cynnwys marwolaethau derbynwyr gofal cartref na marwolaethau gweithwyr gofal. Gan eu bod yn ddata am farwolaethau'n unig, nid ydynt yn adlewyrchu effeithiau eraill ar iechyd corfforol a meddyliol ymysg derbynwyr gofal, gweithwyr gofal neu ofalwyr di-dâl.

Ar hyn o bryd, nid yw'n glir beth fydd effeithiau hirdymor posibl y pandemig COVID-19 ar y sector gofal yng Nghymru. Mae'n ymddangos ar hyn o bryd mai'r prif feysydd lle y gellid cael effeithiau hirdymor yw'r rhai canlynol.

- **Effaith ar les derbynwyr gofal:** Er mwyn cyfyngu heintiau, mae cartrefi gofal wedi gosod rheolau caeth ar ymwelwyr o'r tu allan (yn cynnwys atal ymweliadau yn ystod y cyfnod clo yn gyfan gwbl). Mae'r rhyngweithio rhwng derbynwyr gofal a gweithwyr gofal wedi newid yn sylweddol hefyd o ganlyniad i'r rheolau iechyd caethach a osodwyd i ymateb i'r pandemig. Gall yr holl ffactorau hyn gael effaith ddwfn ar les seicolegol oedolion hŷn eiddil, gan waethygu effaith anuniongyrchol y pandemig.
- **Nifer y derbynwyr gofal**. Yn ogystal â'r gostyngiad oherwydd nifer y marwolaethau ymysg derbynwyr gofal mewn cartrefi gofal ac yn eu cartrefi, mae'n bosibl y bydd llai o alw am wasanaethau gofal ffurfiol o ganlyniad i amharodrwydd ar ran pobl newydd i dderbyn gwasanaethau gofal gan unigolion o'r tu allan i'w teulu agos. Byddai hyn yn gallu effeithio hefyd ar gyfraddau meddiannu mewn cartrefi gofal gan greu goblygiadau o ran eu hyfywedd ariannol posibl. Nid yw data ar gael i'r cyhoedd am yr agweddau hyn ar y sefyllfa bresennol (heblaw marwolaethau mewn cartrefi gofal). Gan nad oes sicrwydd ynghylch sut bydd COVID-19 yn datblygu yn y dyfodol, mae hefyd yn anodd asesu'r tebygolrwydd y bydd unrhyw ostyngiad yn y galw yn ostyngiad dros dro yn unig ac, os bydd, am ba hyd y bydd yn para.
- **Y gweithlu gofal**. Mae'n glir o adroddiadau yn y newyddion fod gweithwyr gofal yng Nghymru wedi mynd drwy gyfnod anodd iawn a'u bod hefyd wedi wynebu risgiau i'w hiechyd eu hunain yn ystod ton gyntaf y pandemig,[8] a chyhoeddwyd taliad untro o £500 i bob gweithiwr gofal hefyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mai. Mae'n bosibl bod gwell cydnabyddiaeth erbyn hyn o werth y gweithlu gofal ymysg y boblogaeth gyffredinol nag o'r blaen. Disgwylir colli nifer sylweddol o swyddi mewn rhannau eraill o'r economi yn y misoedd nesaf, ac mae'n bosibl y bydd hyn yn ei gwneud yn haws recriwtio a chadw gweithwyr gofal am gyfnod.[9] Yn

cyfnod hwn yn Bell et al (2020), sydd ar gael yma: https://ltccovid.org/wp-content/uploads/2020/08/COVID-19-mortality-in-long-term-care-final-Sat-29-1.pdf

[8] Ceir ymchwil gynnar i'r maes hwn yn Embregts et al (2020) - https://journal.ilpnetwork.org/articles/10.31389/jltc.40/

[9] Er ei bod yn ymddangos yn llai tebygol y bydd swyddi'n cael eu colli mewn sectorau fel gofal iechyd ac archfarchnadoedd sydd yn aml yn cael eu gweld yn brif gystadleuwyr i'r sector gofal.

gyffredinol, mae'n anodd iawn asesu beth fydd effeithiau cyfunol y ffactorau hyn ar y gallu i recriwtio a chadw staff yn y gweithlu gofal yn y cyfnod hyd at 2035.

- **Dulliau darparu gwasanaethau**. Yn ystod y pandemig COVID-19, mae darparwyr gwasanaethau gofal wedi gorfod newid eu ffordd o weithio'n sylweddol er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiadau, a hefyd wedi gorfod ceisio dod o hyd i ffyrdd i leihau effeithiau ar y bobl sydd o dan eu gofal. Mae hyn wedi cynnwys costau uwch (e.e. o ganlyniad i ddefnyddio cyfarpar diogelu personol) a mwy o ddefnydd o dechnolegau digidol.[10] Mae rhywfaint o bosibilrwydd y bydd y newidiadau hyn yn gallu arwain at newid tymor hwy mewn arferion gan greu goblygiadau posibl o ran costau, lles, anghenion y gweithlu etc.
- **Gofalwyr di-dâl**. Am ei bod yn well gan bobl gael gofal gan eu teuluoedd eu hunain yn hytrach na derbyn gwasanaethau gofal gan eraill oherwydd y risgiau o ran COVID-19, ac am nad yw rhai gwasanaethau gofal ar gael oherwydd cyfyngiadau COVID-19, mae'n debygol bod mwy o bwysau ar ofalwyr di-dâl.[11] Bydd y graddau y mae hyn yn parhau yn dibynnu ar y ffordd y bydd achosion o'r feirws yn datblygu ac ar yr effeithiau ar y gweithlu gofal a'r dulliau o ddarparu gwasanaethau.

Oherwydd yr ansicrwydd sylweddol ar hyn o bryd ynghylch yr effeithiau tymor hwy, ynghyd â'r diffyg data presennol, nid ydym wedi gwneud addasiadau penodol i'n hamcanestyniadau i adlewyrchu'r byd newydd wedi COVID-19.

Darperir ein hamcanestyniadau o effeithiau'r opsiynau polisi a ddewiswyd ar ffurf amrediadau ac, wrth ddehongli'r amrediadau hyn yn sgil y pandemig COVID-19, ein cyngor yw y dylid eu hystyried yng nghyd-destun y ffactorau ansicr a ddisgrifiwyd uchod.

Er ei bod yn bosibl y bydd y pandemig COVID-19 yn effeithio'n sylweddol ar yr opsiynau mewn termau absoliwt (e.e. y nifer sy'n derbyn gofal, niferoedd y gweithlu), gallai gael effaith lai o lawer ar safleoedd cymharol yr opsiynau. Er enghraifft, yn ein barn ni byddai gosod cyfraddau tâl ar yr un lefel a chyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG yn cael mwy

[10] Er enghraifft, mae'r Arolygiaeth Gofal yn yr Alban wedi dweud (mewn perthynas â gwasanaethau gofal mewn cartrefi): "the increased use of technology and creative alternative approaches to support had positive outcomes for some people who experience care and these developments should help inform new service responses."

Gweler: https://www.careinspectorate.com/images/documents/5816/Delivering%20CAH%20and%20HSS%20during%20the%20COVID-19%20pandemic%20-%20%20FINAL%2022092020.pdf

[11] Ceir ymchwil ragarweiniol i effeithiau COVID-19 ar ofalwyr di-dâl yn y DU ac yn yr Almaen yn Giebel (2020) - https://ltccovid.org/2020/09/21/impact-of-covid-19-related-social-support-service-closures-on-people-with-dementia-and-unpaid-carers-a-qualitative-study/ a Rothgang et al (2020) - https://ltccovid.org/2020/09/20/how-covid-19-has-affected-informal-caregivers-and-their-lives-in-germany/

o effaith ar y gallu i recriwtio a chadw staff na chynyddu cyflogau at lefel y cyflog byw gwirioneddol ar y lleiaf, beth bynnag fydd effaith COVID-19.

## 1.5 Cyfyngiadau eraill

Mae taliadau a chyllid gofal cymdeithasol yn faes anodd ei fodelu oherwydd cymhlethdod y system a phrinder y data sydd ar gael.

Cafwyd data penodol ar gyfer modelu yn uniongyrchol oddi wrth awdurdodau lleol yng Nghymru – defnyddiwyd y rhain wrth fodelu'r opsiynau sy'n ymwneud â thaliadau a'r opsiynau ar gyfer y gweithlu. Roedd yr amserlenni tynn ar gyfer ein gwaith,[12] ynghyd â phwysau eraill ar staff awdurdodau lleol, yn cyfyngu ar gwmpas ein ceisiadau ac yn ei gwneud yn anodd hefyd i awdurdodau lleol ymateb yn llawn i'r ceisiadau hynny.

Roedd ein hymgyngoriadau â rhanddeiliaid wedi'u cyfyngu i nifer cymharol fach o randdeiliaid, y rhan fwyaf ohonynt yn cynrychioli cyflogwyr gweithwyr gofal cymdeithasol a chyrff sy'n rheoleiddio'r sector hwn. Felly nid yw safbwyntiau gweithwyr gofal, derbynwyr gofal neu ofalwyr anffurfiol wedi'u casglu'n uniongyrchol yn ein gwaith. Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori'n ehangach neu y bydd yn gwneud hynny.

Rhan bwysig o'n gwaith ymchwil oedd modelu'r effeithiau dichonol ar y gweithlu gofal yng Nghymru o ganlyniad i gynyddu tâl a gwella telerau ac amodau. Rydym wedi gwneud hyn, ond mae'n bwysig nodi bod sawl agwedd ar y sylfaen dystiolaeth yn wan. Mae'r dystiolaeth am lefelau tâl presennol gweithwyr gofal, a sut mae'r rhain yn amrywio rhwng rolau swydd, yn wan, yn enwedig ar gyfer y sector annibynnol. Mae nifer mawr o gyflogwyr yn y sector, a phob un â'i drefniadau ei hun o ran tâl ac amodau, rolau swydd etc. Mae'r dystiolaeth sy'n cysylltu tâl â'r gallu i recriwtio a chadw staff yn wan hefyd a'r dystiolaeth sy'n cysylltu tâl â gwelliannau yn ansawdd gofal yn wannach byth. Y prif reswm am hyn yw bod yr ymchwil a gafwyd hyd yma yn y maes hwn yn gyfyngedig iawn ac felly nad oes sicrwydd ynghylch natur y cysylltiadau hyn. Mae'n debygol hefyd eu bod yn amrywio ledled Cymru, gan fod amodau'r farchnad lafur yn amrywio ledled Cymru ac am fod y rhan fwyaf o wasanaethau gofal yn cael eu darparu gan y sector annibynnol. Er hynny, mae'r holl fodelu wedi'i gyflawni ar lefel Cymru oherwydd cyfyngiadau o ran data, amser a'r gyllideb.

Mae'r argyfwng COVID-19 wedi dangos pa mor bwysig yw hi bod gwybodaeth amserol o ansawdd da ar gael ar gyfer y sector gofal, am dderbynwyr gofal[13] ac am y gweithlu (gan fod y rhan fwyaf o weithwyr gofal yn cael eu cyflogi yn y sector annibynnol). Roedd disgwyliad i ddarparwyr rheoleiddiedig gyflwyno eu datganiadau blynyddol cyntaf i Arolygiaeth Gofal

[12] Cynhaliwyd yr ymchwil dros gyfnod o bedwar mis rhwng Rhagfyr 2019 a Mawrth 2020.

[13] Nid oes gwybodaeth swyddogol am unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a hefyd nid yw gwybodaeth am y nifer sy'n derbyn gofal ar adeg benodol yn cael ei chasglu bellach oddi wrth awdurdodau lleol (dim ond cyfansymiau yn ystod y flwyddyn).

Cymru ym Mai 2020[14], ond gohiriwyd hyn tan y flwyddyn nesaf oherwydd y pandemig. Bydd data o'r datganiadau hyn yn gymorth yn y dyfodol, yn enwedig os trefnir iddynt fod ar gael mewn fformat hygyrch i ddibenion ymchwil. Mae awdurdodau lleol hefyd yn dal amrywiaeth o wybodaeth ar lefel micro am nodweddion derbynwyr gofal, taliadau a ffioedd defnyddwyr, gwasanaethau a ddarperir etc. ond nid yw'r wybodaeth ar gael yn rhwydd mewn llawer achos (yn ôl y systemau TG a'r trefniadau sydd gan bob awdurdod lleol). Byddai trefnu i'r wybodaeth (ddienw) hon fod ar gael ar gyfer ymchwil yn fodd i hwyluso modelu o'r math hwn yn y dyfodol.

Yn yr ymchwil gan LE Wales i asesu effeithiau dichonol yr opsiynau polisi, modelwyd effeithiau dichonol yn y dyfodol hyd at 2035. Mae'n anochel bod cryn ansicrwydd ynghylch effeithiau dros y cyfnod hwn. Byddai hyn yn wir hyd yn oed os oeddem yn llawn ddeall beth sydd wedi digwydd yn y gorffennol a beth sy'n digwydd nawr. Yn ein dadansoddiad, rydym yn asesu sensitifrwydd ein canlyniadau i nifer o ragdybiaethau allweddol, ond mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch effeithiau ac mae'r pandemig COVID-19 wedi ychwanegu at yr ansicrwydd hwn.

[14] Mae'r meysydd gwybodaeth sydd i'w cynnwys yn y datganiadau blynyddol wedi'u pennu yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac yn Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017.

# 2 Effaith opsiynau ar gyfer taliadau defnyddwyr

## 2.1 Cyd-destun

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym yn Ebrill 2016. Roedd yn darparu blaenoriaethau newydd ar gyfer gofal cymdeithasol a sail ddeddfwriaethol newydd i weithgareddau fel asesiadau o anghenion gofal ac asesiadau ariannol.

O dan y Ddeddf, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu neu drefnu gwasanaethau gofal i bobl mewn angen. Fodd bynnag, mae hyn yn amodol ar broses asesu sy'n cynnwys asesiad o anghenion i benderfynu cymhwysedd i dderbyn gwasanaethau gofal ac asesiad ariannol (lle mae awdurdodau lleol yn arfer eu disgresiwn i godi tâl) i benderfynu pa swm y dylai'r unigolyn ei gyfrannu at gost y gwasanaethau gofal oedolion sydd eu hangen. Mewn llawer achos, darperir y gwasanaethau eu hunain gan ddarparwyr annibynnol.

Mae'r meini prawf ar gyfer asesiadau ariannol yn gymhleth ond, yn gyffredinol, ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl oedolion, mae unigolion sydd â llai na gwerth trothwy penodol yn eu holl gynilion ac asedau (yn cynnwys eiddo) – £50,000 ar hyn o bryd – yn gymwys i gael cymorth cyhoeddus ac ni fydd eu hasedau'n cael eu cynnwys yn yr asesiad ariannol. Er hynny, gellir gofyn iddynt gyfrannu at gost gofal ar sail eu hincwm wythnosol, os yw'n fwy nag isafswm incwm gwarantedig (Isafswm Incwm), sef £32 yr wythnos ar hyn o bryd (o Ebrill 2020). Mae'r rheini sydd ag asedau uwchlaw'r trothwy hwn ('unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain') yn talu am gost eu gofal. Bob blwyddyn, bydd awdurdodau lleol yn gosod uchafswm ar gyfer y ffi y byddant yn ei thalu i gartrefi gofal annibynnol sy'n darparu gwasanaethau gofal preswyl. Mae'r tâl yn cynnwys costau gofal a chostau llety mewn cartrefi gofal.

Yn achos gwasanaethau gofal dibreswyl i oedolion, rhaid darparu rhai gwasanaethau (fel cludiant i ganolfannau gofal dydd) yn ddi-dâl i ddefnyddwyr, tra bydd tâl yn cael ei godi ar gyfradd safonol am wasanaethau eraill (e.e. prydau bwyd). Yn achos gwasanaethau unigol eraill, mae awdurdodau lleol yn gallu arfer disgresiwn wrth osod lefel y taliadau gofal, yn amodol ar wneud asesiad ariannol i bennu cyfanswm y cyfraniadau wythnosol (yn seiliedig ar gost y gwasanaethau a ddarperir ac asedau ac incwm yr un sy'n derbyn gofal) ac ar uchafswm tâl wythnosol am yr holl wasanaethau hynny y mae'r unigolyn yn eu cael. Cyflwynwyd yr uchafswm tâl wythnosol gan Lywodraeth Cymru yn Ebrill 2011 ar lefel o £50 yr wythnos ac mae wedi cynyddu ers hynny i £100 yr wythnos (o Ebrill 2020).

## 2.2 Crynodeb o'r opsiynau polisi a aseswyd

Y tri opsiwn polisi ar gyfer gwrthbwyso taliadau defnyddwyr am wasanaethau gofal cymdeithasol preswyl a dibreswyl oedd y canlynol.

### Opsiwn 1: Gofal personol wedi'i ariannu'n llawn

Ar hyn o bryd, mae'r asesiad ariannol yn gymwys i bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn cynnwys gwasanaethau gofal personol (fel gofal sy'n ymwneud â hylendid personol, gwisgo amdanynt, help i fwyta) ac felly gall fod yn ofynnol i ddefnyddwyr gyfrannu at gost gwasanaethau gofal personol. O dan yr opsiwn polisi hwn, ni fyddai tâl yn cael ei godi am wasanaethau gofal personol ar y rheini sy'n derbyn gofal preswyl nac ar y rheini sy'n derbyn gwasanaethau gofal dibreswyl yn eu cartrefi. Mae hyn yn debyg i bolisi sydd eisoes ar waith yn yr Alban.

### Opsiwn 2: Gofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn

Fel y nodwyd uchod, ar hyn o bryd mae'r asesiad ariannol yn gymwys i bobl mewn perthynas â'r rhan fwyaf o wasanaethau gofal dibreswyl. O dan yr opsiwn polisi hwn, ni fyddai tâl yn cael ei godi ar ddefnyddwyr am wasanaethau gofal dibreswyl, yn cynnwys gofal personol a gofal nad yw'n bersonol. Ni fyddai newid yn y trefniadau talu ar gyfer gofal preswyl.

### Opsiwn 3: Cyfraniad wythnosol penodedig at gostau gofal preswyl unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain

O dan yr opsiwn hwn, gwneir cyfraniad wythnosol penodedig o tua £100 i £150 at y ffioedd cyffredinol am ofal preswyl ar gyfer unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, beth bynnag yw maint eu pecyn gofal. Nid yw'n gyfraniad at unrhyw agwedd benodol ar becyn gofal ac nid yw'n rhyngweithio â'r system codi tâl. Ni fyddai newid yn y trefniadau talu ar gyfer gofal dibreswyl.

## 2.3 Trosolwg ar y dull modelu

Mae Model Ariannu Gofal Cymdeithasol LE Wales wedi'i ddefnyddio ar nifer o achlysuron o'r blaen i fodelu effaith newidiadau mewn polisi mewn perthynas â thaliadau defnyddwyr yng Nghymru. Mae'r model yn un sydd wedi'i seilio ar 'gelloedd' ac yn grwpio pobl mewn celloedd ar sail eu nodweddion mewn nifer o feysydd (e.e. oed, rhywedd, math o aelwyd, math o anabledd) gan ddefnyddio data o'r Arolwg o Adnoddau Teulu. Ar gyfer pob cell, mae'r tebygolrwydd o dderbyn gofal a ariennir gan awdurdod lleol yn cael ei amcangyfrif gan ddefnyddio model logit[15]. Ar gyfer yr ymchwil hon, mae'r model wedi'i ehangu i gynnwys pob un o'r opsiynau a gynigiwyd ar gyfer taliadau defnyddwyr.

---


[15] Mae'r model yn cymhwyso atchweliad logistaidd yn ôl a yw'r unigolyn yn derbyn gofal gan 'weithiwr cymorth yn y cartref neu weithiwr gofal yn y cartref awdurdod lleol' ai peidio fel newidyn dibynnol, ac yn cymhwyso band oedran, rhywedd, math o anabledd, a yw'n briod, yn sengl yn cyd-fyw neu'n sengl yn byw ar ei ben ei hun ac a yw'n berchen ar y cartref fel newidynnau esboniadol. Cafodd y model ei redeg ar wahân ar gyfer oedolion iau (18-64) a hŷn (65+). Er mwyn cael nifer digonol o arsylwadau, roeddem wedi cyfuno gwybodaeth o Gymru a rhanbarthau Lloegr (heb gynnwys Llundain) ac wedi defnyddio data o'r Arolwg o Adnoddau Teulu rhwng 2014/15 a 2017/18.

Defnyddiwyd y model i wneud y canlynol:

- gwneud amcanestyniadau o’r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol yng Nghymru, wedi’u seilio ar dueddiadau cyfredol a rhagfynegol;
- gwneud amcangyfrifon o amcanestyniadau ‘llinell sylfaen’ ar gyfer costau gofal cymdeithasol i oedolion hyd 2035 ar sail polisi presennol neu arfaethedig;
- darparu asesiad o gostau pob un o’r tri opsiwn a gynigiwyd dros yr un cyfnod.

Mae’r model yn cynnwys dau fodiwl ar gyfer gwasanaethau oedolion: un sy’n rhoi amcanestyniad o nifer y defnyddwyr gwasanaethau gofal dibreswyl a gwariant cysylltiedig; ac un arall sy’n rhoi amcanestyniad o nifer y defnyddwyr sy’n byw mewn lleoliadau gofal preswyl a gwariant cysylltiedig. Mae’r ddau fodiwl yn gyson â diagram y model sydd wedi’i ddangos isod.

**Ffigur 2 Diagram o Fodel Ariannu Gofal LE Wales**




Sylwer: Yr ONS yw y Swyddfa Ystadegau Gwladol
**Ffynhonnell: LE Wales**

Mae'r holl gostau wedi'u modelu ym mhrisiau cyson 2020 ar gyfer y cyfnod 2021 i 2035 ac mae gwerthoedd presennol net y costau wedi'u hamcangyfrif er mwyn cymharu cost gwerth presennol pob un o'r opsiynau polisi. Mae costau cynyddraddol pob un o'r opsiynau polisi wedi'u cyfrifo drwy gymharu ag amcanestyniad y 'llinell sylfaen'.

Coladwyd data ar gyfer y model o nifer o wahanol ffynonellau, yn cynnwys:

- Data StatsCymru am dderbynwyr a gwariant gofal cymdeithasol;
- Data'r Arolwg o Adnoddau Teulu am incwm, asedau, math o aelwyd, anabledd, derbyn gwasanaethau gofal awdurdod lleol[16] etc.;
- Amcangyfrifon ac amcanestyniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ôl oed;
- Gwybodaeth gan UKHCA (am gostau cartrefi gofal), awdurdodau lleol Cymru (am ffioedd etc.), Laing & Buisson (am gostau gofal preswyl);
- Arolwg Cenedlaethol Cymru am wybodaeth ynghylch y galw am wasanaethau gofal[17];
- Gwybodaeth am y gweithlu gofal cymdeithasol a ddarparwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Yn ogystal â hyn, gwnaethom gais i awdurdodau lleol am ddata penodol er mwyn casglu gwybodaeth angenrheidiol nad oedd ar gael o ffynonellau a gyhoeddwyd. Yn benodol, casglwyd data am nodweddion derbynwyr gofal er mwyn gallu modelu'r broses asesu ariannol (gweler Atodiad 3 am fanylion yr holiaduron a chrynodeb o'r canfyddiadau).

## 2.4 Amcanestyniadau llinell sylfaen

Ym Mlwch 1, rydym yn dangos y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd i roi amcanestyniadau o wasanaethau a chostau rhwng 2021 a 2035. Gwnaed yr amcanestyniadau ar wahân ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref (a oedd hefyd yn cynnwys taliadau uniongyrchol)[18],

---

[16] Mae'r Arolwg o Adnoddau Teulu yn cynnwys adran 'Help a Roddwyd a Gofal a Dderbyniwyd', sydd hefyd yn cwmpasu gofal ffurfiol (yn cynnwys cymorth yn y cartref yr awdurdodau lleol) a gofal anffurfiol a dderbyniwyd.

[17] Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys adran 'Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol', lle ceir cwestiynau ynghylch 'A gafodd gymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol', 'A oedd ag angen cymorth gan wasanaethau gofal cymdeithasol ond heb ei gael' ac 'A yw'n cytuno bod gwasanaethau gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal'. Gweler https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau

[18] Roedd taliadau uniongyrchol wedi'u cynnwys gyda gwasanaethau gofal yn y cartref am eu bod nhw hefyd yn cynnwys cydran gofal personol (gweler hefyd sut mae gwasanaethau gofal personol di-dâl yn cael eu darparu yn yr Alban i unigolion yn eu cartrefi eu hunain, yn https://www.gov.scot/publications/free-personal-nursing-care-qa/). Er mwyn symlrwydd ac i ysgafnhau'r baich ar awdurdodau lleol a oedd yn ymateb, yr unig wybodaeth roeddem

gwasanaethau gofal dibreswyl eraill, a gwasanaethau gofal preswyl heb nyrsio a gyda nyrsio. Mae'r amcanestyniadau llinell sylfaen wedi'u seilio ar wybodaeth a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol Cymru a'u cyhoeddi ar wefan StatsCymru ac maent yn cyfeirio at dderbynwyr gofal y mae eu gofal a chymorth yn cael eu darparu neu eu trefnu gan yr awdurdod lleol. Nid yw'r data a gafwyd gan awdurdodau lleol yn cynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a'i drefnu'n uniongyrchol na'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus y GIG.

Mae'n glir bod pob amcanestyniad yn ansicr o'i hanfod, ond dylid nodi hefyd fod rhywfaint o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd yn y model wedi'i seilio ar hen wybodaeth (amcanestyniadau o statws priodasol), a bod gwybodaeth arall a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol heb fod ar gael o gwbl (nodweddion unigolion mewn lleoliadau gofal preswyl). Yn ogystal â hyn, nid oedd y gyfres data arbrofol cyfredol am nifer y gwasanaethau a gyhoeddir ar wefan StatsCymru[19] wedi dechrau tan 2016/17 ac mae'n anghyflawn (gan nad oedd pob un o'r awdurdodau lleol wedi darparu gwybodaeth lawn am yr holl wasanaethau yn ystod y cyfnod)[20]. Mae'r amcanestyniadau wedi'u seilio ar wybodaeth a oedd ar gael ar ddechrau Mawrth 2020 ac nid ydynt yn cynnwys datblygiadau mwy diweddar (er eu bod yn cynnwys amcanestyniadau poblogaeth diwygiedig y Swyddfa Ystadegau Gwladol a gyhoeddwyd ym Mehefin 2020).

Wrth drafod incwm a gwariant, er mwyn symlrwydd rydym yn cyfeirio at 'gyfraniad gan yr awdurdod lleol' a 'chyfraniad gan y derbynnydd gofal' er mwyn dangos cyfran y costau a

---

wedi'i chasglu yn yr arolwg oedd gwybodaeth am gyfran y taliadau y gellir ei phriodoli i wasanaethau gofal cartref. Cafwyd gwybodaeth am daliadau uniongyrchol gan StatsCymru (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Service-Provision) ac yn y model roeddem wedi defnyddio rhagdybiaethau dosbarthiadol a rhagdybiaethau am dueddiadau yn y dyfodol a oedd yr un fath â'r rheini ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.

[19] Oedolion sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, Ystadegau arbrofol. Mae'n adlewyrchu proses asesu newydd sydd wedi'i bennu yn Rhan 3 (Asesu anghenion unigolion) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Service-Provision. Fel y nodwyd ar wefan StatsCymru: 'While extensive efforts have been made to gather reliable and accurate information from local authorities, 2016-17, 2017-18 and 2018-19 data remains imperfect. In 2017-18, Caerphilly and Newport were only able to provide data up until the 13th February 2018 and 6th March 2018 respectively. This was due to both local authorities migrating to a new ICT system during the year. The Vale of Glamorgan was unable to provide data for 2017-18, due to technical issues with their ICT systems. Caerphilly was unable to provide data for 2018-19, due to technical issues with their ICT systems.'

[20] Am fod y data sydd ar gael yn gyfyngedig, nid ydym wedi gallu cynnwys tueddiadau diweddar wrth ddarparu gwasanaethau gofal yn yr amcanestyniadau o'r galw yn y dyfodol am wahanol fathau o wasanaethau gofal.

ysgwyddir gan yr awdurdod lleol a chyfran y costau a ysgwyddir gan y derbynnydd gofal. Yr hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yw bod yr awdurdod lleol yn negodi ffi â darparwyr gofal am bob math o wasanaeth ac yn talu'n uniongyrchol i'r darparwr ac wedyn yn casglu'r cyfraniad gan y derbynnydd gofal (ar sail yr asesiad ariannol).

Yn ein hamcanestyniadau o dueddiadau yng nghostau darparu gwasanaethau, rydym wedi ceisio adlewyrchu pwysau diweddar mewn costau uned ac wedi rhagdybio twf cyflymach o lawer na chwyddiant dros y cyfnod hyd at 2024 (5.5% o dwf ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref a 4.3% ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl, o'u cymharu â chyfradd chwyddiant rhwng 1.4% a 2.1%). Ar ôl y cyfnod cyntaf hwn, lle mae costau'n cynyddu'n gyflym, gan adlewyrchu amodau diweddar yn y farchnad a chynyddiadau arfaethedig yn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, ein hamcanestyniad yw y bydd cynnydd o 3% y flwyddyn mewn costau uned enwol (o'i gymharu â rhagolwg chwyddiant hirdymor o 2%). Mae'r holl gyfresi costau wedi'u dangos ar ffurf prisiau cyson, a 2020 yn flwyddyn sylfaen, fel bod yr holl werthoedd enwol wedi'u datchwyddo i adlewyrchu'r twf disgwyliedig mewn costau real yn unig.

**Blwch 1 Y prif ragdybiaethau am dueddiadau yn y dyfodol a ddefnyddiwyd ym model Ariannu Gofal LE Wales**

**Nifer llinell sylfaen y gwasanaethau a ddarperir**

- Yn y senario llinell sylfaen, mae nifer y gwasanaethau wedi'i seilio ar y wybodaeth a gofnodwyd gan awdurdodau lleol a'i chyhoeddi ar wefan StatsCymru ac mae'n cynnwys cleientiaid a gynorthwyir gan yr awdurdod leol o dan y system bresennol yn unig (y rheini sy'n derbyn gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir gan yr awdurdod lleol) felly, ar sail y diffiniad hwnnw, nid yw'n cynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain na'r rheini sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG;
- Newidiadau mewn poblogaeth yn ôl oed a rhywedd yn unol ag amcanestyniadau poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer Cymru sydd â 2018 yn flwyddyn sylfaen (cyhoeddwyd ffigurau diwygiedig ym Mehefin 2020);
- Mae'r llinell sylfaen ar gyfer statws priodasol a phartneriaeth yn adlewyrchu ffigurau'r Arolwg o'r Llafurlu ar gyfer 2019 ac mae'n newid yn unol ag amcanestyniadau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol o statws priodasol sydd â 2008 yn flwyddyn sylfaen (yr amcanestyniadau diweddaraf sydd ar gael);
- Ar gyfer pobl sengl, mae'r gymhareb rhwng y rheini sy'n byw ar eu pen eu hunain a'r rheini sy'n byw gydag eraill yn aros yn gyson dros amser;
- Mae patrymau ffordd o fyw unigolion a nifer y blynyddoedd iach yn aros yn debyg i'r tueddiadau presennol ac nid yw newidiadau mewn polisi yn y dyfodol (e.e. newid yn oed pensiwn y wladwriaeth) yn effeithio arnynt;
- Ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref a gwasanaethau gofal dibreswyl eraill, rhannwyd y celloedd ar sail band oedran, rhywedd, math o aelwyd, statws anabledd a deiliadaeth tai drwy ddefnyddio gwybodaeth o'r Arolwg o Adnoddau Teulu am nodweddion ac a oedd gwasanaethau gofal awdurdodau lleol yn cael eu derbyn. Wedyn gwnaed amcanestyniad o'r ffigurau wedi'u dadgyfuno dros y cyfnod (hyd 2035) i gael amcangyfrif o nifer y gwasanaethau a ddarperir dros y cyfnod. Roedd y gyfran o'r boblogaeth sy'n derbyn gofal wedi'i graddnodi drwy ddefnyddio gwybodaeth am nifer y gwasanaethau a ddarparwyd yn 2018/19;
- Ar gyfer gofal preswyl, rhannwyd y celloedd yn ôl rhywedd a band oedran yn unig gan nad oes gennym wybodaeth am nodweddion eraill preswylwyr cartrefi gofal;
- Cymerir bod cyfraddau perchentyaeth a lefelau anabledd yn aros yn gyson yn ôl band oedran, rhywedd a math o aelwyd;
- Mae'r cyflenwad o ofal a chymorth yn diwallu'r galw;
- Nid oes siociau cadarnhaol neu negyddol sy'n effeithio ar y galw a'r cyflenwad o wasanaethau gofal a chymorth (e.e. newid mewn chwaeth, datblygiadau technolegol).

- Mae'r amcanestyniadau o'r galw wedi'u seilio'n bennaf ar dueddiadau poblogaeth. Mae'n anodd canfod tueddiadau diweddar yn niferoedd y gwasanaethau (y niferoedd sy'n derbyn gofal) gan fod toriad yn y gyfres data yn golygu mai dim ond am y tair blynedd diwethaf y mae data ar gael. Mae'n ymddangos o'r data hynny fod niferoedd y gwasanaethau'n gostwng neu'n sefydlog at ei gilydd (gyda bylchau yn y data ar gyfer rhai awdurdodau lleol). Mae'r rhesymau am hyn – mewn cyfnod o gynnydd yn y boblogaeth hŷn – yn aneglur. Nid ydym wedi addasu'r model i adlewyrchu'r data diwethaf hyn, ond dylid nodi nad yw'n sicr y bydd y galw am wasanaethau yn y dyfodol yn cynyddu'n gyson â'r cynnydd mewn poblogaeth.

**Tueddiadau mewn costau uned am ddarparu gwasanaethau**

- Mae'r gost uned enwol am ddarparu gofal yn y cartref a'r holl wasanaethau dibreswyl eraill yn tyfu 5.5% y flwyddyn tan 2024 a 3% wedyn mewn termau enwol. Mae'r ffigur tymor byr yn adlewyrchu tueddiadau diweddar yn yr isafswm pris am ofal yn y cartref (a ddatblygwyd gan Gymdeithas Gofal Cartref y DU[21]) a thueddiadau yn ffioedd awdurdodau lleol[22]. Mae'r gyfradd yn adlewyrchu pwysau ar gostau yn y tymor byr ac, ar ôl y cyfnod cyntaf hwn, rydym wedi rhagdybio y bydd costau'n cynyddu 1 pwynt canran yn fwy na'r rhagolwg tymor hir ar gyfer chwyddiant (2%);
- Mae costau uned gofal preswyl yn cynyddu 4.3% y flwyddyn mewn termau enwol tan 2024 a 3% ar ôl hynny. Mae'r ffigur tymor byr yn adlewyrchu'r gyfradd twf ganolrifol yn ffioedd awdurdodau lleol am gleientiaid gofal preswyl a welwyd rhwng 2016/17 a 2019/20. Mae'r gyfradd yn adlewyrchu pwysau ar gostau yn y tymor byr ac, ar ôl y cyfnod cyntaf hwn, rydym wedi rhagdybio y bydd costau'n cynyddu 1 pwynt canran yn fwy na'r rhagolwg tymor hir ar gyfer chwyddiant (2%);
- Mae incwm oddi wrth gleientiaid (ffioedd a thaliadau) ac incwm o ffynonellau eraill yn cynyddu ar gyfradd enwol o 3% y flwyddyn dros y cyfnod cyfan ar gyfer pob math o wasanaeth;
- Yr amcanestyniad o chwyddiant yw y bydd yn parhau i gynyddu yn dilyn y rhagolwg diweddaraf gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer CPI[23], a'r rhagolwg hirdymor (2024 ymlaen) yw 2%;
- Dangosir yr holl amcanestyniadau o gostau ar ffurf prisiau cyson (h.y. wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant), a 2020 yw'r flwyddyn sylfaen;

[21] Gweler y ffigur diweddaraf yn https://www.ukhca.co.uk/downloads.aspx?ID=434

[22] Adroddwyd gan UKHCA: gweler y ffigur diweddaraf yn https://www.ukhca.co.uk/downloads.aspx?ID=589

[23] https://obr.uk/faq/where-can-i-find-your-latest-forecasts/

- I ddibenion modelu, roedd uchafswm y tâl wythnosol am ofal dibreswyl wedi'i osod ar £100 yr wythnos (y gyfradd ers Ebrill 2020) ac wedi'i ddal yn gyson mewn termau real dros amser.

### Gwasanaethau gofal dibreswyl


**Nifer y gwasanaethau**

Yn Ffigur 3 rydym yn dangos yr amcanestyniadau o nifer y **gwasanaethau gofal yn y cartref** (hefyd yn cynnwys taliadau uniongyrchol), wedi'u grosio i gynrychioli pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Er mai'r amcanestyniad yw y bydd nifer y gwasanaethau'n aros yn gyson gan mwyaf dros amser ar gyfer oedolion iau (gan adlewyrchu'r tueddiadau poblogaeth sy'n gostwng ychydig dros amser ar gyfer y grŵp oedran 18 i 64), yr amcanestyniad yw y bydd nifer y gwasanaethau i oedolion hŷn yn cynyddu 38% yn y cyfnod 2021-2035, mewn ymateb i'r cynnydd amcanestynedig yn y boblogaeth 65 oed a hŷn.

Ein diffiniad o **wasanaethau gofal dibreswyl eraill** oedd yr holl wasanaethau sy'n wahanol i ofal yn y cartref a thaliadau uniongyrchol (a heb gynnwys ychwaith yr holl wasanaethau gofal preswyl ac asesu a rheoli gofal)[24]. Rhagdybir y bydd y duedd o ran nifer y gwasanaethau yn datblygu'n unol â'r duedd amcanestynedig ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref, fel y bydd yn aros yn gymharol gyson ar gyfer oedolion iau ac yn tyfu tua 38% ar gyfer oedolion hŷn rhwng 2021 a 2035.

[24] Mae'r rhain yn cynnwys Llety â chymorth a llety arall, Gofal dydd, Cyfarpar ac addasiadau, Prydau bwyd a Gwasanaethau eraill i bobl hŷn.

**Ffigur 3** **Amcanestyniad llinell sylfaen o nifer y derbynwyr gofal ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref 2021-2035**




Sylwer: Mae'r blynyddoedd ariannol wedi'u cofnodi ar yr echelin X, a'r flwyddyn a ddangosir yn nodi dechrau'r flwyddyn ariannol (e.e. 2018 yn nodi 2018/19). Mae'r gyfres 'gofal yn y cartref' yn cyfuno gwasanaethau gofal cartref a thaliadau uniongyrchol (nifer y gwasanaethau yn ystod y flwyddyn); mae'r ffigurau ar gyfer 2018/19 wedi'u seilio ar y gyfres 'Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran' a gyhoeddir gan StatsCymru ac mae'r ffigurau wedi'u grosio i gynnwys pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r rhan lwyd yn dangos amcanestyniadau'r blynyddoedd sy'n berthnasol i'r dadansoddiad (2021 i 2035). Nid yw'r amcanestyniadau'n cynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain na'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Mae'r dull o weithredu a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcanestyniadau wedi'u dangos ym Mlwch 1.

**Ffynhonnell: Amcanestyniadau LE Wales**


**Amcanestyniadau o'r gwariant cyfredol net**

Cyfunwyd yr amcanestyniadau o nifer y gwasanaethau â'r tueddiadau amcanestynedig mewn costau uned i gael amcanestyniadau o gyfanswm y gwariant gros (wedi'i gyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwariant gros ac unrhyw incwm a dderbynnir).

Yr amcanestyniad o'r **gwariant cyfredol net** real ar **wasanaethau gofal yn y cartref** yw y bydd yn cynyddu bron 28% rhwng 2021 a 2035 ar gyfer y grŵp oedran 18-64 (cyfradd twf blynyddol real cyfansawdd o 1.8%) a 72% ar gyfer y grŵp oedran 65+ (cyfradd twf blynyddol real cyfansawdd o 4%), ac y bydd y gwariant net cyfunol yn cyrraedd £617 miliwn erbyn diwedd y cyfnod.

Ar gyfer yr holl **wasanaethau gofal dibreswyl eraill,** yr amcanestyniad o'r gwariant cyfredol net real yw y bydd yn tyfu £90 miliwn ar gyfer oedolion iau (mae lefel y gwariant ar lety â chymorth a llety arall yn uchel ar gyfer y grŵp hwn) ac yn tyfu £57 miliwn ar gyfer oedolion hŷn rhwng 2021 a 2035 (cyfanswm y twf yn 74% a 29%, a chyfradd twf cyfansawdd blynyddol o tua 4% a 1.8% yn yr un drefn).

**Ffigur 4 Amcanestyniadau llinell sylfaen o wariant cyfredol net ar wasanaethau gofal yn y cartref, taliadau uniongyrchol a gwasanaethau gofal dibreswyl eraill 2021-2035**




Sylwer: Mae'r blynyddoedd ariannol wedi'u cofnodi ar yr echelin X, a'r flwyddyn a ddangosir yn nodi dechrau'r flwyddyn ariannol (e.e. 2018 yn nodi 2018/19). Mae'r gyfres 'gofal yn y cartref' yn cyfuno gofal yn y cartref a thaliadau uniongyrchol (gwariant cyfredol net) ac yn cael ei mynegi mewn termau cyson gan gymryd prisiau 2020 yn llinell sylfaen. Mae gwasanaethau gofal dibreswyl 'eraill' yn cynnwys Llety â chymorth a llety arall, Gofal dydd, Cyfarpar ac addasiadau, Prydau bwyd a Gwasanaethau eraill i bobl hŷn. Mae'r rhan lwyd yn dangos amcanestyniadau'r blynyddoedd sy'n berthnasol i'r dadansoddiad (2021 i 2035). Nid yw'r amcanestyniadau'n cynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain na'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Mae'r dull o weithredu a'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcanestyniadau wedi'u dangos ym Mlwch 1.

**Ffynhonnell: Amcanestyniadau LE Wales**


## Gwasanaethau gofal preswyl

### Amcanestyniadau o'r nifer a fydd yn derbyn gofal

Yn yr adran hon, rydym yn edrych ar yr amcanestyniadau llinell sylfaen ar gyfer nifer y derbynwyr gofal mewn gofal preswyl heb nyrsio a gyda nyrsio (a'r gofal a chymorth wedi'u

darparu neu eu trefnu gan yr awdurdod lleol)[25]. Yma eto, mae ffigurau am nifer y preswylwyr wedi'u grosio i gynnwys pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn darparu amcanestyniadau dim ond ar gyfer y cleientiaid hynny sy'n derbyn cymorth gan yr awdurdod lleol o dan y system bresennol (heb gynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain na'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus y GIG). Ein hamcanestyniad yw y bydd nifer yr oedolion iau mewn lleoliadau preswyl yn gostwng ychydig yn y cyfnod dan sylw (tua -2% rhwng 2021 a 2035), tra bydd nifer yr oedolion 65+ oed sy'n derbyn gwasanaethau gofal preswyl yn tyfu tua 40% rhwng 2021 a 2035.

**Ffigur 5 Amcanestyniad llinell sylfaen o nifer y derbynwyr gofal ar gyfer gofal preswyl gyda nyrsio a heb nyrsio 2021-2035**




Sylwer: Mae'r blynyddoedd ariannol wedi'u cofnodi ar yr echelin X, a'r flwyddyn a ddangosir yn nodi dechrau'r flwyddyn ariannol (e.e. 2018 yn nodi 2018/19). Mae'r ffigurau yn y siart yn dangos nifer y gwasanaethau yn ystod y flwyddyn ac wedi'u grosio i gynnwys pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru (wedi'u seilio ar y gyfres 'Oedolion sy'n derbyn gwasanaethau yn ôl awdurdod lleol a grŵp oedran' a gyhoeddir ar wefan StatsCymru). Mae'r rhan lwyd yn dangos amcanestyniadau'r blynyddoedd sy'n berthnasol i'r dadansoddiad (2021 i 2035). Nid yw'r amcanestyniadau'n cynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain na'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus y

[25] Mae'r amcanestyniadau llinell sylfaen wedi'u seilio ar y ffigurau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol a'u cyhoeddi ar wefan StatsCymru. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain sy'n trefnu gofal preswyl yn annibynnol na'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus y GIG.


GIG. Mae’r dull o weithredu a’r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcanestyniadau wedi’u dangos ym Mlwch 1.

**Ffynhonnell: Amcanestyniadau LE Wales**

**Amcanestyniadau o’r gwariant net**

Ein hamcanestyniad yw y bydd gwariant cyfredol net real ar wasanaethau gofal preswyl yn cynyddu 18% ar gyfer oedolion iau rhwng 2021 a 2035 (cyfradd twf real blynyddol cyfansawdd o 1.2%) a bron 70% ar gyfer y grŵp oedran 65+ (cyfradd twf real blynyddol cyfansawdd o 3.9%), ac y bydd y gwariant net cyfunol (swm yr holl linellau yn Ffigur 6) yn cyrraedd bron £780 miliwn erbyn diwedd y cyfnod.

**Ffigur 6 Amcanestyniad llinell sylfaen o’r gwariant cyfredol net ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl 2021-2035**




Sylwer: Mae’r blynyddoedd ariannol wedi’u cofnodi ar yr echelin X, a’r flwyddyn a ddangosir yn nodi dechrau’r flwyddyn ariannol (e.e. 2018 yn nodi 2018/19). Mae’r ffigurau yn y siart wedi’u mynegi mewn termau cyson gan gymryd prisiau 2020 yn llinell sylfaen. Mae’r rhan lwyd yn dangos amcanestyniadau’r blynyddoedd sy’n berthnasol i’r dadansoddiad (2021 i 2035). Nid yw’r amcanestyniadau’n cynnwys unigolion sy’n ariannu eu gofal eu hunain na’r rheini sy’n derbyn gwasanaethau Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Mae’r dull o weithredu a’r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer yr amcanestyniadau wedi’u dangos ym Mlwch 1.

**Ffynhonnell: Amcanestyniadau LE Wales**

## 2.5 Opsiwn 1: Gofal personol wedi'i ariannu'n llawn

O dan yr opsiwn polisi hwn, ni fyddai tâl yn cael ei godi am wasanaethau gofal personol ar y rheini sydd mewn gofal preswyl nac ar y rheini sy'n derbyn gwasanaethau gofal dibreswyl gartref. Mae hyn yn debyg i bolisi sydd eisoes ar waith yn yr Alban.

I ddibenion y modelu a'r asesiad o'r opsiwn polisi hwn, rydym wedi defnyddio'r diffiniad dros dro o ofal personol sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1. Byddai tâl yn cael ei godi am unrhyw eitemau gofal sydd heb eu rhestru, fel y gwneir o dan y trefniadau presennol. Dylid nodi bod y diffiniad o ofal personol a ddefnyddiwyd wedi cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru yn unswydd ar gyfer y modelu hwn a'i fod wedi'i seilio ar ddiffiniad tebyg i'r un ar gyfer model Llywodraeth yr Alban[26].

Dylid nodi (fel yr eglurir ymhellach yn yr adrannau nesaf) nad oes gwybodaeth benodol ar gael ar hyn o bryd am ddarparu gwasanaethau gofal personol, na'r gwariant arnynt, am nad yw awdurdodau lleol yn gwahaniaethu ar hyn o bryd rhwng gwasanaethau gofal personol a gwasanaethau eraill a ddarperir.

### 2.5.1 Yr effaith o gyflwyno gofal personol di-dâl yn yr Alban

Cyflwynwyd gofal personol di-dâl gyntaf yn yr Alban ym mis Gorffennaf 2002. O'r dyddiad hwnnw, yn achos pobl 65 oed a hŷn yr aseswyd gan yr awdurdod lleol fod arnynt angen gwasanaethau gofal personol[27]

- ni all yr awdurdod lleol godi tâl arnynt am ofal personol a ddarperir gartref;
- gallant gael taliad wythnosol am ofal personol a ddarperir mewn cartref gofal (cyfradd safonol o £177 yn 2019/20 a £180 o Ebrill 2020).

Yn Ebrill 2019, estynnwyd yr hawl i dderbyn gofal personol di-dâl i gynnwys yr holl oedolion yr aseswyd gan yr awdurdod lleol fod arnynt ei angen.[28]

Cafwyd cynnydd mawr yn y gwariant ar ofal preswyl a gofal yn y cartref i bobl hŷn yn dilyn cyflwyno gofal personol di-dâl i rai 65 oed a hŷn yn 2002. Er ei bod yn bosibl bod rhai newidiadau na ellir eu priodoli i'r polisi gofal personol di-dâl, mae Audit Scotland (2008)[29]

---

[26] Gweler https://www.gov.scot/publications/free-personal-nursing-care-qa/

[27] Llywodraeth yr Alban. (2019). Free Personal and Nursing Care. Adalwyd 10 Rhagfyr 2019, o http://www2.gov.scot/Topics/Health/Support-Social-Care/Support/Adult-Social-Care/Free-Personal-Nursing-Care

[28] Mae gwasanaethau gofal yn ddi-dâl i blant hefyd.

[29] Audit Scotland (2008). A review of free personal and nursing care. Adalwyd 10 Rhagfyr 2019, o https://www.audit-scotland.gov.uk/docs/health/2007/nr_080201_free_personal_care.pdf

wedi amcangyfrif bod y costau ychwanegol y gellir eu priodoli i'r polisi gofal personol di-dâl oddeutu £600 miliwn dros y pedair blynedd cyntaf.

Mae Bell et. al (2007)[30] wedi nodi bod cynnydd o 10% yn gyffredinol yn nifer y cleientiaid a oedd yn derbyn gofal yn y cartref gan awdurdodau lleol rhwng 2002 a 2005 ac, o'r rheini, fod cynnydd o 62% yn y nifer a oedd yn derbyn gofal personol. Maent yn dadlau ei bod yn debygol mai prif ffynhonnell y galw ychwanegol hwn am wasanaethau gofal personol yw galw a oedd heb ei ddiwallu o'r blaen: mae hyn yn awgrymu nad yw'r cynnydd yn ganlyniad i ffactorau eraill fel tueddiadau demograffig, cyfraddau anabledd uwch neu ostyngiadau yn lefel gofal anffurfiol. Mae'n bosibl bod rhywfaint o'r galw a oedd heb ei ddiwallu o'r blaen yn codi o bolisïau i leihau nifer y bobl hŷn sy'n aros mewn ysbytai.

Er mai ychydig o ymchwil a gafwyd i effaith gofal personol di-dâl ar ansawdd gofal personol, cafwyd rhywfaint o ymchwil sydd wedi dangos bod gofal personol di-dâl wedi effeithio ar fathau eraill o ofal. Yn benodol, mae'r cynnydd yn y cyflenwad o ofal personol wedi'i gysylltu â rhai arwyddion o welliant mewn gofal ysbytai[31] a gofal anffurfiol[32]. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod y ddarpariaeth o ofal heblaw gofal personol wedi lleihau oherwydd pwysau'r galw am ofal personol. At hynny, er na chafwyd gostyngiad yn nifer y bobl sy'n derbyn gofal personol nac yn oriau gofal personol, mae tystiolaeth yn dangos ei bod wedi cymryd mwy o amser i ddyrannu gofal i bobl ar ôl yr asesiad cychwynnol.

### 2.5.2 Barn rhanddeiliaid am ofal personol wedi'i ariannu'n llawn yng Nghymru

Barn gyffredin ymysg y rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw oedd mai'r sefyllfa ddelfrydol fyddai bod gofal cymdeithasol ar gael yn ddi-dâl wrth ei dderbyn, fel gwasanaethau gofal iechyd y GIG. Fodd bynnag, roedd cydnabyddiaeth hefyd y byddai hyn yn ddrud iawn a bod angen bod yn ymarferol o safbwynt ariannol.

Nodwyd y byddai gofal personol yn ganran fawr iawn o'r gwariant ar wasanaethau gofal cymdeithasol, er nad yw'r data am hyn yn cael eu casglu gan awdurdodau lleol gan nad oedd angen iddynt ddadgyfuno data fel hyn. Byddai budd yn dod i'r derbynwyr gofal hynny sy'n cyfrannu ar hyn o bryd at gost yr hyn y gellid ei ddynodi'n wasanaethau gofal personol, a dyma fyddai prif fantais yr opsiwn hwn, er nodi nad yw'r rheini sydd â'r lleiaf o fodd yn talu am ofal personol ar hyn o bryd o dan y broses asesu ariannol.

[30] Bell, D. N. F., Bowes, A. M., a Dawson, A. (2007). 'Free personal care in Scotland: Recent developments'. Adalwyd 09 Rhagfyr 2019, o https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/2075-scotland-care-older-people.pdf

[31] Wrth i welyau mewn ysbytai gael eu gadael drwy ryddhau rhai pobl hŷn i fynd i gartrefi gofal neu i'r gymuned gyda darpariaeth o ofal cartref.

[32] Am fod gofalwyr anffurfiol wedi troi oddi wrth ddarparu gofal personol ac at ddarparu mwy o ofal nad yw'n bersonol, fel newid o helpu i ymolchi a gwisgo dillad i ddarparu cefnogaeth emosiynol a chymdeithasol.

Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid at y profiad yn yr Alban, lle mae'r opsiwn hwn ar waith. Roeddent wedi nodi eu barn bod y galw am wasanaethau gofal wedi mynd yn fwy na'r cyflenwad, gan achosi oedi mawr wrth ddarparu gwasanaethau. Eu dehongliad o'r sefyllfa oedd bod gofal cymdeithasol yn cael ei ddogni yn yr Alban o ganlyniad i hyn, a bod effaith bosibl ar ansawdd gofal oherwydd hyn.

Cyfeiriodd rhanddeiliaid at nifer o anfanteision posibl i'r opsiwn hwn fel a ganlyn:

- Y posibilrwydd y bydd mwy o alw am wasanaethau gofal personol: roedd rhai awdurdodau lleol wedi profi cynnydd yn y galw o'r blaen yn dilyn cyflwyno'r cap wythnosol ar wasanaethau gofal dibreswyl. Er hynny, mae'n bosibl y byddai'r cynnydd blaenorol hwn yn y galw yn lleihau'r posibilrwydd o gynnydd pellach – efallai y bydd y cynnydd yn y galw yn llai na'r hyn a welwyd yn yr Alban pan gyflwynwyd gofal personol di-dâl.
- Y posibilrwydd o greu dibyniaeth ymysg defnyddwyr. Byddai gofal personol di-dâl yn gallu dylanwadu ar y broses asesu drwy hybu tuedd i asesu anghenion fel rhai am ofal personol, gan arwain at fwy o ddibyniaeth ymysg defnyddwyr ar wasanaethau gofal personol. Byddai hyn yn anghyson â pholisi Llywodraeth Cymru ar helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl.
- Gan y byddai asesu ariannol yn parhau ar gyfer gwasanaethau gofal nad yw'n bersonol, mae'n bosibl mai prin fyddai'r arbedion ar y costau gweinyddu (a'r costau i ddefnyddwyr) o gynnal asesiadau ariannol.
- Risg ariannol ychwanegol ddichonol i ddarparwyr gofal annibynnol os na fydd taliadau gan awdurdodau lleol am ofal personol di-dâl yn ddigon i gwrdd â chostau – gallai hyn beri i ddarparwyr gofal orfod chwilio am ffyrdd eraill i godi arian ychwanegol os nad oedd y taliadau gan awdurdodau lleol yn ddigon i dalu am gostau gofal personol (er mwyn aros yn ariannol hyfyw). Mae gwasanaethau a ddarperir gan awdurdodau lleol yn wynebu risg debyg mewn perthynas â thaliadau gan Lywodraeth Cymru.

### 2.5.3 Canlyniadau'r modelu a dehongli

#### Cost gofal personol a ariennir gartref

**Rhagdybiaethau a chyfyngiadau**

Mae'r opsiwn hwn wedi'i fodelu gan ragdybio bod gofal personol yn cael ei ariannu'n llawn ar gyfer unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal yn eu cartrefi. Nid oes terfyn ar nifer y gwasanaethau gofal personol a'r gwariant cysylltiedig o dan yr opsiwn hwn, ond mae'r holl wasanaethau'n mynd drwy asesiad anghenion gofal sy'n diffinio math a nifer y gwasanaethau a ddarperir.

Ym Mlwch 2 mae crynodeb o'r rhagdybiaethau a diffiniadau a ddefnyddiwyd wrth fodelu. Mae esboniad manwl ym Mlwch 3 yn Atodiad 3. Fel y nodwyd, mae'r modelu hwn yn neilltuol o anodd oherwydd diffyg gwybodaeth am ofal personol, y strwythur codi tâl sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd (asesiad ariannol ac uchafswm tâl wythnosol), diffyg

data micro i roi gwybodaeth fanwl am unigolion sy'n derbyn gofal, eu hamgylchiadau ariannol, gwasanaethau gofal a dderbyniwyd, taliadau a dderbyniwyd a'r gost am ddarparu'r gwasanaethau.

Er i ni gasglu gwybodaeth gryno gan awdurdodau lleol yng Nghymru am y meysydd hyn, roedd y data wedi'u casglu mewn celloedd crynodeb er mwyn galluogi ymatebwyr i ddarparu gwybodaeth. Hefyd, roedd rhai o'r awdurdodau lleol a ymatebodd heb allu i ddarparu'r wybodaeth oherwydd strwythur presennol eu systemau data. Yn ogystal â hyn, am fod y dull hwn o gasglu data yn anarferol ac yn gymhleth iawn, mae'n bosibl bod gwallau, anghysonderau neu fylchau mewn data wedi digwydd wrth adrodd.

**Blwch 2 Opsiwn 1 – Crynodeb o'r rhagdybiaethau a diffiniadau**

- Gosodwyd yr elfen gofal personol ar 80% o'r gost am wasanaethau gofal yn y cartref a thaliadau uniongyrchol. Byddai tâl yn cael ei godi am y 20% sy'n weddill fel y gwneir o dan y polisi presennol.
- Nid yw'r opsiwn hwn yn effeithio ar yr holl wasanaethau gofal dibreswyl eraill (a ddarperir y tu allan i gartref y derbynnydd gofal).
- Mae'r holl gostau'n cyfeirio at wariant net ychwanegol (gwariant gros llai refeniw gan ddefnyddwyr gwasanaethau) yr opsiwn o'i gymharu â'r sefyllfa yn y senario llinell sylfaen.
- Yn gyffredinol, ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau presennol mae'r gost net ychwanegol hon yn gyfwerth â'r refeniw o daliadau a gollwyd gan awdurdodau lleol, am na ellir codi tâl am y gwasanaethau bellach. Ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau newydd sy'n penderfynu derbyn gwasanaethau gofal yr awdurdod lleol o ganlyniad i'r polisi gofal personol wedi'i ariannu'n llawn, mae'r gost net ychwanegol yn gyfwerth â chost y gwasanaethau ychwanegol y mae'n rhaid eu darparu'n ddi-dâl gan awdurdodau lleol. Ar gyfer y ddau fath o ddefnyddiwr, rydym wedi pennu senarios cost 'uchel' ac 'isel'.
- Ar gyfer cleientiaid presennol yr awdurdodau lleol:
  - rhagdybiaeth yr amcangyfrif cost 'uchel' yw y bydd awdurdodau lleol yn colli'r cyfan o'u hincwm o daliadau gan gleientiaid am wasanaethau gofal personol a bod y gwasanaethau hyn yn rhoi 80% o'r holl incwm o daliadau am ofal yn y cartref a thaliadau uniongyrchol;
  - mae'r amcangyfrif cost 'isel' yn defnyddio modelu seiliedig ar gelloedd (yn defnyddio gwybodaeth gryno a ddarparwyd gan awdurdodau lleol) i geisio rhoi cyfrif am y strwythur codi tâl presennol (asesiad ariannol ac uchafswm tâl wythnosol).
- Ar gyfer unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain sy'n prynu gwasanaethau gofal yn y cartref yn breifat:

- ar sail y wybodaeth sydd ar gael[33] roeddem wedi rhagdybio yn y model fod 15% o gyfanswm yr oriau o ofal yn y cartref yn cael ei brynu'n breifat;
- wrth fodelu, roeddem wedi rhagdybio y byddai 70% o'r oriau o ofal yn y cartref a brynir yn breifat wedi'u hariannu'n llawn yn y senario cost 'uchel' a dim ond 50% yn y senario cost 'isel';
- Fel uchod, mae gwasanaethau gofal personol yn cyfrif am 80% o gyfanswm y costau gofal yn y cartref;

- Ar gyfer unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal anffurfiol ar hyn o bryd:
  - ar sail gwybodaeth o'r Arolwg o Adnoddau Teulu[34], mae tua 4.5% o'r boblogaeth o oedolion yng Nghymru yn derbyn rhyw fath o ofal anffurfiol;
  - i ddibenion y modelu, rydym wedi rhagdybio y bydd newid o 10% o ofal anffurfiol i ofal ffurfiol o ganlyniad i gyflwyno gofal personol a ariennir yn yr amcangyfrif cost 'uchel' a newid o 5% yn yr amcangyfrif cost 'isel' (a bod 80% o hynny'n ofal personol).
- Mae cryn ansicrwydd ynghylch yr holl amcangyfrifon a dylid eu dehongli fel ymgais i ddarparu amrediad tebygol o gostau. Yn benodol, mae ansicrwydd ynghylch:
  - nifer yr unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a nifer yr unigolion sy'n derbyn gofal anffurfiol a pha nifer a all fod yn barod i newid i ofal a chymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol;
  - y nifer a fyddai'n bodloni asesiad o anghenion a'r math o becyn gofal a fyddai'n cael ei gytuno (a'r gost gymharol).

**Yr effaith ar wariant cyfredol net**

Yn Nhabl 3 rydym yn dangos amcangyfrifon o'r gost am weithredu'r opsiwn yn 2021 (gyda rhywfaint o ddadansoddi o sensitifrwydd), ac yn Ffigur 7 rydym yn dangos y gwariant net llinell sylfaen ac amcangyfrif o'r gost ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn dros y cyfnod 2021-2035. Amcangyfrifwyd mai cost yr opsiwn yn 2021 yw tua £126 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'uchel' a £76 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'isel' ac y bydd yn codi i bron

33 Gofal Cymdeithasol Cymru. 'Care and support at home in Wales - Five-year strategic plan 2017-2022' ar gael yn https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/204-0217-SCW-ENG-5-year-strategic-plan-report_v11.pdf ac Arolygiaeth Gofal Cymru. 'Above and Beyond - National review of Domiciliary Care in Wales'. https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-03/161027aboveandbeyonden.pdf tudalen 16

34 Yn ôl data o'r Arolwg o Adnoddau Teulu (2015-2018), roedd tua 4.5% o'r boblogaeth o oedolion yng Nghymru yn derbyn rhyw fath o ofal anffurfiol (heb gynnwys y rheini sydd eisoes yn derbyn gofal ffurfiol a gofal anffurfiol) ac mae'r gyfran yn fwy o lawer (mwy na 10%) ar gyfer grwpiau oedran hŷn.

£182 miliwn erbyn 2035 yn yr amcangyfrif cost 'uchel' (a £110 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'isel').

Fel y dangosir yn y tabl a'r siartiau, mae amrywiad mawr yng nghyfanswm y costau ar sail y rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd. Hefyd, er bod terfyn uchaf ar gost yr opsiwn ar gyfer cleientiaid presennol a ariennir gan awdurdodau lleol (ar sail y taliadau a wneir), prin iawn yw'r wybodaeth sydd ar gael am gleientiaid sy'n talu am ofal yn breifat ac yn enwedig am y rheini sy'n derbyn gofal anffurfiol. Y rheswm dros y gost uchel iawn sy'n gysylltiedig â darparu gofal personol i'r grŵp olaf yw bod nifer mawr o unigolion yn derbyn gwasanaethau gofal anffurfiol (yn ôl Gofal Cymdeithasol Cymru, darparwyd 96% o ofal yn y cartref yn 2014/15 gan ofalwyr di-dâl[35]). Er nad oes tystiolaeth uniongyrchol am nifer y rheini sy'n derbyn gofal anffurfiol a all newid i dderbyn gofal ffurfiol, nodwyd mewn ymchwil yn yr Alban[36] fod cynnydd o 10% yn nifer yr holl gleientiaid a oedd yn derbyn gofal yn y cartref gan awdurdodau lleol ar ôl cyflwyno gofal personol di-dâl (rhwng 2002 a 2005).

[35] Gofal Cymdeithasol Cymru. 'Care and support at home in Wales - Five-year strategic plan 2017-2022' ar gael yn https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/204-0217-SCW-ENG-5-year-strategic-plan-report_v11.pdf

[36] Bell, D. N. F., Bowes, A. M., a Dawson, A. (2007). 'Free personal care in Scotland: Recent developments'. Adalwyd 09 Rhagfyr 2019, o https://www.jrf.org.uk/sites/default/files/jrf/migrated/files/2075-scotland-care-older-people.pdf

**Tabl 3 Opsiwn 1a: Y gost am ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn gartref (£ miliwn) – 2021**


| Categori | Cleientiaid presennol yr awdurdodau lleol | | Unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain | | Unigolion sy'n derbyn gofal anffurfiol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagdybiaeth** | **80% o gyfan-swm y costau** | **Model seiliedig ar gelloedd** | **70% o newid** | **50% o newid** | **10% o newid** | **5% o newid** |
| **Cost 18-64** | 9.3 | 6.7 | 3.2 | 2.3 | 29.7 | 14.8 |
| **Cost 65+** | 35.3 | 23.3 | 21.1 | 15.1 | 27.2 | 13.6 |
| **Cyfanswm** | 44.6 | 30.0 | 24.2 | 17.3 | 56.9 | 28.5 |

| | 18-64 | 65+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Cost gyffredinol (uchel)** | 42.2 | 83.6 | 125.8 |
| **Cost gyffredinol (isel)** | 23.8 | 52.0 | 75.8 |

Sylwer: Prisiau cyson a 2020 yn flwyddyn sylfaen. Cynnydd mewn gwariant cyfredol net

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau LE Wales**

**Ffigur 7** **Opsiwn 1a - Y gost am ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn gartref 2021-2035**




Sylwer: Mae'r blynyddoedd ariannol wedi'u cofnodi ar yr echelin X, a'r flwyddyn a ddangosir yn nodi dechrau'r flwyddyn ariannol (e.e. 2018 yn nodi 2018/19). Mae'r ffigurau yn y siart wedi'u mynegi mewn termau cyson gan gymryd prisiau 2020 yn llinell sylfaen. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwasanaethau gofal yn y cartref a thaliadau uniongyrchol. Mae'r rhan lwyd yn dangos amcanestyniadau'r blynyddoedd sy'n berthnasol i'r dadansoddiad (2021 i 2035).

**Ffynhonnell: Amcanestyniadau LE Wales**

## Cost gofal personol wedi'i ariannu mewn cartrefi gofal

Mae ail fodiwl Opsiwn 1 wedi'i seilio ar ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn mewn lleoliadau preswyl. I ddibenion y modelu'n unig, ac yn gyson â'r ffordd o weinyddu gofal personol di-dâl mewn cartrefi gofal yn yr Alban[37], rydym wedi rhagdybio y bydd y cyfraniad yn cael ei dalu ar ffurf taliad cyfradd safonol i ddarparwyr cartrefi gofal ar gyfer unigolion cymwys. Fel y nodwyd eisoes, wrth gyfeirio at 'gyfraniad gan yr awdurdod lleol' a 'chyfraniad gan y derbynnydd gofal', rydym yn cyfeirio at gyfran y gost a delir gan yr

[37] Yn yr Alban, gwneir y taliad yn uniongyrchol gan y cyngor i'r darparwr gofal preswyl (ar gyfer y rheini sy'n gymwys i gael gofal personol di-dâl ar ôl asesiad o anghenion), a'r gyfradd bresennol am ofal personol di-dâl yw £180 yr wythnos. Gweler https://careinfoscotland.scot/topics/care-homes/paying-care-home-fees/personal-and-nursing-care-in-care-homes/

awdurdod lleol a'r gyfran a adenillir oddi wrth y derbynnydd gofal (yn cael ei gasglu gan yr awdurdod lleol ac wedi'i seilio ar yr asesiad ariannol) yn y drefn honno.

Yn y dadansoddiad rydym wedi rhagdybio, i ddibenion modelu'n unig, y bydd y cyfraniad wythnosol hwn yn cael ei gyfeirio at unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain (nad ydynt yn cael unrhyw gyfraniad gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd) ac at gleientiaid presennol a ariennir gan yr awdurdod lleol sy'n talu'r rhan fwyaf o'u ffioedd (oherwydd lefel uchel eu hincwm) er mwyn sicrhau y bydd derbynwyr gofal yn y grŵp olaf (y rheini sy'n cael cyfraniad gan yr awdurdod lleol sy'n werth llai na'r cyfraniad y gellir ei hawlio am ofal personol wedi'i ariannu'n llawn) yn derbyn cyfraniad gan yr awdurdod lleol sydd mor uchel o leiaf â'r cyfraniad a roddir i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain. Fodd bynnag, dylid nodi bod ffyrdd posibl eraill i ddarparu gofal personol di-dâl i unigolion cymwys mewn cartrefi gofal (e.e. bod yr awdurdod lleol yn talu'r holl gostau am ofal personol yn hytrach na darparu cyfraniad ar gyfradd safonol) a bod y dull a ddisgrifiwyd yma wedi'i fabwysiadu ar gyfer modelu'n unig.

Yn Nhabl 4 isod, rydym yn darparu crynodeb o'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd i amcangyfrif nifer yr unigolion y byddai'r newid a gynigir yn effeithio arnynt.

Yn benodol, amcangyfrifwyd nifer yr unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain gan ddefnyddio gwybodaeth am y lleoedd sydd ar gael[38], cyfraddau meddiannu[39] a nifer y cleientiaid a ariennir gan awdurdodau lleol sydd mewn gofal preswyl (heb nyrsio). Yn achos gofal gyda nyrsio, amcangyfrifwyd nifer yr unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain drwy ddefnyddio gwybodaeth am nifer y cleientiaid sy'n derbyn Gofal Nyrsio a Ariennir (a ddarperir gan Fyrddau Iechyd Lleol[40]). Hefyd, mae o leiaf bedwar o'r awdurdodau lleol a ymatebodd yn arfer trefnu darpariaeth gofal i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain os gwneir cais (fel y byddant yn talu'r ffi lawn ar y gyfradd a negodwyd gan yr awdurdod lleol) ac roeddem wedi defnyddio'r wybodaeth honno i ddarparu terfyn isaf ar gyfer cyfran yr unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain (gan ei bod yn bosibl nad yw rhai ohonynt yn ymwneud â'r awdurdod lleol o gwbl). Defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd oddi wrth awdurdodau lleol hefyd i bennu cyfraddau gwahanol ar gyfer oedolion iau ac oedolion hŷn sy'n ariannu eu gofal eu hunain, gan fod cyfradd yr unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn y grŵp cyntaf yn isel iawn fel arfer (er nad oes ffigurau manwl ar gael, roedd y niferoedd

[38] Darparwyd gan Care Information Wales

[39] Yn ôl KnightFrank, cyfradd meddiannu o tua 90% https://www.knightfrank.co.uk/research/care-homes-trading-performance-review-2019-6698.aspx,. Casglwyd gwybodaeth debyg am gyfraddau meddiannu yn yr arolwg o awdurdodau lleol am gartrefi gofal a reolir yn uniongyrchol.

[40] Darparwyd y wybodaeth i Lywodraeth Cymru gan Fyrddau Iechyd Lleol a threfnwyd i'r wybodaeth fod ar gael ar gyfer y modelu hwn. Yn ôl yr amcangyfrif a ddarparwyd, yn 2017/18 roedd 5,076 o unigolion yn derbyn Gofal Nyrsio a Ariennir: roedd 3,498 yn derbyn cyllid gan awdurdod lleol ac roedd 1,578 yn ariannu eu gofal eu hunain. Adroddwyd bod y ffigurau ar gyfer 2018/19 yn weddol debyg.

a adroddwyd gan awdurdodau lleol yn isel iawn). Ar sail niferoedd a gasglwyd oddi wrth awdurdodau lleol, roeddem hefyd wedi amcangyfrif nifer y cleientiaid sy'n talu cyfran fawr o'u ffioedd ar hyn o bryd (a fyddai'n cael eu heffeithio gan yr opsiwn sydd wedi'i fodelu yn y dadansoddiad).

Yn ogystal â hyn, roeddem wedi casglu gwybodaeth oddi wrth awdurdodau lleol am gostau gofal fel canran o gyfanswm y costau am ofal preswyl (h.y. heb gynnwys costau byw a llety etc.). Roedd y ganran oddeutu 44% am ofal preswyl heb nyrsio ac ychydig yn uwch (47%) am ofal preswyl gyda nyrsio. Roeddem wedi rhagdybio wedyn fod modd dynodi **80%** o'r costau hyn yn **gostau gofal personol** ac wedi defnyddio cyfradd gyffredin ar gyfer y ddau fath o ofal (sef £210, yr amcangyfrif o'r gyfradd am ofal preswyl heb nyrsio). Casglwyd gwybodaeth drwy'r arolwg o awdurdodau lleol Cymru am ganran y preswylwyr cartrefi gofal yr oedd yr awdurdod lleol yn 'cyfrannu' llai na £100 neu £150 ar eu cyfer (gweler Tabl 4): roedd yn isel iawn ar gyfer oedolion iau ac yn amrywio rhwng 1.5% a 3% ar gyfer oedolion hŷn.

Yn yr Alban, talwyd yr elfen gofal personol di-dâl ar gyfradd o £177 yr wythnos yn ystod 2019/20 (mae wedi cynyddu i £180 o Ebrill 2020). Er mwyn dangos yr effaith bosibl o amrywio'r cyfraniad cyfradd safonol ar gostau cyffredinol, rydym hefyd yn darparu'r gost sy'n gysylltiedig â gosod yr un gyfradd yng Nghymru[41], a fyddai'n golygu gosod yr elfen gofal personol ar oddeutu 67% o werth y gydran gofal mewn costau gofal preswyl (o'i gymharu â'r 80% a ddefnyddiwyd o'r blaen).

[41] Cafodd cyfradd 2019/20 ei huwchraddio bob blwyddyn gan ddefnyddio'r cynnydd disgwyliedig mewn costau uned enwol am ofal preswyl o 4.3%

**Tabl 4 Rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer cost gofal personol a ariennir mewn lleoliadau preswyl**

| Categori | Gofal preswyl heb nyrsio | | | Gofal preswyl gyda nyrsio | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 18-64* | 65+ | Cyfan-swm | 18-64* | 65+ | Cyfan-swm |
| Unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain (%) | 2% | 31.2% | 28.1% | 2% | 31% | 30% |
| Amcangyfrif o'r unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain gan 4 awdurdod lleol (%) – canolrif | | | 23.3% | | | 21.6% |
| Nifer goblygedig yr unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn 19/20 (ar adeg benodol) – wedi'i dalgrynnu | 30 | 3660 | 3690 | <10 | 1570 | 1575 |
| % y cleientiaid awdurdod lleol lle mae cyfraniad net yr awdurdod lleol yn llai na £100** | 0.07% | 2.3% | | 0.01% | 1.5% | |
| % y cleientiaid awdurdod lleol lle mae cyfraniad net yr awdurdod lleol yn llai na £150** | 0.22% | 3.2% | | 0.01% | 1.8% | |

| | | |
|---|---|---|
| Ffi ganolrifol (19/20)*** | £595 | £627**** |
| % y costau cyffredinol y gellir ei phriodoli i'r gydran gofal | 44.2% | 47.1% |
| Cyfraniad wythnosol am yr elfen gofal personol (80% o'r gydran gofal) - uchel | £210 | £236 (£210 wedi'i ddefnyddio i ddibenion modelu) |
| Cost yr elfen gofal personol yn yr Alban yn 2019/20 - isel***** | £177 | £177 |

Sylwer: * Ein rhagdybiaethau ni ar sail ymatebion gan awdurdodau lleol; ** Heb gynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain. Cyfartaledd y canrannau a adroddwyd gan yr awdurdodau lleol a ymatebodd; *** Er bod y gost am ddarparu gwasanaethau yn uwch fel arfer ar gyfer y categori 18-64 oed, mae hyn i'w briodoli'n bennaf i dderbynwyr gofal ag anableddau dysgu a phecynnau gofal ad hoc (sydd eisoes wedi'u hariannu gan yr awdurdod lleol). Rydym wedi rhagdybio cyfradd safonol ar gyfer unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain ar gyfer y ddau fand oedran; **** Heb gynnwys cyfraniadau gan fyrddau iechyd lleol; ***** Yn cyfateb i tua 67% o'r gydran gofal gyffredinol ar gyfer gofal preswyl heb nyrsio a 60% o'r gydran gofal gyffredinol ar gyfer gofal preswyl gyda nyrsio.

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau LE Wales ar sail gwybodaeth a gafwyd gan AGC, KnightFrank, Llywodraeth Cymru (oddi wrth Fyrddau Iechyd Lleol) a'r arolwg o awdurdodau lleol**

Yn Nhabl 5 isod rydym yn dangos yr amcangyfrif o'r gost ychwanegol yn 2021 am weithredu'r opsiwn (yn amrywio rhwng £55 miliwn a £66 miliwn), ac yn Ffigur 8 rydym yn dangos amcanestyniadau llinell sylfaen a chostau ychwanegol dros y cyfnod 2021-2035, gyda chostau ychwanegol o tua £109 miliwn yn 2035 yn yr amcangyfrifon cost 'uchel' o'u cymharu â £91 miliwn yn y senario cost 'isel'. Mae'r costau'n deillio o'r grŵp oedran hŷn yn bennaf ac yn adlewyrchu'r nifer bach iawn o unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn y rhagdybiaethau ar gyfer modelu.


**Tabl 5 Opsiwn 1b: Cost gofal personol a ariennir mewn lleoliadau preswyl (£ miliwn)**

| Band oedran: | 18-64* | 65+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Cost gyffredinol (uchel) yn 2021*** | 0.4 | 65.5 | 65.9 |
| **Cost gyffredinol (isel) yn 2021**** | 0.3 | 55.0 | 55.3 |

Sylwer: Prisiau cyson 2020. *Yn seiliedig ar £229 yr wythnos yn 2021 (wedi'i uwchraddio o werth 2019/20 i adlewyrchu cynnydd disgwyliedig mewn costau uned); ** Yn seiliedig ar £193 yr wythnos yn 2021 (wedi'i uwchraddio o werth 2019/20 i adlewyrchu cynnydd disgwyliedig mewn costau uned). Mae'r costau'n cynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a chydran fach o gleientiaid awdurdodau lleol sydd ag incwm uchel ond asedau sydd o dan y terfyn cyfalaf. Gwariant cyfredol net.

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau LE Wales**

**Ffigur 8 Opsiwn 1b – Y gost am ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn mewn lleoliadau preswyl 2021-2035**




Sylwer: Mae'r blynyddoedd ariannol wedi'u cofnodi ar yr echelin X, a'r flwyddyn a ddangosir yn nodi dechrau'r flwyddyn ariannol (e.e. 2018 yn nodi 2018/19). Mae'r ffigurau yn y siart wedi'u mynegi mewn termau cyson gan gymryd prisiau 2020 yn llinell sylfaen.

Mae'r rhan lwyd yn dangos amcanestyniadau'r blynyddoedd sy'n berthnasol i'r dadansoddiad (2021 i 2035).

**Ffynhonnell: Amcanestyniadau LE Wales**

### 2.5.4 Crynodeb o Opsiwn 1: yr effaith o ofal personol wedi'i ariannu'n llawn

Yn olaf, rydym wedi cyfuno'r amcangyfrifon am ofal personol a ariennir a gaiff ei ddarparu gartref ac mewn lleoliadau gofal preswyl ac rydym yn dangos yr amcangyfrifon cyfunol am yr opsiwn yn Nhabl 6 (blwyddyn gweithredu gyntaf) a Ffigur 9 (cyfnod 2021-2035). Fel y nodwyd eisoes, mae'r amcangyfrifon hyn wedi'u seilio ar gyfres o ragdybiaethau a chafeatau. Hefyd, rydym wedi cyfuno'r amcangyfrif 'uchel' am ofal personol a ddarperir gartref a'r amcangyfrif 'uchel' am ofal a ddarperir mewn lleoliadau gofal preswyl. Fodd bynnag, dylid nodi nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng y ffactorau sy'n cyfrannu i'r amcangyfrifon ar gyfer y gwahanol fathau o ofal .

Ein hamcangyfrif yw bod cyfanswm y gost am ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn yn dod o fewn amrediad rhwng £131 miliwn a £192 miliwn ym mlwyddyn gyntaf yr amcanestyniadau (2021), ac yn cynyddu i amrediad rhwng £202 miliwn a £291 miliwn erbyn diwedd y cyfnod dan sylw (2035).


**Tabl 6 Crynodeb o Opsiwn 1: Cost gofal personol a ariennir - 2021 (£ miliwn)**

| Band oedran: | 18-64* | 65+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Gwariant net llinell sylfaen yn 2021** | 305.3 | 597.8 | 903.1 |
| **Cost Opsiwn 1 yn 2021 - uchel** | 42.6 | 149.1 | 191.7 |
| **Cost Opsiwn 1 yn 2021 - isel** | 24.1 | 107.0 | 131.1 |

Sylwer: Prisiau cyson 2020. Cynnydd mewn gwariant cyfredol net.

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau LE Wales**

**Ffigur 9** **Opsiwn 1 – Crynodeb o'r gost am ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn mewn lleoliadau preswyl 2021-2035**




Sylwer: Mae'r blynyddoedd ariannol wedi'u cofnodi ar yr echelin X, a'r flwyddyn a ddangosir yn nodi dechrau'r flwyddyn ariannol (e.e. 2018 yn nodi 2018/19). Mae'r ffigurau yn y siart wedi'u mynegi mewn termau cyson gan gymryd prisiau 2020 yn llinell sylfaen. Mae'r rhan lwyd yn dangos amcanestyniadau'r blynyddoedd sy'n berthnasol i'r dadansoddiad (2021 i 2035).

**Ffynhonnell: Amcanestyniadau LE Wales**

### 2.5.5 Opsiwn 1: yr effaith ar les a blaengarwch

**Lles**

Mae Opsiwn 1a (darparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn gartref) yn effeithio ar dri chategori o dderbynwyr gofal:

- cleientiaid presennol yr awdurdodau lleol;
- y rheini sy'n prynu gwasanaethau gofal yn y cartref yn breifat;
- y rheini sy'n derbyn gofal anffurfiol ar hyn o bryd.

Ar gyfer y ddau gategori cyntaf, bydd effaith lesol ar dderbynwyr gofal a'u teuluoedd am fod mwy o adnoddau ar gael iddynt ond nid ydym yn rhag-weld y bydd unrhyw effaith uniongyrchol ychwanegol ar les gan na fydd newid yn y pecyn gofal i gleientiaid presennol. Rydym yn rhag-weld mai'r hyn a wnaiff unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain ar hyn o bryd yw derbyn gofal personol a drefnir gan yr awdurdod lleol yn lle trefniadau uniongyrchol.

Yn achos y rheini sy'n derbyn gofal anffurfiol ar hyn o bryd yn ogystal â'u teuluoedd, bydd effaith lesol hefyd am fod mwy o adnoddau ar gael iddynt. Rydym hefyd yn rhag-weld y

bydd buddion ychwanegol i les derbynwyr gofal a'u gofalwyr anffurfiol: er enghraifft, byddai'r rheini sy'n derbyn gofal yn gallu elwa (fel yr adroddwyd am y profiad yn yr Alban) os bydd gofalwyr anffurfiol sy'n darparu gofal personol ar hyn o bryd yn gallu darparu mathau eraill o gymorth ychwanegol, fel cefnogaeth emosiynol neu gymdeithasol. Bydd gofalwyr anffurfiol yn gallu elwa hefyd o lwyth gwaith ysgafnach wrth ofalu ac o ryngweithio cadarnhaol â gweithwyr gofal.

Mae Opsiwn 1b yn cynnwys darparu gofal wedi'i ariannu'n llawn i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain ar hyn o bryd mewn lleoliadau gofal preswyl. Bydd yr unigolion hyn a'u teuluoedd yn elwa am fod mwy o adnoddau ar gael iddynt, ond nid ydym yn rhag-weld unrhyw effaith uniongyrchol ychwanegol ar les gan na fydd newid yn y gofal y maent yn ei gael.

**Blaengarwch**

Opsiwn 1a: Rydym yn darparu dadansoddiad manwl o'r effaith ddosbarthiadol ar gyfer cleientiaid presennol yr awdurdodau lleol sy'n derbyn gwasanaethau gofal dibreswyl yn adran 2.9.1. Yn fyr, mae bron 40% o'r cleientiaid presennol eisoes yn derbyn gwasanaethau heb godi tâl arnynt ac felly ni fyddant yn gweld newid. Ar yr un pryd, y categorïau o gleientiaid a fydd yn elwa fwyaf yw'r rheini sydd ar hyn o bryd yn talu rhwng £50 a £90 a rhwng £90 a £150 am eu gwasanaethau gofal. Mae mwy na 80% yn y grŵp olaf hwn yn derbyn incwm wythnosol rhwng £200 a £400 (ond yn dal asedau sydd o dan y trothwy £24,000) neu'n dal asedau sy'n fwy na'r trothwy o £24,000.

Opsiwn 1b: Ni fydd yr opsiwn hwn ond yn effeithio ar y rheini sydd ag asedau sy'n uwch na'r terfyn cyfalaf (£50,000) ac, fel y modelu yn y dadansoddiad, ar y rheini sydd ag asedau o dan y trothwy ond sydd ag incwm wythnosol uchel (tua £400 neu fwy). Ni fyddai'r diwygiad hwn yn effeithio ar yr holl gleientiaid presennol eraill (sydd â llai o asedau ac incwm) a gynorthwyir gan awdurdodau lleol sy'n derbyn gofal preswyl .

## 2.6 Opsiwn 2: Gofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn

Yn yr adran hon, rydym yn dangos y canlyniadau o'r modelu ar gyfer lleihau'r effaith o godi tâl am ofal cymdeithasol drwy ddarparu gofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn yng Nghymru. Yn wahanol i Opsiwn 1, rydym yn rhoi ein holl sylw nawr i wasanaethau a thaliadau gofal dibreswyl (heb gynnwys gofal preswyl o unrhyw fath), ond hefyd yn cynnwys yr holl wasanaethau gofal dibreswyl eraill sydd heb eu cynnwys yn Opsiwn 1 (Llety â chymorth a llety arall, Gofal dydd, Cyfarpar ac addasiadau, Prydau bwyd a Gwasanaethau eraill i bobl hŷn).

Wrth fodelu'r rhagdybiaeth hon (a'r holl ragdybiaethau eraill), rydym wedi rhagdybio na fydd newid yn yr asesiad presennol o anghenion, fel na fydd yn bosibl i dderbynwyr gofal 'ddewis' rhwng derbyn gofal mewn lleoliad preswyl (gan dalu swm hyd at y ffi lawn gan unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain) a derbyn gofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn gartref. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'n bosibl y bydd derbynwyr gofal a'u perthnasau'n pwyso am ddarparu gofal a ariennir gartref yn lle talu mewn lleoliadau gofal preswyl (yn yr achosion llai difrifol o leiaf).

### 2.6.1 Barn rhanddeiliaid am ofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn

Dywedodd un rhanddeiliad ei fod yn gallu gweld llawer mwy o fanteision yn yr opsiwn hwn nag mewn gofal personol wedi'i ariannu'n llawn, gan y byddai baich gweinyddol yr asesiadau ariannol (a chymhlethdod yr asesiadau i dderbynwyr gofal) yn diflannu drwy ddewis yr opsiwn hwn ar gyfer y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau dibreswyl.

Fodd bynnag, roedd mwyafrif y rhanddeiliaid yn llai cadarnhaol. Roedd hyn yn ganlyniad yn rhannol i'r dewis o opsiynau ar gyfer y gweithlu (a drafodir yn y bennod nesaf) a oedd yn cael eu ffafrio'n gyffredinol ac yn ganlyniad hefyd i'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ar draul defnyddwyr gwasanaethau: bod pobl a allai elwa'n fwy o dderbyn gofal preswyl yn derbyn gofal cartref yn y diwedd am ei fod yn cael ei ariannu'n llawn. Cyfeiriwyd at achosion lle'r oedd penderfyniadau wedi'u gwneud ar gam fel hyn yn y gorffennol pan oedd costau gofal dibreswyl yn cael eu capio a theuluoedd a oedd yn talu am becynnau gofal annibynnol wedi newid i becyn gofal yr awdurdod lleol a oedd wedi'i gapio.

### 2.6.2 Canlyniadau'r modelu a dehongli

Mae'r model yn dadgyfuno'r gost am weithredu'r polisi rhwng gofal personol a gofal nad yw'n bersonol. Mae'r gost am ddarparu gofal personol a ariennir wedi'i dal yn sefydlog yn Opsiwn 2 ac mae'n cyfateb i'r gost a gyfrifwyd o dan yr amcangyfrif 'uchel' ar gyfer Opsiwn 1 (yn cynnwys 80% o'r incwm cyfan o ffioedd a thaliadau am wasanaethau gofal yn y cartref, ynghyd â'r gost am ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn gartref i 70% o'r unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a'r gost am ddarparu gofal ffurfiol i 10% o'r rheini sy'n derbyn gofal anffurfiol yn unig ar hyn o bryd).

Ar gyfer gwasanaethau eraill, rydym wedi rhagdybio y bydd yr holl incwm oddi wrth gleientiaid yn dod yn ddim wrth i daliadau gael eu dileu (yn cynnwys y 20% sy'n weddill o wasanaethau gofal yn y cartref). Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth am unrhyw alw ychwanegol am wasanaethau eraill, h.y. a fyddai unigolion nad ydynt yn derbyn gwasanaethau gofal yr awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn gallu cynyddu'r galw am wasanaethau nad ydynt yn wasanaethau gofal yn y cartref ac a fyddent yn bodloni'r asesiad o anghenion. Felly, yn yr amcangyfrif sydd wedi'i alw'n 'isel', rydym wedi rhagdybio nad oes galw ychwanegol a fyddai'n cael ei ateb o dan yr opsiwn hwn am wasanaethau gofal nad ydynt yn bersonol.

Er mwyn cynnwys rhywfaint o sensitifrwydd yn yr amcangyfrifon, yn yr amcangyfrif 'uchel' rydym wedi rhagdybio y bydd hanner y cynnydd cyfrannol yn yr amcangyfrif ar gyfer gofal personol, am fod unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a derbynwyr gofal anffurfiol yn newid i ofal ffurfiol, yn cael ei weld mewn gwasanaethau gofal dibreswyl eraill. Nid yw'r rhagdybiaeth hon wedi'i seilio ar unrhyw dystiolaeth uniongyrchol sydd ar gael ac mae wedi'i darparu ar gyfer dadansoddi'n unig.

### 2.6.3 Crynodeb: yr effaith o ofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn

Mae Tabl 7 yn dangos amcangyfrif o'r gost yn 2021 am Opsiwn 2 wedi'i rannu yn ôl oed ac yn ôl y math o wasanaeth gofal dibreswyl (gofal personol a'r holl wasanaethau gofal dibreswyl eraill). Yr amcangyfrif o'r gost gyffredinol am weithredu Opsiwn 2 yn 2021 yw tua £63 miliwn ar gyfer oedolion iau o dan y senario cost 'isel' a £99 miliwn o dan y senario cost 'uchel'. Ar gyfer oedolion hŷn, roedd yr amcangyfrif o'r gost am weithredu Opsiwn 2 yn dod rhwng £105 miliwn ('isel') a £119 miliwn ('uchel') yn 2021.

Yn Ffigur 10 rydym yn dangos sut mae cyfanswm y gost sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2 yn datblygu dros amser (wedi'i ddadgyfuno yn ôl band oedran). Ein hamcangyfrif yw y bydd Opsiwn 2, erbyn 2035, yn costio £74 miliwn ychwanegol ar gyfer oedolion iau yn y senario cost isel a £118 miliwn yn y senario cost uchel (ar sail prisiau 2020), tra bydd y gost ychwanegol o weithredu Opsiwn 2 ar gyfer oedolion hŷn yn codi i £165 miliwn yn y senario cost isel a £188 miliwn yn y senario cost uchel.


**Tabl 7 Opsiwn 2: Cost gofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn yn 2021 (£ miliwn)**

| Band oedran: | 18-64 | 65+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **Cost Opsiwn 2 yn 2021 – gwasanaethau gofal personol ('uchel'/'isel')** | 42.2 | 83.6 | 125.8 |
| **Cost Opsiwn 2 yn 2021 – gwasanaethau gofal nad ydynt yn bersonol – 'uchel'** | 57.2 | 35.2 | 92.4 |
| **Cost Opsiwn 2 yn 2021 – gwasanaethau gofal nad ydynt yn bersonol – 'isel'** | 20.7 | 20.9 | 41.6 |
| **Cyfanswm cost Opsiwn 2 o dan y senario 'uchel'** | 99.3 | 118.8 | 218.1 |
| **Cyfanswm cost Opsiwn 2 o dan y senario 'isel'** | 62.9 | 104.5 | 167.4 |

Sylwer: Prisiau cyson 2020. Cynnydd mewn gwariant cyfredol net.

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau LE Wales**

**Ffigur 10 Opsiwn 2 – Crynodeb o'r gost am ddarparu gofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn 2021-2035**




Sylwer: Mae'r blynyddoedd ariannol wedi'u cofnodi ar yr echelin X, a'r flwyddyn a ddangosir yn nodi dechrau'r flwyddyn ariannol (e.e. 2018 yn nodi 2018/19). Mae'r ffigurau yn y siart wedi'u mynegi mewn termau cyson gan gymryd prisiau 2020 yn llinell sylfaen. Mae'r rhan lwyd yn dangos amcanestyniadau'r blynyddoedd sy'n berthnasol i'r dadansoddiad (2021 i 2035).

**Ffynhonnell: Amcanestyniadau LE Wales**

Unwaith eto, dylid nodi bod yr amcangyfrifon a ddangosir yma ar gyfer Opsiwn 2 o dan y senario cost 'uchel' yn cael eu darparu i ddangos amrediad posibl y costau sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2 ond nad ydynt wedi'u seilio ar dystiolaeth wirioneddol am y galw dichonol (gan unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain neu dderbynwyr gofal anffurfiol) am ddarparu gwasanaethau gofal nad ydynt yn bersonol.

### 2.6.4 Opsiwn 2: yr effaith ar les a blaengarwch

**Lles**

Mae'r ystyriaethau a amlinellwyd ar gyfer yr effeithiau ar les o Opsiwn 1 yn gymwys hefyd yn gyffredinol i Opsiwn 2. Bydd y rheini sy'n derbyn gwasanaethau gofal dibreswyl wedi'u hariannu'n llawn a'u teuluoedd yn elwa am fod mwy o adnoddau ar gael iddynt ond nid ydym yn rhag-weld y bydd unrhyw effaith uniongyrchol ychwanegol ar les gan na fydd newid yn y gofal y maent yn ei gael, ac eithrio yn achos y rheini sy'n derbyn gofal anffurfiol a'u

gofalwyr anffurfiol. Mae’n bosibl y bydd y derbynwyr gofal hyn yn elwa (fel yr adroddwyd am y profiad yn yr Alban) os bydd gofalwyr anffurfiol sy’n darparu gofal personol ar hyn o bryd yn gallu darparu mathau eraill o gymorth ychwanegol, fel cefnogaeth emosiynol a chymdeithasol. Gall gofalwyr anffurfiol elwa hefyd o ganlyniad i leihau eu llwyth gwaith gofal ac o ryngweithio cadarnhaol â gweithwyr gofal.

**Blaengarwch**

Os bydd yr holl wasanaethau gofal dibreswyl yn cael eu darparu’n ddi-dâl, bydd y budd mwyaf yn dod i ran y rheini sy’n talu’r uchafswm tâl wythnosol (£100) ar hyn o bryd – fel arfer bydd ganddynt asedau sy’n uwch na’r trothwy o £24,000 neu incwm wythnosol o fwy na £200 (gweler Tabl 10).

Ni fydd effaith gan mwyaf ar y rheini sydd ag incwm is (llai na £200 yr wythnos) ac nad ydynt yn cyfrannu dim neu nemor ddim ar hyn o bryd at eu costau gofal. Er hynny, mae rhai taliadau ar gyfradd safonol (e.e. am brydau bwyd) a fyddai’n cael eu dileu, a byddai hyn yn dod â budd i’r holl gleientiaid sy’n derbyn y gwasanaeth (beth bynnag fo’u hincwm). Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd ar wefan StatsCymru, roedd o leiaf 14,880 o oedolion yn derbyn gwasanaethau o’r fath yn ystod 2018/19 er nad yw eu nodweddion yn hysbys[42].

## 2.7 Opsiwn 3: Cyfraniad wythnosol penodedig at gostau gofal preswyl unigolion sy’n ariannu eu gofal eu hunain

Mae’r trydydd opsiwn a fodelwyd yn golygu gwneud cyfraniad wythnosol penodedig at gostau gofal preswyl ar gyfer unigolion sy’n ariannu eu gofal eu hunain (a dim newid i dderbynwyr gofal sy’n derbyn gwasanaethau gofal dibreswyl). Modelwyd yr opsiwn mewn ffordd debyg i Opsiwn 1b (gofal personol a ariennir mewn lleoliadau gofal preswyl), ond roedd y cyfraniad wythnosol wedi’i osod yn yr amrediad rhwng £100 a £150, yn is na’r ffigurau a amcangyfrifwyd ar gyfer y cyfraniad at ofal personol.

### 2.7.1 Barn rhanddeiliaid am gyfraniad wythnosol penodedig at gostau gofal preswyl

Hwn oedd yr opsiwn a ffafriwyd leiaf ar gyfer taliadau defnyddwyr ymysg rhanddeiliaid yn gyffredinol, er bod cydnabyddiaeth y byddai’r cyhoedd yn debygol o weld yr opsiwn yn un deniadol. Gan fod prawf modd yn cael ei ddefnyddio eisoes i ddiogelu’r rhai lleiaf cefnog, roedd rhanddeiliaid yn ei chael yn anodd gweld manteision yr opsiwn hwn at ei gilydd, heblaw am yr arbedion amlwg i unigolion sy’n derbyn gofal. Dywedodd un rhanddeiliad iddo fod yn arfer ers blynyddoedd lawer fod defnyddwyr yn talu am wasanaethau gofal preswyl

[42] Gweler data a gyhoeddwyd ar wefan StatsCymru (https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Service-Provision/adultschargedforcareandsupport-by-localauthority-measure)

ac, felly, nad oedd yn gweld bod angen rhoi sylw i'w mater hwn, ar yr amod bod y gwasanaethau'n fforddiadwy.

Anfanteision penodol a nodwyd gan randdeiliaid oedd:

- Byddai defnyddwyr sy'n gallu fforddio talu holl gostau gofal preswyl yn cael cymhorthdal heb fod angen.
- Byddai lleihau'r cyfraniad ariannol gan unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn gallu cymell mwy o bobl i fynd i fyw i gartrefi gofal yn hytrach nag aros yn eu cartrefi eu hunain. Byddai hyn yn groes i bolisi presennol Llywodraeth Cymru o helpu pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain mor hir â phosibl, gan ddefnyddio gwasanaethau gofal cartref[43].

### 2.7.2 Canlyniadau'r modelu a dehongli

Aseswyd yr effaith o chwe lefel wahanol o gyfraniad drwy ddefnyddio'r model, rhwng £100 a £150 (gyda newid o £10 rhwng pob lefel). Mae'r amcangyfrifon yn cynnwys y gost o ddarparu cyfraniad wythnosol penodedig i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a'r gost o ddarparu cyfraniad ychwanegol i'r cleientiaid hynny a ariennir gan awdurdodau lleol mewn lleoliadau preswyl sydd ag incwm uchel ond lefel o asedau o dan y terfyn cyfalaf sy'n peri bod yr awdurdod ar hyn o bryd yn ysgwyddo gwariant net sy'n llai na'r cyfraniad wythnosol (gan fod y rhan fwyaf o'r ffi a delir yn cael ei hadennill oddi wrth y preswylydd cartref gofal). Gwnaed yr addasiad hwn i ddibenion modelu er mwyn sicrhau bod lefel y cyllid a gaiff preswylwyr cartrefi gofal a ariennir gan yr awdurdod lleol ar yr un lefel o leiaf â'r cyfraniad a roddir i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain.

Mae'r holl ragdybiaethau eraill yn cyfateb i'r rheini a ddefnyddiwyd wrth fodelu Opsiwn 1b ac maent wedi'u hamlinellu yn Nhabl 4.

### 2.7.3 Crynodeb: yr effaith o gyfraniad wythnosol penodedig at gostau gofal preswyl

Yn Nhabl 8 rydym yn dangos amcangyfrifon o'r costau am ddarparu cyfraniad wythnosol penodedig i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn gofal preswyl yn 2021. Mae cyfanswm y costau yn 2021 yn amrywio rhwng £31 miliwn (am gyfraniad wythnosol o £100) a £47 miliwn (am gyfraniad wythnosol o £150). Dylid nodi mai'r ffigurau cyfatebol ar gyfer Opsiwn 1b (a fodelwyd ar sail rhagdybiaeth am gyfraniad wythnosol o £177 a £210 ac a ddangosir yn Nhabl 5) oedd £55 miliwn a £66 miliwn yn yr un drefn.

---

[43] Er hynny, dylid nodi na fyddai cyfraniad o gymaint â £150 ond yn ddigon i dalu tua chwarter y ffioedd canolrifol am ofal preswyl a bod uchafswm tâl wythnosol o £100 ar hyn o bryd am wasanaethau gofal dibreswyl (sy'n awgrymu y gallai unrhyw gymhelliad ariannol i ffafrio gofal preswyl fod yn fach iawn). Hefyd cynhelir asesiad o anghenion bob amser cyn darparu gwasanaethau gofal (er mwyn pennu'r math o ofal sy'n fwyaf addas).

**Tabl 8 Opsiwn 3: Y gost am ddarparu cyfraniad wythnosol penodedig at gostau gofal preswyl yn 2021 (£ miliwn)**


| Cyfraniad wythnosol | 18-64 | 65+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **£100** | 0.2 | 30.7 | 30.8 |
| **£110** | 0.2 | 33.9 | 34.1 |
| **£120** | 0.2 | 37.0 | 37.3 |
| **£130** | 0.2 | 40.2 | 40.5 |
| **£140** | 0.3 | 43.4 | 43.7 |
| **£150** | 0.3 | 46.6 | 46.9 |

Sylwer: Prisiau cyson 2020. Mae'r costau'n cynnwys unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a chydran fach o gleientiaid awdurdodau lleol sydd ag incwm uchel ond lefel o asedau o dan y terfyn cyfalaf. Cynnydd mewn gwariant cyfredol net.

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau LE Wales**

Yn olaf, yn Ffigur 11 rydym yn dangos sut mae gwariant net yn datblygu dros amser o dan Opsiwn 3, gan gymharu'r amcanestyniadau llinell sylfaen (dim newid), amcangyfrif 'isel' ar sail £100 yr wythnos, ac amcangyfrif 'uchel' ar sail £150 yr wythnos. Mae'r gost ychwanegol yn fach iawn ar gyfer y grŵp oedran iau (oherwydd yr amcangyfrif isel iawn a ragdybiwyd ar gyfer unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn gofal preswyl yn y grŵp hwn), ond yn amrywio rhwng £51 miliwn yn y senario cost 'isel' a £77 miliwn yn y senario cost 'uchel' yn 2035.

**Ffigur 11 Opsiwn 3 – Crynodeb o'r gost am ddarparu cyfraniad wythnosol penodedig mewn lleoliadau gofal preswyl 2021-2035**




Sylwer: Mae'r blynyddoedd ariannol wedi'u cofnodi ar yr echelin X, a'r flwyddyn a ddangosir yn nodi dechrau'r flwyddyn ariannol (e.e. 2018 yn nodi 2018/19). Mae'r ffigurau yn y siart wedi'u mynegi mewn termau cyson gan gymryd prisiau 2020 yn llinell sylfaen. Mae'r rhan lwyd yn dangos amcanestyniadau'r blynyddoedd sy'n berthnasol i'r dadansoddiad (2021 i 2035).'Uchel' – cyfraniad wythnosol o £150, 'Isel' – cyfraniad wythnosol o £100. Ar gyfer y grŵp 18-64 oed, prin iawn yw nifer yr unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain, felly ychydig o amrywiad a geir rhwng yr opsiynau 'uchel' ac 'isel' a'r llinell sylfaen. Nid yw'r amrywiad bach iawn yn ymddangos ar y graff ar y graddfeydd hyn.

**Ffynhonnell: Amcanestyniadau LE Wales**

### 2.7.4 Opsiwn 3: yr effaith ar les a blaengarwch

**Lles**

Fel y dangoswyd eisoes ar gyfer Opsiwn 1b, bydd unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn gofal preswyl, a'u teuluoedd, yn cael budd am fod mwy o adnoddau ar gael iddynt ond nid ydym yn rhag-weld y bydd unrhyw effaith uniongyrchol ychwanegol ar les gan na fydd newid yn y gofal y maent yn ei gael.

**Blaengarwch**

Y derbynwyr gofal a fyddai'n elwa o'r opsiwn hwn yw'r rheini sydd ag asedau o fwy na £50,000 ac (fel y modelwyd yn y dadansoddiad) y nifer bach o gleientiaid presennol yr awdurdodau lleol sydd â lefel o asedau sy'n is na'r trothwy ond incwm uchel (mwy na £400

yr wythnos). Ni fyddai'r opsiwn a gynigiwyd yn effeithio ar gleientiaid presennol eraill yr awdurdodau lleol.

## 2.8 Crynodeb o'r effeithiau

Yn yr adran olaf hon, rydym yn crynhoi'r amcangyfrifon o effaith y tri opsiwn a fodelwyd. Er mwyn cymharu'n uniongyrchol rhwng y gwahanol opsiynau, rydym yn dangos amcangyfrif o gost pob opsiwn yn 2021 a'r Gwerth Presennol Net ar gyfer y cyfnod 2021-2035[44] (yr holl ffigurau wedi'u mynegi ym mhrisiau 2020). Mae amcangyfrifon yr holl opsiynau wedi'u dadgyfuno ar sail bandiau oedran. Dylid ystyried yr holl gafeatau a chyfyngiadau a nodwyd yn yr adrannau blaenorol wrth asesu'r canlyniadau.

Gwerth Presennol Net cyfunol Opsiwn 1 (darparu gofal personol a ariennir) ar gyfer y cyfnod 2021-2035 yw tua £2,690 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'uchel' a thua £1,860 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'isel'. Ar gyfer Opsiwn 2 (darparu gofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn) y GPN cyfunol yw tua £2,940 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'uchel' a £2,280 miliwn yn yr amcangyfrif cost 'isel'. Yn olaf, ar gyfer Opsiwn 3 (cyfraniad wythnosol penodedig i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn lleoliadau gofal preswyl) mae'r GPN yn amrywio rhwng oddeutu £690 miliwn ('uchel') a £450 miliwn ('isel').

[44] Cyfrifwyd y GPN gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5%.

**Tabl 9 Crynodeb o gostau'r opsiynau ar gyfer taliadau defnyddwyr (£ miliwn)**

| Opsiynau: | 1a | | 1b | | 1 cyfan-swm | | 2 | | 3 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Uchel | Isel | Uchel | Isel | Uchel | Isel | Uchel | Isel | Uchel | Isel |
| **18-64** | | | | | | | | | | |
| **Cost yn 2021** | 42 | 24 | 0.4 | 0.3 | 43 | 24 | 99 | 63 | 0.3 | 0.2 |
| **GPN 2021-2035** | 530 | 299 | 4.9 | 4.0 | 535 | 303 | 1248 | 789 | 3.4 | 2.2 |
| **65+** | | | | | | | | | | |
| **Cost yn 2021** | 84 | 52 | 65 | 55 | 149 | 107 | 119 | 105 | 47 | 31 |
| **GPN 2021-2035** | 1,192 | 741 | 966 | 812 | 2,159 | 1,553 | 1,694 | 1,490 | 688 | 453 |
| **Cyfanswm** | | | | | | | | | | |
| **Cost yn 2021** | 126 | 76 | 66 | 55 | 192 | 131 | 218 | 167 | 47 | 31 |
| **GPN 2021-2035** | 1,722 | 1,040 | 971 | 816 | 2,693 | 1,856 | 2,942 | 2,280 | 691 | 455 |

Sylwer: Prisiau cyson 2020 (£ miliwn). Cyfrifwyd y GPN dros y cyfnod 2021-2035 gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5%. Cynnydd mewn gwariant cyfredol net.

Opsiwn 1a: darparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn gartref (gofal dibreswyl). Ar gyfer cleientiaid presennol yr awdurdodau lleol mae'r amcangyfrif cost 'uchel' wedi'i seilio ar ragdybiaeth na fydd 80% o gyfanswm y taliadau gan gleientiaid (am wasanaethau gofal yn y cartref yn cynnwys taliadau uniongyrchol) yn cael ei gasglu bellach, tra bo'r amcangyfrif cost 'isel' wedi'i wneud gan ddefnyddio model seiliedig ar gelloedd (gan gymryd bod 80% o wasanaethau gofal yn y cartref, yn cynnwys taliadau uniongyrchol, yn gydran gofal personol). Mae'r amcangyfrif cost 'uchel' wedi'i seilio hefyd ar y rhagdybiaeth y bydd newid o 70% o ofal a brynir yn breifat i ddarpariaeth gyhoeddus a newid o 10% o ofal anffurfiol i ddarpariaeth gyhoeddus. Mae'r amcangyfrif cost 'isel' hefyd wedi'i seilio ar ragdybiaeth y bydd newid o 50% o ofal a brynir yn breifat i ddarpariaeth gyhoeddus a newid o 5% o ofal anffurfiol i ddarpariaeth gyhoeddus;

Opsiwn 1b: darparu gofal personol a ariennir mewn cartrefi gofal preswyl (cyfraniad wythnosol penodedig o £210 ('uchel') neu £177 ('isel'));

Opsiwn 1 - cyfanswm: cyfuniad o Opsiynau 1a ac 1b;

Opsiwn 2: darparu gwasanaethau gofal dibreswyl wedi'u hariannu'n llawn. Ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref (yn cynnwys taliadau uniongyrchol) roeddem wedi defnyddio'r rhagdybiaethau a fabwysiadwyd yn Opsiwn 1a ar gyfer yr amcangyfrif cost 'uchel'. Ar gyfer yr holl wasanaethau gofal dibreswyl 'eraill', mae'r amcangyfrif cost 'isel' wedi'i seilio ar ragdybiaeth na fydd newid o ofal preifat neu anffurfiol i ddarpariaeth gyhoeddus, tra bo'r amcangyfrif cost 'uchel' wedi'i seilio ar ragdybiaeth y bydd y cynnydd cyfrannol o 50% a welir mewn gwasanaethau gofal personol o ganlyniad i ddarparu gofal preifat ac anffurfiol yn cael ei weld hefyd mewn gwasanaethau gofal dibreswyl 'eraill';

Opsiwn 3: darparu cyfraniad wythnosol penodedig i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn cartrefi gofal preswyl (£150 ('uchel') neu £100 ('isel')).
**Ffynhonnell: Cyfrifiadau LE Wales**

## 2.9 Rhagor o wybodaeth am yr effaith ddosbarthiadol ar dderbynwyr gofal

Yn yr adran hon, rydym yn cyflwyno gwybodaeth am broffiliau'r derbynwyr gofal y byddai'r opsiynau a gynigir yn effeithio arnynt. Casglwyd rhywfaint o wybodaeth am asedau ac incwm derbynwyr gofal oddi wrth awdurdodau lleol (ar gyfer cleientiaid presennol), ac ar gyfer unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain defnyddiwyd gwybodaeth o'r Arolwg o Adnoddau Teulu i'r graddau mwyaf posibl.

Yn benodol, rydym yn edrych ar wahân ar y grwpiau a fyddai'n profi effaith o'r diwygio a gynigir yn y ddarpariaeth gofal preswyl a dibreswyl o dan Opsiwn 1.

### 2.9.1 Yr effaith o ofal personol wedi'i ariannu'n llawn ar dderbynwyr gofal dibreswyl

**Cleientiaid presennol a ariennir gan awdurdodau lleol**

Yn rhan o'r arolwg, roeddem wedi gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru ddarparu disgrifiad byr o nodweddion cleientiaid a ariennir gan awdurdodau lleol sy'n derbyn gwasanaethau gofal dibreswyl[45] ac am eu dadgyfuno ar sail bandiau tâl wythnosol.

Yn y tabl isod, rydym yn dangos y data a gasglwyd oddi wrth 10[46] o'r awdurdodau lleol a ymatebodd a oedd yn gallu darparu gwybodaeth wedi'i dadgyfuno am nodweddion derbynwyr gofal ac effaith y newid a fodelwyd o dan Opsiwn 1 ('isel') ar sail bandiau tâl. Yn ôl y data a gofnodwyd gan awdurdodau lleol, mae bron 40% o'r rheini sy'n derbyn gwasanaethau gofal dibreswyl eisoes yn eu cael heb dalu cyfraniad at eu cost ac ni fyddent yn gweld unrhyw newid. Y grwpiau a fyddai'n profi'r effaith fwyaf yw'r rheini sy'n talu rhwng

[45] Y rhan o'r asesiad ariannol sy'n ymwneud â gwasanaethau (heb gynnwys y rheini y codir tâl amdanynt ar gyfradd safonol)

[46] Roedd awdurdodau lleol wedi wynebu heriau mawr wrth gasglu data am daliadau felly roedd nifer ohonynt wedi ymateb drwy ddweud nad oeddent yn gallu darparu ffigurau manwl. Mae'r 10 awdurdod lleol a ymatebodd yn cynrychioli tua 40% o'r holl wasanaethau gofal cartref a ddarparwyd yng Nghymru yn ystod 2018/19, ond mae'n glir na allwn ddweud a yw'r darlun yn yr awdurdodau lleol hyn yn adlewyrchiad cywir o'r dosbarthiad ledled Cymru. Yn ogystal â hynny, oherwydd natur gymhleth y cais am ddata, roedd rhai o'r setiau yn anghyflawn ac mae'n bosibl bod gwallau cofnodi (er bod y data wedi'u dilysu a'u haddasu os oedd modd).

£50 a £89.99 ar hyn o bryd a'r rheini y codir taliadau tybiannol arnynt[47] sydd rhwng £90 a £149.99 (byddai 84% o'r arbedion yn dod i ran y grwpiau hyn o dan yr opsiwn a fodelwyd). O ran y grŵp y codir taliadau tybiannol arnynt o fwy na £150, mae'r arbedion yn gymharol fach gan y byddai nifer mawr o dderbynwyr gofal yn y grŵp hwn yn parhau i dalu mwy na'r uchafswm tâl wythnosol hyd yn oed os oedd gofal personol wedi'i ariannu'n llawn.

Wrth edrych ar nodweddion y derbynwyr gofal ym mhob grŵp, gwelir bod cyfran fawr o gleientiaid 18 i 64 oed yn y band dim tâl, felly byddai'r grŵp o oedolion iau'n arbed llai ar gyfartaledd nag oedolion hŷn. Mae cyfran y benywod yn eithaf tebyg rhwng y gwahanol fandiau tâl, ac eithrio band y taliadau tybiannol uchaf, ac mae hyn yn awgrymu y byddai arbedion yn cael eu rhannu'n weddol gyfartal rhwng y rhywiau.

Gyda golwg ar asedau ac incwm y derbynwyr gofal mewn gwahanol fandiau tâl, mae tua 17% o gleientiaid sydd ag asedau (a ystyrir yn yr asesiad ariannol) sy'n werth mwy na £24,000[48], y rhan fwyaf ohonynt yn y band tâl tybiannol £90-£149.99 (yr un sy'n cael arbedion cymharol fawr), lle mae 30% o gleientiaid sydd ag asedau sy'n werth mwy na £24,000 a'r band tâl tybiannol £150+ (lle mae tua 60% sydd ag asedau sy'n werth mwy na £24,000). Yn achos y rheini sydd ag asedau sy'n werth hyd at £24,000 (yn yr holl fandiau tâl), dim ond cyfran fach ohonynt sydd ag incwm wythnosol uchel (o fwy na £400), tra bo'r gweddill wedi'u rhannu'n gyfartal bron rhwng y ddau fand incwm (hyd at £200 yr wythnos a £200-£400 yr wythnos).

Mae'r holl amcangyfrifon wedi'u seilio ar wybodaeth gryno a ddarparwyd gan 10 awdurdod lleol (nid oedd yr holl awdurdodau a ymatebodd yn gallu cyflwyno'r wybodaeth ar gyfer y tabl perthnasol) ac ar yr opsiwn a fodelwyd a dylid eu hystyried yn arwydd o nodweddion y grwpiau ac o effeithiau dichonol yr opsiwn, yn hytrach nag amcangyfrif manwl.

[47] Taliadau tybiannol yw'r taliadau y byddai cleientiaid yn eu hysgwyddo os nad oedd uchafswm tâl wythnosol.

[48] Mae hyn yn cynnwys hefyd y cleientiaid a benderfynodd beidio â datgelu eu sefyllfa ariannol (fel arfer am fod ganddynt asedau sy'n werth mwy na £24,000 ac y byddent yn ysgwyddo'r tâl llawn hyd at yr uchafswm tâl wythnosol).

**Tabl 10 Yr effaith ddosbarthiadol o ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'nllawn gartref**

| Band tâl wythnosol | % y cleientiaid ym mhob grŵp | Yr effaith ar bob grŵp fel % o'r cyfanswm | % y rhai 18-64 oed | % y benywod | Asedau hyd at £24,000 Incwm wythnosol** £0-£200 | £200-£400 | £400+ | Asedau o fwy na 24,000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **£0** | 39.4% | - | 47.7% | 52.1% | 61% | 38% | 1% | 0% |
| **£0.01 - £49.99** | 23.6% | 10.1% | 27.0% | 54.8% | 33% | 45% | 2% | 20% |
| **£50 - £89.99** | 14.0% | 33.6% | 13.4% | 51.3% | 37% | 42% | 3% | 17% |
| **£90-£99.99*** | 2.5% | 2.6% | 27.4% | 50.8% | 19% | 48% | 4% | 30% |
| **£100-£149.99*** | 12.7% | 48.0% | 27.4% | 50.8% | 19% | 48% | 4% | 30% |
| **£150+*** | 7.9% | 5.7% | 28.5% | 35.2% | 13% | 19% | 9% | 59% |
| **Cyfanswm** | 100% | 100% | 34.7% | 51.4% | 41% | 40% | 3% | 17% |

Sylwer: Gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad ariannol yn unig. Casglwyd y wybodaeth drwy wneud ceisiadau ad hoc am ddata i awdurdodau lleol yng Nghymru a gallant gynnwys gwallau cofnodi (er bod y canlyniadau wedi'u haddasu i sicrhau cysondeb mewnol).

* Band tâl tybiannol lle nad oes uchafswm tâl wythnosol. Casglwyd gwybodaeth am y band tâl tybiannol £90-£149.99 cyfan a dosrannwyd y gyfran o gleientiaid ym mhob grŵp gan ragdybio y byddai cyfran gyfartal o gleientiaid ym mhob band £10. Rhagdybiwyd bod nodweddion y defnyddwyr yr un fath yn y ddau grŵp; ** Fel arfer cesglir gwybodaeth am incwm dim ond ar gyfer y rheini sydd ag asedau sy'n werth llai na'r trothwy o £24,000. Nid yw awdurdodau lleol yn casglu gwybodaeth am incwm y rheini sydd ag asedau gwerth mwy na £24,000 fel arfer neu gall cleientiaid benderfynu peidio â llenwi'r ffurflen asesu ariannol.

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau LE Wales wedi'u seilio ar arolwg o awdurdodau lleol Cymru (10 o awdurdodau a ymatebodd i'r cwestiynau perthnasol)**

**Yr effaith ar unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn gofal preswyl**

Nesaf rydym yn cyflwyno amcangyfrifon o'r effaith ddichonol o ddarparu gofal personol a ariennir ar unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn lleoliadau preswyl. Drwy ddiffiniad, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn gofal preswyl yw'r rheini sydd ag asedau gwerth mwy na £50,000 (yn cynnwys asedau tai) neu sydd ag incwm uchel iawn. O dan y ddeddfwriaeth bresennol[49], os yw unigolion yn derbyn Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl (elfen gofal) neu'r Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) (elfen byw bob dydd) ac yn symud i fyw'n barhaol mewn cartref gofal, bydd y taliadau hynny'n dod i ben ar ôl pedair wythnos ar y mwyaf os yw'r unigolyn yn derbyn cymorth ariannol gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn gymwys hefyd i unigolion sy'n derbyn gofal personol di-dâl mewn lleoliadau gofal preswyl yn yr Alban[50].[51] Felly, wrth fodelu'r effaith o gyflwyno gofal personol di-dâl ar

[49]Fel y nodwyd yn nhroednodyn 41 yn nhaflen wybodaeth 10w Age Cymru 'Paying for a permanent care home placement in Wales' (a gyhoeddwyd ym Mehefin 2020): 'The Social Security (Attendance Allowance and Disability Living Allowance) (amendment) Regulations 2007 clarify when you are considered to be resident in a care home and, therefore, after four weeks not entitled to payment of AA/DLA (care component). For PIP, the Welfare Reform Act 2012 clarifies when you are considered to be resident in a care home and The Social Security (Personal Independence Payment) Regulations 2013 state that you cannot be paid PIP (daily living component) after four weeks. You will be considered to be resident in a care home when any of the costs of any qualifying services (accommodation, board and personal care) provided for you are paid out of public or local funds under specified legislation. 'Qualifying services' do not include services such as domiciliary services, including personal care, provided to you in your own private home. The Regulations clarify the days that count as being resident in a care home for the purpose of AA/DLA (care component) or PIP (daily living component) entitlement. If you go into a care home from the community, the days you enter and leave are counted as days in the community and the day of transfer between a care home and a hospital or similar institution (or vice versa) is treated as a day in a care home.' Gweler https://www.ageuk.org.uk/globalassets/age-cymru/documents/information-guides-and-factsheets/fs10w.pdf.

[50] 'If you receive the personal care contribution towards your care home fees, you'll no longer be eligible for Attendance Allowance after 28 days.' https://careinfoscotland.scot/topics/care-homes/paying-care-home-fees/personal-and-nursing-care-in-care-homes/

[51] Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyfrifo'r gost am ddigolledu preswylwyr hŷn mewn cartrefi gofal am dynnu'n ôl y Lwfans Gweini ers mis Gorffennaf 2002 (pan gyflwynwyd Gofal Personol Di-dâl). Yr amcangyfrif o'r gost am y cyfnod 2002-2019 (Medi) yw tua £618 miliwn gan ddefnyddio cyfradd uwch berthnasol y Lwfans Gweini (yn cynyddu i £750 miliwn os defnyddir cyfradd Lwfans Gweini 2019/20). Yn y flwyddyn lawn ddiweddaraf y mae data ar gael ar ei chyfer (2018/19), yr amcangyfrif o'r gost flynyddol yw £46 miliwn (gan ddefnyddio cyfradd 2019/20) i ddigolledu tua 10,200 o breswylwyr hŷn mewn cartrefi gofal. Gweler y Datganiad Ystadegol Cyntaf am 'Free Personal Care and Attendance Allowance' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban yn Hydref 2019 ac sydd ar gael yn

gyfer unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain yng Nghymru ar hyn o bryd, rydym wedi rhagdybio y bydd holl fudd-daliadau perthnasol DWP yn cael eu tynnu'n ôl.

Gwaetha'r modd, nid oes gwybodaeth am nifer yr unigolion sy'n derbyn budd-daliadau anabledd mewn lleoliadau preswyl felly, er mwyn darparu amcangyfrif am yr effaith net o gyflwyno'r opsiynau a fodelwyd ar unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain (gan ystyried bod budd-daliadau anabledd yn cael eu tynnu'n ôl) rydym wedi defnyddio gwybodaeth o'r Arolwg o Adnoddau Teulu am unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal yn y cartref gan awdurdodau lleol a'r rheini sydd â thri neu ragor o fathau o gyflwr neu salwch[52]. Cymhwyswyd dosbarthiad y budd-daliadau anabledd ar gyfer y grŵp hwn at y grŵp o unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn gofal preswyl er mwyn amcangyfrif yr effaith net o gyflwyno gofal personol di-dâl yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae'r dull a ddefnyddiwyd yn awgrymu bod tua 87% o'r unigolion 18-64 oed sy'n ariannu eu gofal eu hunain (grŵp bach iawn) yn derbyn rhyw fath o fudd-dal anabledd (un neu ddwy o elfennau'r Lwfans Byw i'r Anabl ac un neu ddwy o elfennau PIP) a bod tua 73% o'r unigolion 65 oed a hŷn sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn derbyn y Lwfans Gweini neu'r Lwfans Byw i'r Anabl. Bydd y rheini nad ydynt yn derbyn budd-dal anabledd cyn gweithredu'r opsiwn yn cael holl werth yr elfen gofal personol di-dâl (gan nad ydynt yn derbyn budd-dal anabledd a gaiff ei dynnu'n ôl); ar gyfer y rheini sy'n derbyn rhyw fath o fudd-dal anabledd, yr amcangyfrif o'r effaith net oedd gwerth yr elfen gofal personol di-dâl llai gwerth y budd-dal anabledd, gan fod rhagdybiaeth y bydd y budd-dal hwnnw'n cael ei dynnu'n ôl wedi i'r unigolyn ddechrau derbyn gofal personol di-dâl[53].

At ei gilydd, yr amcangyfrif yw y bydd y grŵp o unigolion 18-64 oed sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn rhai sydd ar eu hennill o £133 yr wythnos ar gyfartaledd o gael taliad wythnosol o £210, ac o £100 os bydd taliad wythnosol o £177. Ein hamcangyfrif yw y bydd unigolion yn y grŵp oedran hŷn yn £146 yr wythnos ar eu hennill ar gyfartaledd o gael taliad wythnosol o £210 a £113 o gael taliad wythnosol o £177 (yr holl werthoedd ym mhrisiau 2019/20). Yn ôl yr amcangyfrif, mae'r grŵp o unigolion 18-64 oed sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn fach iawn, felly bydd y rhan fwyaf o'r buddion yn dod i'r grŵp oedran hŷn o dan yr opsiwn a gynigiwyd.

---

https://www2.gov.scot/Topics/Statistics/Browse/Health/Data/FPNC/FreePersonalCareandAttendanceAllowance .

[52] Roeddem wedi defnyddio data o'r Arolwg o Adnoddau Teulu rhwng 2015 a 2018 ac wedi edrych ar ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru ac yn Lloegr (heb gynnwys rhanbarth Llundain) sydd â 2 gyflwr neu salwch neu ragor ac sy'n derbyn help a ddarperir gan 'Local Authority home help or home care worker'.

[53] Roeddem wedi rhagdybio bod y Lwfans Gweini, y Lwfans Byw i'r Anabl (elfen gofal) a PIP (elfen byw bob dydd) yn cael eu talu ar y gyfradd uwch. Cafwyd y cyfraddau cyfredol o'r ffynonellau hyn: Lwfans Byw i'r Anabl https://www.gov.uk/disability-living-allowance-children/rates; PIP https://www.gov.uk/pip/what-youll-get; Lwfans Gweini https://www.gov.uk/attendance-allowance/what-youll-get

Gan mai 119 wythnos[54] yw'r cyfnod cyfartalog y mae oedolion (65 oed a hŷn) yn derbyn cymorth mewn cartrefi gofal preswyl, a bod budd-daliadau'n cael eu tynnu'n ôl o fewn pedair wythnos ar ôl derbyn cymorth gan awdurdod lleol, rhagwelir y bydd unigolion hŷn sy'n ariannu eu gofal eu hunain yn arbed rhwng £17,700 (o gael taliad wythnosol o £210) a £13,700 (o gael taliad wythnosol o £177) ar gyfartaledd yn ystod eu hoes. Fel y nodwyd, nid yw'r amcangyfrifon hyn wedi'u seilio'n uniongyrchol ar wybodaeth am unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain (gan nad yw'r wybodaeth hon ar gael ar hyn o bryd) ac mae'n bosibl nad ydynt yn adlewyrchu dosbarthiad y budd-daliadau anabledd yn y grŵp unigolion hwnnw.

**Tabl 11 Darparu gofal personol a ariennir i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain: rhagdybiaethau ac amcangyfrifon**

| Math o fudd-dal* | % | Cyfradd wythnosol** | Arbedion net o dan Opsiwn 1 'uchel' £210 yr wythnos | Arbedion net o dan Opsiwn 2 'isel' £177 yr wythnos |
|---|---|---|---|---|
| | | **18-64** | | |
| 18-64 Lwfans Byw i'r Anabl – elfen gofal | 64% | £87.65 | £122.4 | £89.4 |
| 18-64 PIP elfen byw bob dydd | 24% | £87.65 | £122.4 | £89.4 |
| Dim budd-dal y gellir ei dynnu'n ôl | 13% | - | £210.0 | £177.0 |
| **Arbedion cyfartalog** | | | **£133** | **£100** |
| | | **65+** | | |
| 65+ Lwfans Byw i'r Anabl – elfen gofal | 27% | £87.65 | £122.4 | £89.4 |
| 65+ Lwfans Gweini | 46% | £87.65 | £122.4 | £89.4 |
| Dim budd-dal y gellir ei dynnu'n ôl | 27% | - | £210.0 | £177.0 |
| **Arbedion cyfartalog** | | | **£146** | **£113** |

Sylwer: * Yn seiliedig ar ffigurau ymatebwyr i'r Arolwg o Adnoddau Teulu yng Nghymru sydd â dau neu ragor o fathau o anabledd ac yn derbyn gwasanaethau gofal dibreswyl gan awdurdodau lleol; ** Yn seiliedig ar y gyfradd uwch ar gyfer pob math o fudd-dal.

**Ffynhonnell: Cyfrifiadau LE Wales ar sail ffigurau'r Arolwg o Adnoddau Teulu a chyfraddau budd-daliadau**

[54] Gweler PM21 yn https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Performance-Measures/quantitativesocialservicesperformanceadults-by-measures

# 3 Effaith opsiynau polisi ar gyfer y gweithlu

Mae effaith y gwahanol opsiynau polisi ar gyfer y gweithlu wedi cael ei modelu gan ddefnyddio model pwrpasol o'r gweithlu. Mae'r model hwn yn mewnbynnu'r cyflogau a gafodd gweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol oedolion (gofal preswyl a gofal cartref) ac yn allbynnu amcanestyniad o'r gweithlu dros amser. Yr opsiynau polisi ar gyfer y gweithlu yw:

- cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at lefel y cyflog byw gwirioneddol;
- cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG; a
- chynyddu cyflogau gweithwyr gofal yn y sector annibynnol at gyfraddau tâl Awdurdodau Lleol; a
- chynyddu cyflogau gweithwyr gofal i gwrdd â chyfraddau tâl a thelerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG.

Yn yr adran isod, rydym yn disgrifio sut mae'r model yn gweithio ac yn rhoi crynodeb byr wedyn o'r opsiynau polisi ar gyfer y gweithlu.

## 3.1 Dull modelu, prif fewnbynnau, a rhagdybiaethau

Mae'r model ar gyfer y gweithlu yn rhoi tri amcanestyniad am ganlyniadau dichonol i newidiadau yng nghyflogau gweithwyr gofal[55]:

- newidiadau yn nifer y gweithwyr;
- newidiadau yn ansawdd y gofal;
- newidiadau mewn costau.

Ar sail y canlyniadau hyn, mae'r modelu wedi'i rannu'n ddwy brif elfen:

1) Model y gweithlu: mae hwn yn modelu'r perthnasoedd rhwng newidiadau mewn tâl ac amodau, newidiadau o ran recriwtio/cadw staff a newidiadau mewn costau. Ar sail a dystiolaeth sydd ar gael, er ei bod yn gyfyngedig, mae gwelliannau mewn tâl ac amodau yn arwain at welliannau o ran recriwtio a chadw staff ac at gynnydd yng nghostau tâl.
2) Model ansawdd gofal: mae hwn yn modelu'r berthynas rhwng newidiadau mewn tâl ac amodau a newidiadau yn ansawdd y gofal. Ar sail y dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael, mae cynnydd yn y cyflog yr awr i weithwyr gofal yn lleihau cyfran y sefydliadau y mae angen eu gwella.

[55] Dylid nodi, mewn cysylltiad â chyflogau, fod gwahaniaeth rhwng rolau swyddi a bandiau tâl enwol sydd wedi'u pennu gan Fforwm Gofal Cymru. Nid yw rolau swyddi a bandiau tâl enwol yn cyfateb yn union i'w gilydd o reidrwydd. Mae rhagor o fanylion am hyn yn adran 3.1.2.

Mae'r ddwy elfen modelu a'r mewnbynnau data a rhagdybiaethau sylfaenol yn cael eu trafod yn fanwl isod yn adrannau 3.1.1 (ar gyfer model y gweithlu) a 3.1.5 (ar gyfer model ansawdd y gofal).

Mae model y gweithlu a model ansawdd y gofal yn ymwneud â gofal preswyl a gofal cartref i oedolion yn unig. Nid yw'r modelu'n ymwneud â gwasanaethau gofal eraill sy'n cynnwys gofal plant, gwasanaethau gofal dydd a gofal cymunedol. Hefyd, mae model y gweithlu a model ansawdd y gofal wedi'u seilio ar bedair rôl swydd a bennwyd mewn data a gafwyd oddi wrth Gofal Cymdeithasol Cymru, sef:

- Rheolwyr;
- Dirprwy reolwyr;
- Uwch-weithwyr gofal;
- Gweithwyr gofal.

Dylid nodi bod strwythurau swyddi yn gallu amrywio'n sylweddol rhwng sefydliadau. Mewn rhai sefydliadau, gellir cael rolau swyddi rhwng gweithwyr gofal neu uwch-weithwyr gofal a dirprwy reolwyr neu reolwyr. Mae'r bobl sydd yn y rolau swyddi hyn wedi'u cynnwys yn y data a gasglwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru, ond nid ydynt wedi'u dangos o dan rôl swydd ar wahân – maent yn cael eu dyrannu i un o'r pedwar categori uchod. Nid yw rolau swyddi eraill – yn cynnwys, ymysg eraill, gweithwyr cymdeithasol, staff nyrsio (yn cynnwys staff nyrsio mewn lleoliadau gofal preswyl) a gofalwyr maeth – wedi cael eu cynnwys yn y modelu.

Yn olaf, dylid nodi mai'r prif fewnbwn ar gyfer model y gweithlu a model ansawdd y gofal yw'r cyflogau sylfaenol ar gyfer pob rôl swydd. I ddibenion modelu, mae buddion gwaith ychwanegol, fel tâl am gysgu i mewn ac ad-dalu am amser teithio, wedi'u cynnwys yn y model fel argostau ar ben y cyflog sylfaenol. Ar gyfer yr amcanestyniadau llinell sylfaen a'r rhan fwyaf o'r opsiynau polisi, mae'r argostau hyn wedi'u gosod ar oddeutu 30% o'r tâl sylfaenol[56]. Yn Opsiwn 4d, sy'n modelu gwelliant mewn telerau ac amodau, mae'r argostau hyn wedi'u haddasu i roi cyfrif am wahanol delerau ac amodau. Mae rhagor o fanylion am hyn yn adran 3.7.


### 3.1.1 Modelu'r gweithlu

Mae model y gweithlu yn rhoi amcanestyniad o nifer y gweithwyr ar gyfer pob un o'r pedair rôl swydd ganlynol: rheolwr, dirprwy reolwr, uwch-weithiwr gofal a gweithiwr gofal. Mae'n gwahaniaethu rhwng achosion gofal preswyl ac achosion gofal cartref, a hefyd rhwng gofal

[56] Wedi'i seilio ar gyfrifiadau gan Gymdeithas Gofal Cartref y DU: https://www.ukhca.co.uk/downloads.aspx?ID=434. Mae argostau'n cynnwys pensiwn ac Yswiriant Gwladol, tâl gwyliau, cost yn gysylltiedig ag amser hyfforddi, tâl salwch, tâl yn lle rhybudd ac atal, ac ad-dalu costau milltiredd.

y sector annibynnol a gofal a ddarperir gan awdurdodau lleol.[57] Mae'r diagram isod yn dangos strwythur sylfaenol y model.

**Ffigur 12 Diagram model y gweithlu**




Sylwer: Bydd newidiadau mewn cyflogau blynyddol yn effeithio ar y niferoedd sy'n ymuno a gadael ond, i ddibenion modelu, mae'r effeithiau wedi'u mewnbynnu drwy niferoedd y rhai sy'n gadael. Yr un yw'r effaith ar nifer y gweithwyr ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r sail resymegol wedi'i hegluro'n fwy manwl isod.

**Ffynhonnell: LE Wales**

Yn fyr, ar gyfer pob rôl swydd, mae'r model yn cymryd nifer y gweithwyr yn y rôl swydd honno ar ddechrau'r flwyddyn. Wedyn mae'n adio'r nifer sy'n ymuno ac yn tynnu'r nifer sy'n gadael – drwy ymddeol ac fel arall – i gyfrifo nifer y gweithwyr ar ddiwedd y flwyddyn. Yna mae'r model yn cyfrifo nifer cyfartalog y gweithwyr ym mhob blwyddyn ac yn lluosi hyn â'u cyflog blynyddol cyfartalog.[58] Mae hyn yn darparu'r gwariant sy'n gysylltiedig â phob rôl swydd ar gyfer blwyddyn benodol. Mae nifer y gweithwyr ar ddiwedd y flwyddyn yn cyfateb wedyn i nifer y gweithwyr ar ddechrau'r flwyddyn ddilynol a chymhwysir yr un broses (sydd wedi'i dangos yn y diagram) i fodelu cyfansoddiad y gweithlu (ar gyfer pob rôl) hyd at 2035. Wedyn rhoddir cyfanswm y gwariant blynyddol ar ofal cymdeithasol gan swm y gwariant ar y pedair rôl swydd, mewn gofal preswyl a gofal cartref, ac yn y sector annibynnol a sector gofal yr awdurdodau lleol.

---

[57] Felly, mae'r model yn cynhyrchu pedwar cyfuniad o'r math o ofal (gofal preswyl neu ofal cartref) a ffynhonnell y gofal (sector annibynnol neu sector awdurdodau lleol).

[58] Mae'r model yn trosi rhwng y cyflog blynyddol a'r cyflog yr awr yn ôl y ffactor 37 x (365/7). Mae cyflogau'n cael eu huwchraddio'n bellach oddeutu 30% i gynrychioli argostau ar gyfer yr amcanestyniadau o wariant fel yr amlinellwyd cynt.

Cafwyd niferoedd cychwynnol y gweithwyr a niferoedd y rhai a oedd wedi ymuno a gadael ar gyfer pob rôl swydd gan Gofal Cymdeithasol Cymru[59]. Mae'n adrodd ar gyfanswm nifer y gweithwyr yn y sectorau gofal cymdeithasol, yn ogystal â niferoedd y gweithwyr mewn is-sectorau (fel gofal preswyl) ac ym mhob rôl swydd. Mae'r data hyn wedi'u seilio ar arolwg a anfonir i awdurdodau lleol a sefydliadau gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, gan nad yw pob un o'r sefydliadau'n ymateb i'r arolwg, mae'n bosibl bod yr amcangyfrif o nifer y gweithlu'n rhy isel. Mae'r model yn unioni hyn drwy gymhwyso ffactor cywiro wedi'i seilio ar y gymhareb rhwng yr amcangyfrif o gyfanswm nifer y gweithlu[60] a'r nifer yn y gweithlu'n seiliedig ar ymatebion i'r arolwg. Mae Tabl 12 isod yn dangos niferoedd y gweithlu a adroddwyd a'r niferoedd wedi'u haddasu yn 2018 yn ogystal â'r rhagolwg o niferoedd y gweithlu yn 2021 ar sail y dull modelu a ddangoswyd yn Ffigur 12.

[59] Rhaglen Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cymru, casgliad data 2018. Tablau 12, 13 a 19d. Y data diweddaraf sydd ar gael o 2018.

[60] Darparwyd y data hyn hefyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru.

**Tabl 12 Niferoedd y gweithlu a adroddwyd a'r niferoedd wedi'u haddasu yn 2018 a ddefnyddiwyd yn y model a'r rhagolwg o niferoedd y gweithlu yn 2021**

| | Y niferoedd a adroddwyd yn 2018 | | | Y niferoedd wedi'u haddasu yn 2018 | | Rhagolwg o'r niferoedd yn 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Math o ofal/ darparwr** | **Pob rôl swydd[a]** | **Rolau swyddi yn y model yn unig[b]** | **Ffactor addasu yn 2018** | **Pob rôl swydd [a]** | **Rolau swyddi yn y model yn unig [b]** | **Rolau swyddi yn y model yn unig** |
| Annibynnol, gofal preswyl | 20,161 | 14,591 | 1.21 | 24,464 | 17,705 | 20,140 |
| Annibynnol, gofal cartref | 13,093 | 12,577 | 1.26 | 16,558 | 15,905 | 17,325 |
| Awdurdod lleol, gofal preswyl | 3,914 | 3,170 | 1.06 | 4,148 | 3,360 | 3,577 |
| Awdurdod lleol, gofal cartref | 3,725 | 3,610 | 1.05 | 3,906 | 3,785 | 3,834 |
| **Cyfanswm** | **40,893** | **33,948** | **amh.** | **49,076** | **40,755** | **44,875** |

Sylwer: [a] Cyfanswm nifer y gweithlu yn yr holl rolau swyddi yn y sector gofal preswyl a'r sector gofal cartref, yn cynnwys rolau swyddi sydd heb eu cynnwys yn y model. Rolau swyddi sydd heb eu cynnwys yn y model yw gweithwyr cymdeithasol cofrestredig, staff nyrsio cofrestredig, gofalwyr maeth, gofalwyr lleoliadau oedolion, cynorthwywyr personol taliadau uniongyrchol a 'staff eraill'. [b] Cyfanswm niferoedd y gweithlu yn y rolau swyddi sydd wedi'u cynnwys yn y model yn y sector gofal preswyl a'r sector gofal cartref.

**Ffynhonnell: LE Wales yn seiliedig ar ffigurau Gofal Cymdeithasol Cymru**

Cofnodir data am y gweithlu gan Gofal Cymdeithasol Cymru drwy gyfrif pennau. Felly, mae'r model hefyd yn allbynnu nifer y gweithwyr ar ffurf cyfrif pennau. Mae'r model yn rhoi cyfrif am gyfran y gweithwyr rhan-amser ac amser llawn wrth gostio pob cynnig polisi.

Yn fwy manwl, mae'r cyfrif pennau o'r gweithlu wedi'i rannu'n weithlu rhan-amser a gweithlu amser llawn. Mae cyfrannau pob grŵp (am bob rôl swydd a'r ddau sector gofal) wedi'u seilio ar ein dadansoddiad o'r data ASC-WDS ar gyfer Lloegr[61], sy'n brocsi ar gyfer Cymru. Mae'r gost sy'n gysylltiedig â phob gweithiwr rhan-amser yn gyfran wedyn o'r gost sy'n gysylltiedig â gweithiwr cyfwerth ag amser llawn. Cyfanswm y gost am bob opsiwn polisi wedyn yw swm y costau ar gyfer yr holl weithwyr amser llawn a rhan-amser.

**Modelu'r cynnydd mewn cyflogau ar gyfer pob opsiwn polisi**

Mae'r cynnydd mewn cyflogau ar gyfer pob opsiwn yn cael ei fewnbynnu i'r model drwy'r gyfradd cyflog blynyddol. Mae hyn yn cael effaith uniongyrchol ar yr amcanestyniad o wariant, ond mae'r cynnydd mewn cyflogau hefyd yn effeithio ar nifer y gweithwyr ym mhob rôl swydd. Mae llenyddiaeth am y berthynas rhwng cyflogau a'r cyflenwad o lafur yn dangos bod perthynas gadarnhaol, os bach, rhwng cyflogau a nifer y gweithwyr mewn swydd (gweler adran 3.1.6 isod am drafodaeth fwy manwl). Defnyddir y berthynas hon yn y dull modelu.

Mae'r model yn cymhwyso'r berthynas rhwng cyflogau a nifer y gweithwyr drwy nifer y gweithwyr sy'n gadael. Yn fwy manwl, rhagdybiwyd y bydd cynnydd mewn cyflogau'n lleihau nifer y gweithwyr sy'n gadael drwy ymddeol.[62] Mae graddau'r berthynas hon yn cael ei amlygu yn elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau. Mae elastigedd cyflogau'r cyflenwad llafur yn mesur sensitifrwydd y cyflenwad o weithwyr i newid yn y gyfradd cyflog. Er enghraifft, byddai elastigedd o 0.5 yn golygu bod cynnydd o 10% mewn cyflogau'n gysylltiedig â chynnydd o 5% yn y cyflenwad llafur.

I ddibenion modelu, rhagdybiwyd bod y nifer sy'n ymuno yn gyson o ran ei werth absoliwt (h.y. bod yr un nifer o bobl yn ymuno â'r gweithlu bob blwyddyn) ac nad yw cyflogau'n effeithio ar hyn. Yn y model, mae cynnydd yn y nifer sy'n ymuno neu ostyngiad yn y nifer sy'n gadael yn cael effaith gyfwerth ar faint y gweithlu bob blwyddyn ac felly, o ran ei gysyniad, mae ein dull modelu'n rhagdybio bod effaith elastigedd sy'n gweithio drwy'r nifer sy'n ymuno a'r nifer sy'n gadael.

[61] Mae'r Set Data Gweithlu Gofal Cymdeithasol Oedolion (ASC-WDS) (y Set Data Sylfaenol Genedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol (NMDS-SC) cyn hynny) yn wasanaeth data ar-lein sy'n cynnwys y gweithlu gofal cymdeithasol oedolion yn Lloegr. https://www.skillsforcare.org.uk/adult-social-care-workforce-data/ASC-WDS/Discover-the-Adult-Social-Care-Workforce-Data-Set.aspx

[62] Mae'r model yn rhagdybio bod penderfyniadau am ymddeol yn annibynnol ar gyflogau.

**Modelu'r berthynas rhwng y cyflenwad a'r galw am lafur**

Mae'r model yn canolbwyntio ar y cyflenwad llafur, h.y. mae'n rhoi amcanestyniad o'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n barod i fod yn weithwyr gofal ar lefel benodol o ran cyflogau ac amodau ar gyfer pob opsiwn polisi. Gan nad yw'n modelu'r galw am lafur yn uniongyrchol, mae'r model yn rhagdybio bod swyddi gofal perthnasol ar gael i bawb sy'n barod i fod yn weithiwr gofal. Mae'r dull hwn yn gyson â sefyllfa lle credir mai'r cyflenwad llafur, yn hytrach na'r galw am lafur, yw'r prif gyfyngiad ar nifer y gweithwyr yn y sector.

Mae'r gymhareb rhwng y nifer sy'n derbyn gofal (y galw am ofal) a'r cyflenwad o ofalwyr uniongyrchol (uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal) ar gyfer pob opsiwn wedi'i chofnodi isod. Mae'r amcanestyniadau o'r galw yn cynnwys yr holl unigolion sy'n derbyn gwasanaethau gofal ffurfiol, gan gynnwys cleientiaid presennol yr awdurdodau lleol, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a'r rheini sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys yr amcanestyniadau llinell sylfaen ar gyfer cleientiaid yr awdurdodau lleol a amlinellwyd ym Mhennod 2 o'r adroddiad hwn ac maent wedi'u cofnodi ar amser penodol (h.y. maent yn ffigurau cyfrif pennau). Mae nifer y gofalwyr uniongyrchol hefyd wedi'i gofnodi ar ffurf cyfrif pennau ar sail y modelu sydd wedi'i ddangos yn y bennod hon. Mae'r gymhareb hon yn taflu goleuni ar y rhyngweithio rhwng y cyflenwad a'r galw. Lle mae cynnydd yn y gymhareb, dangosir bod gweithwyr gofal yn cael eu trefnu i weithio'n fwy dwys, gan fod angen i bob gweithiwr gofal ofalu am fwy o dderbynwyr gofal. Mae'n bwysig nodi nad yw ansawdd y gofal, fel y mae wedi'i fesur yn y dadansoddiad, yn cael ei gysylltu'n uniongyrchol â chynnal neu ostwng nifer y derbynwyr gofal am bob gweithiwr gofal a'i fod yn ymwneud yn gyfan gwbl â nifer y sefydliadau a fyddai'n gwella os oedd cynnydd o ran eu telerau ac amodau.

### 3.1.2 Mapio bandiau cyflog ar rolau swyddi

Mae model y gweithlu yn defnyddio data am nifer y cyflogeion a gafwyd oddi wrth Gofal Cymdeithasol Cymru[63] ar gyfer pedair rôl swydd benodol, sef rheolwyr, dirprwy reolwyr, uwch-weithwyr gofal, a gweithwyr gofal.

Mae'r tâl sy'n gysylltiedig â'r rolau swyddi hyn yn cael ei amcangyfrif ar wahân ar gyfer y sector annibynnol a'r sector awdurdodau lleol oherwydd gwahaniaethau o ran y data sydd ar gael. Mae'r dull o ddelio â'r ddau sector wedi'i ddisgrifio'n fanwl isod.

[63] Nid yw'r data am y gweithlu a gafwyd oddi wrth Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys ffigurau ar wahân am oruchwylwyr gofal. Cafwyd eglurhad pellach gan Gofal Cymdeithasol Cymru a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod y rôl swydd y mae goruchwyliwr yn cael ei ddyrannu iddi yn dibynnu ar ei gymwysterau. Yn ôl y cymhwyster sydd ganddynt, gallai goruchwylwyr gael eu dynodi'n weithwyr gofal, yn uwch-weithwyr gofal neu'n ddirprwy reolwyr. Er nad yw goruchwylwyr wedi'u cynnwys yn y data o dan yr enw hwnnw, mae hyn yn golygu eu bod wedi'u cynnwys yn y modelu.

**Amcangyfrif tâl ar gyfer y sector annibynnol**

Nid yw Gofal Cymdeithasol Cymru yn casglu data am y tâl ar gyfer pob rôl swydd, felly mae'r tâl ar gyfer pob rôl swydd yn y sector annibynnol wedi'i amcangyfrif fel a ganlyn.

Cafodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am dâl ar gyfer y sector annibynnol gan Fforwm Gofal Cymru. 0 Tabl 13 yn dangos y cyflogau isaf ac uchaf **dangosol** am bob band tâl ar gyfer **gofal cartref** yn y sector annibynnol a ddarparwyd ar gyfer y dadansoddiad yn yr astudiaeth hon gan Lywodraeth Cymru[64]. Nid yw'r strwythur tâl yn y sector gofal cymdeithasol wedi cael ei safoni. Oherwydd hyn, mae'r bandiau tâl a ddefnyddiwyd i fodelu yn rhai dangosol yn unig ac mae'n bosibl nad ydynt yn adlewyrchu'r strwythurau tâl yn yr holl sefydliadau gofal yn y sector. Dylid nodi bod y cyfraddau tâl yr awr wedi'u cyfrifo drwy ragdybio wythnos waith o 37 awr a blwyddyn waith o 52 wythnos.

**Tabl 13 Yr amrediad tâl ym mhob band tâl dangosol yn 2020**

| | Band tâl 1 | Band tâl 2 | Band tâl 3 | Band tâl 4 | Band tâl 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Tâl isaf | £17,048.28 y flwyddyn | £17,651.50 y flwyddyn | £19,706.47 y flwyddyn | £21,240 y flwyddyn | £29,736 y flwyddyn |
| Tâl uchaf | £18,689.08 y flwyddyn | £19,727.71 y flwyddyn | £20,766.35 y flwyddyn | £25,488 y flwyddyn | £40,356 y flwyddyn |
| Tâl canol amrediad | £17,868.68 y flwyddyn | £18,689.61 y flwyddyn | £20,236.41 y flwyddyn | £23,364 y flwyddyn | £35,046 y flwyddyn |
| Tâl canol amrediad yr awr[a] | £9.26 yr awr | £9.69 yr awr | £10.49 yr awr | £12.11 yr awr | £18.17 yr awr |

Sylwer: Mae'r cyflogau yn y bandiau tâl dangosol a gafwyd oddi wrth Fforwm Gofal Cymru wedi'u huwchraddio 6.2% i gael cyflogau ar gyfer 2020.
[a] Y gyfradd drosi rhwng tâl yr awr a thâl blynyddol yw 37 x (365/7).

**Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru wedi'i seilio ar ffigurau Fforwm Gofal Cymru a'r Fforwm Gofal Cenedlaethol**

Nid oedd y bandiau tâl dangosol wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â rolau swyddi penodol. Mae LE Wales wedi amcangyfrif cyfran y gweithwyr sydd ym mhob band tâl dangosol am

[64] Cafwyd y bandiau tâl dangosol gan Fforwm Gofal Cymru yn Rhagfyr 2019, felly maent yn berthnasol ar gyfer 2019. Rydym wedi uwchraddio'r ffigurau ym mhob band tâl o 6.2% i gael bandiau tâl dangosol ar gyfer 2020. 6.2% oedd y cynnydd canrannol yn y Cyflog Byw Cenedlaethol rhwng 2019 a 2020; gweler https://obr.uk/faq/where-can-i-find-your-latest-forecasts/, tabl 1.17.

bob rôl swydd ar sail eu tâl sylfaenol yn unig[65]. Gan nad oes data o’r fath ar gael ar gyfer Cymru, rydym wedi defnyddio’r data ar gyfer Lloegr (heb gynnwys Llundain) yn brocsi drwy ddefnyddio data tâl ASC-WDS. Ar gyfer mapio, rydym wedi rhagdybio bod y tâl isaf i weithwyr gofal yng Nghymru yn cael ei ddangos gan y tâl isaf ym mand tâl 1 ac mai’r tâl uchaf i reolwyr yw’r tâl uchaf ym mand tâl 5, fel y maent wedi’u nodi yn Nhabl 13. Felly mae hyn yn golygu bod yr holl weithwyr yn cael yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol o leiaf gan fod hyn yn gyfwerth â’r terfyn isaf ym mand tâl 1.

Yn set ddata ACS-WDS, cofnodwyd bod rhai gweithwyr yn cael tâl llai na band tâl 1 neu dâl mwy na band tâl 5. Cafodd y rhain eu cyfrif fel pe baent yn cael eu talu yn ôl band tâl 1 neu fand tâl 5, yn y drefn honno. Mae’n bosibl bod nifer o resymau dros y ffaith nad yw’r tâl a gofnodwyd yn Lloegr yn cyfateb yn union i’r bandiau tâl yng Nghymru.

Yn benodol, cofnodwyd bod cyfran sylweddol o weithwyr gofal, yn enwedig yn y sector gofal preswyl, yn derbyn tâl a oedd yn llai na band tâl 1. Mae’n bosibl bod nifer o resymau am hyn. Mae rhai o’r data am dâl wedi dyddio ychydig, fel nad ydynt yn cynnwys cynnydd mewn cyflogau sydd eisoes wedi’i gyflwyno. Yn ogystal â hyn, nid oedd y dadansoddiad dosbarthiadol yn trafod rhai o dan 25 oed yn wahanol o ran hydrinedd, er bod eu hisafswm cyflog yn is. Mae hefyd yn bosibl bod set ddata ACS-WDS yn rhoi ffigurau rhy isel am gyflogau blynyddol neu ffigurau rhy uchel am yr oriau a weithiwyd gan rai gweithwyr gofal. Yn olaf, mae’n bosibl bod rhai gweithwyr gofal yn Lloegr yn derbyn llai na’r Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Mae data ASC-WDS yn dangos bod tua 5% o weithwyr, yn ôl pob golwg, yn derbyn llai na’r Isafswm Cyflog Cenedlaethol, ond dim ond ychydig yn llai yn achos nifer ohonynt. Felly, prin yw’r dystiolaeth bod cyfran sylweddol o’r gweithwyr yn derbyn llai na’r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ac mae cyfiawnhad dros ddefnyddio band tâl dangosol 1 yn derfyn isaf i ddibenion y dadansoddi yn y bennod hon.

Yn achos gweithwyr sy’n derbyn tâl sy’n fwy na band tâl 5, mae’n bosibl bod rheolwyr y sefydliadau mwyaf yn cael cyflogau uwch, ac mae sefydliadau gofal yn Lloegr yn fwy na’r rheini yng Nghymru ar y cyfan.

Fel y mae Tabl 13 yn dangos, mae rhai bandiau tâl dangosol yn gorgyffwrdd (e.e. bandiau tâl 1 a 2) ac mae bwlch rhwng bandiau tâl eraill (e.e. bandiau tâl 4 a 5). Mewn achosion lle na fyddai modd dyrannu gweithwyr i un band tâl penodol ar sail yr amrediadau dangosol a amlinellwyd uchod, dyrannwyd y gweithwyr hyn i’r band tâl dangosol a oedd â’i bwynt canol yn agosaf i’r cyflog a gofnodwyd. Felly, roedd cyflogau’r holl weithwyr perthnasol a gofnodwyd yn set ddata ASC-WDS wedi cael eu mapio ar un band tâl yn unig. Mae’r tabl isod yn dangos y dosbarthiad ar gyfer pob rôl swydd mewn gofal preswyl a gofal cartref yn y sector annibynnol.

[65] Hynny yw, tâl heb gynnwys unrhyw argostau. Mae argostau’n cynnwys holl gostau’r cyflogai nad ydynt yn rhan o’r tâl gros, ac maent yn cynnwys yswiriant gwladol a phensiwn, tâl gwyliau, amser hyfforddi, tâl salwch ac ad-dalu am gostau milltiredd.

**Tabl 14 Dosbarthiad y bandiau tâl dangosol ar gyfer pob rôl swydd yn y sector annibynnol**

| Sector | Band tâl | Rheolwr | Dirprwy reolwr | Uwch-weithiwr gofal | Gweithiwr gofal/ Swyddog gofal/ Cynorthwyydd gofal |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal preswyl** | Band tâl 1 (%) | 0% | 0% | 40% | 85% |
| | Band tâl 2 (%) | 0% | 0% | 30% | 10% |
| | Band tâl 3 (%) | 10% | 55% | 30% | 5% |
| | Band tâl 4 (%) | 15% | 35% | 0% | 0% |
| | Band tâl 5 (%) | 75% | 10% | 0% | 0% |
| | *Cyfanswm (%)* | *100%* | *100%* | *100%* | *100%* |
| **Gofal cartref** | Band tâl 1 (%) | 0% | 0% | 40% | 70% |
| | Band tâl 2 (%) | 0% | 0% | 30% | 20% |
| | Band tâl 3 (%) | 15% | 65% | 30% | 10% |
| | Band tâl 4 (%) | 35% | 30% | 0% | 0% |
| | Band tâl 5 (%) | 50% | 5% | 0% | 0% |
| | *Cyfanswm (%)* | *100%* | *100%* | *100%* | *100%* |

Sylwer: Mae’r dull o fapio rolau swyddi ar fandiau tâl ar gyfer y sector gofal preswyl a’r sector gofal cartref yn seiliedig ar yr un bandiau tâl a ddangoswyd yn Nhabl 13. Pennwyd y bandiau tâl yn Nhabl 13 ar gyfer y sector gofal cartref, ond nid yw bandiau tâl tebyg ar gael ar gyfer gofal preswyl. Defnyddiwyd yr un bandiau tâl ar gyfer y ddau sector er mwyn cadw’r modelu’n hydrin, ond nid yw hyn yn golygu bod y cyflogau yn y ddau sector yr un fath o reidrwydd.

Nid yw set ddata ASC-WDS yn darparu data ar wahân am dâl yn y sector gofal cartref a’r sector gofal preswyl, felly mae’r mapio ar gyfer y ddau sector yn wahanol.

**Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales ar sail set ddata ASC-WDS**

Roedd y tâl am bob rôl swydd ar gyfer y senario llinell sylfaen wedi’i amcangyfrif wedyn drwy bwysoli’r tâl cyfartalog rhwng y bandiau tâl dangosol, yn ôl canran y gweithwyr ym

mhob band tâl am bob rôl swydd. Y cyflogau a gymhwyswyd ar gyfer pob band tâl oedd pwynt canol yr amrediadau tâl perthnasol, wedi'i drosi'n dâl yr awr.

**Cyfrifo'r tâl am bob rôl swydd – Cyfrifiad enghreifftiol**

Ystyriwch y tâl i weithwyr gofal yn y sector gofal preswyl. Fel y mae Tabl 14 uchod yn dangos, mae 85% o weithwyr gofal yn cael eu talu yn ôl band tâl 1, 10% yn ôl band tâl 2 a 5% yn ôl band tâl 3. Y cyflog yr awr sy'n gysylltiedig â hynny yw, yn eu trefn, £8.72 (band tâl 1), £9.12 (band tâl 2) a £9.88 (band tâl 3) yr awr (gweler Tabl 13). Felly, mae'r tâl i weithwyr gofal yn y sector preswyl wedi'i amcangyfrif fel a ganlyn:

$$(85\% * £9.26) + (10\% * £9.69) + (5\% * £10.49) = £9.37$$

Gan ddefnyddio'r un dull, amcangyfrifwyd y cyflog am bob rôl swydd yn y sector annibynnol fel a ganlyn:

**Tabl 15 Amcangyfrifon o'r tâl cyfartalog wedi'i bwysoli ar gyfer pob rôl swydd yn y sector annibynnol; 2020**

| Math o ofal | Rheolwyr | Dirprwy reolwyr | Uwch-weithwyr gofal | Gweithwyr gofal |
|---|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | £16.49 yr awr | £11.82 yr awr | £9.76 yr awr | £9.37 yr awr |
| Gofal cartref | £14.89 yr awr | £11.36 yr awr | £9.76 yr awr | £9.47 yr awr |

Sylwer: Cyflogau ar gyfer 2020. Nid ydynt yn cynnwys argostau.

**Ffynhonnell: LE Wales**

Dylid nodi, am fod rhai gweithwyr o leiaf ym mhob rôl swydd yn derbyn tâl a oedd yn fwy na band tâl 1, fod y cyflogau cyfartalog yr awr yn Nhabl 15 yn uwch na'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn 2020.

**Amcangyfrif tâl ar gyfer y sector awdurdodau lleol**

Roedd y tâl yr awr yn y sectorau gofal awdurdodau lleol wedi'i amcangyfrif ar sail yr arolwg arbennig o awdurdodau lleol a gynhaliwyd ar gyfer y modelu hwn. Drwy'r arolwg o awdurdodau lleol, casglwyd gwybodaeth am y tâl ar gyfer pob rôl swydd, ac mae'r model yn defnyddio'r cyflog canolrifol yr awr ar gyfer yr holl gyflogau a gofnodwyd gan awdurdodau lleol.

Yn achos gofal preswyl, mae'r rolau swyddi a nodwyd uchod yn mapio'n uniongyrchol ar y data a gafwyd o'r arolwg o awdurdodau lleol. Yn achos gofal cartref, mae'r rolau swyddi rheoli hefyd yn mapio'n uniongyrchol ar y rolau swyddi a ddiffiniwyd uchod. Mae'r rolau gofal uniongyrchol wedi'u mapio fel a ganlyn:

- Mae 'gweithwyr gofal' yn y model yn cyfateb i 'weithwyr cymorth' yn y data a gafwyd gan yr awdurdodau lleol;

- Mae ‘uwch-weithwyr gofal’ yn y model yn cyfateb i ‘uwch-weithwyr cymorth’ a ‘chydlynwyr gwasanaethau’ yn y data a gafwyd gan yr awdurdodau lleol.

Yn olaf, mae’r data am gyflogau a gafwyd gan yr awdurdodau lleol yn gymwys i 2019. Er mwyn cyfrifo cyflogau 2020, uwchraddiwyd y cyflogau canolrifol yr awr am bob rôl swydd o 6.2%, sy’n gyfwerth â’r cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol rhwng 2019 a 2020[66].

Felly, y cyflogau yr awr a ddefnyddiwyd yn y model ar gyfer y sector gofal awdurdodau lleol yw’r canlynol.

**Tabl 16 Y tâl canolrifol yr awr am bob rôl swydd yn y sector awdurdodau lleol**

| Math o ofal | Rheolwyr | Dirprwy reolwyr | Uwch-weithwyr gofal | Gweithwyr gofal |
|---|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | £20.84 | £16.79 | £13.92 | £11.17 |
| Gofal cartref | £21.90 | £19.15 | £13.92 | £11.19 |

Sylwer: Mae’r cyflogau a gafwyd o’r arolwg o awdurdodau lleol wedi’u huwchraddio 6.2% i gael cyflogau 2020.

**Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales yn seiliedig ar yr ymatebion i’r arolwg o awdurdodau lleol Cymru**

O ran y sector annibynnol, mae’r tâl yr awr a ddefnyddiwyd yn y model yn uwch na’r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfer yr holl rolau swyddi.

**Amcangyfrifon tâl ar gyfer y llinell sylfaen**

Mae Tabl 17 yn dangos yr amcangyfrifon o gyflogau a amlinellwyd uchod. Mae’n bwysig nodi bod yr amcangyfrifon hyn yn dangos cyflogau ar ffurf symiau enwol sy’n cymryd 2020 yn flwyddyn sylfaen, fel y nodwyd uchod.

**Tabl 17 Cyflogau yr awr am bob rôl swydd yn y llinell sylfaen; 2020**

| Math o ofal | Ffynhonnell gofal | Rheolwyr | Dirprwy reolwyr | Uwch-weithwyr gofal | Gweithwyr gofal |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | Annibynnol | £16.49 | £11.82 | £9.76 | £9.37 |
| Gofal preswyl | Awdurdod lleol | £20.84 | £16.79 | £13.92 | £11.17 |

[66] Gweler https://obr.uk/faq/where-can-i-find-your-latest-forecasts/, tabl 1.17.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal cartref | Annibynnol | £14.89 | £11.36 | £9.76 | £9.47 |
| Gofal cartref | Awdurdod lleol | £21.90 | £19.15 | £13.92 | £11.19 |

Sylwer: Mae cyflogau 2020 wedi'u seilio ar brisiau 2020. Nid ydynt yn cynnwys argostau.

**Ffynhonnell: LE Wales**

Mae'r cyflogau yn y tabl wedi'u cyfrifo ar gyfer 2020. Fodd bynnag, mae'r cyfnod modelu'n dechrau yn 2021. Er mwyn darparu ar gyfer hyn, chwyddwyd **holl** gyflogau 2020 o 5.5% i gyfrifo cyflogau 2021. Mae hyn yn gyson â thwf disgwyliedig y Cyflog Byw Cenedlaethol o 2020 i 2021[67]. Drwy chwyddo cyflogau fel hyn, sicrheir bod yr holl weithwyr yn derbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol o leiaf, gan gadw'r gwahaniaethau tâl rhwng rolau swyddi. Y cyflogau yr awr ar gyfer 2021 a ddefnyddiwyd yn y llinell sylfaen oedd y rhai canlynol.

**Tabl 18 Cyflogau yr awr am bob rôl swydd yn y llinell sylfaen; 2021**

| Math o ofal | Ffynhonnell gofal | Rheolwyr | Dirprwy reolwyr | Uwch-weithwyr gofal | Gweithwyr gofal |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | Annibynnol | £17.40 | £12.47 | £10.29 | £9.88 |
| Gofal preswyl | Awdurdod lleol | £21.98 | £17.71 | £14.69 | £11.79 |
| Gofal cartref | Annibynnol | £15.71 | £11.98 | £10.29 | £9.99 |
| Gofal cartref | Awdurdod lleol | £23.10 | £20.20 | £14.69 | £11.81 |

Sylwer: Mae cyflogau 2021 wedi'u seilio ar brisiau 2021. Nid ydynt yn cynnwys argostau.

**Ffynhonnell: LE Wales**

Mae'r dadansoddiad a gynhaliwyd ar gyfer modelu yn awgrymu y gall cyflogau'r sector awdurdodau lleol fod yn uwch na'r cyflogau ar gyfer y rolau swyddi cyfatebol yn y sector annibynnol. Er hynny, dylid nodi bod y cyflogau ar gyfer y sector annibynnol wedi'u seilio ar amcangyfrif anuniongyrchol ar sail data am Loegr, heb gynnwys Llundain.

Ar gyfer y senario llinell sylfaen, rhagdybir na fydd cynnydd ychwanegol mewn cyflogau heblaw codiadau blynyddol i addasu at gostau byw. Yn fwy manwl, y rhagdybiaeth ar gyfer y llinell sylfaen – yn ogystal â phob un o'r opsiynau ar gyfer y gweithlu – yw y bydd yr holl gyflogau'n tyfu ar raddfa sy'n gyfwerth â'r twf a gyhoeddwyd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol hyd at 2024. O 2025 ymlaen, rhagdybir y bydd cyflogau'n tyfu 3% y flwyddyn, neu'n unol â'r targed hirdymor ar gyfer chwyddiant ynghyd ag addasiad enwol ychwanegol o 1 pwynt

[67] Gweler https://obr.uk/faq/where-can-i-find-your-latest-forecasts/; tabl 1.17.

canran.[68] Ar y sail honno, mae Tabl 19 yn dangos sut bydd cyflogau'n tyfu yn y model o 2019-20 ymlaen.

Mae'n bwysig nodi bod y rhagdybiaethau ar gyfer twf cyflogau'n ffactorau sy'n sbarduno newid yn yr amcangyfrifon o gostau yn y model. Gallai costau amrywio'n sylweddol os bydd cyflogau'n tyfu'n arafach neu'n gyflymach[69] neu os bydd gwahaniaethau yn nhwf cyflogau rhwng rolau swyddi.

**Tabl 19 Y twf enwol yng nghyflogau'r llinell sylfaen o 2020**

| 2019-2020 | 2020-2021 | 2021-2022 | 2022-2023 | 2023-2024 | 2024-2025 ymlaen |
|---|---|---|---|---|---|
| 6.2% | 5.5% | 6.2% | 5.4% | 3.8% | 3.0% |

**Ffynhonnell: Dadansoddiad LE Wales wedi'i seilio ar ffigurau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (https://obr.uk/faq/where-can-i-find-your-latest-forecasts/; tabl 1.17)**

Drwy ragdybio y bydd y twf mewn cyflogau yr un fath ar gyfer yr holl rolau swyddi dros amser, cedwir y gwahaniaethau tâl rhwng gwahanol rolau swyddi. Fodd bynnag, nid yw'r llinell sylfaen yn cynnwys unrhyw gynnydd arall mewn cyflogau ar ben 3% o 2024-2025 ymlaen.

**Cymharu gwybodaeth am gyflogau o wahanol ffynonellau**

Gellir cymharu'r cyflogau sylfaenol cyfartalog yr awr wedi'u pwysoli a ddefnyddiwyd yn y model (sydd wedi'u dangos yn Nhabl 18) â gwybodaeth am gyflogau a gasglwyd gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ar gyfer adroddiad am Delerau ac Amodau[70]. Mae'r adroddiad hwn yn casglu gwybodaeth am gyflogau a dalwyd i weithwyr gofal ac uwch-weithwyr gofal yn y sector awdurdodau lleol a'r sector annibynnol. Mae'r ffigurau isod yn cymharu'r tâl sylfaenol i uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal yn unig ac nid ydynt yn cynnwys ad-dalu am gynnydd mewn contractau.

Er mwyn sicrhau bod modd cymharu'r ffigurau o'r ddwy ffynhonnell, cymerwyd y camau canlynol.

[68] Gweler https://obr.uk/faq/where-can-i-find-your-latest-forecasts/.

[69] Er enghraifft, os bydd newid yn y polisi ar y Cyflog Byw Cenedlaethol rhwng 2020 a 2024.

[70] Wallace S., Garthwaite T., Llewellyn M. (2020). Review of Evidence of Variation in Terms and Conditions for Social Care Employment Contracts in Wales. Cardiff: Welsh Government, GSR report number 64/2020. Ar gael yn: https://gov.wales/terms-and-conditions-social-care-employment-contracts-wales

- Mae WIHSC yn cofnodi cyflogau ar gyfer 2019[71] felly maent wedi'u huwchraddio ddwywaith rhwng 2019 a 2020, a hefyd rhwng 2020 a 2021 er mwyn gallu eu cymharu â'n hamcangyfrifon yn 2021. Mae'r uwchraddiad cyntaf wedi'i seilio ar gyfradd twf o 6.2% a'r ail ar gyfradd twf o 5.5%. Mae'r cyfraddau twf hyn yn unol â thwf disgwyliedig y Cyflog Byw Cenedlaethol (gweler Tabl 19).
- Roedd yr arolwg a gynhaliwyd gan WIHSC yn caniatáu i sefydliadau gofnodi amrediad o gyflogau ar gyfer pob rôl swydd. Ar gyfer cyflogau a dalwyd i weithwyr gofal ac uwch-weithwyr gofal yn ôl y math o ofal a'r sector, rydym yn cyfrifo pwynt canol y gyfradd cyflog yr awr ar gyfer pob rôl swydd gan ddefnyddio'r gwerthoedd canolrifol am y cyflog isaf a'r cyflog uchaf a gofnodwyd gan WIHSC yn ei adroddiad.


Mae Ffigur 13 a Ffigur 14 isod yn cymharu cyflogau a dalwyd i weithwyr gofal ac uwch-weithwyr gofal (yn y drefn honno) fel y maent wedi'u cyfrifo yn y model a gan WIHSC, gan wahaniaethu rhwng y mathau o ofal (gofal preswyl a gofal cartref) a'r sectorau (y sector annibynnol a'r sector awdurdodau lleol).

Yn gyffredinol, gellir cymharu'r cyflogau a gymhwyswyd yn y model ar gyfer gweithwyr gofal ac uwch-weithwyr gofal â'r rheini a gofnodwyd gan WIHSC. Yn ogystal â hyn:

- Mae'r ddwy ffynhonnell yn adrodd am gyflogau a dalwyd i weithwyr gofal ac i uwch-weithwyr gofal sy'n uwch yn y sector awdurdodau lleol nag yn y sector annibynnol.
- At ei gilydd, mae'r gwahaniaethau cyflog (rhwng model y gweithlu a WIHSC) yn fwy sylweddol yn y sector awdurdodau lleol ac mae ein hamcangyfrifon yn uwch ar gyfer y ddwy rôl swydd, lle mae'r gwahaniaeth yn amrywio rhwng £0.56 a £0.65 yn fras. Yr unig eithriad yw cyflogau yr awr i uwch-weithwyr gofal yn y sector gofal cartref. Ar gyfer y gweithwyr hyn, mae'r gwahaniaeth – mewn gwerth absoliwt – yn fwy ar gyfer y sector annibynnol (£0.29 o'i gymharu â £0.02).


[71] Roedd yr ymatebion i'r arolwg sy'n sail i ddata cyflogau WIHSC wedi'u casglu erbyn 18 Rhagfyr 2019 ar yr hwyraf. Nid yw'r adroddiad yn adio cywiriad i uwchraddio'r ffigurau hyn i gyflogau yn 2020.

**Ffigur 13 Cymharu cyflogau a dalwyd i weithwyr gofal – LE Wales a WIHSC**




**Ffynhonnell: LE Wales a WIHSC**

**Ffigur 14 Cymharu cyflogau a dalwyd i uwch-weithwyr gofal – LE Wales a WIHSC**




**Ffynhonnell: LE Wales a WIHSC**

### 3.1.3 Modelu gwelliannau mewn telerau ac amodau

Mae gwelliannau mewn telerau ac amodau wedi'u modelu fel cynnydd yn yr argostau y mae'n rhaid i sefydliadau gofal eu talu ar ben cyflogau. Felly, maent yn cael effaith uniongyrchol ar y gwariant yn y model. Yn ogystal â hyn, mae telerau ac amodau'n effeithio ar nifer y gweithwyr. Mae'r model yn cymhwyso hyn mewn ffordd debyg i'r effaith o gyflogau.

Trosir cynnydd mewn argostau i gynnydd cyfwerth mewn cyflogau. Er enghraifft, mae cynnydd o bum pwynt canran mewn argostau o ganlyniad i wella telerau ac amodau (e.e. o 30% i 35%) yn cael ei drin fel cynnydd o bum pwynt canran mewn cyflogau. Rhagdybir wedyn y bydd y cynnydd goblygedig mewn cyflogau'n lleihau'r nifer sy'n gadael y gweithlu heblaw drwy ymddeol. Mae graddau'r berthynas hon yn cael ei ddangos yn elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â thelerau ac amodau (hynny yw, sensitifrwydd y cyflenwad llafur i newidiadau mewn telerau ac amodau). Nid yw elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â thelerau ac amodau yn cyfateb **o reidrwydd** i elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau. Mae hyn yn golygu bod cynnydd mewn argostau yn gallu cael effaith wahanol ar y gweithlu na newidiadau cyfatebol mewn cyflogau.

### 3.1.4 Cymharu opsiynau a ffynonellau data

Mae'r holl gostau wedi'u modelu fel gwerthoedd presennol net ar sail prisiau cyson 2020 ar gyfer y cyfnod 2021 i 2035. Cyfrifir cost gynyddrannol pob un o'r opsiynau polisi drwy gymharu'r opsiwn â'r amcanestyniad 'llinell sylfaen'. Yn yr achos hwn, y rhagdybiaeth yn y 'llinell sylfaen' yw na fydd cynnydd mewn cyflogau heblaw codiadau blynyddol i addasu ar gyfer costau byw (gweler Tabl 19 am ragor o fanylion). Ar ben hyn, mae model y gweithlu yn darparu amcanestyniad o nifer y gweithwyr yn y gweithlu ym mhob blwyddyn ar gyfer pob rôl swydd rhwng 2021 a 2035.

Casglwyd data ar gyfer y model o'r ffynonellau canlynol:

- Gofal Cymdeithasol Cymru;
- Fforwm Gofal Cymru;
- Y Set Ddata Sylfaenol Genedlaethol ar gyfer Gofal Cymdeithasol (ASC-WDS) i Loegr[72];
- Cymdeithas Gofal Cartref y DU.

Yn ogystal â hyn, casglwyd data am ofal a ddarperir gan awdurdodau lleol drwy wneud ceisiadau penodol am ddata i awdurdodau lleol.

[72] Wrth ddadansoddi unrhyw ddata o ASC-WDS gan LE Wales ar gyfer y model hwn, nid oedd data am Lundain wedi'u cynnwys.

### 3.1.5 Modelu ansawdd gofal[73]

Roedd y dadansoddiad gan LE Wales o ddata ASC-WDS a sgoriau'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) ar gyfer Lloegr yn awgrymu bod y cysylltiad rhwng tâl ac ansawdd gofal yn gallu cael ei gymedroli drwy gyflogau gweithwyr gofal.[74] Yn fwy manwl, mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod cynnydd o £1 yn y cyflog yr awr i weithwyr gofal yn lleihau cyfran y sefydliadau y mae angen eu gwella[75] o tua 4.5 pwynt canran: cafwyd bod hyn yn wir am ofal preswyl ac am ofal cartref. Rhagdybiwyd bod y berthynas hon yn bodoli yng Nghymru hefyd ac fe'i defnyddiwyd wrth fodelu'r effaith o gynnydd mewn cyflogau ar ansawdd gofal.[76]

Yn fwy penodol, mae'r model yn gyntaf yn cyfrifo'r gwahaniaeth mewn cyflogau yr awr ar gyfer gweithwyr gofal, mewn punnoedd, rhwng yr opsiynau ar gyfer y gweithlu sydd dan

---

[73] Mae pob dadansoddi gan LE Wales ar gyfer y model wedi'i seilio ar ddata ASC-WDS a data a gafwyd gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) yn Lloegr. Mae'r data a ddefnyddiwyd yn ymwneud â Lloegr, heb gynnwys Llundain, ac fe'u defnyddir fel procsi. Nid yw'r dosbarthu ar ansawdd gofal wedi'i seilio ar asesiadau o ansawdd gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Y rhagdybiaeth wrth fodelu yw bod modd cymharu ansawdd gofal rhwng Cymru a Lloegr.

[74] Mae'r CQC yn darparu sgôr am ansawdd i sefydliadau gofal ar raddfa pedwar pwynt: annigonol, angen gwella, da a rhagorol. Roeddem wedi rhoi'r sgoriau annigonol ac angen gwella mewn un grŵp, a'r sgoriau da a rhagorol mewn grŵp arall i greu newidyn deuaidd sy'n dangos a oes angen gwella sefydliad neu beidio. Gan gydnabod y gall sefydliadau gael nifer o wahanol sgoriau dros amser, roeddem wedi cynnal dadansoddiad atchweliad logistaidd o'r newidyn deuaidd hwn ar sail y cyflog cyfartalog yr awr ar gyfer pob un o'r pedair rôl swydd a ddisgrifiwyd cynt. Hefyd, dim ond sefydliadau a gafodd sgôr o fewn y flwyddyn ddiwethaf a oedd wedi'u cynnwys, gan fod sgoriau hŷn yn fwy tebygol o fod wedi dyddio.

Ar sail hyn, roeddem wedi rhedeg y model logistaidd canlynol i ddadansoddi'r paneli data ar gyfer y sefydliad $j$ a'r flwyddyn $t$:

$$\begin{aligned} ansawdd\ _{jt} = \beta_0 + \beta_1 * cyflog\ cyfartalog\ yr\ awr\ y\ rheolwr\ llinell\ cyntaf\ _{jt} \\ + \beta_2 * cyflog\ cyfartalog\ yr\ awr\ y\ rheolwr\ cofrestredig\ _{jt} + \beta_3 \\ * cyflog\ cyfartalog\ yr\ awr\ goruchwyliwr + \beta_4 \\ * cyflog\ cyfartalog\ yr\ awr\ uwch - weithiwr\ achos + \beta_5 \\ * cyflog\ cyfartalog\ yr\ awr\ gweithiwr\ gofal + \varepsilon_{jt} \end{aligned}$$

Sylwer nad yw ASC-WDC yn adrodd ar wahân am oruchwylwyr. Cyflog yr awr gweithwyr gofal oedd yr unig ragfynegydd ystadegol arwyddocaol o'r tebygolrwydd o'r angen am wella sefydliad yn y model hwn.

[75] Yn y dadansoddiad o sgoriau ASC-WDS a'r CQC, roedd sefydliadau gofal yn Lloegr wedi'u dynodi'n rhai 'angen eu gwella' os rhoddwyd sgôr 'annigonol' neu 'angen gwella' iddynt. Er na ddefnyddir sgoriau o'r fath yng Nghymru, credwn fod modd amcangyfrif canran y sefydliadau sydd angen eu gwella yng Nghymru ar sail y data hyn.

[76] Nid yw sgoriau ansawdd cyfatebol ar gael ar hyn o bryd ar gyfer lleoliadau yng Nghymru.

sylw a’r llinell sylfaen. Mae’r model yn rhagdybio y bydd canran y sefydliadau sydd angen eu gwella yn gostwng 4.5 pwynt canran am bob cynnydd o un bunt yn y cyflog yr awr i weithwyr gofal. Felly mae’r gostyngiad yn nifer y sefydliadau sydd angen eu gwella yn cael ei gyfrifo fel y cynnydd yng ngwerth cyflogau mewn punnoedd wedi’i luosi â 4.5 pwynt canran wedi’i luosi â nifer cyfan y sefydliadau gofal yng Nghymru.

I ddibenion modelu, yn y llinell sylfaen, rhagdybir bod 30% o sefydliadau sydd angen eu gwella yn y sector gofal preswyl a 15% yn y sector gofal cartref. Roedd y cyfrannau hyn wedi’u seilio ar ddadansoddiad o sgoriau sefydliadau tebyg a roddwyd gan y CQC yn Lloegr, a gynhaliwyd gan LE Wales.

Mae’r fethodoleg yn cael ei chymhwyso ar wahân at ofal cartref a gofal preswyl, ond yn dilyn yr un rhagdybiaeth, h.y. bod cyfran y sefydliadau sydd angen eu gwella yn gostwng 4.5 pwynt canran am bob cynnydd o £1 yr awr yn y cyflogau i weithwyr gofal.

Mae’n bwysig nodi bod y model ansawdd gofal yn hollol ar wahân i fodel y gweithlu. Hynny yw, nid yw’r model ansawdd gofal yn cymryd unrhyw allbynnau o fodel y gweithlu fel mewnbynnau. Felly, nid yw newidiadau mewn rhagdybiaethau ar gyfer model y gweithlu, e.e. elastigedd y cyflenwad llafur, yn effeithio ar yr amcangyfrif o nifer y sefydliadau sydd angen eu gwella yn y model ansawdd gofal.

Drwy gadw model y gweithlu a’r model ansawdd gofal ar wahân, ceir symlrwydd sy’n sicrhau bod y model ansawdd gofal yn un hydrin. Mae’n bosibl y bydd opsiynau ar gyfer y gweithlu yn gwella’r gymhareb rhwng y gweithlu a derbynwyr gofal, a gallant arwain at wella dilyniant gofal, am fod y gweithlu’n fwy. Fodd bynnag, nid yw’r elfennau hyn wedi’u cynnwys yn y model gan nad oeddem wedi dod o hyd i unrhyw dystiolaeth a oedd yn cysylltu’r elfennau hyn.

**Ffynonellau data**

Wrth fodelu ansawdd gofal, gwneir defnydd o ddata ASC-WDS a data am sgoriau ansawdd gofal a gafwyd gan y Comisiwn Ansawdd Gofal yn Lloegr. Cafwyd data am nifer y sefydliadau gofal yng Nghymru gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Mae’r model ansawdd gofal yn defnyddio data am gyflogau ar gyfer gweithwyr gofal a gafwyd o’r model gweithlu a chostau sydd wedi’i ddisgrifio uchod.

### 3.1.6 Canfyddiadau am elastigedd y cyflenwad llafur o ymchwil flaenorol

Mae’r berthynas rhwng cyflogau a recriwtio a chadw staff yn cael ei mesur drwy elastigedd y cyflenwad llafur. Mae hwn yn mesur y nifer ychwanegol o bobl sy’n ymuno â’r gweithlu

a/neu yr oriau ychwanegol sy'n cael eu gweithio gan staff presennol oherwydd cynnydd mewn cyflogau.[77]

Mae'r dystiolaeth am elastigedd y cyflenwad llafur ymysg gweithwyr gofal yn y DU yn brin. Felly aethpwyd ati i adolygu'r llenyddiaeth am elastigedd y cyflenwad llafur mewn sectorau a gwledydd eraill. Yn fyr, adolygwyd 11 astudiaeth o elastigedd y cyflenwad llafur a oedd yn ymwneud â nyrsys yn y DU, Norwy, y Ffindir, a Tsieina; meddygon yn UDA; gyrwyr tacsis ac athrawon yn UDA. Mae crynodeb o ganfyddiadau'r astudiaethau hyn yn Atodiad 6.

Roedd y rhan fwyaf o'r astudiaethau hyn wedi cael bod y cyflenwad llafur yn anelastig (h.y. bod cynnydd o 1% yn y cyflog gros yn arwain at gynnydd o lai nag 1% yn y cyflenwad llafur). Wrth fodelu'r gweithlu, mae'r adroddiad hwn yn gwneud defnydd o ymchwil i'r cyflenwad o nyrsys yn y DU gan Eberth et al (2016)[78], Crawford et al (2015)[79] a Rice (2005)[80].

Roedd Crawford et al (2015) wedi amcangyfrif elastigedd cyflogau mewn perthynas â nifer y gweithwyr tra oedd Eberth et al (2016) a Rice (2005) wedi amcangyfrif elastigedd cyflogau mewn perthynas â nifer yr oriau. Mae pwnc ymchwil Crawford et al (2015) yn ymwneud ag a fyddai cynnydd yng nghyflog cyfartalog nyrsys y GIG mewn rhanbarth (o'i gymharu â chyflog cyfartalog pobl a fyddai'n gallu dod yn nyrsys GIG) yn gallu cynyddu'r cyflenwad llafur o nyrsys GIG yn y rhanbarth hwnnw. Mewn cyferbyniad â hyn, pwnc ymchwil Eberth et al (2016) a Rice (2005) oedd a fyddai cynnydd yng nghyflog nyrs yn gallu cymell y nyrs honno i weithio rhagor o oriau.

Gan fod model y gweithlu yn amcangyfrif yr effaith o gynyddu cyflogau cyfartalog mewn bandiau tâl, rydym yn defnyddio ymchwil Crawford et al (2015) yn sail i'n hamcangyfrifon o amrediadau elastigedd.

Roedd Crawford et al (2015) wedi amcangyfrif mai elastigedd llafur tymor byr nyrsys y GIG yng Nghymru oedd 0.06 (h.y. mae cynnydd o 10% yn nhâl nyrsys y GIG yng Nghymru yn cael ei gysylltu â chynnydd o 0.6% yn y cyflenwad tymor byr o nyrsys yng Nghymru). Mae'r papur yn egluro mai ychydig o gymhelliant sydd gan nyrsys i newid eu penderfyniad am gyflenwi llafur mewn ardaloedd fel Cymru lle mae'r GIG yn gyflogwr mawr ac yn darparu gwell tâl na

---

[77] Ym model y gweithlu, mae'n mesur y cynnydd canrannol yn nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn sy'n gysylltiedig â chynnydd o 1% yn y cyflog. Er enghraifft, os yw elastigedd y cyflenwad llafur yn 0.5, am gynnydd o 1% yn y cyflog, ceir cynnydd o 0.5% yn nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn.

[78] https://www.researchgate.net/publication/282731789_Pay_or_conditions_The_role_of_workplace_characteristics_in_nurses'_labor_supply

[79] https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/wps/WP201504.pdf

[80] https://pdfs.semanticscholar.org/9e35/f9b55c2fcdcf01cb0bfab8a94f0fef637e34.pdf

chyflogwyr eraill yn yr ardal, am eu bod eisoes yn gweithio i gyflogwr gwell. Felly mae'r elastigedd llafur yn isel.

Mae elastigedd llafur gweithwyr gofal yng Nghymru yn debygol o fod yn is na hyn. Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw fod tâl yn ystyriaeth allweddol o ran recriwtio a chadw staff yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, un o'r prif ffactorau sy'n penderfynu graddau'r elastigedd llafur yw a oes opsiynau gan y gweithiwr heblaw gweithio yn ei rôl bresennol. Yn wir, gwelsom enghreifftiau yn y llenyddiaeth lle mae gweithwyr gofal yng Nghymru wedi gadael i gymryd swyddi eraill am yr isafswm cyflog (Atkinson et al, 2016)[81]. Felly mae model y gweithlu yn defnyddio 0.06 yn amcangyfrif isaf.[82]

Rydym yn edrych wedyn ar elastigedd y cyflenwad llafur mewn achosion lle mae digonedd o opsiynau cyflogaeth y tu allan i Gymru. Yn eu dadansoddiad o'r cyflenwad o nyrsys yn Llundain, roedd Crawford et al (2015) wedi dadlau bod digonedd o opsiynau cyflogaeth y tu allan i Lundain ac wedi amcangyfrif mai elastigedd y cyflenwad llafur ar gyfer nyrsys y GIG yn y fan honno oedd 0.68. Ni welsom unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod elastigedd llafur gweithwyr gofal yng Nghymru yn debygol o fod yn fwy na hynny. Rydym yn defnyddio 0.68 yn amcangyfrif uchaf ym model y gweithlu.

Gall elastigedd cyflenwad llafur gweithwyr gofal yng Nghymru fod rhwng 0.06 – amcangyfrif ar gyfer sefyllfa lle mae'r opsiynau cyflogaeth eraill sydd gan weithwyr yn gyfyngedig – a 0.68 – lle mae digonedd o opsiynau cyflogaeth eraill. Gan mai ychydig o dystiolaeth ychwanegol sydd ar gael am y gweithlu gofal yng Nghymru, defnyddiwyd cymedr y ddau i fod yn amcangyfrif canolig ar gyfer model y gweithlu. Y ffigur yw 0.37. Mae elastigedd yn y cyflenwad llafur o 0.37 yn golygu, er enghraifft, y byddai cynnydd o 10% mewn cyflogau'n arwain at gynnydd o 3.7% yn y cyflenwad o weithwyr.

Dylid nodi nad oes tystiolaeth sy'n dangos bod elastigedd yn y cyflenwad llafur yn debygol o fod yn wahanol rhwng rolau swyddi. Felly, mae'r un elastigedd yn gymwys i weithwyr gofal, uwch-weithwyr gofal, dirprwy reolwyr a rheolwyr.

#### 3.1.7 Amcanestyniadau llinell sylfaen

Mae angen cymharu'r amcanestyniadau ar gyfer pob un o'r pedwar opsiwn polisi ag amcanestyniad llinell sylfaen mewn senario "dim newid". Mae Ffigur 15 isod yn dangos


[81] Atkinson, C., Crozier, S, a Lewis, L. (2016). Factors that affect the recruitment and retention of domiciliary care workers and the extent to which these factors impact upon the quality of domiciliary care. Adalwyd 19 Rhagfyr 2019 o https://www2.mmu.ac.uk/media/mmuacuk/content/documents/business-school/decent-work-and-productivity/160317-factors-affect-recruitment-retention-domiciliary-care-workers-final-en-1.pdf

[82] Mae elastigedd yn y cyflenwad llafur o 0.06 yn golygu, er enghraifft, y byddai cynnydd o 30% mewn cyflogau'n arwain at gynnydd o 1.8% yn nifer y gweithwyr.

amcanestyniad o nifer y gweithwyr (gan gymryd y pedair rôl swydd yn y model gyda'i gilydd) yn y senario llinell sylfaen ar gyfer y cyfnod 2021-2035 ar gyfer pob un o'r cyfuniadau o fath a ffynhonnell y gofal. Dyma gyfanswm y cyfrif pennau o'r gweithlu ar gyfer pob rôl swydd a nodwyd uchod. Darperir dadansoddiad manwl yn Nhabl 38 yn Atodiad 4.

Yn ôl yr amcanestyniad llinell sylfaen, bydd cynnydd bach yn nifer y gweithlu dros amser, gan fod rhagdybiaeth y bydd y nifer sy'n ymuno ar ddechrau'r cyfnod modelu yn fwy na nifer y rhai sy'n gadael. Yn ogystal â hyn, mae'n dangos bod y sector gofal annibynnol yn fwy na'r sector gofal awdurdodau lleol. Yng ngweddill yr adran hon, bydd data'r sector gofal annibynnol a'r sector gofal awdurdodau lleol yn cael eu dangos gyda'i gilydd.

**Ffigur 15 Amcanestyniad o nifer y gweithwyr yn y model llinell sylfaen**





Sylwer: Nifer cyfan y gweithwyr, yn cynnwys rheolwyr, dirprwy reolwyr, uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal. Sylwer bod y ffigurau am ofal preswyl a gofal cartref yr awdurdodau lleol yn debyg, ac felly ei bod yn anodd gwahaniaethu rhyngddynt yn y ffigur.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Mae Ffigur 16 yn dangos yr amcanestyniad o'r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal (h.y. y galw am ofal) a'r cyflenwad o ofalwyr uniongyrchol (sef gweithwyr gofal ac uwch-weithwyr gofal yn unig) yn ôl y math o ofal, yn ogystal â'r gymhareb gyfunol (ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref). Mae'r amcanestyniadau o'r galw yn cynnwys yr holl alw am wasanaethau gofal ffurfiol ac wedi'u nodi ar bwynt amser penodol. Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y gymhareb yn y senario llinell sylfaen yn cynyddu dros y cyfnod rhwng 2021 a 2035, h.y. mae'r galw'n debygol o gynyddu'n gyflymach na'r cyflenwad o weithwyr gofal (ffigurau'r cyfrif pennau wedi'u rhagfynegi gan fodel y gweithlu). Yn yr adrannau sy'n dilyn, defnyddir y gymhareb (gan gymryd y ffynonellau gofal gyda'i gilydd) i gymharu'r llinell sylfaen â'r opsiynau polisi gwahanol.

**Ffigur 16 Amcanestyniad o'r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol yn ôl y math o ofal (llinell sylfaen)**




Sylwer: Mae'r gymhareb wedi'i seilio ar ffigurau'r cyfrif pennau . Mae'r amcanestyniadau o'r galw yn cynnwys yr holl alw am wasanaethau gofal ffurfiol (cleientiaid awdurdodau lleol, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a'r rheini sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG). Mae gofalwyr uniongyrchol yn cynnwys uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal yn unig.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Er mwyn cymharu'r opsiynau ar gyfer y gweithlu, mae Tabl 20 yn dangos cyfanswm niferoedd y gweithwyr yn 2021 a 2035, nifer yr holl sefydliadau gofal sydd wedi'i ragdybio yn y model (rhagdybiwyd na fydd yn newid dros y cyfnod modelu) a chyfanswm costau'r amcanestyniad o'r llinell sylfaen rhwng 2021 a 2035. Mae'r costau wedi'u mynegi yn nhermau gwerthoedd presennol net gyda phrisiau cyson ar lefel 2020. Dangosir niferoedd a chostau blynyddol y gweithlu yn Nhabl 39 a Thabl 40 (yn y drefn honno) yn Atodiad 4.

Er mwyn cadw'r gymhareb rhwng derbynwyr gofal a gweithwyr gofal uniongyrchol ar lefel 2021 ar gyfer y ddau fath o ofal, byddai angen 11,663 o weithwyr gofal uniongyrchol ychwanegol erbyn 2035, sy'n cyfateb i gost ychwanegol (mewn gwerth presennol net) o £1,256 miliwn (wedi'i fynegi ym mhrisiau 2020) dros y cyfnod rhwng 2021 a 2035.

**Tabl 20 Amcanestyniadau llinell sylfaen ar gyfer opsiynau'r gweithlu**

| Amcanestyniad | Gwerthoedd 2021 | Gwerthoedd 2035 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y gweithwyr (cyfrif pennau) | 44,875 | 47,422 |
| Cyfanswm nifer y sefydliadau[a] | 1,594 | 1,594 |
| Cyfanswm y costau GPN 2021-2035, ym mhrisiau cyson 2020 | £13,534 miliwn | |

[a] Mae cyfanswm nifer y sefydliadau wedi'i seilio ar ddata a gafwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae wedi'i rannu fel a ganlyn: gofal preswyl preifat: 971; gofal preswyl awdurdodau lleol: 98; gofal cartref preifat: 497; gofal cartref awdurdodau lleol: 28. Fel y nodwyd uchod, rhagdybiwyd bod angen gwella 30% o'r sefydliadau gofal preswyl a 15% o'r sefydliadau gofal cartref ar ddechrau'r cyfnod modelu.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

## 3.2 Crynodeb o'r opsiynau polisi a aseswyd

Mae'r pedwar opsiwn polisi ar gyfer buddsoddi yn y gweithlu gofal wedi'u hamlinellu isod.

Ar gyfer pob opsiwn:

- rhagdybiwyd y bydd cynnydd mewn cyflogau ac unrhyw newid mewn telerau ac amodau eraill yn digwydd o 2021 ac maent wedi'u gymhwyso at staff yn y sectorau gofal dibreswyl a phreswyl (gyda nyrsio a hebddo);
- mae cynnydd mewn cyflogau ac unrhyw newid arall mewn telerau ac amodau wedi'u cymhwyso at staff sy'n darparu cymorth a gofal uniongyrchol i dderbynwyr gofal (yn yr achos hwn, gweithwyr gofal ac uwch-weithwyr gofal) a rheolwyr agosaf y staff hynny. I ddibenion y model hwn, mae hyn yn cynnwys gweithwyr gofal, uwch-weithwyr gofal, dirprwy reolwyr a rheolwyr.[83]
- rydym wedi rhagdybio na fydd newid mewn cyflogau neu delerau ac amodau ar gyfer staff eraill sy'n gweithio yn y sector gofal, yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol, nyrsys cofrestredig, staff cegin, etc.

[83] Dylid nodi bod teitlau swyddi'n amrywio cryn dipyn ar draws y sector. Nid yw goruchwylwyr wedi'u cynnwys fel rôl swydd ar wahân ac maent wedi'u cynnwys mewn rolau swyddi eraill.

### Opsiwn 4a: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at lefel y cyflog byw gwirioneddol

Mae'r opsiwn hwn yn golygu cynyddu cyflogau at lefel y cyflog byw gwirioneddol ar y lleiaf[84]. Nid oes newid mewn telerau ac amodau eraill. Mae hyn yn golygu y byddai cynnydd yn nhâl gweithwyr gofal yn y bandiau tâl isaf yn y sector annibynnol.

Nid yw'r model yn ystyried gwahaniaethau cyflog rhwng bandiau tâl sy'n cynnig cyfradd cyflog sy'n uwch na'r cyflog byw gwirioneddol. Mae rhagor o fanylion am hyn yn adran 3.4.

### Opsiwn 4b: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG

Mae'r opsiwn hwn yn golygu cynyddu cyflogau at lefel cyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG ar gyfer graddau staff cyfatebol. Nid oes newid mewn telerau ac amodau eraill.

### Opsiwn 4c: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Awdurdodau Lleol

Mae'r opsiwn hwn yn golygu cynyddu cyflogau at lefel cyfraddau tâl awdurdodau lleol ar gyfer graddau staff cyfatebol. Nid oes newid mewn telerau ac amodau eraill. O dan yr opsiwn hwn, bydd tâl gweithwyr gofal a gyflogir yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol yn aros fel y mae.

### Opsiwn 4d: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal i gwrdd â chyfraddau tâl a thelerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG

Mae'r opsiwn hwn yn golygu cynyddu cyflogau at lefel cyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG ar gyfer graddau staff cyfatebol. Rhagdybir y bydd telerau ac amodau eraill yn newid hefyd fel eu bod yn gyson â thelerau Agenda ar gyfer Newid y GIG.

## 3.3 Barn rhanddeiliaid am yr opsiynau ar gyfer y gweithlu

Yn fyr, roedd cytundeb cyffredinol ymysg y rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw mai'r brif her ar hyn o bryd ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru yw'r argyfwng wrth recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn gwasanaethau gofal cartref. Mae darparwyr ledled Cymru yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff addas ar y cyfraddau tâl presennol. Mae'r sector gofal yn colli staff drwy'r amser i sectorau eraill, fel y sector manwerthu, sy'n cynnig gwell telerau ac amodau. O ganlyniad i hyn, roedd gwella tâl ac

[84] Y cyflog byw gwirioneddol yw'r isafswm cyflog yr awr y mae ar bobl ei angen i fyw, yn ôl cyfrifiad y Living Wage Foundation. Mae hwn yn wahanol i'r Cyflog Byw Cenedlaethol, sef yr isafswm cyflog cyfreithiol i bobl dros 25 mlwydd oed, ac mae'n is fel arfer na'r isafswm cyflog gwirioneddol. Y cyflog byw gwirioneddol presennol (yn 2019-20) yw £9.30 yr awr - 30 ceiniog yn fwy na'r gyfradd flaenorol. Wrth fodelu, rydym yn rhagdybio y bydd cynnydd pellach o 30 ceiniog yn 2020-21.

amodau gweithwyr gofal yn cael ei weld yn hanfodol i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru.

O ganlyniad i'r argyfwng wrth recriwtio a chadw staff, roedd rhanddeiliaid yn credu mai'r opsiynau ar gyfer y gweithlu a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar y gallu i ddarparu gofal, ac na fydd modd darparu pecynnau gofal os na fydd cynnydd mewn cyfraddau tâl. Yn gyffredinol, teimlai rhanddeiliaid nad y dewis gorau fyddai defnyddio cyllid ychwanegol at sybsideiddio taliadau defnyddwyr yn unig, gan na fyddai digon o staff i ddarparu'r gwasanaethau.

Awgrymwyd hefyd y byddai gwelliannau yn nhâl ac amodau'r gweithlu gofal yn cryfhau'r economi sylfaenol, i fwy o raddau o bosibl na'r opsiynau ar gyfer gwrthbwyso taliadau, gan na fyddai'r olaf yn dod â budd i'r rheini sydd â'r lefelau isaf o gyfoeth ac incwm, gan ei bod yn debygol eu bod eisoes yn derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn ddi-dâl.

Ceir barn fwy manwl gan randdeiliaid am yr opsiynau polisi ar gyfer y gweithlu yn ddiweddarach yn y bennod hon, ac mae eu barn gyffredinol wedi'i darparu yn Atodiad 1.

## 3.4 Opswn 4a: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at lefel y cyflog byw gwirioneddol

Mae Opsiwn 4a yn cynyddu cyflogau at lefel y cyflog byw gwirioneddol ar y lleiaf, ond heb newid telerau ac amodau. Yn y dadansoddiad a gyflwynir, rydym yn rhagdybio na fydd y cynnydd hwn yn effeithio ar gyflogau gweithwyr sydd â chyflog ychydig yn fwy na'r cyflog byw gwirioneddol. Hynny yw, ni fydd gweithwyr sy'n cael tâl sydd ychydig yn fwy na'r cyflog byw gwirioneddol yn cael cynnydd yn eu tâl.

Yn fwy manwl, yr unig rai y byddai cynnydd mewn cyflogau at lefel y cyflog byw gwirioneddol yn effeithio arnynt yw gweithwyr ym mand tâl 1 yn y sector annibynnol gan fod y tâl canolrifol yr awr yn sector yr awdurdodau lleol yn uwch ar gyfer yr holl rolau swyddi sydd wedi'u modelu. Felly, y bandiau tâl o dan Opsiwn 4a yw'r canlynol:

**Tabl 21 Cyflogau ym mhob band tâl dangosol o dan Opsiwn 4a ar gyfer y sector annibynnol; cyflogau 2020**

| Opsiwn | Band tâl 1 | Band tâl 2 | Band tâl 3 | Band tâl 4 | Band tâl 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llinell sylfaen* | £9.26 yr awr | £9.69 yr awr | £10.49 yr awr | £12.11 yr awr | £18.17 yr awr |
| Opsiwn 4a | £9.60 yr awr | £9.69 yr awr | £10.49 yr awr | £12.11 yr awr | £18.17 yr awr |

Sylwer: *Y cyflogau ar gyfer y bandiau tâl yn y senario llinell sylfaen yw pwyntiau canol yr amrediadau sydd wedi'u dangos yn Nhabl 13. Mae cynnydd o 30 ceiniog yn y cyflog byw gwirioneddol (yn unol â'r cynnydd blaenorol) ar gyfer 2020-2021.

**Ffynhonnell: LE Wales**

Cyfrifwyd y cyflogau yr awr goblygedig (yn 2021) am bob rôl swydd ar gyfer y sector annibynnol drwy gyfuno'r cyflogau ym mhob band tâl â'r canrannau a nodwyd yn Nhabl 14

gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddisgrifiwyd yn adran 3.1.2. Ar gyfer y sector awdurdodau lleol, defnyddiwyd y cyflogau canolrifol a welwyd am bob rôl swydd yn yr amcanestyniadau llinell sylfaen. Mae'r cyflogau canolrifol hyn eisoes yn uwch na'r cyflog byw gwirioneddol. Felly, mae'r cyflogau yn y sector awdurdodau lleol o dan Opsiwn 4a yr un fath â'r rheini yn y llinell sylfaen.

**Tabl 22 Cyflogau yr awr am bob rôl swydd yn Opsiwn 4a; 2021**

| Math o ofal | Ffynhonnell gofal | Rheolwyr | Dirprwy reolwyr | Uwch-weithwyr gofal | Gweithwyr gofal |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Preswyl | Annibynnol | £17.40 | £12.47 | £10.44 | £10.18 |
| Gofal Preswyl | Awdurdodau Lleol | £21.98 | £17.71 | £14.69 | £14.69 |
| Gofal Cartref | Annibynnol | £15.71 | £11.98 | £10.44 | £10.24 |
| Gofal Cartref | Awdurdodau Lleol | £23.10 | £20.20 | £14.69 | £14.69 |

Sylwer: nid yw'r amcangyfrifon o gyflogau yr awr am bob rôl swydd yn cynnwys argostau ychwanegol. Mae'r cyflogau hyn yn cynnwys cynnydd o 5.5% o'r band cyflog y dydd yn 2020 fel y nodwyd yn Nhabl 21 uchod lle y bo'n berthnasol. Defnyddir cyflogau 2021 yn fan cychwyn ar gyfer y cyflogau yn y model.
**Ffynhonnell: LE Wales**


Dylid nodi bod y cynnydd mewn cyflogau yn Opsiwn 4a yn effeithio dim ond ar y gweithwyr hynny a delir yn unol â band tâl 1 (gweler Tabl 21). I ddibenion y model, a'r dadansoddiad dosbarthiadol yn adran 3.1.2, mae hyn yn cynnwys 85% o weithwyr gofal a 40% o uwch-weithwyr gofal yn y sector annibynnol yn unig. Nid oes effaith ar dâl yn y sector awdurdodau lleol. At ei gilydd, mae Opsiwn 4a yn effeithio ar 14,397 o'r gweithlu cyfan o 44,875.

Fel y nodwyd uchod, mae effaith cyflogau ar y gallu i gadw staff yn cael ei ddangos yn elastigedd y cyflenwad llafur (gweler y drafodaeth fanwl yn adrannau 3.1.1 a 3.1.6) ac mae'r amcangyfrifon hyn yn amrywio oherwydd yr ansicrwydd am y gwerth gwirioneddol. Mae Ffigur 17 a Ffigur 18 isod yn dangos nifer y gweithwyr yn Opsiwn 4a sy'n uwch na'r nifer yn y llinell sylfaen ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref (yn y drefn honno). Mae'r llinell yn dangos yr amcangyfrif canolig, a'r rhan lwyd yn dangos yr amcangyfrifon isaf ac uchaf ar sail y gwahanol ragdybiaethau am elastigedd y cyflenwad llafur.

Fel y nodwyd yn adran 3.1.1 uchod, mae'r model yn dangos effaith cynnydd mewn cyflogau drwy gadw mwy o weithwyr. Felly, mae nifer y gweithwyr o dan bob opsiwn polisi sy'n uwch na'r amcangyfrif llinell sylfaen yn dangos yn ffurfiol nifer y gweithwyr a gedwir yn y gweithlu a fyddai wedi gadael fel arall. Mewn gwirionedd, byddem yn disgwyl y byddai nifer y gweithwyr sy'n uwch na'r llinell sylfaen yn gymysgedd o weithwyr a gadwyd a gweithwyr sydd wedi ymuno o'r newydd. Fodd bynnag, mae cynnydd yn y nifer sy'n ymuno a gostyngiad yn y nifer sy'n gadael yn cael effaith gyfwerth ar y model. Hynny yw, bydd un

ymunwr ychwanegol yn rhagor ac un ymadäwr ychwanegol yn llai bob blwyddyn yn yr un rôl swydd ill dau'n cynyddu'r gweithlu o'r un nifer yn y model (sef un yn fwy) ac maent yn cael yr un effaith ar gostau'r opsiwn (sef eu cyflog blynyddol). Felly, nid yw'r canlyniadau o'r model yn dibynnu ar achosion y newid yn y gweithlu, boed drwy ymuno, gadael, neu gymysgedd o'r ddau.

**Ffigur 17 Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4a o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl**





Sylwer: Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr yn Opsiwn 4a a'r nifer yn y llinell sylfaen. Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i roi'r effaith gyfan.[85]

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

[85] Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i roi'r effaith gyfan oherwydd gallai hyn olygu cyfrif dwywaith. Yn ôl cysyniad y model, mae cynnydd yn y cyflog yn peri bod llai o bobl yn gadael y sector, ac mae hyn yn golygu bod rhai gweithwyr yn gweithio'n hirach yn y sector nag y byddent yn y llinell sylfaen. Gallai hynny olygu bod rhai gweithwyr yn gweithio mwy nag un flwyddyn yn hirach. Felly, byddai adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd yn gallu arwain at gyfri'r un gweithwyr mwy nag unwaith. Drwy gymharu ymhen amser, e.e. ar ddiwedd y cyfnod modelu, gellir osgoi cyfrif dwywaith.

**Ffigur 18 Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4a o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl; gofal cartref**





Sylwer: Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr yn Opsiwn 4a a'r nifer yn y llinell sylfaen. Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i roi'r effaith gyfan.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref, mae'r rhan fwyaf o'r twf yn nifer y gweithwyr o'i gymharu â'r llinell sylfaen yn digwydd yn y blynyddoedd cyntaf ar ôl yr ymyriad. Mae'r twf yn lleihau tua diwedd y cyfnod modelu. Rhagwelir y bydd mwy o dwf yn nifer y gweithwyr yn y sector gofal preswyl.

Mae Ffigur 19 yn dangos bod Opsiwn 4a yn debygol o fod yn gysylltiedig â gwelliant bach yn y gymhareb rhwng derbynwyr gofal a gweithwyr gofal uniongyrchol (h.y. yn y galw o'i gymharu â'r cyflenwad) o'i gymharu â'r llinell sylfaen. Er hynny, ein hamcanestyniad yw y bydd yn gwaethygu dros y cyfnod rhwng 2021 a 2035 os na cheir mentrau recriwtio ychwanegol, etc. Mae cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn rhwng cymhareb y llinell sylfaen a chymarebau'r opsiynau polisi yn Nhabl 41 yn Atodiad 3.

**Ffigur 19 Amcanestyniad o'r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol (Opsiwn 4a)**




Sylwer: Mae'r gymhareb wedi'i seilio ar ffigurau'r cyfrif pennau. Mae'r amcanestyniadau o'r galw yn cynnwys yr holl alw am wasanaethau gofal ffurfiol (cleientiaid awdurdodau lleol, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a'r rheini sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG). Mae gofalwyr uniongyrchol yn cynnwys uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal yn unig.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Mae Tabl 23 isod yn dangos rhagor o ganlyniadau o'r dull modelu, sef nifer y gweithwyr ychwanegol a gedwir yn y gweithlu erbyn 2035, nifer y sefydliadau nad oes angen eu gwella bellach erbyn 2035 a chost ychwanegol Opsiwn 4a o'i gymharu â'r llinell sylfaen mewn gwerth net presennol ym mhrisiau cyson 2020. Mae'r tabl yn dangos niferoedd yr effeithiau yn ogystal â'u cyfran o'r llinell sylfaen. Hefyd, mae'r tabl yn darparu'r amcanestyniadau ar sail gwahanol ragdybiaethau am elastigedd y cyflenwad llafur. Darperir niferoedd blynyddol y gweithlu a chyfanswm y costau (ar gyfer yr amcangyfrifon canolig) yn Nhabl 39 a Thabl 40 (yn y drefn honno) yn Atodiad 4.

O dan Opsiwn 4a, byddai angen 11,394 o weithwyr gofal uniongyrchol ychwanegol dros y cyfnod erbyn 2035 er mwyn cadw'r gymhareb rhwng derbynwyr gofal a gweithwyr gofal uniongyrchol ar lefelau 2021. Byddai hyn yn arwain at gost ychwanegol (mewn gwerth presennol net) o £1,223 miliwn (ym mhrisiau 2020) dros y cyfnod rhwng 2021 a 2035.

**Tabl 23 Effaith Opsiwn 4a – Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at lefel y cyflog byw gwirioneddol**

| Effaith Opsiwn 4a | Amcangyfrifon isel | Amcangyfrifon canolig | Amcangyfrifon uchel |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr ychwanegol erbyn 2035 | 54 (0.1%) | 338 (0.7%) | 625 (1.3%) |
| Sefydliadau nad oes angen eu gwella bellach erbyn 2035[a] | 19 (1.2%) | 19 (1.2%) | 19 (1.2%) |
| Cost GPN ychwanegol dros y cyfnod 2021-2035 (£ miliwn ym mhrisiau 2020) | 263 (1.9%) | 325 (2.4%) | 387 (2.9%) |

Sylwer: Y canrannau yw'r ganran o gyfanswm y llinell sylfaen. Mae'r sefydliadau yng nghyfanswm y llinell sylfaen i gyd yn sefydliadau gofal yng Nghymru, yn y sector annibynnol a'r sector awdurdodau lleol, ac mewn gofal preswyl a gofal cartref. GPN = Gwerth presennol net.
[a] Mae'r amcangyfrif isel, canolig ac uchel yn amrywio yn ôl y rhagdybiaeth am elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau. Rhagdybir bod ansawdd gofal yn annibynnol ar elastigedd y cyflenwad llafur ac felly mae'n gyson rhwng y tri amcangyfrif.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Mae Opsiwn 4a wedi'i fodelu ar sail y rhagdybiaeth y bydd cyflogau enwol, ar ôl y cynnydd mewn cyflogau yn 2021, yn tyfu ar yr un gyfradd â'r Cyflog Byw Cenedlaethol tan 2024[86] ac ar gyfradd o 3% ar ôl hynny, sy'n gyson â'r targed hirdymor ar gyfer chwyddiant[87] a chydag addasiad enwol ychwanegol o 1 pwynt canran. Nid yw'r cynnydd ychwanegol hwn mewn cyflogau dros amser yn dylanwadu ar y gyfradd cadw staff ac ansawdd gofal oherwydd:

1) nid yw'n gyfyngedig i'r sector gofal[88];
2) ar ôl 2025, mae'n golygu gwelliant cyson mewn cyflogau real nad yw, felly, yn arwain at newidiadau sydyn yn y gyfradd cadw.

Mae estyniad i'r dull modelu ar gyfer Opsiwn 4a yn caniatáu i gyflogau dyfu ar gyfraddau uwch na chwyddiant. Ar gyfer y dadansoddiad hwn o sensitifrwydd, y rhagdybiaeth o hyd yw y bydd cyflogau'n tyfu ar yr un gyfradd â'r Cyflog Byw Cenedlaethol erbyn 2024, oherwydd bydd cydran real ac enwol yn y cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol. O 2025

86 Gan ddefnyddio rhagdybiaethau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol - gweler https://obr.uk/faq/where-can-i-find-your-latest-forecasts/; tabl 1.17

87 Ibid, tabl 1.7.

88 Os bydd yr holl gyflogau'n tyfu ar yr un gyfradd, yna bydd opsiynau cyflogaeth eraill y tu allan i'r sector gofal yn parhau i fod yr un mor ddeniadol, felly rhagdybir na fydd effaith ar y cyfraddau recriwtio a chadw staff o ganlyniad i'r cynnydd hwn mewn cyflogau. Fodd bynnag, mae'r cynnydd mewn cyflogau'n cael ei gynnwys wrth fodelu costau.

ymlaen, rhagdybir y bydd cyflogau'n tyfu 2 bwynt canran[89] yn uwch na chwyddiant, h.y. ar 4% mewn termau enwol. Mae twf mewn cyflogau uwchlaw chwyddiant yn dylanwadu ar gyfraddau cadw ac ansawdd gofal. Mae Tabl 24 isod yn dangos canlyniadau'r dadansoddiad o sensitifrwydd.

**Tabl 24 Dadansoddiad sensitifrwydd o effeithiau Opsiwn 4a – Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at lefel y cyflog byw gwirioneddol yn cynnwys cynnydd dilynol yn y cyflog gwirioneddol**

| Dadansoddiad sensitifrwydd o effeithiau Opsiwn 4a | Amcangyfrifon isel | Amcangyfrifon canolig | Amcangyfrifon uchel |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr ychwanegol erbyn 2035 | 54 (0.1%) | 338 (0.7%) | 625 (1.3%) |
| Sefydliadau nad oes angen eu gwella bellach erbyn 2035 | 19 (1.2%) | 19 (1.2%) | 19 (1.2%) |
| Cost GPN ychwanegol dros y cyfnod 2021-2035 (£ miliwn ym mhrisiau 2020) | 273 (1.9%) | 338 (2.4%) | 404 (2.9%) |

Sylwer: Y canrannau yw'r ganran o gyfanswm y llinell sylfaen. GPN = Gwerth presennol net.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

### 3.4.1 Barn rhanddeiliaid

Roedd rhanddeiliaid yn cytuno y byddai cynyddu tâl at lefel y cyflog byw gwirioneddol yn well na dim ond cadw tâl ar lefel y cyflog byw cenedlaethol. Er hynny, roedd y mwyafrif yn teimlo nad oedd opsiwn y cyflog byw gwirioneddol yn ddigon o welliant o ran tâl i wneud gwahaniaeth sylweddol i weithwyr gofal.

## 3.5 Opsiwn 4b: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG

Mae Opsiwn 4b yn golygu cynyddu cyflogau, ond nid gwella telerau ac amodau, at lefel Agenda ar gyfer Newid y GIG. Yn fwy manwl, rydym yn mapio'r bandiau tâl dangosol (Tabl 13) ar raddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG, fel bod band tâl 1 yn ein model yn mapio ar radd cyflog 2 y GIG, band tâl 2 yn mapio ar radd cyflog 3 y GIG, etc.[90] Rydym yn cyfrifo

[89] Mae'r adroddiad cynaliadwyedd cyllidol gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn rhagdybio cynnydd hirdymor mewn costau uned o 2 y cant y flwyddyn wrth fodelu gofal cymdeithasol oedolion. Bydd cyflogau'n gydran fawr o'r costau uned hyn. Gweler https://cdn.obr.uk/FSR-July-2018-1.pdf; tabl B.1 ar dudalen 149.

[90] Roedd y mapio hwn wedi'i seilio ar ymarfer mapio dangosol untro a gynhaliwyd gan staff Fforwm Gofal Cymru ac Agenda ar gyfer Newid y GIG yn unswydd ar gyfer y modelu yn yr adroddiad hwn. Mae'r mapio rhwng y bandiau tâl gofal cymdeithasol a bandiau tâl y GIG yn

cyflogau yr awr ar gyfer bandiau tâl blynyddol Agenda ar gyfer y Newid y GIG drwy gymryd y tâl blynyddol ar gyfer pwynt canol y golofn gyflog ym mhob gradd a rhagdybio bod yr wythnos waith yn 37 awr am 52 o wythnosau y flwyddyn.

Mae hyn yn rhoi’r cyflogau yr awr am bob band tâl o dan Opsiwn 4b (yn 2020) ar gyfer y sector annibynnol:

**Tabl 25 Cyflogau am bob band tâl o dan Opsiwn 4b yn y sector annibynnol; cyflogau 2020**

| Opsiwn | Band tâl 1 | Band tâl 2 | Band tâl 3 | Band tâl 4 | Band tâl 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Llinell sylfaen | £9.26 yr awr | £9.69 yr awr | £10.49 yr awr | £12.11 yr awr | £18.17 yr awr |
| Opsiwn 4b | £9.38 yr awr | £10.13 yr awr | £11.47 yr awr | £13.89 yr awr | £17.30 yr awr |
| Gwahaniaeth cymharol | 1.3% | 4.5% | 9.3% | 14.7% | -4.8% |

Sylwer: Y cyflogau ar gyfer y bandiau tâl yn y senario llinell sylfaen yw pwyntiau canol yr amrediadau yn Nhabl 13. Troswyd cyflogau blynyddol yn gyflogau yr awr drwy eu rhannu â 37.5 x (365/7). Mae cyflogau Agenda ar gyfer Newid y GIG yn dibynnu ar brofiad. Mae’r cyflogau a ddefnyddiwyd yma wedi’u seilio ar y pwynt canol rhwng y cyflog isaf a’r cyflog uchaf posibl ar gyfer pob gradd tâl.

**Ffynhonnell: LE Wales**

Ar gyfer y sector annibynnol, rydym yn cyfuno’r cyflogau ar gyfer pob band tâl (yn Nhabl 25 ar gyfer Opsiwn 4b) â’r canrannau a amlinellwyd yn Nhabl 14 er mwyn amcangyfrif y cyflogau yr awr sy’n oblygedig (yn 2021) am bob rôl swydd.

Er mwyn modelu cynnydd yng nghyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG yn y sector awdurdodau lleol, defnyddiwyd y dull canlynol. Defnyddiwyd data ASC-WDS am dâl i bennu dosbarthiad yr uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal yn y bandiau tâl dangosol ar gyfer y sector awdurdodau lleol. Yn fwy penodol, roedd tua 5%, 35% a 60% o weithwyr gofal yn y sector awdurdodau lleol wedi’u mapio ar fandiau tâl dangosol 2, 3, a 4, yn yr un drefn. Yn fras, roedd 56% o uwch-weithwyr gofal wedi’u mapio ar fand tâl 4 a 44% ar fand tâl 5. Mapiwyd yr holl reolwyr a dirprwy reolwyr ar fand tâl 5. Wedyn cyfrifwyd cyfradd cyflog cyfartalog ar gyfer pob rôl swydd.

---

ddangosol yn unig ac roedd yn fwy cymhleth am nad oes rolau swyddi neu ddisgrifiadau swydd safonol ar gyfer y sector gofal cymdeithasol.

**Cyfrifo tâl gweithwyr gofal ym maes gofal preswyl yn y sector awdurdodau lleol o dan Opsiwn 4b – Cyfrifiad enghreifftiol**

Y cyflog yr awr canolrifol i weithwyr gofal mewn gofal preswyl yw £11.17 yn 2020 (Tabl 16). Fel y mae data ASC-WDS yn awgrymu, mae 5%, 35% a 60% o weithwyr gofal yn y sector awdurdodau lleol yn mapio ar fandiau tâl dangosol 2, 3, a 4 (yn y drefn honno). Yn achos graddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG, mae hyn yn rhoi cyflogau yr awr o £10.13, £11.47, a £13.89 (Tabl 25).

Felly, o dan Opsiwn 4b, dim ond 95% o'r gweithwyr gofal ym mandiau tâl 3 a 4 a fyddai'n cael cynnydd yn eu cyflog – hynny yw, codiad cyflog o £0.30 a £2.72 yr awr, yn y drefn honno.

Byddai hyn yn golygu cyflog yr awr o £12.93 (5%*£11.17 + 35%*£11.47 + 60%*£13.89) yn 2020.

Mae Tabl 26 yn dangos dadansoddiad o'r cyflogau yr awr yn 2021 o dan Opsiwn 4b ar gyfer pob rôl swydd yn ôl y math o ofal a'r math o ddarparwr.

**Tabl 26 Cyflogau yr awr ar gyfer pob rôl swydd o dan Opsiwn 4b; 2021**

| Math o ofal | Ffynhonnell gofal | Rheolwyr | Dirprwy reolwyr | Uwch-weithwyr gofal | Gweithwyr gofal |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal preswyl | Annibynnol | £17.78 | £13.70 | £10.79 | £10.09 |
| Gofal preswyl | Awdurdod lleol | £21.98 | £18.25 | £16.25 | £13.64 |
| Gofal cartref | Annibynnol | £16.53 | £13.22 | £10.79 | £10.27 |
| Gofal cartref | Awdurdod lleol | £23.10 | £20.20 | £16.55 | £13.90 |


Sylwer: Nid yw'r amcangyfrifon o'r cyflog yr awr am bob rôl swydd yn cynnwys argostau ychwanegol. Mae'r cyflogau hyn yn cynnwys cynnydd o 5.5% ar gyflogau 2020 ar gyfer pob band tâl fel y nodwyd yn Nhabl 25 uchod lle'r oedd hynny'n berthnasol. Defnyddiwyd cyflogau 2021 yn fan cychwyn ar gyfer modelu cyflogau.
**Ffynhonnell: LE Wales**

Mae Tabl 25 uchod yn dangos nad yw'r cynnydd mewn cyflogau o dan Opsiwn 4b yn effeithio ar weithwyr ym mand tâl 5 yn y sector annibynnol. Am fod y tâl yn uwch yn y sectorau awdurdodau lleol, mae cyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG yn cael llai o effaith o lawer ar weithwyr gofal awdurdodau lleol. At ei gilydd, mae'r opsiwn hwn yn effeithio ar 43,131 o'r 44,875 o weithwyr yn y gweithlu ar ddechrau'r cyfnod modelu, sef 2021.

Mae'r ffigurau isod yn dangos nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn, o'i gymharu â'r llinell sylfaen, ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref. O'i gymharu ag Opsiwn 4a,

mae mwy o gynnydd yn nifer y gweithwyr o dan Opsiwn 4b, ond yn yr un modd ag Opsiwn 4a, mae'r twf ar ei gryfaf yn y blynyddoedd cyntaf ar ôl y cynnydd.


**Ffigur 20 Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4b o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl**




Sylwer: Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr o dan Opsiwn 4b a'r nifer yn y llinell sylfaen. Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i gyfrifo'r effaith gyfan.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

**Ffigur 21 Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4b o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal cartref**





Sylwer: Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr o dan Opsiwn 4b a'r nifer yn y llinell sylfaen. Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i gyfrifo'r effaith gyfan.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Fel y mae Ffigur 22 yn dangos, ac yn debyg i Opsiwn 4a, o dan Opsiwn 4b mae nifer y defnyddwyr gwasanaethau am bob gweithiwr gofal uniongyrchol (uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal) yn is nag yn y senario llinell sylfaen, ond mae'n codi dros amser, h.y. bydd y twf yn nifer y defnyddwyr gwasanaethau yn cynyddu'r baich ar ddarparwyr gofal uniongyrchol.

**Ffigur 22 Amcanestyniad o'r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol (Opsiwn 4b)**




Sylwer: Defnyddiwyd ffigurau cyfrif pennau i gyfrifo'r gymhareb. Mae'r amcanestyniadau o'r galw yn cynnwys yr holl alw am wasanaethau gofal ffurfiol (cleientiaid awdurdodau lleol, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a'r rheini sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG). Mae gweithwyr gofal uniongyrchol yn cynnwys uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal yn unig.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Mae'r tabl isod yn dangos yr effaith ar weithwyr ychwanegol, y gostyngiad yn nifer y sefydliadau sydd angen eu gwella a chostau ychwanegol ar brisiau 2020 o dan wahanol amcangyfrifon o elastigedd y cyflenwad llafur. Mae niferoedd a chostau blynyddol y gweithlu (ar gyfer yr amcangyfrifon canolig) wedi'u darparu yn Nhabl 39 a Thabl 40 (yn y drefn honno) yn Atodiad 4.

O dan Opsiwn 4b, byddai angen 11,076 o weithwyr gofal uniongyrchol ychwanegol dros y cyfnod erbyn 2035 er mwyn cadw'r gymhareb rhwng derbynwyr gofal a gweithwyr gofal uniongyrchol ar lefelau 2021. Byddai hyn yn arwain at gost ychwanegol (mewn gwerth presennol net) o £1,212 miliwn (ym mhrisiau 2020) dros y cyfnod rhwng 2021 a 2035.

**Tabl 27 Effaith Opsiwn 4b – Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG**

| Effaith Opsiwn 4b | Amcangyfrifon isel | Amcangyfrifon canolig | Amcangyfrifon uchel |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr ychwanegol erbyn 2035 | 119 (0.3%) | 748 (1.6%) | 1,397 (2.9%) |
| Sefydliadau nad oes angen eu gwella bellach erbyn 2035[a] | 26 (1.6%) | 26 (1.6%) | 26 (1.6%) |
| Cost GPN ychwanegol dros y cyfnod 2021-2035 (£ miliwn ym mhrisiau 2020) | 759 (5.6%) | 898 (6.6%) | 1,040 (7.7%) |

Sylwer: Y canrannau yw'r ganran o gyfanswm y llinell sylfaen. Mae'r sefydliadau yng nghyfanswm y llinell sylfaen i gyd yn sefydliadau gofal yng Nghymru, yn y sector annibynnol a'r sector awdurdodau lleol, ac mewn gofal preswyl a gofal cartref. GPN = Gwerth presennol net.
[a] Mae'r amcangyfrif isel, canolig ac uchel yn amrywio yn ôl y rhagdybiaeth am elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau. Rhagdybir bod ansawdd gofal yn annibynnol ar elastigedd y cyflenwad llafur ac felly mae'n gyson rhwng y tri amcangyfrif.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

### 3.5.1 Barn rhanddeiliaid

Y consensws ymysg rhanddeiliaid oedd y byddai'r effaith gadarnhaol fwyaf yn y tymor hwy yn dod o gynyddu cyflogau at gyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG o ran recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol ac felly mai hwn oedd y llwybr gorau i'w ddilyn.

Mae'n ymddangos bod y farn hon wedi'i seilio i ryw raddau ar yr argraff mai cyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG yw'r cyfraddau tâl uchaf o blith yr opsiynau a aseswyd, er bod y data a gasglwyd yn awgrymu bod cryn orgyffwrdd rhwng cyfraddau tâl awdurdodau lleol a chyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG. Yn yr un modd, mae'r adroddiadau am amrywiadau tâl gan WIHCS[91] wedi canfod bod tâl sylfaenol yr awdurdodau lleol yn gallu bod yn uwch na thâl sylfaenol y GIG, ond bod y GIG yn talu mwy o ychwanegiadau gan amlaf.

Nododd un rhanddeiliad fod awdurdodau lleol wedi gofyn yn y gorffennol am gydraddoldeb â strwythurau tâl y GIG. Dywedodd rhanddeiliad arall fod staff gofal cymdeithasol a staff iechyd yn cydweithio'n agos ac y byddai'r teimlad cryfach o gydraddoldeb drwy gael tâl tebyg yn debygol o wella cysylltiadau proffesiynol rhwng y ddau sector hyn.

91 https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-09/review-of-evidence-of-variation-in-terms-and-conditions-for-social-care-employment-contracts-in-wales.pdf

Er bod yr ymateb i'r opsiwn polisi hwn yn gadarnhaol at ei gilydd, roedd rhanddeiliaid wedi cyfeirio hefyd at nifer o broblemau ymarferol y byddai angen delio â nhw:

- Gallai anghysonderau annheg godi o ran tâl am ei bod yn anodd paru disgrifiadau swydd yn union rhwng y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol.
- Mewn rhai achosion, byddai paru tâl gweithwyr gofal â lefelau Agenda ar gyfer Newid y GIG yn gallu lleihau'r tâl i weithwyr gofal: yr enghraifft a gynigiwyd gan un rhanddeiliad oedd bod gweithwyr cymorth heb gymhwyster mewn awdurdodau lleol yn cael tâl a oedd ychydig yn fwy na thâl staff tebyg yn y GIG. Mae hyn yn wir hefyd am weithwyr cymdeithasol sydd newydd gymhwyso o'u cymharu â nyrsys sydd newydd gymhwyso.
- Mewn achosion eraill, gallai staff fod yn waeth allan yn ariannol yn y diwedd am eu bod yn colli credydau treth: fel y nododd un rhanddeiliad, dull Agenda ar gyfer Newid y GIG mewn rhai achosion yw ehangu disgrifiadau swydd a symud staff i fandiau uwch, er enghraifft, o Fand 1 i Fand 2. Felly, er mwyn cael y cynnydd cyflog cysylltiedig, mae staff yn gorfod ysgwyddo mwy o gyfrifoldebau yn eu swydd (ac mae hyn yn dangos pa mor bwysig yw cael disgrifiadau swydd manwl ar gyfer pob math o waith). Er hynny, yn achos rhai staff, byddai symud i radd swydd uwch yn gallu arwain at ostyngiad mewn budd-daliadau fel y credydau treth gwaith.[92]
- Byddai cadw gwahaniaethau tâl yn gallu troi'n broblem ychwanegol/cost ychwanegol: byddai angen cadw gwahaniaethau tâl ar gyfer rheolwyr felly mae'n bosibl y byddai angen cynyddu tâl ar eu cyfer nhw hefyd.

## 3.6 Opsiwn 4c: Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Awdurdodau Lleol

Mae Opsiwn 4c yn golygu cynyddu cyflogau'r sector gofal annibynnol at lefel cyfraddau tâl yr awdurdodau lleol. Felly nid yw'r opsiwn hwn yn effeithio ar gyflogau gweithwyr gofal yr awdurdodau lleol. Nid oes newid mewn telerau ac amodau. Felly, y rhagdybiaeth ar gyfer cyflogau 2021 yn y model yw'r canlynol.

[92] Mae dadansoddiad pellach o'r rhyngweithio rhwng cynnydd mewn tâl a'r system dreth a budd-daliadau yn ddiweddarach yn y bennod hon.

**Tabl 28 Cyflogau yr awr am bob pob rôl swydd yn Opsiwn 4c; 2021**


| Math o ofal | Ffynhonnell gofal | Rheolwyr | Dirprwy reolwyr | Uwch-weithwyr gofal | Gweithwyr gofal |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Preswyl | Annibynnol | £21.98 | £17.71 | £14.69 | £11.79 |
| Gofal Preswyl | Awdurdodau Lleol | £21.98 | £17.71 | £14.69 | £11.79 |
| Gofal Cartref | Annibynnol | £23.10 | £20.20 | £14.69 | £11.81 |
| Gofal Cartref | Awdurdodau Lleol | £23.10 | £20.20 | £14.69 | £11.81 |

Sylwer: nid yw'r amcangyfrifon o gyflogau yr awr am bob rôl swydd yn cynnwys argostau ychwanegol. Mae'r cyflogau hyn yn cynnwys cynnydd o 5.5% o'r cyflogau yn 2020. Gweler adran 3.1.2 am drafodaeth ynghylch cyfrifo cyflogau awdurdodau lleol.
**Ffynhonnell: LE Wales**

Mae cyflogau awdurdodau lleol yn uwch na chyflogau'r sector annibynnol ym mhob band tâl a ystyriwyd ym model y gweithlu. Felly, byddai'r opsiwn polisi hwn – o'i gymhwyso fel y gwneir yn y model – yn effeithio ar yr holl weithwyr yn y sector annibynnol ond nid ar weithwyr yn y sector awdurdodau lleol. Ar ddechrau'r cyfnod modelu yn 2021, roedd yr opsiwn polisi hwn yn effeithio ar 37,464 o'r 44,875 o weithwyr sydd wedi'u cynnwys yn ein diffiniad cyfyng o'r gweithlu (gweler Tabl 12).

Mae'r ffigurau isod yn dangos nifer ychwanegol y gweithwyr ym mhob blwyddyn, mewn gofal preswyl a gofal cartref, o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen. Dylid nodi bod y ffigurau hyn yn adlewyrchu newidiadau yng ngweithlu'r sector annibynnol yn unig, gan fod y cyflogau yn sector gofal yr awdurdodau lleol yr un fath â'r llinell sylfaen.


**Ffigur 23** **Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4c o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl**




Sylwer: Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr o dan Opsiwn 4c a'r nifer yn y llinell sylfaen. Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i gyfrifo'r effaith gyfan.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

**Ffigur 24** **Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4c o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal cartref**





Sylwer: Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr o dan Opsiwn 4c a'r nifer yn y llinell sylfaen. Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i gyfrifo'r effaith gyfan.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Mae Ffigur 25 yn dangos bod y gymhareb amcanestynedig rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol yn debygol o ostwng ychydig o dan Opsiwn 4c hyd at 2026. Ar ôl hynny, mae'r galw'n debygol o gynyddu'n gyflymach na'r cyflenwad o weithwyr gofal uniongyrchol.

**Ffigur 25 Amcanestyniad o'r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol (Opsiwn 4c)**




Sylwer: Mae'r gymhareb wedi'i seilio ar ffigurau'r cyfrif pennau. Mae'r amcanestyniadau o'r galw yn cynnwys yr holl alw am wasanaethau gofal ffurfiol (cleientiaid awdurdodau lleol, unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a'r rheini sy'n derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG). Mae gofalwyr uniongyrchol yn cynnwys uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal yn unig.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Mae Ffigur 23 a Ffigur 24 yn dangos y byddai mwy o weithwyr o dan Opsiwn 4c nag yn y senario llinell sylfaen a mwy hefyd nag a fyddai o dan Opsiynau 4a a 4b. Er hynny, fel y mae'r tabl isod yn dangos, mae Opsiwn 4c hefyd yn gysylltiedig â chostau uwch. Mae niferoedd blynyddol y gweithlu a chyfanswm y costau (ar gyfer yr amcangyfrifon canolig) wedi'u darparu yn Nhabl 39 a Thabl 40 (yn y drefn honno) yn Atodiad 4.

Yr amcangyfrif o'r gost ychwanegol (mewn gwerth presennol net) am gadw'r gymhareb rhwng derbynwyr gofal a gweithwyr gofal uniongyrchol ar lefelau 2021 yw £896 miliwn (ym mhrisiau 2020) dros y cyfnod rhwng 2021 a 2035, ac mae hyn yn cyfateb i 9,195 o weithwyr gofal uniongyrchol ychwanegol erbyn 2035.

**Tabl 29 Effaith Opsiwn 4c – Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Awdurdodau Lleol**

| Effaith Opsiwn 4c | Amcangyfrifon isel | Amcangyfrifon canolig | Amcangyfrifon uchel |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr ychwanegol erbyn 2035 | 525 (1.1%) | 3,470 (7.3%) | 6,865 (14.5%) |
| Sefydliadau nad oes angen eu gwella bellach erbyn 2035[a] | 124 (7.8%) | 124 (7.8%) | 124 (7.8%) |
| Cost GPN ychwanegol dros y cyfnod 2021-2035 (£ miliwn ym mhrisiau 2020) | 2,865 (21.2%) | 3,656 (27.0%) | 4,532 (33.5%) |

Sylwer: Y canrannau yw'r ganran o gyfanswm y llinell sylfaen. Mae'r sefydliadau yng nghyfanswm y llinell sylfaen i gyd yn sefydliadau gofal yng Nghymru, yn y sector annibynnol a'r sector awdurdodau lleol, ac mewn gofal preswyl a gofal cartref. GPN = Gwerth presennol net.
[a] Mae'r amcangyfrif isel, canolig ac uchel yn amrywio yn ôl y rhagdybiaeth am elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau. Rhagdybir bod ansawdd gofal yn annibynnol ar elastigedd y cyflenwad llafur ac felly mae'n gyson rhwng y tri amcangyfrif.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

### 3.6.1 Barn rhanddeiliaid

Roedd y farn am yr opsiwn hwn yn gadarnhaol at ei gilydd. Nododd nifer o randdeiliaid mai anaml y byddai awdurdodau lleol yn gosod amodau ynghylch isafswm cyflog ac amodau cyflogaeth wrth gomisiynu darparwyr, gan y byddai'n anodd eu gorfodi o bosibl. Er hynny, nododd un rhanddeiliad fod rhai awdurdodau lleol wedi gosod amodau o'r fath yn y gorffennol pan oedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol.

Cyfeiriwyd at ddwy fantais benodol i randdeiliaid yn yr opsiwn hwn:

- byddai'n helpu'r sector gofal annibynnol i gadw staff yn lle eu colli i awdurdodau lleol;
- byddai'n atal darparwyr is-safonol rhag cynnig prisiau is na darparwyr da.

Er hynny, roedd rhanddeiliaid hefyd wedi nodi rhai anfanteision o ran cynaliadwyedd y sector gofal sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn:

- Er y byddai'n gallu helpu'r sector annibynnol i gadw staff a fyddai'n gadael i weithio i'r awdurdod lleol fel arall, ni fyddai'r cynnydd mewn tâl yn ddigon i beidio â cholli staff i sectorau eraill (heblaw gofal).
- Byddai tâl gweithwyr gofal yn gallu amrywio'n fawr o hyd ledled Cymru, gan barhau'r trosiant uchel presennol yn swyddi'r sector: y rheswm am hyn yw bod tâl awdurdodau lleol yn cael ei osod ar lefel 'genedlaethol' (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon), gyda bandiau a graddau tâl manwl ar gyfer staff. Er hynny, mae cryn hyblygrwydd gan bob awdurdod lleol am ei fod yn gallu dewis ar ba bwynt yn y

golofn gyflog y bydd yn penodi staff. Felly, mae tâl ac amodau'n cael eu negodi ar lefel yr awdurdod lleol unigol ac felly maent yn amrywio'n fawr ledled Cymru.

Yn ogystal â hyn, roedd rhanddeiliaid yn ei gweld yn bwysig nodi na fyddai gosod tâl gweithwyr gofal ar lefel tâl staff yr awdurdodau lleol yn ddigon yng ngolwg gweithwyr gofal am eu bod yn gweld bod telerau ac amodau awdurdodau lleol yr un mor bwysig. Ar y cyfan, mae'r telerau ac amodau hyn yn fwy ffafriol na rhai'r sector annibynnol. Er enghraifft, ar gyfer staff gofal cartref, mae amodau awdurdodau lleol yn sicrhau fel arfer fod cefnogaeth gyson ar gael gan weithwyr proffesiynol. Fel arfer, bydd polisïau gan awdurdodau lleol mewn perthynas â nifer y staff goruchwylio ac argaeledd staff goruchwylio y tu allan i oriau arferol: mae hyn yn bwysig iawn i staff gofal cartref sy'n gallu wynebu anawsterau a theimlo'n eithaf ynysig yn eu gwaith. Felly, hyd yn oed os oedd lefelau tâl yn cynyddu i lefelau awdurdodau lleol, os oedd telerau ac amodau cyflogaeth awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol yn parhau i fod yn wahanol, yna nid yw'n debygol y bydd newid yn trosiant swyddi presennol. Roedd un rhanddeiliad wedi pwysleisio bod darparwyr gofal y sector annibynnol yn teimlo'n rhwystredig iawn o weld gweithwyr a hyfforddwyd ganddynt yn cael eu colli i awdurdodau lleol am fod eu telerau ac amodau'n well.

## 3.7 Opsiwn 4d: Cynyddu cyflogaeth gweithwyr gofal i gwrdd â chyfraddau tâl a thelerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG

Mae Opsiwn 4d yn golygu cynyddu cyflogau at lefel cyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG (fel y gwneir o dan Opsiwn 4b) *a hefyd* newid telerau ac amodau i gyrraedd safonau Agenda ar gyfer Newid y GIG. Felly, y cyflogau yn 2021 a ddefnyddiwyd yn y model oedd y canlynol.

**Tabl 30 Cyflogau yr awr am bob rôl swydd yn Opsiwn 4d; 2021**

| Math o ofal | Ffynhonnell gofal | Rheolwyr | Dirprwy reolwyr | Uwch-weithwyr gofal | Gweithwyr gofal |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal Preswyl | Annibynnol | £17.78 | £13.70 | £10.79 | £10.09 |
| Gofal Preswyl | Awdurdodau Lleol | £21.98 | £18.25 | £16.25 | £13.64 |
| Gofal Cartref | Annibynnol | £16.53 | £13.22 | £10.79 | £10.27 |
| Gofal Cartref | Awdurdodau Lleol | £23.10 | £20.20 | £16.55 | £13.90 |

Sylwer: nid yw'r amcangyfrifon o gyflogau yr awr am bob rôl swydd yn cynnwys argostau ychwanegol.

**Ffynhonnell: LE Wales**

Fel yr eglurwyd yn adran 3.1.3, mae gwelliannau mewn telerau ac amodau yn cael eu cynnwys yn y model ar ffurf cynnydd yn yr argostau sy'n ychwanegol i gyflogau. Y

rhagdybiaeth ym model y llinell sylfaen yw argostau o 29.85% sy'n cynrychioli'r gofynion statudol ar gyfer telerau ac amodau.[93]

Roedd LE Wales wedi cymharu safonau Agenda ar gyfer Newid y GIG, a ddarparwyd mewn asesiad cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, â gofynion statudol sydd wedi'u hamlinellu ar wefan GOV.UK. Gan ddilyn y cyfrifiad o argostau gan UKHCA, roedd yr asesiad hwn wedi cynnwys tâl gwyliau, tâl am amser hyfforddi, tâl salwch (tymor byr), tâl yn lle rhybudd ac atal o swydd, ac ad-dalu costau teithio. Yn ogystal â'r ffactorau a oedd wedi'u cynnwys gan UKHCA, roedd LE Wales wedi edrych ar dâl goramser, tâl am weithio oriau anghymdeithasol, absenoldeb salwch galwedigaethol, a thâl mamolaeth.

Roedd y dadansoddiad gan LE Wales yn dangos y gall argostau gynyddu 2.5 pwynt canran wrth newid o ofynion statudol i safonau Agenda ar gyfer Newid y GIG, dim ond ar sail yr argostau roedd UKHCA wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r isafswm pris am ofal yn y cartref. Os yw'r dadansoddiad hefyd yn cynnwys tâl goramser, tâl am weithio oriau anghymdeithasol, tâl absenoldeb salwch galwedigaethol a thâl mamolaeth, gall yr argostau gynyddu cymaint â 10 pwynt canran.

Defnyddiwyd dau senario gwahanol ar gyfer Opsiwn 4d: y prif senario lle mae cynnydd rhwng 5 a 10 pwynt canran mewn argostau a dadansoddiad sensitifrwydd sy'n cyfyngu'r cynnydd mewn argostau i 2.5 pwynt canran ar gyfer y gofynion statudol. Mae'r prif senario yn cydnabod bod rhai telerau ac amodau a fydd yn fwy perthnasol i weithwyr gofal ac uwch-weithwyr gofal nag i reolwyr, e.e. tâl am weithio oriau anghymdeithasol. Cymhwyswyd yr argostau ychwanegol at y ddau fath o ofal a'r ddwy ffynhonnell gofal. Felly mae'r ddau senario fel a ganlyn.

**Tabl 31 Argostau ychwanegol am bob rôl swydd yn Opsiwn 4d**

| Senario | Rheolwyr | Dirprwy reolwyr | Uwch-weithwyr gofal | Gweithwyr gofal |
|---|---|---|---|---|
| Prif senario | 5 pc | 5 pc | 10 pc | 10 pc |
| Senario arall | 2.5 pc | 2.5 pc | 2.5 pc | 2.5 pc |

Sylwer: pc = pwynt canran
**Ffynhonnell: LE Wales**

Yn y model, mae'r gwelliant mewn telerau ac amodau'n ysgogi gwelliant mewn cyfraddau cadw staff ac mae'r cynnydd mewn argostau sy'n gysylltiedig â'r gwelliant mewn telerau ac amodau yn cael ei adlewyrchu yn yr amcangyfrif o gostau'r opsiwn. Mae'r argostau ychwanegol hyn wedi'u cymhwyso yn yr un ffordd at y sector gofal preswyl a'r sector gofal cartref, yn ogystal â'r sector awdurdodau lleol a'r sector annibynnol. Felly, rydym yn

[93] Cyfrifwyd hyn ar sail tâl ac argostau cysylltiedig â chyflogau a gofnodwyd gan UKHCA wrth gyfrifo'r isafswm pris am ofal yn y cartref. Adalwyd o: https://www.ukhca.co.uk/downloads.aspx?ID=434.

rhagdybio drwy hynny bod telerau ac amodau gweddol debyg ar hyn o bryd yn y sector gofal preswyl a'r sector gofal cartref, ac yn y sector awdurdodau lleol a'r sector annibynnol.


Nid yw'n glir o'r dystiolaeth a yw hyn yn wir. Mae'r adroddiad diweddar am delerau ac amodau mewn gofal cymdeithasol gan WIHSC[94] yn darparu arolwg o lenyddiaeth a chanlyniadau o arolwg o'r telerau ac amodau presennol yn y sector gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymatebion i'r arolwg yn awgrymu bod y sector awdurdodau lleol yn darparu gwell telerau ac amodau na'r sector annibynnol, ond mae'n ymddangos bod yr arolwg o lenyddiaeth yn awgrymu bod telerau ac amodau'n weddol debyg rhwng y sectorau.

Mae Ffigur 26 a Ffigur 27 isod yn dangos nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen yn ôl y math o ofal ar gyfer y *prif senario*, ac mae Ffigur 28 a Ffigur 29 yn dangos y niferoedd ychwanegol yn ôl y math o ofal ar gyfer y *senario arall*. Yn y ffigurau hyn – ac yng ngweddill yr adran hon – mae elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau yn cael ei gadw'n gyson ar 0.37. Fel yr eglurwyd yn adrannau 3.1.1 a 3.1.3, mae effaith telerau ac amodau yn amodol hefyd ar elastigedd y cyflenwad llafur. Roedd yr ymgyngoriadau â rhanddeiliaid yn awgrymu y gall gweithwyr ymateb yn gryfach i welliannau mewn telerau ac amodau nag i gynnydd mewn cyflogau. Gan nad oes amcangyfrifon uniongyrchol ar gael o effaith telerau ac amodau ar gyfraddau cadw staff, mae'r model yn defnyddio'r rhagdybiaeth am elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau ond yn ei gynyddu un cam. Felly, mae cryn ansicrwydd ynghylch y ffigurau a ddangosir isod a dylid eu dehongli gan gadw hynny mewn cof.

Felly ein hamcangyfrif isel ar gyfer elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â thelerau ac amodau yw 0.37 a'r amcangyfrif canolig yw 0.68. Y rhain, yn y drefn honno, yw'r amcangyfrifon canolig ac uchel ar gyfer elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau. Cyfrifwyd yr amcangyfrif uchel ar gyfer elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â thelerau ac amodau drwy allosod yr amcangyfrifon isel a chanolig ar sail hafaliad llinol ac mae wedi'i osod ar 0.99.

[94] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2020-09/review-of-evidence-of-variation-in-terms-and-conditions-for-social-care-employment-contracts-in-wales.pdf


**Ffigur 26** **Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4d o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl (prif senario)**




Sylwer: Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr o dan Opsiwn 4d (prif senario) a'r nifer yn y llinell sylfaen. Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i gyfrifo'r effaith gyfan. Mae elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau wedi'i gadw'n gyson ar 0.37; mae elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â thelerau ac amodau yn amrywio rhwng 0.37 a 0.99.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**


**Ffigur 27** **Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4d o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal cartref (prif senario)**




Sylwer: Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr o dan Opsiwn 4d (prif senario) a'r nifer yn y llinell sylfaen. Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i gyfrifo'r effaith gyfan. Mae elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau wedi'i gadw'n gyson ar 0.37; mae elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â thelerau ac amodau yn amrywio rhwng 0.37 a 0.99.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**


**Ffigur 28 Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4d o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl (senario arall)**




Sylwer: Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr o dan Opsiwn 4d (senario arall) a'r nifer yn y llinell sylfaen. Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i gyfrifo'r effaith gyfan. Mae elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau wedi'i gadw'n gyson ar 0.37; mae elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â thelerau ac amodau yn amrywio rhwng 0.37 a 0.99.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

**Ffigur 29 Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4d o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal cartref (senario arall)**





Sylwer: Mae'r ffigur yn dangos y gwahaniaeth rhwng nifer y gweithwyr o dan Opsiwn 4d (senario arall) a'r nifer yn y llinell sylfaen. Ni ddylid adio'r ffigurau blynyddol at ei gilydd i gyfrifo'r effaith gyfan. Mae elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau wedi'i gadw'n gyson ar 0.37; mae elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â thelerau ac amodau yn amrywio rhwng 0.37 a 0.99.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Fel y dangosir yn Ffigur 30, mae Opswn 4d (prif senario) yn arwain at gynnydd yn y cyflenwad o weithwyr gofal uniongyrchol sy’n cadw’r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol tan 2024. Fodd bynnag, ar ôl hynny, yn yr un modd â’r senarios eraill, mae’r galw’n cynyddu’n gyflymach na’r cyflenwad fel bod cynnydd yn nifer yr oedolion sy’n derbyn gwasanaethau gofal am bob gweithiwr gofal ym mhob blwyddyn.

**Ffigur 30 Amcanestyniad o’r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol (Opsiwn 4d – y prif senario a’r senario arall)**




Sylwer: Mae’r gymhareb wedi’i seilio ar ffigurau’r cyfrif pennau . Mae’r amcanestyniadau o’r galw yn cynnwys yr holl alw am wasanaethau gofal ffurfiol (cleientiaid awdurdodau lleol, unigolion sy’n ariannu eu gofal eu hunain a’r rheini sy’n derbyn Gofal Iechyd Parhaus y GIG). Mae gofalwyr uniongyrchol yn cynnwys uwch-weithwyr gofal a gweithwyr gofal yn unig.
**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Mae Tabl 32 a Thabl 33 isod yn dangos effeithiau Opsiwn 4d ar gyfer y prif senario a’r senario arall (yn y drefn honno). Fel o’r blaen, roedd elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau wedi’i gadw’n gyson yn ein hamcangyfrif canolig ond roedd yr elastigedd mewn perthynas â thelerau ac amodau’n amrywio. Mae niferoedd blynyddol y gweithlu a chyfanswm y costau (ar gyfer yr amcangyfrifon canolig) wedi’u darparu yn Nhabl 39 a Thabl 40 (yn y drefn honno) yn Atodiad 4.

O dan y prif senario, byddai angen oddeutu 9,232 o weithwyr gofal uniongyrchol ychwanegol erbyn 2035 er mwyn cadw’r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol ar lefel 2021. Mae hyn yn cyfateb i gostau ychwanegol (mewn GPN) o £833 miliwn (ym mhrisiau 2020) dros y cyfnod rhwng 2021 a 2035. Yn senario arall Opsiwn 4d, byddai angen recriwtio 10,634 o weithwyr gofal uniongyrchol ychwanegol erbyn 2035 i gadw’r gymhareb, a byddai hyn yn arwain at gynnydd mewn costau o £834 miliwn mewn gwerth presennol net (ym mhrisiau 2020) dros gyfnod y modelu.

### Tabl 32 Effaith Opsiwn 4d; prif senario

| Effaith Opsiwn 4d (argostau rhwng 5 a 10 pc) | Amcangyfrifon isel | Amcangyfrifon canolig | Amcangyfrifon uchel |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr ychwanegol erbyn 2035 | 1,978 (4.2%) | 3,056 (6.4%) | 4,180 (8.8%) |
| Sefydliadau nad oes angen eu gwella bellach erbyn 2035[a] | 140 (8.8%) | 140 (8.8%) | 140 (8.8%) |
| Cost GPN ychwanegol dros y cyfnod 2021-2035 (£ miliwn ym mhrisiau 2020) | 2,235 (16.5%) | 2,485 (18.4%) | 2,743 (20.3%) |

Sylwer: Y canrannau yw'r ganran o gyfanswm y llinell sylfaen. Mae'r sefydliadau yng nghyfanswm y llinell sylfaen i gyd yn sefydliadau gofal yng Nghymru, yn y sector annibynnol a'r sector awdurdodau lleol, ac mewn gofal preswyl a gofal cartref. Argostau ychwanegol rhagdybiedig: ar gyfer rheolwyr/dirprwy reolwyr: 5 pwynt canran; ar gyfer uwch-weithwyr/gweithwyr gofal: 10 pwynt canran

[a] Mae'r amcangyfrif isel, canolig ac uchel yn amrywio yn ôl y rhagdybiaeth am elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â thelerau ac amodau. Rhagdybir bod ansawdd gofal yn annibynnol ar elastigedd y cyflenwad llafur ac felly mae'n gyson rhwng y tri amcangyfrif.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

### Tabl 33 Effaith Opsiwn 4d; senario arall

| Effaith Opsiwn 4d (argostau o 2.5 pc) | Amcangyfrifon isel | Amcangyfrifon canolig | Amcangyfrifon uchel |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr ychwanegol erbyn 2035 | 1,061 (2.2%) | 1,326 (2.8%) | 1,593 (3.4%) |
| Sefydliadau nad oes angen eu gwella bellach erbyn 2035[a] | 55 (3.4%) | 55 (3.4%) | 55 (3.4%) |
| Cost GPN ychwanegol dros y cyfnod 2021-2035 (£ miliwn ym mhrisiau 2020) | 1,246 (9.2%) | 1,306 (9.7%) | 1,366 (10.1%) |

Sylwer: Y canrannau yw'r ganran o gyfanswm y llinell sylfaen. Mae'r sefydliadau yng nghyfanswm y llinell sylfaen i gyd yn sefydliadau gofal yng Nghymru, yn y sector annibynnol a'r sector awdurdodau lleol, ac mewn gofal preswyl a gofal cartref. Argostau ychwanegol rhagdybiedig: 2.5 pwynt canran.

[a] Mae'r amcangyfrif isel, canolig ac uchel yn amrywio yn ôl y rhagdybiaeth am elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â thelerau ac amodau. Rhagdybir bod ansawdd gofal yn annibynnol ar elastigedd y cyflenwad llafur ac felly mae'n gyson rhwng y tri amcangyfrif.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

### 3.7.1 Barn rhanddeiliaid

Roedd cefnogaeth gryf i'r opsiwn hwn, a'r rhanddeiliaid yn cytuno ar y pwysigrwydd o gael cydraddoldeb o ran tâl a thelerau ac amodau rhwng y sectorau.

Nododd un rhanddeiliad fod y pwysigrwydd cymharol rhwng tâl ac amodau eraill yn amrywio, am fod nifer o ffactorau'n gysylltiedig ond, lle nad yw tâl yn ffactor, mae telerau ac amodau fel yr hawl i wyliau/darpariaeth pensiwn/oriau gwaith wythnosol/oriau anghymdeithasol, etc. yn dod yn bwysig.

Roedd un rhanddeiliad wedi nodi bod hyblygrwydd mewn telerau ac amodau yn werthfawr iawn i nifer mawr o weithwyr gofal – yn fwy felly na thâl o bosibl – gan fod y gweithlu, sydd yn fenywod gan mwyaf, yn aml yn dygymod â chyfrifoldebau teuluol yn ogystal â gwaith.

Roedd nifer o randdeiliaid hefyd wedi cyfeirio at yr enghraifft o gontractau heb oriau i ddangos nad yw'r holl delerau ac amodau'n cael eu gweld yr un mor bwysig gan weithwyr. Er bod nifer mawr o weithwyr yn anhoff o gontractau heb oriau, mae eraill yn edrych yn ffafriol ar drefniant o'r math hwn am ei fod yn rhoi iddynt yr hyblygrwydd sydd ei angen arnynt. Nododd un rhanddeiliad mai gweithlu dros dro sydd wedi bod erioed yn y sector gofal, ac mai hwn yw'r dewis gorau gan rai pobl. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl bod disgwyliadau gweithwyr gofal yn y cenedlaethau iau o ran swyddi yn wahanol i'r rheini sydd gan y cenedlaethau hŷn. Er enghraifft, efallai y byddant yn llai teyrngar i'w swydd ac yn llai parod i dderbyn contract sy'n eu clymu wrth un swydd.

Roedd rhanddeiliaid hefyd yn gytûn bod y nod o sicrhau system iechyd integredig yn golygu bod rhaid cael cydraddoldeb â'r GIG o ran tâl, telerau ac amodau, ac – yn hollbwysig – y parch sydd tuag at ofalwyr. Roedd teimlad cryf, os oedd pobl yn gwneud swyddi tebyg, y dylent gael yr un gydnabyddiaeth ym mha sector bynnag y maent yn gweithio. Fel arall, bydd y sefyllfa bresennol yn parhau lle bydd gweithwyr yn symud o gwmpas y gwahanol sectorau gan chwilio am y cyflog gorau, a hynny'n amharu ar ddilyniant gofal y defnyddwyr gwasanaethau.

Un sylw olaf gan randdeiliad am yr opsiwn hwn oedd, er bod tâl ac amodau'n bwysig, ei bod hefyd yn hanfodol buddsoddi yn y seilwaith cymorth i staff, fel goruchwyliaeth a hyfforddiant.

## 3.8 Rhyngweithio â'r system dreth a budd-daliadau

Cynhaliwyd dadansoddiad i asesu a fyddai cynyddu cyflogau gros y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru yn gallu lleihau eu cyflogau clir wrth i gredydau treth a/neu fudd-daliadau gael eu tynnu'n ôl.

Mae'r system dreth a budd-daliadau yn gymhleth dros ben ac mae sefyllfa pob aelwyd o ran treth a budd-daliadau'n wahanol. Oherwydd hynny, mae'n anodd gwneud datganiad cyffredinol am y ffordd y byddai'r cynnydd mewn tâl o dan y gwahanol opsiynau yn rhyngweithio â'r system. Dewiswyd pum math gwahanol o aelwyd i gynnig enghreifftiau o'r

effeithiau ar gyflogau clir. Gan ddilyn dull a ddefnyddiwyd gan Drysorlys EM[95], y mathau o aelwyd a ddewiswyd oedd: oedolyn sengl heb blant; oedolyn sengl ag un plentyn; cwpl heb blant; cwpl ag un plentyn; a chwpl â dau blentyn.

Mae Llywodraeth y DU yn argymell defnyddio un o'r tri chyfrifiannell budd-daliadau sydd ar ei gwefan[96]. Yn y dadansoddiad hwn, defnyddiwyd y cyfrifiannell Policy in Practice.[97] Mae'r cyfrifiannell hwn yn gofyn am fanylion am yr aelwyd, eiddo, ac incwm ac enillion. Mae rhagdybiaethau'r mewnbynnau ar gyfer y dadansoddiad hwn wedi'u dangos yn Atodiad 7. Yn gyffredinol, y dull a ddefnyddiwyd yma oedd amrywio'r nifer ar yr aelwyd ond cadw'r rhan fwyaf o nodweddion eraill yr aelwyd, fel oed, ardal breswyl, ac eraill, yn gyson.

Mae'r dadansoddiad a gynhaliwyd yn asesu effaith y cynnydd mewn tâl ar gyfer Opsiwn 4c (cynyddu at gyfraddau tâl awdurdodau lleol) o'i chymharu â'r llinell sylfaen ar gyfer gweithwyr gofal yn y sector gofal preswyl annibynnol. Dewiswyd y cynnydd hwn am mai yn yr achos hwn y byddai'r cynnydd mwyaf mewn cyflogau ac am y byddai'n darparu'r prawf gorau ar y posibilrwydd bod cynnydd mewn tâl gros yn arwain at ostyngiad mewn cyflog clir.

Yn gyffredinol, mae'r dadansoddiad yn awgrymu na fyddai'r cynnydd mewn tâl gros am yr holl rolau swyddi yn yr holl fathau o aelwyd a ystyriwyd yn arwain at ostyngiad mewn cyflog clir (incwm a dderbyniwyd, yn cynnwys budd-daliadau). Er hynny, ym mhob achos mae'r cynnydd yn y cyflog clir yn llai na'r cynnydd mewn cyflog gros. Mae'r cynnydd mewn cyflog clir wedi'i fynegi fel canran o'r cynnydd mewn cyflog gros yn amrywio'n fach iawn yn yr holl gategorïau swydd, ond mae cryn amrywiad rhwng y mathau o aelwyd**.** Mae cynnydd o £1 yn y cyflog gros yn rhoi cynnydd o 24 ceiniog yn y cyflog clir yn yr achos lleiaf a 68 ceiniog yn yr achos mwyaf.

---

[95] Trysorlys EM (2018) "Impact on households: distributional analysis to accompany Budget 2018". Available at: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/752045/impact_on_households_distributional_analysis_to_accompany_budget_2018_web.pdf

[96] https://www.gov.uk/benefits-calculators

[97] https://www.betteroffcalculator.co.uk/calculator/new/step1

**Tabl 34 Cynnydd mewn cyflog clir fel canran o'r cynnydd mewn cyflog gros ar gyfer Opsiwn 4c**

| | Gweithiwr gofal | Uwch-weithiwr gofal | Dirprwy reolwr | Rheolwr |
|---|---|---|---|---|
| Sengl, dim plant | 68% | 68% | 68% | 68% |
| Sengl, un plentyn | 24% | 25% | 25% | 25% |
| Cwpl, dim plant | 68% | 68% | 68% | 68% |
| Cwpl, un plentyn | 25% | 25% | 42% | 68% |
| Cwpl, dau blentyn | 25% | 25% | 25% | 25% |

**Ffynhonnell: LE Wales**

Mae'r cynnydd yn y cyflog clir yn llai ar gyfer gweithwyr sydd â phlant ac yn fwy ar gyfer gweithwyr sydd heb blant. Ar gyfartaledd, mae aelwydydd â phlant yn gweld cynnydd o 31 ceiniog yn eu cyflog clir am bob punt o gynnydd yn eu cyflog gros. Ar gyfer aelwydydd heb blant, y cynnydd yw 68 ceiniog, ar gyfartaledd.

Ar y cyfan, mae aelwydydd sydd â phlant yn ennill llai o ganlyniad i gynnydd mewn cyflog gros oherwydd y ffordd y mae Credyd Cynhwysol yn gweithredu. Fel y mae Tabl 35 isod yn dangos, yr elfen oedolion, yr elfen plant a'r elfennau gofal plant a thai sy'n pennu'r swm mwyaf y gall aelwyd ei hawlio. Wedyn gostyngir y swm y gellir ei hawlio – po fwyaf yw'r incwm a'r cynilion, mwyaf fydd y gostyngiad.

Mae'r incymau yn yr holl rolau swyddi yn y llinell sylfaen (ac yn Opsiwn 4c) yn arwain at symiau gostyngiad sy'n ddigon mawr i ddileu'r cyfan o'r swm o Gredyd Cynhwysol y gellir ei hawlio, ac eithrio aelwydydd lle mae plant. Yn achos yr aelwydydd hyn, mae'r elfen plant a'r elfen gofal plant yn golygu bod swm yn weddill ar ôl cymhwyso'r gostyngiad. Mewn geiriau eraill, mae'r aelwydydd hyn yn gymwys i dderbyn taliadau Credyd Cynhwysol ond, os bydd eu cyflog gros yn cynyddu, byddai'r taliadau hyn yn llai. Ar y llaw arall, nid oedd yr aelwydydd heb blant yn gymwys i dderbyn taliadau Credyd Cynhwysol beth bynnag, felly nid yw cynnydd yn eu cyflog gros yn lleihau unrhyw fudd-daliadau.

**Tabl 35 Cyfrifiad enghreifftiol: gweithiwr gofal ar gyflog y llinell sylfaen, gyda phlant a heb blant**

| Elfen Credyd Cynhwysol | Cwpl â *dau* blentyn | Cwpl *heb* blant | Penderfynydd |
|---|---|---|---|
| Elfen oedolion | £499 | £499 | Nifer y bobl ar yr aelwyd a'u hoed |
| Elfen plant | £509 | £0 | Nifer y plant |
| Elfen gofal plant | £936 | £0 | Cost gofal plant |
| Elfen tai | £373 | £326 | Nifer y plant a rhyw'r plant |
| Uchafswm y Credyd Cynhwysol y gellir ei hawlio | £2,317 | £824 | Swm yr uchod |
| Gostyngiad | £1115 | £824 | Incwm a chynilion |
| Y swm o Gredyd Cynhwysol a roddir | £1202 | £0 | Yr uchafswm y gellir ei hawlio llai'r gostyngiad |

**Ffynhonnell: LE Wales**

Yn fyr, **byddai'r cynnydd yn yr holl gyflogau gros yn arwain at gyflog clir mwy** (**incwm yn cynnwys budd-daliadau)** ar gyfer y nodweddion aelwyd a aseswyd a byddai'r cynnydd mewn cyflog clir yn fwy ar gyfer aelwydydd sydd heb blant. Roedd yr amcangyfrifon o elastigedd y cyflenwad llafur ar gyfer modelu'r gweithlu wedi'u seilio ar newidiadau mewn cyflogau gros ac nid oes angen eu haddasu'n bellach i adlewyrchu'r canfyddiadau hyn.

## 3.9 Crynodeb o'r effeithiau

Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r effeithiau o bob opsiwn ar gyfer y gweithlu, ar sail yr amcangyfrifon canolig. Mae hefyd yn dangos y cyfansymiau ar gyfer y senario llinell sylfaen a ddefnyddiwyd i asesu effeithiau pob opsiwn.

**Tabl 36 Crynodeb o effeithiau'r opsiynau ar gyfer y gweithlu**

| Llinell sylfaen | Nifer y gweithlu | Nifer y sefydliadau[a] | Cyfanswm y gost GPN ym mhrisiau 2020 (£ miliwn) |
|---|---|---|---|
| Yn 2021 | 44,875 | 1,594 | £971 |
| Erbyn 2035 | 47,422 | 1,594 | £13,534 |

| Opsiynau | Nifer ychwanegol yn y gweithlu erbyn 2035 | Gostyngiad yn nifer y sefydliadau sydd angen eu gwella erbyn 2035[b] | Y gost GPN ychwanegol ym mhrisiau 2020 (£ miliwn) |
|---|---|---|---|
| **Opsiwn 4a**: Cyflog byw gwirioneddol | + 338 (0.7%) | - 19 (1.2%) | + £325 (2.4%) |
| **Opsiwn 4b**: Tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG | + 748 (1.6%) | - 26 (1.6%) | + £898 (6.6%) |
| **Opsiwn 4c**: Tâl awdurdodau lleol | + 3,470 (7.3%) | - 124 (7.8%) | + £3,656 (27.0%) |
| **Opsiwn 4d (prif senario)**; Tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG | + 3,056 (6.4%) | - 140 (8.8%) | + £2,485 (18.4%) |
| **Opsiwn 4d (senario arall)**; Tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG | + 1,326 (2.8%) | - 55 (3.4%) | + £1,306 (9.7%) |

Sylwer: Y canrannau yw'r ganran o gyfanswm y llinell sylfaen.

[a] Dyma nifer cyfan y sefydliadau gofal preswyl a gofal cartref yng Nghymru a rhagdybir y bydd yn aros yn gyson dros y cyfnod rhwng 2021 a 2035.

[b] Nid yw AGC yn dyfarnu sgoriau i sefydliadau fel hyn ar hyn o bryd, ond rydym wedi defnyddio data o Loegr am hyn ac wedi rhagdybio y byddai angen gwella'r un ganran o sefydliadau yng Nghymru. Ar gyfer y model, rydym yn rhagdybio – yn y llinell sylfaen – bod angen gwella 30% o sefydliadau gofal preswyl a 15% o sefydliadau gofal cartref. Mae hyn yn cyfateb i 320 o sefydliadau gofal preswyl sydd angen eu gwella a 79 o sefydliadau gofal cartref sydd angen eu gwella.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

Mae'r crynodeb yn dangos bod ymyriadau cryfach (e.e. cynnydd mwy mewn tâl) yn gysylltiedig ag effeithiau mwy a chostau uwch. Gall ymyriadau gynyddu nifer y gweithlu gymaint â 7.3% o'i gymharu â'r senario llinell sylfaen ond maent hefyd yn gallu cynyddu costau o fwy na 25%.

Opsiwn 4c ac Opsiwn 4d (prif senario) sy'n cael yr effaith fwyaf. Mae'r prif senario ar gyfer Opsiwn 4d yn awgrymu cynnydd o 3,056 yn nifer y gweithlu erbyn 2035 (amrediad: 2,381 –

3,753)[98]. Mae Opsiwn 4c yn awgrymu cynnydd o 3,470 yn nifer y gweithlu (amrediad: 525 – 6,865) erbyn 2035. Mewn cyferbyniad â hyn, rhagwelir mai dim ond rhan fach o'r cynnydd hwnnw yn y gweithlu a fyddai'n dilyn Opsiwn 4a: 338 (amrediad: 54 – 625).

Rhagwelir y byddai Opsiwn 4c ac Opsiwn 4d – yn ôl y senario – hefyd yn cael yr effaith fwyaf ar ansawdd gofal. O dan y prif senario ar gyfer Opsiwn 4d, rhagwelir y bydd nifer y sefydliadau sydd angen eu gwella yn 140 yn llai[99]. Rhagwelir y byddai Opsiwn 4c yn gostwng y nifer i 124. Unwaith eto, Opsiwn 4a sy'n dangos yr effaith leiaf, gan y byddai gostyngiad o 19 yn nifer y sefydliadau sydd angen eu gwella.

Fodd bynnag, mae'n debygol mai Opsiwn 4c fyddai'r un drutaf i'w weithredu. Rhagwelir y byddai'r opsiwn hwn yn creu cost GPN ychwanegol o £3,656 miliwn ym mhrisiau cyson 2020 (amrediad: £2,866 miliwn - £4,532 miliwn) ar ben y gwariant yn y llinell sylfaen. Mewn cymhariaeth â hyn, nid yw'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 4a ond yn 8.9% o'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 4c, yn ôl ein hamcangyfrif canolrifol.

Yn gyffredinol, mae canlyniadau'r modelu'n awgrymu mai gwella telerau ac amodau, ynghyd â chynyddu cyflogau, yw'r ffordd fwyaf costeffeithiol i hybu'r gweithlu. Dangosir hyn orau drwy gymharu effeithiau Opsiwn 4b ac Opsiwn 4d. Mae'r ddau opsiwn hyn yn arwain at yr un cynnydd mewn cyflogau i weithwyr ond maent yn wahanol o ran y telerau ac amodau. Yn Opsiwn 4d, mae'r telerau ac amodau wedi'u gwella ond nid yn Opsiwn 4b. Mae'r gwelliant mewn telerau ac amodau yn ychwanegu 578 at nifer y gweithlu (yn y senario arall) neu 2,308 (yn y prif senario) yn ôl ein hamcangyfrif canolig.[100] Mae hynny'n golygu cynnydd o 77% o dan Opsiwn 4b o'i gymharu â chynnydd o 309% o dan Opsiwn 4d. Ochr yn ochr â hyn, y cynnydd mewn costau GPN sy'n gysylltiedig â gwelliant mewn telerau ac amodau yw £408 miliwn o dan Opsiwn 4b o'i gymharu â £1,587 miliwn o dan Opsiwn 4d.[101] Mae hyn yn golygu cynnydd o 46% o dan Opsiwn 4b o'i gymharu â chynnydd o 177% o dan Opsiwn 4d. Mae'r cynnydd yn nifer y gweithlu yn fwy ar gyfartaledd na'r cynnydd mewn costau. Gall y gwelliannau mewn telerau ac amodau fod yn fwy costeffeithiol am fod gweithwyr yn gallu bod yn fwy agored i effeithiau newid mewn amodau gweithio na newid mewn cyflogau.

[98] Cyfrifwyd yr amrediad hwn drwy ddal elastigedd y cyflenwad llafur yn gyson mewn perthynas â chyflogau. Os caniateir amrywio yn elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau, yna yr amrediad perthnasol yw 1,978 i 4,180.

[99] Sylwer nad yw'r rhagdybiaethau am elastigedd y cyflenwad llafur mewn perthynas â chyflogau neu delerau ac amodau yn effeithio ar y dull o fodelu ansawdd gofal. Felly, nid oes amrediad i'w gofnodi.

[100] Dyma'r gwahaniaeth yn nifer y gweithwyr ychwanegol erbyn 2035 rhwng Opsiwn 4b ac Opsiwn 4d.

[101] Dyma'r gwahaniaeth yn y costau ychwanegol mewn gwerth presennol net rhwng Opsiwn 4b ac Opsiwn 4d dros y cyfnod 2021-2035 ym mhrisiau cyson 2020.

Mae'r syniad hwn yn gyson â barn rhanddeiliaid a gyfwelwyd ar gyfer yr ymchwil hon a oedd wedi nodi pwysigrwydd telerau ac amodau – roedd nifer ohonynt yn teimlo nad oedd cynnydd mewn tâl yn ddigon ar ei ben ei hun.

# Mynegai Tablau, Ffigurau a Blychau

## Tablau


| | | |
|---|---|---|
| Tabl 1 | Crynodeb o gostau'r opsiynau (£ miliwn) | viii |
| Tabl 2 | Costau'r llinell sylfaen a chostau ychwanegol yr opsiynau polisi, GPN 2021-2035 (£ miliwn ym mhrisiau 2020) | xiii |
| Tabl 3 | Opsiwn 1a: Y gost am ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn gartref (£ miliwn) – 2021 | 26 |
| Tabl 4 | Rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd ar gyfer cost gofal personol a ariennir mewn lleoliadau preswyl | 30 |
| Tabl 5 | Opsiwn 1b: Cost gofal personol a ariennir mewn lleoliadau preswyl (£ miliwn) | 31 |
| Tabl 6 | Crynodeb o Opsiwn 1: Cost gofal personol a ariennir - 2021 (£ miliwn) | 32 |
| Tabl 7 | Opsiwn 2: Cost gofal dibreswyl wedi'i ariannu'n llawn yn 2021 (£ miliwn) | 36 |
| Tabl 8 | Opsiwn 3: Y gost am ddarparu cyfraniad wythnosol penodedig at gostau gofal preswyl yn 2021 (£ miliwn) | 40 |
| Tabl 9 | Crynodeb o gostau'r opsiynau ar gyfer taliadau defnyddwyr (£ miliwn) | 43 |
| Tabl 10 | Yr effaith ddosbarthiadol o ddarparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn gartref | 46 |
| Tabl 11 | Darparu gofal personol a ariennir i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain: rhagdybiaethau ac amcangyfrifon | 49 |
| Tabl 12 | Niferoedd y gweithlu a adroddwyd a'r niferoedd wedi'u haddasu yn 2018 a ddefnyddiwyd yn y model a'r rhagolwg o niferoedd y gweithlu yn 2021 | 54 |
| Tabl 13 | Yr amrediad tâl ym mhob band tâl dangosol yn 2020 | 57 |
| Tabl 14 | Dosbarthiad y bandiau tâl dangosol ar gyfer pob rôl swydd yn y sector annibynnol | 59 |
| Tabl 15 | Amcangyfrifon o'r tâl cyfartalog wedi'i bwysoli ar gyfer pob rôl swydd yn y sector annibynnol; 2020 | 60 |
| Tabl 16 | Y tâl canolrifol yr awr am bob rôl swydd yn y sector awdurdodau lleol | 61 |
| Tabl 17 | Cyflogau yr awr am bob rôl swydd yn y llinell sylfaen; 2020 | 61 |
| Tabl 18 | Cyflogau yr awr am bob rôl swydd yn y llinell sylfaen; 2021 | 62 |
| Tabl 19 | Y twf enwol yng nghyflogau'r llinell sylfaen o 2020 | 63 |

| | | |
|---|---|---|
| Tabl 20 | Amcanestyniadau llinell sylfaen ar gyfer opsiynau'r gweithlu | 73 |
| Tabl 21 | Cyflogau ym mhob band tâl dangosol o dan Opsiwn 4a ar gyfer y sector annibynnol; cyflogau 2020 | 75 |
| Tabl 22 | Cyflogau yr awr am bob rôl swydd yn Opsiwn 4a; 2021 | 76 |
| Tabl 23 | Effaith Opsiwn 4a – Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at lefel y cyflog byw gwirioneddol | 80 |
| Tabl 24 | Dadansoddiad sensitifrwydd o effeithiau Opsiwn 4a – Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at lefel y cyflog byw gwirioneddol yn cynnwys cynnydd dilynol yn y cyflog gwirioneddol | 81 |
| Tabl 25 | Cyflogau am bob band tâl o dan Opsiwn 4b yn y sector annibynnol; cyflogau 2020 | 82 |
| Tabl 26 | Cyflogau yr awr ar gyfer pob rôl swydd o dan Opsiwn 4b; 2021 | 83 |
| Tabl 27 | Effaith Opsiwn 4b – Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG | 86 |
| Tabl 28 | Cyflogau yr awr am bob pob rôl swydd yn Opsiwn 4c; 2021 | 88 |
| Tabl 29 | Effaith Opsiwn 4c – Cynyddu cyflogau gweithwyr gofal at gyfraddau tâl Awdurdodau Lleol | 91 |
| Tabl 30 | Cyflogau yr awr am bob rôl swydd yn Opsiwn 4d; 2021 | 92 |
| Tabl 31 | Argostau ychwanegol am bob rôl swydd yn Opsiwn 4d | 93 |
| Tabl 32 | Effaith Opsiwn 4d; prif senario | 98 |
| Tabl 33 | Effaith Opsiwn 4d; senario arall | 98 |
| Tabl 34 | Cynnydd mewn cyflog clir fel canran o'r cynnydd mewn cyflog gros ar gyfer Opsiwn 4c | 101 |
| Tabl 35 | Cyfrifiad enghreifftiol: gweithiwr gofal ar gyflog y llinell sylfaen, gyda phlant a heb blant | 102 |
| Tabl 36 | Crynodeb o effeithiau'r opsiynau ar gyfer y gweithlu | 103 |
| Tabl 37 | Cost flynyddol (ym mhrisiau 2020) - £ miliwn | 126 |
| Tabl 38 | Niferoedd blynyddol y gweithlu yn lleoliadau'r llinell sylfaen yn ôl rôl swydd, math o ofal a darparwr | 127 |
| Tabl 39 | Niferoedd blynyddol y gweithlu yn ôl opsiwn polisi | 129 |
| Tabl 40 | Cost flynyddol (ym mhrisiau 2020) - £ miliwn | 130 |
| Tabl 41 | Nifer y derbynwyr gofal a'r gymhareb rhwng derbynwyr gofal a gweithwyr gofal uniongyrchol ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref gyda'i gilydd | 131 |

| | | |
|---|---|---|
| Tabl 42 | Y ffioedd safonol a delir am ofal preswyl (£ yr wythnos) | 137 |
| Tabl 43 | Canran y cleientiaid gofal preswyl sydd o fewn yr amrediad penodedig ar gyfer y cyfraniad wythnosol net gan yr awdurdod lleol | 137 |
| Tabl 44 | Y gost gyfartalog am ddarparu’r gwasanaeth a bandiau tâl am wasanaethau gofal dibreswyl (£ yr wythnos) | 138 |
| Tabl 45 | Crynodeb o nodweddion derbynwyr gofal dibreswyl | 138 |
| Tabl 46 | Cyfnodau darparu gwasanaethau gofal cartref | 139 |
| Tabl 47 | Cyfnodau aros mewn gofal preswyl | 139 |
| Tabl 48 | Crynodeb o ddosbarthiad taliadau i weithluoedd awdurdodau lleol | 143 |


## Ffigurau


| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 1 | Crynodeb o effeithiau’r opsiynau ar gyfer y gweithlu | xi |
| Ffigur 2 | Diagram o Fodel Ariannu Gofal LE Wales | 9 |
| Ffigur 3 | Amcanestyniad llinell sylfaen o nifer y derbynwyr gofal ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref 2021-2035 | 16 |
| Ffigur 4 | Amcanestyniadau llinell sylfaen o wariant cyfredol net ar wasanaethau gofal yn y cartref, taliadau uniongyrchol a gwasanaethau gofal dibreswyl eraill 2021-2035 | 17 |
| Ffigur 5 | Amcanestyniad llinell sylfaen o nifer y derbynwyr gofal ar gyfer gofal preswyl gyda nyrsio a heb nyrsio 2021-2035 | 18 |
| Ffigur 6 | Amcanestyniad llinell sylfaen o’r gwariant cyfredol net ar gyfer gwasanaethau gofal preswyl 2021-2035 | 19 |
| Ffigur 7 | Opsiwn 1a - Y gost am ddarparu gofal personol wedi’i ariannu’n llawn gartref 2021-2035 | 27 |
| Ffigur 8 | Opsiwn 1b – Y gost am ddarparu gofal personol wedi’i ariannu’n llawn mewn lleoliadau preswyl 2021-2035 | 31 |
| Ffigur 9 | Opsiwn 1 – Crynodeb o’r gost am ddarparu gofal personol wedi’i ariannu’n llawn mewn lleoliadau preswyl 2021-2035 | 33 |
| Ffigur 10 | Opsiwn 2 – Crynodeb o’r gost am ddarparu gofal dibreswyl wedi’i ariannu’n llawn 2021-2035 | 37 |
| Ffigur 11 | Opsiwn 3 – Crynodeb o’r gost am ddarparu cyfraniad wythnosol penodedig mewn lleoliadau gofal preswyl 2021-2035 | 41 |
| Ffigur 12 | Diagram model y gweithlu | 52 |

| | | |
|---|---|---|
| Ffigur 13 | Cymharu cyflogau a dalwyd i weithwyr gofal – LE Wales a WIHSC | 65 |
| Ffigur 14 | Cymharu cyflogau a dalwyd i uwch-weithwyr gofal – LE Wales a WIHSC | 65 |
| Ffigur 15 | Amcanestyniad o nifer y gweithwyr yn y model llinell sylfaen | 71 |
| Ffigur 16 | Amcanestyniad o'r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol yn ôl y math o ofal (llinell sylfaen) | 72 |
| Ffigur 17 | Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4a o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl | 77 |
| Ffigur 18 | Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4a o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl; gofal cartref | 78 |
| Ffigur 19 | Amcanestyniad o'r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol (Opsiwn 4a) | 65 |
| Ffigur 20 | Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4b o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl | 84 |
| Ffigur 21 | Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4b o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal cartref | 84 |
| Ffigur 22 | Amcanestyniad o'r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol (Opsiwn 4b) | 85 |
| Ffigur 23 | Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4c o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl | 89 |
| Ffigur 24 | Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4c o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal cartref | 89 |
| Ffigur 25 | Amcanestyniad o'r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol (Opsiwn 4c) | 90 |
| Ffigur 26 | Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4d o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl (prif senario) | 95 |
| Ffigur 27 | Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4d o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal cartref (prif senario) | 95 |
| Ffigur 28 | Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4d o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal preswyl (senario arall) | 96 |
| Ffigur 29 | Nifer y gweithwyr ychwanegol ym mhob blwyddyn o dan Opsiwn 4d o'i gymharu â'r amcanestyniad llinell sylfaen; gofal cartref (senario arall) | 96 |
| Ffigur 30 | Amcanestyniad o'r gymhareb rhwng nifer y derbynwyr gofal a nifer y gweithwyr gofal uniongyrchol (Opsiwn 4d – y prif senario a'r senario arall) | 97 |

# ATODIADAU

# Atodiad 1 Diffiniad dros dro o 'ofal personol'

I ddibenion y modelu ac i asesu'r opsiwn polisi hwn, rydym wedi defnyddio'r diffiniad canlynol o 'ofal personol' a ddarparwyd i ni gan Lywodraeth Cymru.

**Diffiniad o ofal personol**

Mae'r diffiniad isod o ofal personol wedi'i ddarparu i ddibenion yr ymarfer modelu hwn yn unig. Mae wedi'i seilio ar ddiffiniad tebyg i'r un ym model Llywodraeth yr Alban.

Rhaid darparu'r gweithrediadau a thasgau isod yn uniongyrchol, neu drefnu i'w darparu, i berson sy'n 18 oed neu'n hŷn ac sy'n rhywun sydd ag angen cael darpariaethau o'r fath yn ddi-dâl, yn ôl asesiad gan yr awdurdod lleol. I ddibenion y modelu hwn, gellir darparu gofal personol yng nghartref y person neu mewn cartref gofal.

<u>1. Hylendid personol – darparu neu gynorthwyo person ag:</u>

(a) siafio;
(b) glanhau'r dannedd (pa un a ydynt yn ddannedd gosod neu beidio) drwy ddefnyddio brws neu edau ddannedd ac (yn achos dannedd gosod) drwy eu trochi;
(c) golchi'r geg;
(d) torri ewinedd y dwylo a'r traed;
(e) defnyddio'r toiled neu badell wely neu lestr arall;
(f) os yw catheter neu stoma wedi'i osod ar y person, darparu'r cymorth sydd ei angen i sicrhau glendid a bod y croen yn cael ei gadw mewn cyflwr hylan ffafriol;
(g) os yw'r person yn anymataliol -
    (i) gwneud gwely'r person o ganlyniad i hynny a newid a golchi dillad a dillad gwely'r person o ganlyniad i hynny; a
    (ii) gofalu am groen y person i sicrhau nad oes effaith niweidiol arno.

<u>2. Bwyta, bwydo, yfed a maeth – darparu neu gynorthwyo person ag:</u>

(a) paratoi neu ddarparu bwyd, yn cynnwys (ymysg pethau eraill);
(b) dadrewi, golchi, plicio, torri, stwnsho, cymysgu neu gyfuno, coginio, cynhesu neu ailgynhesu, neu baratoi bwyd neu gynhwysion fel arall;
(c) coginio, cynhesu neu ailgynhesu bwyd ffres neu rewedig a baratowyd ymlaen llaw;
(d) dosrannu neu weini bwyd;
(e) torri, stwnsho neu brosesu bwyd fel arall i helpu'r person i'w fwyta;
(f) diwallu anghenion deietegol arbennig.

Ond nid cyflenwi bwyd (boed ar ffurf pryd parod neu gynhwysion ar gyfer pryd bwyd) i'r person, neu ei gaffael ar ei gyfer, neu baratoi bwyd cyn adeg ei gyflenwi i'r person.

| |
|---|
| 3. Darparu cymorth neu gynorthwyo person sydd heb ddim neu nemor ddim gallu i symud o gwmpas, i ddelio â phroblemau'r diffyg gallu hwnnw. |
| 4. Os oes ar y person angen triniaeth feddygol, cymorth i gymryd meddyginiaeth, er enghraifft drwy:<br>(a) taenu eli;<br>(b) rhoi diferion llygad;<br>(c) rhoi dresin mewn achosion lle gellir gwneud hynny heb i nyrs gofrestredig neu ymarferydd meddygol ymwneud â hynny'n gorfforol;<br>(d) helpu i roi ocsigen yn ystod therapi.<br><br>5. O ran lles cyffredinol y person -<br>(a) ei helpu i wisgo amdano;<br>(b) helpu gyda chyfarpar llawfeddygol, prosthesis a chyfarpar mecanyddol a chyfarpar sy'n cael ei weithio â'r llaw;<br>(c) ei helpu i godi o'r gwely ac i fynd i'r gwely;<br>(d) darparu dyfeisiau i'w helpu i gofio a darparu dyfeisiau diogelwch;<br>(e) cymorth i reoli ymddygiad a chymorth seicolegol. |

**Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru**

Gellir codi tâl am unrhyw ofal dibreswyl sydd heb ei restru uchod, fel y gwneir o dan y trefniadau presennol.

# Atodiad 2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

## A2.1 Y broses ymgysylltu

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i LE Wales gynnal cyfweliadau i drafod yr opsiynau polisi a gynigiwyd â'r chwe sefydliad rhanddeiliaid canlynol:

- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Fforwm Gofal Cymru / y Fforwm Darparwyr Cenedlaethol
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- GIG Cymru.

Cynhaliwyd cyfweliadau dros y ffôn rhwng 17 Ionawr a 5 Chwefror 2020.

Ystyriwyd canfyddiadau o'r cyfweliadau hyn wrth lunio'r dadansoddiad yn ein hadroddiad ac mae crynodebau dienw o farn rhanddeiliaid am yr opsiynau polisi wedi'u darparu ym Mhenodau 2 a 3 o'r adroddiad a hefyd yng ngweddill yr Atodiad hwn (sy'n canolbwyntio ar yr opsiynau ar gyfer y gweithlu).

## A2.2. Opsiynau ar gyfer y gweithlu o'u cymharu ag opsiynau ar gyfer taliadau defnyddwyr

Roedd cytundeb cyffredinol ymysg y rhanddeiliaid y buom yn siarad â nhw mai'r her fwyaf i ofal cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd yw'r argyfwng o ran recriwtio a chadw gweithwyr gofal cymdeithasol, yn enwedig mewn gofal cartref. Mae darparwyr ledled Cymru yn ei chael yn anodd recriwtio a chadw staff addas ar y cyfraddau tâl presennol. Mae'r sector gofal yn colli staff drwy'r amser i sectorau eraill, fel y sector manwerthu, sy'n cynnig gwell tâl ac amodau. O ganlyniad i hyn, gwelwyd bod gwella tâl ac amodau gweithwyr gofal yn hollbwysig i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn ôl rhanddeiliaid, y canlyniad i hyn yw na fydd modd darparu pecynnau gofal os na fydd cyfraddau tâl yn cynyddu. Felly, nid defnyddio cyllid ychwanegol i sybsideiddio taliadau defnyddwyr yn unig fyddai'r dewis gorau, gan na fydd digon o staff i ddarparu'r gwasanaethau.

## A2.3 Recriwtio

### A2.3.1 Anhawster wrth recriwtio gweithwyr gofal

Dyma'r brif her a nodwyd gan yr holl randdeiliaid. Gwelwyd mai gweithwyr gofal cartref oedd y rhai anoddaf eu recriwtio. Yn y sector gofal preswyl, mae hefyd yn anodd recriwtio nyrsys a rheolwyr, yn ogystal â gweithwyr cymdeithasol. Yn y cyd-destun hwn, eglurodd un

rhanddeiliad, gyda golwg ar y sector iechyd ehangach, fod prinder hefyd o ran meddygon a nyrsys y GIG yng Nghymru, yn bennaf am fod llai o bobl yn hyfforddi ar gyfer y swyddi hyn, a hefyd oherwydd y cystadlu am staff yn y DU gyfan rhwng y GIG a'r sector iechyd annibynnol. Gall gwahanol rannau o Gymru brofi prinder sgiliau ychwanegol sy'n ymwneud ag amgylchiadau lleol penodol, fel grymoedd y farchnad. Er enghraifft, gwelwyd prinder trydanwyr yn y GIG mewn rhai rhannau o Gymru yn y gorffennol oherwydd cystadlu gan y sector adeiladu am y sgiliau hyn.

Y farn gyffredinol oedd mai prif achos y broblem wrth recriwtio i'r sector gofal cymdeithasol oedd nad oedd y tâl ac amodau presennol yn cwrdd â'r disgwyliadau am rôl y gweithiwr gofal. Y polisi cenedlaethol yng Nghymru yw cadw pobl yn eu cartrefi eu hunain mor hir â phosibl: mae hyn yn golygu bod disgwyl i ofalwyr ddelio ag anghenion gofal sy'n fwyfwy cymhleth ond yn cael cyfraddau isel o dâl am wneud hyn. Mae'r cyfraddau tâl isel hyn yn gallu cael eu tanseilio ymhellach gan gostau 'cudd' fel y canlynol:

- Bod gofalwyr yn gorfod prynu eu gwisg swyddogol
- Bod gofalwyr yn gorfod talu eu ffioedd cofrestru/ffioedd hyfforddi/ffioedd arholiadau: hyd yn ddiweddar, un gwahaniaeth pwysig rhwng recriwtio i swyddi yn y GIG a swyddi yn y sector gofal annibynnol oedd mai'r gofynion swydd pwysicaf yn y GIG oedd cymwysterau, tra oedd cymwysterau'n llai pwysig yn y sector gofal annibynnol na dysgu wrth weithio. Fodd bynnag, wrth i'r gweithlu gofal cymdeithasol gael ei broffesiynoli fwyfwy, mae cofrestru gorfodol yn cael ei gyflwyno ar ddechrau Ebrill eleni, fel bod gofyniad am safonau hyfforddi sylfaenol. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd darparwyr annibynnol yn gallu cwrdd â'r costau hyfforddi am fod gwasanaethau gofal yn cael eu comisiynu drwy ddefnyddio cyllid cyhoeddus a bod disgwyliad na fydd cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i dalu am hyfforddiant proffesiynol ar gyfer y gweithlu. Mae'n bosibl y bydd y gofalwr yn gorfod cwrdd â'r costau hyfforddi hyn ac y bydd hefyd yn gorfod dilyn hyfforddiant (heb dâl) yn ei amser ei hun.
- Costau cysylltiedig â theithio gan ofalwyr: Mae'r rhain yn perthyn i ddau gategori: costau ariannol a chostau amser. Oherwydd natur ysbeidiol gwaith gofal cartref (e.e. codi'r cleient o'i wely yn y bore, dychwelyd i drefnu ei ginio ac wedyn ei swper, ond heb weithgareddau gofal rhwng y rhain) ceir llawer o deithio rhwng tasgau, yn aml rhwng lleoliadau sy'n bell oddi wrth ei gilydd, na ellir eu cyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus fel arfer. Felly mae gofyn yn aml i weithwyr gofal cartref fod â'r gallu i yrru car a bod yn berchen ar gar. Mae'r costau ychwanegol am redeg car (ac, ar gyfer y rheini nad ydynt yn gyrru'n barod, yn enwedig gofalwyr y genhedlaeth iau, gorfod talu am wersi gyrru i ddechrau) yn debygol o fod yn gymhelliant sylweddol i beidio â gweithio ym maes gofal cartref. Yn ogystal â hyn, gan fod y cyfraddau tâl yr awr yr un fath fel arfer rhwng y sector gofal preswyl a'r sector gofal cartref, ac am nad yw staff gofal cartref yn cael tâl am amser teithio mewn llawer achos, maent yn aml yn ennill cyflog sydd i bob pwrpas yn llai na'r isafswm cyflog. O dan yr amgylchiadau hyn, nid yw'n syndod bod llawer o ddarpar weithwyr gofal yn dewis gweithio yn lle hynny mewn un lleoliad, fel archfarchnad, am nad oes costau o'r fath yn gysylltiedig â'r swydd honno.

Yn ogystal â chyfraddau tâl isel yr awr, mae'r telerau ac amodau gwael a gynigir fel arfer i weithwyr gofal yn rhwystr ychwanegol i recriwtio. Mae'n bosibl na fyddant yn cynnwys tâl am ddysgu a datblygu, fel y nodwyd eisoes, na thâl salwch. Mae hyn yn broblem i awdurdodau lleol hefyd, er eu bod yn talu'n well na'r sector annibynnol.

Ar ben hyn, mae'r canfyddiad cyhoeddus negyddol o waith gofal cymdeithasol yn rhwystr mawr arall i recriwtio ym marn yr holl randdeiliaid. Mae gwaith gofal yn gofyn llawer yn gorfforol ac emosiynol. Mae'r rôl yn fwy anodd byth am fod gofalwyr yn gweithio ar eu pen eu hunain, heb fawr ddim cymorth proffesiynol. Mae adroddiadau yn y cyfryngau am gam-drin cleientiaid gan weithwyr gofal cymdeithasol wedi denu llawer o sylw ac wedi gwneud mwy o ddrwg i enw'r proffesiwn. Roedd un rhanddeiliad hefyd wedi cyfeirio at arolwg a gynhaliwyd yng Nghymru a ddangosodd nad yw'r cyhoedd yn deall beth yn union yw gofal cymdeithasol. Maent yn cymysgu rhwng gofal cymdeithasol a'r sector gofal iechyd ac yn rhagdybio bod angen cymwysterau i gael swyddi gofal cymdeithasol, ac mae hyn yn rhwystr pellach i lawer o ddarpar weithwyr gofal.

Roedd demograffeg oedrannus y cleientiaid gofal cartref yn rhwystr arall a nodwyd gan un rhanddeiliad, yn enwedig i bobl ifanc sy'n ystyried gweithio ym maes gofal cymdeithasol.

Yn ogystal â hyn, roedd nifer o randdeiliaid wedi cyfeirio at y ffaith bod cyflogaeth lawn bron mewn llawer rhan o Gymru, fel bod gweithwyr yn gallu dewis a dethol rhwng swyddi. Y prif ddewis arall o ran swyddi yn lle gwaith gofal yw gwaith mewn archfarchnadoedd. (Fodd bynnag, roedd rhai rhanddeiliaid wedi nodi tystiolaeth anecdotaidd bod rhai'n dychwelyd i waith gofal am eu bod yn cael y gwaith yn fwy boddhaol.) Mae'r GIG hefyd yn ddewis deniadol yn lle gwaith gofal cymdeithasol. Mae'r tâl ac amodau'n well, gyda phatrymau gweithio, fel mwy o waith tîm, sy'n cynnig mwy o gymorth proffesiynol.

### A 2.3.2 Awgrymiadau am Atebion ar gyfer Recriwtio Staff

Y prif ateb a awgrymwyd gan yr holl randdeiliaid yw cynyddu cyfraddau tâl. Cynigiwyd enghraifft o effeithiolrwydd yr ateb hwn gan un rhanddeiliad: lle mae'r cleientiaid sydd gan ddarparwyr gofal cartref yn cynnwys rhai sy'n talu'n breifat am eu gofal, gallant fforddio talu cyflogau uwch i'w gweithlu ac, o dan yr amgylchiadau hyn, ni cheir problemau o ran recriwtio a chadw staff. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o Gymru, mae cyfran y talwyr preifat yn fach iawn, felly anaml y ceir amgylchiadau o'r fath.

Roedd un rhanddeiliad wedi cyfeirio at bremiymau recriwtio a chadw, sy'n cael eu defnyddio gan y GIG mewn rhai amgylchiadau i ddatrys problemau recriwtio penodol. Fel arfer, telir y premiwm am gyfnod penodedig yn unig (e.e. dwy flynedd): ar ôl hynny bydd y cyflog yn dychwelyd i'r gyfradd safonol. Felly, ni fydd hyn yn sicr o ddatrys y broblem cadw staff yn y tymor hwy. Rhaid dangos tystiolaeth glir o'r angen i gynnig premiwm. Er enghraifft, roedd y prinder trydanwyr yn y GIG mewn un rhanbarth yng Nghymru yn ganlyniad i rymoedd marchnad lleol (cystadlu gan y diwydiant adeiladu ffyniannus) ac felly yr unig ffordd i lenwi'r bwlch recriwtio oedd cynnig mwy o arian. Fodd bynnag, roedd y rhanddeiliad wedi nodi anfanteision mawr yn gysylltiedig â mabwysiadu premiymau o'r fath, yn enwedig yr angen i sicrhau bod premiymau'n cael eu defnyddio'n deg ar draws sectorau/ rhyweddau/rhanbarthau Cymru am fod anghydraddoldebau'n gallu codi fel arall. Er

enghraifft, yn y gorffennol cafwyd cyfraddau recriwtio a chadw staff a gytunwyd ar lefel genedlaethol ac roedd y rhain wedi arwain at anghydraddoldebau rhywedd a oedd wedi rhoi'r gweithlu benywaidd o dan anfantais. Mae hefyd yn bosibl bod premiymau recriwtio a chadw yn gallu amharu ar weddill yr economi leol.

Roedd consensws hefyd ymysg rhanddeiliaid ei bod yn hollbwysig canfod ffyrdd i newid canfyddiad y cyhoedd o ofal cymdeithasol er mwyn gwella cyfraddau recriwtio a chadw staff yn y sector. Gwaetha'r modd, nid yw gweithwyr gofal yn cael eu gweld yn 'arwrol' yn yr un modd â gweithwyr iechyd. Yn gyffredinol, nid ydynt yn ennyn parch hyd yn oed. Yn hytrach, fel y nodwyd eisoes, mae tuedd i gysylltu gweithwyr gofal ag adroddiadau negyddol am gam-drin cleientiaid gwasanaethau gofal. Awgrym gan un rhanddeiliad oedd y dylai'r gwobrau blynyddol presennol am arfer da mewn gofal cymdeithasol gael eu hyrwyddo'n well ymysg y cyhoedd er mwyn hybu delwedd gadarnhaol y sector. Yn gyffredinol, nodwyd bod angen pendant am fodelau rôl i ddangos gwerth gyrfaoedd yn y sector gofal. Roedd mwy nag un o'r rhanddeiliaid wedi awgrymu bod pobl yn fwy tebygol o ymgeisio am swyddi gofal cymdeithasol os ydynt yn adnabod rhywun sy'n gweithio yn y sector ac felly'n edrych ar y swydd yn fwy cadarnhaol.

Yn ogystal â newid canfyddiad y cyhoedd o ofal cymdeithasol yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen cymryd camau mwy penodol i hyrwyddo cyfleoedd gyrfa mewn gwaith gofal cymdeithasol ac, yn benodol, i egluro mai dim ond canran fach o'r swyddi sy'n galw am gymwysterau blaenorol, a bod y rhan fwyaf ohonynt yn cynnig cyfle i ymgymhwyso ar ôl dechrau yn y swydd. Er enghraifft, byddai gofalwr yn gallu dechrau mewn swydd gofal cartref ond wedyn cymryd swydd fel gweithiwr gofal preswyl i oedolion, plant neu'r henoed (symud ar draws) neu ddod yn uwch-weithiwr gofal neu'n rheolwr (symud i fyny) neu ddysgu rhagor o sgiliau wedyn a dod yn weithiwr cymdeithasol neu'n hyfforddwr gofal cymdeithasol.

Mae angen i'r diwydiant gofal gymryd rhan yn gynharach o lawer ym maes cyflogaeth drwy estyn llaw at ysgolion cynradd ac uwchradd a chynnig lleoliadau i fyfyrwyr ysgol fel y gallant gael gwell syniad o'r hyn y mae gwaith gofal yn ei gynnig fel gyrfa.

## A2.4 Cadw Staff

Roedd yr holl randdeiliaid yn gweld bod her fawr i'r ddarpariaeth o ofal cymdeithasol yng Nghymru oherwydd y trosiant uchel lle mae nifer mawr o weithwyr gofal yn gadael y sector. Mae trosiant o 30% wedi'i grybwyll yn aml yn y cyfryngau. Er hynny, roedd un rhanddeiliad wedi nodi bod y ffigur hwn yn cynnwys 11%-12% sy'n symud i rannau eraill o'r sector gofal. Er enghraifft, bydd rhai gweithwyr gofal yn y sector annibynnol yn symud i weithio i awdurdodau lleol er mwyn manteisio ar delerau ac amodau gwell, fel gwell darpariaeth mamolaeth, ond yn amlach am fod y gyfradd tâl yr awr yn well. Yn wir, mae data am y gweithlu yn dangos bod cyfraddau trosiant gweithwyr gofal yr awdurdodau lleol yn is nag yn y sector annibynnol. Ar ben hynny, mae tua 4% o'r trosiant yn y gweithlu yn digwydd am fod gofalwyr yn ymddeol neu'n gadael ar sail afiechyd. Yn ogystal â hyn, roedd nifer o randdeiliaid wedi nodi nad yw'r lefelau trosiant yn y sector yn ddelfrydol, ond eu bod yn

cael effaith gadarnhaol weithiau os yw staff yn symud i lefelau uwch mewn gwaith iechyd a gofal cymdeithasol yn hytrach na gadael y sector yn gyfan gwbl.

### A2.4.1 Rhesymau Gweithwyr Gofal dros adael y Sector Gofal

Nododd un rhanddeiliad nad oes neb yn casglu data ymadael ar gyfer gweithwyr gofal sy'n gadael y diwydiant yng Nghymru, felly mae'r holl wybodaeth sydd ar gael yn anecdotaidd ac wedi'i chasglu o ffynonellau fel fforymau a chyfarfodydd gweithwyr gofal. Roedd rhanddeiliaid wedi cynnig y rhesymau canlynol am benderfyniadau i adael y sector:

- Mae gweithwyr gofal yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ddigon. Nid yn unig y mae canfyddiad negyddol ymysg y cyhoedd o'r hyn y mae'r swydd yn ei olygu, ond maent hefyd yn teimlo nad ydynt yn cael eu cefnogi fel proffesiwn. Fel y dywedodd un rhanddeiliad, er mai sector cyflogau isel yw hwn, nid tâl yw'r unig beth o bwys i weithwyr gofal: er mwyn cadw dilyniant o ran staffio, mae cefnogaeth i'r staff hynny'n bwysig iawn hefyd.
- Mae'r tâl yn rhy isel: mae cyflogau gweithwyr gofal wedi gostwng am fod awdurdodau lleol yn caffael mwy o wasanaethau gofal cymdeithasol gan y sectorau preifat a gwirfoddol. Mae'r costau am ddarparu gwasanaethau wedi gostwng hefyd o ganlyniad i hyn; nid y ffordd orau i wella ansawdd gofal, fel y dywedodd un rhanddeiliad. Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn cyfrifo eu costau gofal cymdeithasol ar sail cyfraddau'r isafswm cyflog. Mewn rhai achosion, lle cafwyd cynnydd mewn cyfraddau tâl, mae'r erydu ar wahaniaethau tâl o ganlyniad i hyn (e.e. am ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol/ennill mwy o gymwysterau) wedi arwain at broblemau o ran cadw staff.
- Mae gweithwyr gofal yn teimlo nad yw'r swydd wedi cwrdd â'u disgwyliadau neu nad yw'r swydd yn addas iddynt.
- Sicrwydd swydd gwael: yn y sector preifat/gwirfoddol, gellir comisiynu swyddi am gyfnod penodol yn unig. Mae'n bosibl bod y gwell sicrwydd swydd mewn awdurdodau lleol yn ffactor pwysig yn y cyfraddau gwell sydd ganddynt ar gyfer cadw staff.

### A2.4.2 Awgrymiadau am Atebion ar gyfer Cadw Staff

Y prif ateb a gynigiwyd gan yr holl randdeiliaid – unwaith eto – oedd cynyddu cyfraddau tâl.

Un ateb arall a nodwyd gan lawer oedd mabwysiadu dull cenedlaethol o bennu tâl ac amodau. Nodwyd bod gofal cymdeithasol yn agored i rymoedd y farchnad, yn wahanol i ofal iechyd. O ganlyniad i hyn, mae'r trosiant yn is yn y sector iechyd nag yn y sector gofal cymdeithasol am fod y GIG yn gallu gorfodi graddfeydd cyflog cenedlaethol. Mewn cyferbyniad â hyn, mae'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyrff gwleidyddol ymreolus sy'n comisiynu gwasanaethau drwy ddulliau amrywiol. Y canlyniad anfwriadol i'r dull hwn o weithredu yw ei fod yn hybu trosiant mewn cyflogaeth. Un enghraifft a roddwyd gan un rhanddeiliad oedd bod un awdurdod lleol yng Nghymru (a oedd heb ei enwi) wedi cynyddu tâl gweithwyr gofal £1.00 yr awr a bod gweithwyr gofal wedi dod ato o awdurdodau lleol eraill o ganlyniad i hyn, gan beri prinder gweithwyr gofal yn yr ardaloedd roeddent wedi'u

gadael. Mae hon yn enghraifft glir o'r ffordd y byddai mabwysiadu dull cenedlaethol o bennu tâl ac amodau yn well o lawer i'r sector gofal cymdeithasol cyfan.

Yn gysylltiedig â'r awgrym am fabwysiadu dull cenedlaethol o bennu tâl ac amodau, awgrym arall a gynigiwyd gan lawer oedd gwella prosesau comisiynu awdurdodau lleol ac, yn benodol, sicrhau bod y cyrff a gomisiynir yn trin gweithwyr gofal yn well. Yn aml, bydd awdurdodau lleol yn darparu pecyn comisiynu i ddarparwyr sy'n nodi'r symiau y byddant yn barod i'w talu am ofal a'r mathau o ofal y byddant yn talu amdanynt. Mae hyn yn cynnwys cymarebau staffio. Fodd bynnag, nid yw cynyddu nifer y staff yn gwella cyfraddau cadw staff, am na roddir sylw i'r rhesymau sylfaenol dros y trosiant staff uchel. Er enghraifft, wrth gomisiynu gwasanaethau gofal, dylai awdurdodau lleol chwilio am ffyrdd i wella amodau swydd y gweithwyr gofal, er enghraifft, drwy leihau'r ardal y mae disgwyl i weithwyr gofal weithio ynddi, fel y bydd eu costau ac amser teithio'n llai. Byddai awdurdodau lleol hefyd yn gallu ei gwneud yn amod mewn contractau fod darparwyr yn cyflogi gweithwyr gofal ar yr un tâl ac amodau â'r awdurdod lleol. Hefyd, yn lle'r system bresennol lle dibynnir ar ddata a gynhyrchir gan y darparwyr eu hunain ar gyfer monitro, mae angen i awdurdodau lleol fynd i mewn i'r gwasanaethau i weld beth yn union sy'n digwydd yn lleol. Er hynny, roedd un rhanddeiliad yn teimlo ei bod yn bwysig nodi y dylai awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth wrth reoli contractau er mwyn canfod ffyrdd i wella dulliau o recriwtio a chadw staff, yn hytrach na chymryd camau i gosbi darparwyr.

Ateb arall a gynigiwyd gan un rhanddeiliad oedd y dylid rhoi mwy o ymreolaeth broffesiynol i ofalwyr. Dywedodd fod lefelau cadw staff wedi gwella mewn cynlluniau treialu lle'r oedd gofalwyr yn cael mwy o ymreolaeth dros ganlyniadau unigol eu cleientiaid, yn lle dilyn canlyniadau cyffredinol y diwydiant gofal o ran amser a thasgau.

## A2.5 Ansawdd gofal a lles

Roedd y rhan fwyaf o'r rhanddeiliaid o'r farn bod gwelliannau mewn tâl ac amodau yn ffactorau pwysig wrth wella ansawdd gofal.

Nodwyd bod y ffactorau canlynol yn bwysig i les y rheini sy'n derbyn gofal:

- Rhyngweithio â staff gofal;
- Ansawdd a dilyniant y perthnasoedd rhwng staff gofal a derbynwyr gofal;
- Pethau ystyrlon i'w gwneud â'u hamser;
- Urddas a pharch.

Awgrymwyd nad oes cytundeb gwirioneddol ar y ffordd orau i fesur y canlyniadau hyn ond, ar lefel anecdotaidd yn unig, roedd un rhanddeiliad wedi nodi: "os yw darparwyr gofal yn trin eu gweithlu'n wael, sut mae gweithwyr yn debygol o drin y bobl maent yn eu gwasanaethu?"

Cyfeiriwyd at rai dangosyddion o ansawdd gofal a all fod yn ddefnyddiol ond pwysleisiwyd bod yr holl fesurau hyn yn gyfyngedig iawn ar eu pen eu hunain:

- Cymarebau staffio (yn cael ei weld yn fesur dadleuol iawn am nad yw cynyddu nifer y staff yn gwella'r cyfraddau cadw o reidrwydd, a gallant guddio trosiant staff uchel);
- Lefelau dysgu, datblygu a hyfforddi ymysg y staff;
- Patrymau sifftiau (roedd un rhanddeiliad wedi dweud ei bod yn anodd gwneud y gwaith yn dda ar sifft o 12 awr);
- Nodwyd bod lefel ffioedd cartrefi gofal yn ddangosydd ansawdd posibl, ond roedd hwn yn cael ei weld yn ddangosydd anfoddhaol at ei gilydd.

Roedd barn gyffredinol y byddai gwella tâl a thelerau ac amodau gweithwyr gofal yn gwella ansawdd gofal, o ganlyniad i well dilyniant ymysg staff a sefydlogrwydd y ddarpariaeth gofal. Cyfeiriwyd yn aml at y pwys roedd derbynwyr gofal a'u teuluoedd yn ei roi ar feithrin perthynas ymddiriedus hirdymor â'u gofalwyr. Roedd mesurau a allai helpu i leihau trosiant staff yn cael eu gweld yn bwysig iawn i les derbynwyr gofal a'u teuluoedd.

Byddai gwelliannau yng nghyfraddau recriwtio a chadw staff o ganlyniad i wella tâl yn gallu gwella ansawdd gofal hefyd drwy alluogi cleientiaid i adael yr ysbyty'n gynharach a dychwelyd i'w cartref eu hunain, os yw'n briodol, gyda phecyn gofal yn hytrach na gorfod mynd i gartref gofal.

Nodwyd na wnaiff darparwyr gofal cartref annibynnol gymryd pecyn gofal os nad oes ganddynt ddigon o staff. Os gwrthodir pecyn gofal cartref y cleient am nad oes staff ar gael, bydd yr awdurdod lleol yn ceisio dod o hyd i ddarparwr arall. Fodd bynnag, os bydd darparwyr eraill hefyd yn gorfod gwrthod y pecyn gofal, mae'n debygol y bydd y cleient yn aros yn hirach yn yr ysbyty neu'n cael ei symud i gartref gofal dros dro. Mewn cyferbyniad â hyn, mae darparwyr cartrefi gofal yn gorfod dygymod â pha bynnag lefelau staffio sydd ganddynt. Os oedd eu lefelau staffio yn uwch, byddent yn gallu ymateb yn gyflymach i anghenion preswylwyr.

Byddai lefelau staffio uwch a mwy cyson o ganlyniad i wella tâl ac amodau yn gallu helpu hefyd i ddatrys anghysondeb rhwng ansawdd y ddarpariaeth gofal i rai 18-65 mlwydd oed mewn gofal preswyl (lle mae rheolwaith dyddiol a gweithgareddau sy'n ymateb i anghenion yr unigolyn) a'r ddarpariaeth gofal i gleientiaid 65+ mlwydd oed sy'n derbyn gofal cartref, lle mae amseroedd prydau bwyd a mynd i'r gwely etc yn llwyr ddibynnol ar yr amser sydd ar gael i'r gofalwr, yn hytrach na'r hyn sydd orau iddyn nhw fel unigolion.

Roedd darparu cyfleoedd gyrfa i weithwyr gofal hefyd yn cael ei weld yn ffordd allweddol i wella ansawdd gofal, mewn dwy ffordd benodol:

- Mae'n troi gwaith gofal yn yrfa gyda llwybr gyrfa, fel y ceir gweithlu sefydlog, sy'n hanfodol i wella ansawdd gofal, gan y byddai gwell cysondeb a dilyniant mewn gofal
- Gallai leihau'r pwysau ar rannau eraill o'r sector iechyd, er enghraifft, drwy hyfforddi gweithwyr gofal i roi pigiadau yn rhan o'u swydd.

# Atodiad 3 Diffiniadau a rhagdybiaethau ar gyfer opsiynau 1

**Blwch 3 Opsiwn 1 – prif ddiffiniadau, rhagdybiaethau a chyfyngiadau**

**Yr elfen gofal personol**

- I ddibenion y modelu, roedd yr **elfen gofal personol** wedi'i gosod ar **80%** o'r gost am wasanaethau gofal yn y cartref a thaliadau uniongyrchol. Byddai modd codi tâl am y 20% sy'n weddill fel y gwneir o dan y polisi presennol. Er nad oedd rhanddeiliaid perthnasol yng Nghymru yn gallu darparu ffigur union am gost yr elfen gofal personol, roeddent yn credu ei fod yn gyfran sylweddol o'r gost gyfan am ddarparu'r gwasanaeth. Yn yr Alban, roedd gwariant ar wasanaethau gofal personol fel cyfran o'r gwariant net cyffredinol ar wasanaethau gofal yn y cartref yn amrywio rhwng 73% a 87% yn y cyfnod 2008/09-2017/18[102].
- I ddibenion y modelu ac yn gyson â'r polisi yn yr Alban, rydym wedi rhagdybio na fydd yr opsiwn yn effeithio ar yr holl wasanaethau gofal dibreswyl eraill (a ddarperir y tu allan i gartref y derbynnydd gofal).

**Yr effaith ar wariant net**

- Ar gyfer yr holl opsiynau, mae'r model yn amcangyfrif y **gwariant net ychwanegol** (gwariant gros llai refeniw oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaethau) yr opsiwn o'i gymharu â'r sefyllfa yn y senario llinell sylfaen. Yn gyffredinol, ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau presennol mae'r gost net ychwanegol hon yn cyfateb i'r refeniw o daliadau a gollwyd gan awdurdodau lleol, am na ellir codi tâl am wasanaethau bellach. Yn achos derbynwyr gwasanaethau newydd sy'n penderfynu derbyn gwasanaethau gofal yr awdurdod lleol o ganlyniad i gyflwyno'r polisi ar ofal personol a ariennir yn llawn, mae'r gost net ychwanegol yn cyfateb i gost y gwasanaethau ychwanegol y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol eu darparu'n ddi-dâl.

**Cleientiaid presennol yr awdurdodau lleol**

Roedd yr effaith ar wariant net ar gyfer cleientiaid presennol (y rheini sy'n derbyn gwasanaethau yn y senario llinell sylfaen yn ôl yr amcanestyniad) wedi cael ei amcangyfrif drwy ddau ddull, y ddau ohonynt wedi'u seilio ar amcangyfrif o'r refeniw a gollir gan awdurdodau lleol drwy beidio â chodi tâl.

- Mae'r dull cyntaf yn rhagdybio y bydd awdurdodau lleol yn colli'r cyfan o'u hincwm o godi tâl ar gleientiaid am wasanaethau gofal personol a bod y gwasanaethau hyn yn cynrychioli 80% o'r holl incwm o godi tâl am ofal yn y cartref a thaliadau uniongyrchol. Nid yw'r dull hwn yn rhoi sylw penodol i'r

[102] Gweler https://www.gov.scot/publications/free-personal-nursing-care-scotland-2017-18/pages/4/

posibilrwydd na fydd rhai unigolion yn gweld dim neu nemor ddim newid yn y taliadau a godir arnynt oherwydd strwythur yr asesiad ariannol neu'r uchafswm tâl wythnosol (gweler yr enghreifftiau isod). Felly, mae'r dull hwn yn darparu amcangyfrif uchaf o'r refeniw gwirioneddol a gollir drwy'r opsiwn hwn (ar gyfer cleientiaid presennol yr awdurdodau lleol);

- Mae'r ail ddull yn defnyddio'r wybodaeth am daliadau a chost y gwasanaeth a ddarperir gan awdurdodau lleol er mwyn ceisio rhoi cyfrif am y mathau o amgylchiadau lle na fydd y polisi newydd yn newid y swm y mae rhai pobl yn gorfod ei dalu, felly mae'n arwain at amcangyfrif is o'r refeniw a gollir ac felly at gost is ar gyfer yr opsiwn. Rydym yn defnyddio model seiliedig ar gelloedd i amcangyfrif y taliadau diwygiedig o dan yr opsiwn polisi hwn. Er bod y dull hwn yn ceisio adlewyrchu taliadau a chostau gwirioneddol, mae wedi'i seilio ar wybodaeth gryno a gasglwyd drwy wneud un cais am ddata cymhleth, felly mae angen gwneud nifer o ragdybiaethau ynghylch dosbarthiad y taliadau a chostau ym mhob cell ac ni ellir gwneud amcangyfrifon manwl[103]. I ddibenion y modelu, rydym wedi rhagdybio mai costau gofal personol yw 80% o'r costau y gellir eu priodoli i wasanaethau gofal yn y cartref yn y model seiliedig ar gelloedd[104].

**Cyfrifiadau enghreifftiol**

Rydym yn darparu dwy enghraifft isod (er mwyn egluro yn unig) o'r ffordd y byddai incwm o daliadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn gallu aros heb newid o dan y diwygiad a gynigir, yn ôl amgylchiadau'r unigolyn:

- O dan y polisi presennol (y llinell sylfaen), mae defnyddiwr gwasanaethau A yn talu £30 (ar ôl asesiad ariannol), ond yn derbyn gwerth £200 o wasanaethau gofal yn y cartref. O dan Opsiwn 1, hyd yn oed os bydd £160 (80%, yn cyfateb i'r elfen gofal personol) yn cael ei ariannu'n llawn nawr gan yr awdurdod lleol, bydd defnyddiwr gwasanaethau A yn parhau'n atebol am y £40 arall (am ei fod yn ymwneud â gwasanaethau heblaw gofal personol). Mae hyn yn fwy nag y mae defnyddiwr gwasanaethau A yn ei dalu ar hyn o bryd, felly ni fydd yn gweld newid am fod y swm y mae'n ei dalu wedi'i gapio o hyd gan yr asesiad ariannol.
- Mae defnyddiwr gwasanaethau B yn talu'r uchafswm tâl wythnosol (£100), ac yn derbyn gwerth £200 o wasanaethau bob wythnos, wedi'u rhannu rhwng gofal yn

[103] Dim ond 10 o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru a oedd yn gallu darparu gwybodaeth berthnasol, a darparwyd data rhannol ar gyfer rhai adrannau (hefyd roedd gofyn dilysu ac addasu data yn ôl yr angen).

[104] Er mwyn symlrwydd ac i ysgafnhau'r baich ar awdurdodau lleol, yr unig wybodaeth a gasglwyd oedd honno am gyfran y taliadau a oedd yn cael ei phriodoli i wasanaethau gofal cartref. Cafwyd gwybodaeth am daliadau uniongyrchol o wefan StatsCymru (https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Adult-Services/Service-Provision) ac yn y model rydym wedi defnyddio'r un rhagdybiaethau dosbarthiadol a rhagdybiaethau am dueddiadau'r dyfodol ag a ddefnyddiwyd ar gyfer gwasanaethau gofal cartref.

y cartref (£100) a gwasanaethau gofal dibreswyl eraill (£100) heb elfen gofal personol (ond wedi'u cynnwys yn y tâl wythnosol, e.e. gwasanaethau gofal dydd). Mae defnyddiwr gwasanaethau B yn meddu ar asedau sy'n werth mwy na'r trothwy £24,000, felly byddai'n atebol i dalu'r swm cyfan o £200 ond mae'n talu £100 yn unig oherwydd yr uchafswm tâl wythnosol. Gan ragdybio bod 80% o'r gofal yn y cartref yn ofal personol ac yn cael ei ariannu'n llawn bellach (gwerth £80), yr unig daliadau a fyddai'n cael eu codi yw'r rheini am y gwasanaethau gofal dibreswyl eraill (gwerth £100) a gafodd a'r elfen gofal nad yw'n bersonol (e.e. golchi dillad, siopa) yn y gwasanaethau gofal yn y cartref (gwerth £20). Mae'r cyfanswm (£120) yn parhau'n fwy na'r uchafswm tâl wythnosol felly bydd yn talu £100 ac felly nid oes newid yn y cyfraniad gan y cleient (nac yn y gwariant net);

Mae ein dull 'amcangyfrif isel' yn defnyddio'r modelu seiliedig ar gelloedd i geisio rhoi cyfrif am y mathau o amgylchiadau lle na fydd y polisi newydd yn newid y swm y mae rhai pobl yn gorfod ei dalu ac felly mae'n arwain at amcangyfrif is o'r refeniw a gollir ac felly at gost is ar gyfer yr opsiwn.

**Unigolion sy'n prynu gwasanaethau gofal yn y cartref yn breifat ar hyn o bryd a all dderbyn gwasanaethau personol a ddarperir gan awdurdodau lleol os caiff y rhain eu hariannu'n llawn**

- Nid oes ffigurau swyddogol am nifer yr unigolion sy'n prynu gwasanaethau gofal yn y cartref yn breifat nac am nifer yr oriau a brynir yng Nghymru. Yn ôl amcangyfrifon a adroddwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfeirio at 2014/15[105], roedd awdurdodau lleol wedi prynu 13.2 miliwn o oriau, tra oedd 2.3 miliwn pellach o oriau wedi'u prynu'n breifat (tua 15% o gyfanswm yr oriau heb gynnwys y GIG) gan 7,731 o unigolion (cyfartaledd o 5.7 awr yr wythnos wedi'u prynu'n breifat). Yn gyson â'r ffigurau hyn, roedd adroddiad gan Arolygiaeth Gofal Cymru[106] a gyhoeddwyd yn 2016 wedi amcangyfrif bod nifer yr oriau a brynwyd yn breifat yn 15% o gyfanswm yr oriau o ofal yn y cartref a brynwyd yng Nghymru. Cyfunwyd y ffigurau hyn â'r isafswm pris sydd wedi'i argymell am awr o ofal yn y cartref gan UKHCA (£18.93 ar gyfer 2019/20) er mwyn amcangyfrif cyfanswm cost y gwasanaethau gofal yn y cartref a brynir yn breifat.
- Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddai cyfran o'r oriau a brynir yn breifat yn cael ei derbyn mewn asesiad o anghenion gofal gan awdurdodau lleol ac felly na fyddent yn dod o dan yr opsiwn presennol. Felly, roeddem wedi rhagdybio mai

[105] Gofal Cymdeithasol Cymru. 'Care and support at home in Wales - Five-year strategic plan 2017-2022' ar gael yn https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/204-0217-SCW-ENG-5-year-strategic-plan-report_v11.pdf

[106] Arolygiaeth Gofal Cymru. 'Above and Beyond - National review of Domiciliary Care in Wales'. https://careinspectorate.wales/sites/default/files/2018-03/161027aboveandbeyonden.pdf tudalen 16

dim ond 70%[107] o'r oriau a brynir yn breifat a fyddai'n berthnasol ar gyfer modelu'r amcangyfrif 'cost uchel' a dim ond 50% ar gyfer modelu'r amcangyfrif 'cost isel' (ac, fel o'r blaen, fod gwasanaethau gofal personol yn 80% o gyfanswm y costau am ofal yn y cartref);

- Yn y model, roeddem wedi rhagdybio y byddai'r holl elfennau gofal sydd heb fod yn bersonol (e.e. glanhau, siopa etc.) yn cael eu prynu'n breifat o hyd (h.y. dim ond ar gyfer yr elfen gofal personol y byddai cleientiaid sy'n prynu gwasanaethau'n breifat yn newid i wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol) felly nid oes cost ychwanegol i awdurdodau lleol am ddarparu gwasanaethau gofal nad ydynt yn bersonol i'r defnyddwyr gwasanaethau newydd hyn.
- Wrth gwrs, mae cryn ansicrwydd ynghylch yr holl amcangyfrifon hyn, nid yn unig o ran nifer yr unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain a nifer yr oriau a brynwyd, ond hefyd o ran a fyddent yn bodloni asesiad o anghenion gofal ac a fyddai nifer yr oriau a gytunir yn y cynllun gofal yn adlewyrchu nifer yr oriau a brynwyd yn breifat.

**Y posibilrwydd o newid o ofal anffurfiol i ofal a chymorth yr awdurdod lleol**

- Mae nifer mawr o unigolion yn derbyn gofal anffurfiol gartref ac mae'n bosibl y byddai cyfran o'r rhain yn penderfynu derbyn gwasanaethau gofal personol os oeddent yn cael eu darparu'n ddi-dâl gan yr awdurdod lleol.
- Fodd bynnag, mae'n bosibl na fyddai'r holl unigolion hyn yn penderfynu newid i dderbyn darpariaeth gofal ffurfiol hyd yn oed os oedd yn cael ei ariannu'n llawn: o dan y strwythur taliadau presennol, ni fyddai unigolion sydd â lefel isel o incwm a chyfoeth yn talu ond ychydig am wasanaethau gofal a ddarperir, tra byddai'r rheini sydd â lefel uchel o anghenion a lefel uchel o incwm neu gyfoeth yn talu £100 yr wythnos ar y mwyaf, felly mae'n bosibl na fydd cymhelliant mawr iddynt dderbyn gofal ffurfiol. Hefyd, mae'n debygol na fyddai'r holl unigolion sy'n derbyn gofal anffurfiol ar hyn o bryd yn rhai sy'n gymwys i dderbyn gofal ffurfiol.
- Yn y model, roeddem wedi rhagdybio y byddai'r holl elfennau gofal nad ydynt yn bersonol (e.e. glanhau, coginio, siopa etc.) yn parhau i gael eu darparu gan ofalwr di-dâl (h.y. y bydd unigolion sy'n derbyn gofal anffurfiol yn newid i dderbyn yr elfen gofal personol mewn gofal ffurfiol yn unig) ac na fydd cost ychwanegol i

[107] Nid yw'r rhagdybiaeth hon wedi'i seilio ar unrhyw dystiolaeth uniongyrchol sydd ar gael, ond fe'i cyflwynwyd i adlewyrchu'r posibilrwydd na fydd cyfran o'r gwasanaethau gofal cartref a brynir yn breifat ar hyn o bryd yn cael eu derbyn mewn asesiad o anghenion. Er enghraifft, mae rhai unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth gan awdurdod lleol eisoes yn prynu oriau ychwanegol o ofal cartref yn breifat (tua 10% o'r unigolion sy'n prynu gofal preifat yn ôl yr Arolwg o Adnoddau Teulu), ar ben y cymorth y maent yn ei gael drwy'r awdurdod lleol.

awdurdodau lleol yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau gofal nad ydynt yn bersonol i'r grŵp hwn.

- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (ACC) yn cynnwys y cwestiynau 'A dderbyniwyd help gan wasanaethau gofal cymdeithasol?' ac 'A oedd arnoch angen help gan wasanaethau gofal cymdeithasol ond heb ei gael?' (gofynnir y cwestiwn hwn i'r rheini nad ydynt yn derbyn help gan wasanaethau gofal cymdeithasol yn unig). Ar sail ACC 2018/19 a thrwy amodi'r chwiliad i gynnwys y rheini a all fod â lefel uchel o angen yn unig (o leiaf 2 salwch cyfyngus), roeddem wedi amcangyfrif y byddai tua 7% o ymatebwyr nad oeddent yn derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn dweud y byddai wedi bod arnynt angen 'Help gyda byw o ddydd i ddydd' neu 'ofal 24 awr' ac roedd y gyfran yn fwy yn achos oedolion hŷn (8.5%) nag yn achos oedolion iau (5.5%).
- Ar sail data diweddar o'r Arolwg o Adnoddau Teulu (2015-2018), roedd tua 4.5% o'r boblogaeth o oedolion yng Nghymru yn derbyn rhyw fath o ofal anffurfiol (heb gynnwys y rheini sydd eisoes yn derbyn gofal ffurfiol a gofal anffurfiol) ac mae'r gyfran yn fwy o lawer (rhwng 10% a 15%) ar gyfer grwpiau oedran hŷn.
- I ddibenion y **modelu**, rydym wedi rhagdybio y bydd **10% yn newid o ofal anffurfiol i ofal ffurfiol** o ganlyniad i gyflwyno gofal personol a ariennir yn yr **amcangyfrif 'cost uchel'** ac y bydd **5% yn newid yn yr amcangyfrif 'cost isel'** (ac y bydd **80% o hynny'n ymwneud â derbyn yr elfen gofal personol**).
- Mae'r dystiolaeth (gyfyngedig) o'r Arolwg o Adnoddau Teulu ac ACC yn awgrymu ei bod yn bosibl y bydd galw ychwanegol nad yw'n cael ei ateb ar hyn o bryd drwy wasanaethau gofal cymdeithasol. Hefyd, fel y nodir isod, roedd cynnydd yn yr Alban yn nifer y cleientiaid gofal yn y cartref ar ôl cyflwyno'r polisi gofal personol di-dâl (er bod y cyd-destun polisi blaenorol yn wahanol). Felly mae lle i gredu y byddai rhywfaint o gynnydd yn y galw am wasanaethau gofal ffurfiol ar ôl cyflwyno gofal personol wedi'i ariannu'n llawn. Er hynny, dylid pwysleisio eto fod cryn ansicrwydd ynghylch y gyfran a all fod yn barod i newid i ofal ffurfiol ac a fyddai'n bodloni asesiad o anghenion (a'r math o becyn gofal y cytunir arno) felly dylid dehongli'r holl amcangyfrifon fel rhai sy'n cynnig amrediad costau tebygol.

**Cyfrifiad enghreifftiol**

Isod rydym yn darparu enghraifft (er mwyn egluro yn unig) o'r ffordd y mae'r model yn rhoi cyfrif am wariant ychwanegol ar wasanaethau gofal personol ar gyfer cleientiaid newydd sy'n derbyn gwasanaethau gofal anffurfiol ar hyn o bryd (ac mewn modd tebyg ar gyfer unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain ar hyn o bryd).

- Mae Newidiwr C yn gymwys i gael gofal yn y cartref sy'n costio £100 yr wythnos ac mae'n dewis ei dderbyn. Felly byddai gwariant gros yr awdurdod lleol yn cynyddu £100, yn cynnwys yr elfen gofal personol a'r elfen gofal nad yw'n bersonol. Rydym yn rhagdybio bod 80% (£80) o'r swm hwnnw'n cael ei wario ar ofal personol, felly bydd cynnydd o £80 yng ngwariant net yr awdurdod lleol am fod gofal personol bellach yn ddi-dâl. Bydd y cwestiwn o ba un a fydd gwariant net yr awdurdod lleol yn cynyddu mwy na hynny yn dibynnu ar y penderfyniad ar sail yr asesiad ariannol ynghylch a fydd Newidiwr C yn gorfod talu'r cyfan neu

ran o'r gost o £20 am ofal nad yw'n bersonol ac a fydd Newidiwr C yn dewis derbyn y gofal nad yw'n bersonol gan yr awdurdod lleol. Rydym wedi rhagdybio y bydd Newidiwr C yn talu'r holl gostau am ofal nad yw'n bersonol (h.y. y bydd yn prynu'r elfen gofal nad yw'n bersonol yn breifat neu y bydd yn ei derbyn gan ofalwr di-dâl). Felly mae Newidiwr C yn gwneud beth roedd yn ei wneud cyn newid, heblaw ei fod yn newid i dderbyn dim ond yr elfen gofal personol sydd bellach ar gael yn ddi-dâl.

# Atodiad 4 Ffigurau costau blynyddol

## A4.1 Opsiynau polisi taliadau defnyddwyr – cost flynyddol (gwariant net ychwanegol)

### Tabl 37 Cost flynyddol (ym mhrisiau 2020) - £ miliwn

| Opsiwn polisi | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Opsiwn 1 (uchel) | 192 | 199 | 206 | 212 | 217 | 222 | 228 | 235 | 242 | 249 | 256 | 267 | 276 | 284 | 291 |
| Opsiwn 1 (isel) | 131 | 136 | 141 | 146 | 149 | 153 | 157 | 162 | 167 | 172 | 176 | 184 | 191 | 197 | 202 |
| Opsiwn 2 (uchel) | 218 | 224 | 230 | 235 | 240 | 245 | 251 | 257 | 263 | 270 | 276 | 285 | 293 | 299 | 305 |
| Opsiwn 2 (isel) | 167 | 172 | 177 | 181 | 185 | 189 | 194 | 199 | 204 | 209 | 214 | 222 | 229 | 234 | 239 |
| Opsiwn 3 (uchel) | 47 | 49 | 52 | 54 | 55 | 57 | 58 | 60 | 62 | 64 | 66 | 70 | 73 | 75 | 77 |
| Opsiwn 3 (isel) | 31 | 32 | 34 | 35 | 36 | 37 | 38 | 40 | 41 | 42 | 44 | 46 | 48 | 49 | 51 |

Sylwer: Yr holl oedolion 18+ oed
Opsiwn 1a: darparu gofal personol wedi'i ariannu'n llawn gartref (gofal dibreswyl) ac mewn cartrefi gofal preswyl (cyfraniad wythnosol penodedig o £210 ('uchel') neu £177 ('isel')).
Opsiwn 2: darparu gwasanaethau gofal dibreswyl wedi'u hariannu'n llawn.

Opsiwn 3 darparu cyfraniad wythnosol penodedig i unigolion sy'n ariannu eu gofal eu hunain mewn cartrefi gofal preswyl (£150 ('uchel') neu £100 ('isel).

**Ffynhonnell: dadansoddiad LE Wales**

## A4.2 Effaith opsiynau polisi'r gweithlu – Niferoedd y gweithlu a ffigurau cost blynyddol

### Tabl 38 Niferoedd blynyddol y gweithlu yn y llinell sylfaen yn ôl rôl swydd, math o ofal a darparwr

**Gofal preswyl – Sector annibynnol**

| Rôl swydd | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwyr | 811 | 823 | 833 | 841 | 848 | 854 | 859 | 863 | 867 | 870 | 873 | 875 | 877 | 878 | 880 |
| Dirprwy reolwyr | 745 | 772 | 794 | 813 | 828 | 841 | 851 | 860 | 867 | 873 | 878 | 882 | 885 | 888 | 890 |
| Uwch-weithwyr gofal | 3,110 | 3,160 | 3,203 | 3,241 | 3,274 | 3,302 | 3,326 | 3,347 | 3,366 | 3,381 | 3,395 | 3,407 | 3,417 | 3,426 | 3,434 |
| Gweithwyr gofal | 15,474 | 15,705 | 15,863 | 15,972 | 16,046 | 16,097 | 16,131 | 16,155 | 16,171 | 16,183 | 16,190 | 16,195 | 16,199 | 16,201 | 16,203 |
| **Cyfanswm** | **20,140** | **20,460** | **20,694** | **20,867** | **20,996** | **21,093** | **21,168** | **21,226** | **21,271** | **21,307** | **21,336** | **21,359** | **21,378** | **21,394** | **21,407** |

**Gofal preswyl – Sector awdurdodau lleol**

| Rôl swydd | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwyr | 109 | 108 | 107 | 107 | 106 | 105 | 105 | 104 | 104 | 103 | 103 | 102 | 102 | 101 | 101 |
| Dirprwy reolwyr | 134 | 138 | 141 | 144 | 147 | 149 | 151 | 153 | 155 | 157 | 158 | 159 | 160 | 162 | 162 |
| Uwch-weithwyr gofal | 224 | 226 | 228 | 230 | 231 | 233 | 234 | 235 | 236 | 237 | 238 | 238 | 239 | 240 | 240 |
| Gweithwyr gofal | 3,110 | 3,153 | 3,192 | 3,227 | 3,258 | 3,286 | 3,311 | 3,333 | 3,353 | 3,371 | 3,387 | 3,402 | 3,415 | 3,426 | 3,436 |
| **Cyfanswm** | **3,577** | **3,625** | **3,668** | **3,707** | **3,742** | **3,773** | **3,801** | **3,826** | **3,848** | **3,868** | **3,886** | **3,902** | **3,916** | **3,929** | **3,940** |

**Gofal cartref – Sector annibynnol**

| Rôl swydd | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwyr | 696 | 709 | 720 | 730 | 739 | 746 | 753 | 759 | 764 | 768 | 772 | 776 | 779 | 781 | 784 |
| Dirprwy reolwyr | 512 | 535 | 555 | 573 | 589 | 602 | 615 | 625 | 635 | 643 | 650 | 657 | 663 | 668 | 672 |
| Uwch-weithwyr gofal | 1,252 | 1,302 | 1,344 | 1,380 | 1,411 | 1,437 | 1,460 | 1,479 | 1,495 | 1,509 | 1,522 | 1,532 | 1,541 | 1,548 | 1,555 |
| Gweithwyr gofal | 14,863 | 14,964 | 15,030 | 15,072 | 15,099 | 15,116 | 15,127 | 15,134 | 15,139 | 15,142 | 15,144 | 15,145 | 15,146 | 15,147 | 15,147 |
| **Cyfanswm** | **17,325** | **17,510** | **17,649** | **17,755** | **17,837** | **17,902** | **17,954** | **17,997** | **18,033** | **18,063** | **18,088** | **18,110** | **18,128** | **18,144** | **18,158** |

**Gofal cartref – Sector awdurdodau lleol**

| Rôl swydd | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwyr | 52 | 52 | 51 | 51 | 50 | 50 | 50 | 49 | 49 | 49 | 49 | 49 | 49 | 48 | 48 |
| Dirprwy reolwyr | 63 | 64 | 64 | 65 | 65 | 65 | 66 | 66 | 66 | 67 | 67 | 67 | 67 | 67 | 67 |
| Uwch-weithwyr gofal | 258 | 257 | 256 | 255 | 255 | 254 | 254 | 253 | 253 | 252 | 252 | 251 | 251 | 251 | 250 |
| Gweithwyr gofal | 3,460 | 3,472 | 3,483 | 3,492 | 3,501 | 3,509 | 3,516 | 3,522 | 3,528 | 3,533 | 3,537 | 3,541 | 3,545 | 3,549 | 3,552 |
| **Cyfanswm** | **3,834** | **3,844** | **3,854** | **3,863** | **3,871** | **3,878** | **3,885** | **3,890** | **3,896** | **3,900** | **3,905** | **3,908** | **3,912** | **3,915** | **3,918** |

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

### Tabl 39 Niferoedd blynyddol y gweithlu yn ôl opsiwn polisi

| Opsiwn polisi | | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llinell sylfaen | # | 44,875 | 45,440 | 45,866 | 46,192 | 46,446 | 46,646 | 46,808 | 46,939 | 47,048 | 47,138 | 47,215 | 47,279 | 47,334 | 47,382 | 47,422 |
| Opsiwn 4a | # | 44,926 | 45,579 | 46,065 | 46,433 | 46,715 | 46,936 | 47,112 | 47,254 | 47,369 | 47,465 | 47,545 | 47,612 | 47,669 | 47,718 | 47,760 |
| | Δ | 51 | 139 | 199 | 241 | 269 | 290 | 304 | 315 | 321 | 327 | 330 | 333 | 335 | 336 | 338 |
| Opsiwn 4b | # | 44,949 | 45,645 | 46,172 | 46,578 | 46,896 | 47,150 | 47,356 | 47,526 | 47,667 | 47,786 | 47,887 | 47,974 | 48,049 | 48,113 | 48,170 |
| | Δ | 74 | 205 | 306 | 386 | 450 | 504 | 548 | 587 | 619 | 648 | 672 | 695 | 715 | 731 | 748 |
| Opsiwn 4c | # | 45,289 | 46,576 | 47,536 | 48,263 | 48,822 | 49,259 | 49,606 | 49,885 | 50,113 | 50,302 | 50,460 | 50,594 | 50,709 | 50,807 | 50,892 |
| | Δ | 414 | 1,136 | 1,670 | 2,071 | 2,376 | 2,613 | 2,798 | 2,946 | 3,065 | 3,164 | 3,245 | 3,315 | 3,375 | 3,425 | 3,470 |
| Opsiwn 4d | # | 45,242 | 46,446 | 47,342 | 48,021 | 48,542 | 48,949 | 49,272 | 49,532 | 49,745 | 49,922 | 50,070 | 50,196 | 50,304 | 50,397 | 50,478 |
| (prif senario) | Δ | 367 | 1,006 | 1,476 | 1,829 | 2,096 | 2,303 | 2,464 | 2,593 | 2,697 | 2,784 | 2,855 | 2,917 | 2,970 | 3,015 | 3,056 |
| Opsiwn 4d | # | 45,023 | 45,848 | 46,468 | 46,941 | 47,310 | 47,602 | 47,837 | 48,028 | 48,187 | 48,321 | 48,434 | 48,530 | 48,613 | 48,685 | 48,748 |
| (senario arall) | Δ | 148 | 408 | 602 | 749 | 864 | 956 | 1,029 | 1,089 | 1,139 | 1,183 | 1,219 | 1,251 | 1,279 | 1,303 | 1,326 |

Sylwer: # = Nifer, Δ = Gwahaniaeth oddi wrth y llinell sylfaen. Mae'r ffigurau'n cynnwys pob un o'r pedair rôl swydd a fodelwyd (gweithwyr gofal, uwch-weithwyr gofal, dirprwy reolwyr a rheolwyr). Opsiwn 4a: y cyflog byw gwirioneddol; Opsiwn 4b: tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG; Opsiwn 4c: tâl awdurdodau lleol.

Opsiwn 4d (prif senario): tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG – ar sail cynnydd mewn argostau rhwng 5 a 10 pwynt canran.

Opsiwn 4d (senario arall): tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG – dadansoddiad sensitifrwydd sy'n cyfyngu'r cynnydd mewn argostau i'r isafswm o 2.5 pwynt canran.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

**Tabl 40 Cost flynyddol (ym mhrisiau 2020) - £ miliwn**

| Opsiwn polisi | Uned | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llinell sylfaen | £m | 971 | 991 | 998 | 988 | 969 | 950 | 930 | 911 | 891 | 871 | 851 | 832 | 812 | 794 | 775 |
| Opsiwn 4a | £m | 990 | 1,013 | 1,021 | 1,011 | 993 | 973 | 953 | 933 | 913 | 893 | 872 | 853 | 833 | 814 | 794 |
| | Δ | 19 | 21 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 22 | 22 | 21 | 21 | 20 | 20 | 19 |
| Opsiwn 4b | £m | 1,025 | 1,049 | 1,059 | 1,050 | 1,032 | 1,013 | 993 | 973 | 952 | 932 | 911 | 891 | 871 | 851 | 831 |
| | Δ | 54 | 58 | 61 | 62 | 63 | 63 | 62 | 62 | 61 | 61 | 60 | 59 | 58 | 57 | 56 |
| Opsiwn 4c | £m | 1,174 | 1,218 | 1,242 | 1,240 | 1,225 | 1,208 | 1,188 | 1,167 | 1,144 | 1,122 | 1,099 | 1,076 | 1,052 | 1,029 | 1,006 |
| | Δ | 203 | 227 | 244 | 252 | 256 | 258 | 257 | 256 | 254 | 251 | 248 | 244 | 240 | 236 | 231 |
| Opsiwn 4d | £m | 1,106 | 1,144 | 1,163 | 1,159 | 1,144 | 1,126 | 1,106 | 1,085 | 1,064 | 1,042 | 1,020 | 998 | 976 | 954 | 933 |
| (prif senario) | Δ | 135 | 153 | 165 | 171 | 174 | 175 | 175 | 175 | 173 | 171 | 169 | 166 | 163 | 161 | 158 |
| Opsiwn 4d | £m | 1,046 | 1,074 | 1,086 | 1,078 | 1,061 | 1,042 | 1,022 | 1,001 | 981 | 960 | 939 | 918 | 898 | 877 | 857 |
| (senario arall) | Δ | 75 | 83 | 88 | 90 | 91 | 92 | 91 | 91 | 90 | 89 | 88 | 87 | 85 | 84 | 82 |

Sylwer: Δ = Gwahaniaeth oddi wrth y llinell sylfaen. Mae'r ffigurau'n cynnwys pob un o'r pedair rôl swydd a fodelwyd (gweithwyr gofal, uwch-weithwyr gofal, dirprwy reolwyr a rheolwyr). Opsiwn 4a: y cyflog byw gwirioneddol; Opsiwn 4b: tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG; Opsiwn 4c: tâl awdurdodau lleol.

Opsiwn 4d (prif senario): tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG – ar sail cynnydd mewn argostau rhwng 5 a 10 pwynt canran.

Opsiwn 4d (senario arall): tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG – dadansoddiad sensitifrwydd sy'n cyfyngu'r cynnydd mewn argostau i'r isafswm o 2.5 pwynt canran.

**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

**Tabl 41** **Nifer y derbynwyr gofal a'r gymhareb rhwng derbynwyr gofal a gweithwyr gofal uniongyrchol ar gyfer gofal preswyl a gofal cartref gyda'i gilydd**

| Opsiwn polisi | | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028 | 2029 | 2030 | 2031 | 2032 | 2033 | 2034 | 2035 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Galw** | | 52,417 | 53,590 | 54,697 | 55,676 | 56,546 | 57,350 | 58,334 | 59,523 | 60,810 | 61,956 | 63,031 | 65,198 | 66,939 | 68,219 | 69,256 |
| Llinell sylfaen | # | 1.26 | 1.27 | 1.28 | 1.30 | 1.31 | 1.33 | 1.35 | 1.37 | 1.40 | 1.42 | 1.44 | 1.49 | 1.53 | 1.56 | 1.58 |
| Opsiwn 4a | # | 1.25 | 1.26 | 1.28 | 1.29 | 1.30 | 1.32 | 1.34 | 1.36 | 1.39 | 1.41 | 1.43 | 1.48 | 1.52 | 1.55 | 1.57 |
| | Δ | -0.002 | -0.004 | -0.006 | -0.007 | -0.008 | -0.009 | -0.009 | -0.010 | -0.010 | -0.011 | -0.011 | -0.011 | -0.012 | -0.012 | -0.012 |
| Opsiwn 4b | £m | 1.25 | 1.26 | 1.28 | 1.29 | 1.30 | 1.31 | 1.33 | 1.35 | 1.38 | 1.40 | 1.42 | 1.47 | 1.51 | 1.53 | 1.56 |
| | Δ | -0.002 | -0.006 | -0.009 | -0.011 | -0.013 | -0.014 | -0.015 | -0.017 | -0.018 | -0.019 | -0.020 | -0.021 | -0.022 | -0.023 | -0.024 |
| Opsiwn 4c | £m | 1.24 | 1.24 | 1.24 | 1.24 | 1.25 | 1.26 | 1.27 | 1.29 | 1.32 | 1.34 | 1.36 | 1.40 | 1.43 | 1.46 | 1.48 |
| | Δ | -0.011 | -0.031 | -0.045 | -0.055 | -0.062 | -0.068 | -0.073 | -0.078 | -0.082 | -0.085 | -0.088 | -0.092 | -0.096 | -0.098 | -0.101 |
| Opsiwn 4d (prif senario) | £m | 1.24 | 1.24 | 1.24 | 1.25 | 1.25 | 1.26 | 1.28 | 1.30 | 1.32 | 1.34 | 1.36 | 1.40 | 1.44 | 1.46 | 1.48 |
| | Δ | -0.011 | -0.029 | -0.042 | -0.051 | -0.059 | -0.065 | -0.070 | -0.074 | -0.078 | -0.082 | -0.085 | -0.089 | -0.093 | -0.096 | -0.098 |
| Opsiwn 4d (senario arall) | £m | 1.25 | 1.26 | 1.27 | 1.28 | 1.29 | 1.30 | 1.32 | 1.34 | 1.36 | 1.39 | 1.41 | 1.45 | 1.49 | 1.52 | 1.54 |
| | Δ | -0.004 | -0.012 | -0.017 | -0.021 | -0.024 | -0.027 | -0.029 | -0.031 | -0.033 | -0.035 | -0.036 | -0.038 | -0.040 | -0.041 | -0.043 |

Sylwer: # = Y gymhareb rhwng derbynwyr gofal a darparwyr gofal uniongyrchol (gweithwyr gofal ac uwch-weithwyr gofal), Δ = Gwahaniaeth oddi wrth y llinell sylfaen.

Opsiwn 4a: y cyflog byw gwirioneddol; Opsiwn 4b: tâl Agenda ar gyfer Newid y GIG; Opsiwn 4c: tâl awdurdodau lleol.

Opsiwn 4d (prif senario): tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG – ar sail cynnydd mewn argostau rhwng 5 a 10 pwynt canran.

Opsiwn 4d (senario arall): tâl ac amodau Agenda ar gyfer Newid y GIG – dadansoddiad sensitifrwydd sy'n cyfyngu'r cynnydd mewn argostau i'r isafswm o 2.5 pwynt canran.**Ffynhonnell: Model Gweithlu LE Wales**

# Atodiad 5  Dau arolwg o awdurdodau lleol Cymru

Er mwyn casglu data ar gyfer ein modelu a oedd heb fod ar gael o ffynonellau eraill, dosbarthwyd dau arolwg i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru gyda chymorth CLlLC.

Anfonwyd 'arolwg ffioedd' i'r awdurdodau lleol ar 5 Chwefror 2020. Roedd hyn yn dilyn proses treialu lle'r oedd adborth am holiadur drafft wedi'i ddarparu gan un awdurdod lleol. Roedd yr adborth yn ddefnyddiol iawn ac addaswyd yr holiadur terfynol yn unol â hynny. Y brif wybodaeth a gasglwyd drwy'r arolwg ffioedd oedd honno am nodweddion y rheini sy'n derbyn gwasanaethau gofal. Fe'i defnyddiwyd wrth fodelu'r opsiynau ar daliadau defnyddwyr.

Yn yr un modd, anfonwyd 'arolwg gweithlu' i'r awdurdodau lleol ar 5 Chwefror 2020. Roedd hyn yn dilyn proses treialu lle nad oedd unrhyw awgrymiadau wedi'u cynnig i wella'r holiadur ymhellach. Y brif wybodaeth a gasglwyd drwy'r arolwg gweithlu oedd honno am gyflogau a thelerau ac amodau gweithwyr gofal a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdodau lleol.

Cafwyd 14 o ymatebion i'r arolwg ffioedd (gan awdurdodau lleol a oedd yn cynrychioli 65% o boblogaeth Cymru) a chafwyd 18 o ymatebion i'r arolwg gweithlu (gan awdurdodau lleol a oedd yn cynrychioli 85% o boblogaeth Cymru). Credwn fod y cyfraddau ymateb hyn yn rhesymol o ystyried y gwaith a oedd yn gysylltiedig ag ymateb i'r ceisiadau (yn enwedig yn yr arolwg ffioedd) ac amseriad yr arolwg, tua diwedd y flwyddyn ariannol pan fydd nifer o bwysau eraill ar staff perthnasol yn yr awdurdodau lleol.

Drosodd rydym yn dangos y ffurflen arolwg a anfonwyd i awdurdodau lleol Cymru i gasglu gwybodaeth am ffioedd a thaliadau a'r gweithlu gofal cymdeithasol sy'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol.

# A5.1 Ffurflen Arolwg Awdurdodau Lleol – ffioedd a thaliadau

**Talu am ofal cymdeithasol yng Nghymru: Holiadur i awdurdodau lleol**
**Rhan 1: FFIOEDD A THALIADAU**

*Mae LE Wales wedi'i gomisiynu i ddarparu cyngor i Grŵp Rhyngweinidogol Llywodraeth Cymru ar Dalu am Ofal Cymdeithasol. Er mwyn cyfrannu i'r ystyriaeth fanwl i ffyrdd o ariannu gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gofynnwyd i ni asesu effeithiau nifer o opsiynau polisi.*

*Yn rhan o'r broses honno, rydym yn gofyn i bob awdurdod lleol yng Nghymru ymateb i'r arolwg hwn erbyn **5pm ar 21 Chwefror 2020**. Gofynnwn i chi roi gwybod i ni os credwch y bydd yn anodd i chi ymateb erbyn hynny. Dylid dychwelyd ymatebion i Pietro Patrignani (ppatrignani@le-wales.co.uk; 020 3701 7720).*

*Byddwn yn darparu crynodeb cyffredinol o'r data a gesglir i Lywodraeth Cymru, ond ni fydd y data'n cael eu priodoli i awdurdodau lleol penodol. Mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru yn trefnu i'r crynodeb hwn fod ar gael i'r cyhoedd.*

**Manylion cyswllt**

*Enw'r Awdurdod Lleol:*

*Enw a chyfeiriad e-bost yr ymatebydd:*

**DIFFINIADAU**

***Mae'r holl gwestiynau'n cyfeirio at wasanaethau gofal oedolion***

***Taliadau a chostau gofal dibreswyl*** *yw'r rhai sy'n ymwneud â gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad ariannol yn unig. (Peidiwch â chynnwys gwasanaethau y codir tâl amdanynt ar gyfradd safonol.)*

***Y cyfraniad wythnosol am wasanaethau gofal preswyl*** *yw'r gost net i'r Awdurdod Lleol, cyfanswm y ffi gros llai unrhyw dâl a aseswyd.*

**ADRAN A – FFIOEDD**

**A.1 Gwasanaethau gofal preswyl**

**Ffioedd safonol/cyfartalog**

Ar gyfer gwasanaethau gofal a dderbynnir mewn cartref gofal, a allwch ddarparu'r ffioedd safonol neu gyfartalog a gaiff eu talu i ddarparwyr gofal am wahanol fathau o ofal?

Hefyd, a allwch ddarparu cyfran y ffioedd y gellir ei phriodoli i gostau staff sy'n darparu gwasanaethau gofal (h.y. heb gynnwys costau staff sydd heb gysylltiad uniongyrchol â darparu gofal na chostau nad ydynt yn ymwneud â staff)? Rydym yn darparu enghraifft yn **Error! Reference source not found.** o'r ffordd i ddosbarthu ffioedd – os nad ydych yn defnyddio dull penodol i benderfynu ffioedd, rhowch amcangyfrif o'r gydran y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i gost staff gofal.

**Tabl 1: Ffioedd safonol/cyfartalog a delir am ofal preswyl (£ yr wythnos)**

| | | Math o ofal | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Oedolion heb nyrsio | | | Oedolion gyda nyrsio | | |
| Band oedran | | Safonol* | Iechyd meddwl** | Anabledd dysgu | Safonol* | Iechyd meddwl** | Anabledd dysgu |
| **18-64** | **Ffi wythnosol** | | | | | | |
| **65+** | **Ffi wythnosol** | | | | | | |
| **% y gellir ei phriodoli i gostau staff gofal** | | | | | | | |
| **Nifer y cleientiaid ym mhob categori** | | | | | | | |

SYLWER: Cyfeiriwch at ffioedd safonol a gytunwyd â darparwyr ym mlwyddyn ariannol 2019/20. Os nad oes ffi safonol neu os nad ydych yn gallu ei rhannu i wahanol gategorïau, rhowch y ffi gyfartalog a delir a'r ganran gyfartalog y gellir ei phriodoli i gost gofal personol.
* Dylid cynnwys pobl eiddil oedrannus; ** Dylid cynnwys Henoed Bregus eu Meddwl

**A.2 Canran y cleientiaid preswyl y mae'r Awdurdod Lleol yn cyfrannu swm net ar eu cyfer ar hyn o bryd yn yr amrediadau sydd wedi'u dangos**

A allwch ddarparu gwybodaeth am ganran y cleientiaid y mae cyfraniad wythnosol yr Awdurdod Lleol ar eu cyfer (h.y. y gost net i'r ALl, cyfanswm y ffi gros llai unrhyw dâl a aseswyd) o fewn yr amrediadau sydd wedi'u dangos isod?

**Tabl 1: Canran y cleientiaid preswyl y mae cyfraniad wythnosol net yr Awdurdod Lleol ar eu cyfer yn dod o fewn yr amrediadau a nodir**

| | Math o ofal | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Oedolion heb nyrsio | | Oedolion gyda nyrsio | |
| Cyfraniad wythnosol net gan yr Awdurdod Lleol | 18-64 | 65+ | 18-64 | 65+ |
| **£0-£100** | | | | |
| **£0-£150** | | | | |

Rhowch ganran y cleientiaid y mae'r gost net i'r ALl ar eu cyfer (cyfanswm y ffi gros llai unrhyw dâl a aseswyd) yn dod o fewn yr amrediadau a nodwyd (h.y. rhwng £0 a £100 a rhwng £0 a £150).

**ADRAN B – NODWEDDION DERBYNWYR GOFAL**

**B.1 Gofal dibreswyl**

Yn y tabl isod, gofynnwn i chi ddarparu gwybodaeth am ddosbarthiad y costau am ddarparu gwasanaethau fesul band tâl wythnosol (gwirioneddol neu dybiannol os yw'n fwy na £90) am wasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad ariannol. Mae'n bwysig bod y cyfrannau a gofnodir yng ngholofnau *(4)* i *(12)* yn gwneud cyfanswm o 100% am bob band tâl (rhes).

Yn y golofn olaf *(13)*, gofynnwn i chi ddarparu cyfran y taliadau y gellir eu priodoli i wasanaethau gofal cartref. (Os na allwch ddarparu ffigur wedi'i ddadgyfuno, rhowch gyfartaledd ar gyfer yr holl ddefnyddwyr.)

*Cyfeiriwch at wasanaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad ariannol yn unig. (Peidiwch â chynnwys gwasanaethau y codir tâl amdanynt ar gyfradd safonol.)*

**Tabl 2:** Cost gyfartalog darparu gwasanaethau a bandiau tâl am wasanaethau gofal dibreswyl (£ yr wythnos)

| | | | Cost darparu gwasanaethau (nifer neu % ym mhob band cost yn ôl band tâl y cleientiaid) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *(2)* | *(3)* | *(4)* | *(5)* | *(6)* | *(7)* | *(8)* | *(9)* | *(10)* | *(11)* | *(12)* | *(13)* |
| Band tâl wythnosol y defnyddwyr | Nifer y derbynwyr gofal | Cost gyfartalog am ddarparu gwasanaethau (£/wythnos) | £1 - £50 | £50 - £100 | £100 - £150 | £150 - £200 | £200 - £250 | £250 - £300 | £300 - £350 | £350 - £400 | £400+ | %y taliadau y gellir ei phriodoli i wasanaethau gofal cartref |
